Cofrestrfa Tir EM

Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2020/21




# Trawsnewid y farchnad eiddo

Cofrestrfa Tir EM

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2020/21

Cyflwynir y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 15 Gorffennaf 2021

HC458



© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio os datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd yn rhaid ichi geisio caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Ar gyfer ymholiadau am y cyhoeddiad hwn ffoniwch y tîm Cymorth Cwsmeriaid ar 0300 006 0411 neu ebostiwch customersupport@landregistry.gov.uk; ar gyfer ymholiadau'r wasg ffoniwch Swyddfa'r Wasg ar 0300 006 3365.

ISBN 978-1-5286-2684-2


CCS0521549242 07/21

Argraffwyd ar bapur gyda 75% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu fan lleiaf.

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Clawr: Ysgol Feddygol y Santes Fair, Paddington, Llundain. Gwerthodd Coleg Imperial yr adeilad am £85m i gwmni o Jersey, Cohort Limited mewn trafodiad a gofrestrwyd gan Swyddfa Peterborough. Ail-fuddsoddodd y cwmni yr arian yn y Gyfadran Feddygol. Mae'r coleg ar flaen y gad yn y frwydr yn erbyn COVID-19, o ran modelu'r pandemig er mwyn llywio ymateb polisi cyhoeddus a hefyd o ran ei ymchwil i frechlynnau a thriniaethau. Llun: Karl F. Schöfmann/Alamy

Cynnwys: Afon Eden, Cumbria. Mae Eden Valley Mineral Water Company yn gwmni potelu dŵr mwynol o'r enw Aqua Pura, yr ail o ran maint gwerthiannau i Evian, gan botelu 250m litr o ddŵr y flwyddyn. Gwerthodd Princes y safle am £22 miliwn i Roxane UK Limited – cofrestrwyd y trafodiad yn Swyddfa Peterborough. Llun: David Chapman/Alamy



# Cynnwys


**Adroddiad perfformiad**

**Trosolwg – Cipolwg ar Gofrestrfa Tir EM** 4
Ein rôl yn y farchnad eiddo 6
Rhagair gan Michael Mire, Cadeirydd 8
Cyfweliad â Simon Hayes, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir 10
Ein Haelodau Bwrdd Anweithredol 14
Cyfweliad â Thomas Öberg, Pennaeth Adran y Gofrestrfa Tir, Lantmäteriet, Sweden 15

**Adroddiadau'r Cyfarwyddwyr**
Llunio trawsgludo digidol dibynadwy 16
Ysgogi trawsnewid 22
Darparu gwasanaeth a ysgogir gan gwsmeriaid 28
Paratoi ar gyfer dyfodol digidol 32
Creu'r diwylliant ar gyfer llwyddiant 40

**Dadansoddiad perfformiad ac adolygiad ariannol**
Adolygiad ariannol 44
Cynllunio a pherfformiad strategol 48
Cynaliadwyedd 54

**Gwybodaeth gorfforaethol arall** 58
Deiliad gwybodaeth sector cyhoeddus 59
Targed effaith busnes 59
Iechyd a diogelwch 59
Cwynion 59
Safonau gwasanaeth 60
Pwyllgor Rheol Cofrestru Tir 60
Cynllun Iaith Gymraeg 61
Cydlynu polisi a budd-ddeiliaid 61

**Geirfa** 62

**Adroddiad atebolrwydd**
Adroddiad llywodraethu corfforaethol 63

**Adroddiad atebolrwydd seneddol**
Adroddiad tâl 73
Adroddiad staff 79

**Datganiadau ariannol**
Datganiadau ariannol adrannol 93
Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM 2020/21 118
Atodiadau 127

# Adroddiad perfformiad

## **Trosolwg** – Cipolwg ar Gofrestrfa Tir EM

**Crynodeb o Gofrestrfa Tir EM, ein hamcanion a'n gwerthoedd.**

### Ein gwasanaethau

— Ffydd a hyder mewn perchnogaeth tir
— Mae'r broses drawsgludo yn gyflym, yn hawdd ac yn ddiogel
— Mae data eiddo yn cefnogi economi sefydlog ac arloesol yn y DU.

### Ein gwerthoedd

— Rydym yn rhoi sicrwydd
— Mae gennym unplygrwydd
— Rydym yn ysgogi arloesedd
— Rydym yn broffesiynol

### Ein prif rôl

Tir yw ased mwyaf ein cenedl. Mae eglurder a diogelwch perchnogaeth tir yn hanfodol i farchnad eiddo weithredol. Yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yn unig, cwblhawyd trafodion eiddo oedd yn werth bron i £260 biliwn yn y DU. Cofnodwyd pob un ohonynt yn y Gofrestr Tir.

Am bron i 160 mlynedd rydym wedi chwarae rôl allweddol yn sefydlogrwydd a thwf economaidd y DU. Mae ein system gofrestru ddiogel yn galluogi ffydd a hyder mewn penderfyniadau buddsoddi i bawb. Rhown warantau hanfodol ar gyfer asedau mwyaf ein dinasyddion a'n cwmnïau, sy'n gonglfaen i farchnad fenthyca fywiog.

Mae ein cofrestr, darn o Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol, bellach yn cynnwys mwy na 26 miliwn o deitlau, gan ddarparu gwarantau perchnogaeth ar gyfer 87% o'r tir yng Nghymru a Lloegr, ac mae benthyciadau o oddeutu £1-1.5 triliwn wedi eu gwarantu yn ei herbyn. Daw'r buddsoddiad cynyddol mewn eiddo o system ddibynadwy o berchnogaeth warantedig, sy'n cael effaith ehangach yn y DU.

Mae'r farchnad eiddo yn cefnogi cannoedd ar filoedd o swyddi ym maes adeiladu, gwasanaethau ariannol a chyfreithiol, wedi eu gwasgaru ar hyd a lled pob rhanbarth yng Nghymru a Lloegr. Mae Cofrestrfa Tir EM yn darparu gwasanaethau statudol ac anstatudol sydd ar gael naill ai trwy gwsmeriaid proffesiynol trydydd parti neu'n uniongyrchol i ddinasyddion a busnesau. Mae'r rhain yn rhychwantu camau niferus perchnogaeth tir ac eiddo, o geisio prynu neu werthu i'r broses drawsgludo gyfan a'n gwarant teitl.

Mae Cofrestrfa Tir EM bellach yn adran anweinidogol yn ogystal â chorff partner yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Cyn hynny, roedd yn asiantaeth weithredol ac yn gronfa fasnachu, ond yn dilyn ei hailddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ildiwyd y statws hwn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu blwyddyn gyntaf Cofrestrfa Tir EM o dan ei dosbarthiad newydd, a adlewyrchir yn y modd yr adroddir ar y cyfrifon.

Datblygiad newydd yn Milton Keynes. Ymunodd y Cyngor â'n Cofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Awst 2020, gan drosglwyddo ei gofnodion pridiannau tir lleol i'n gwasanaeth digidol canolog. Llun: Octus Photography/ Shutterstock



# Cofrestrfa Tir EM – y ffigurau

**31.2m**
Ceisiadau gwasanaeth

**£239.2m**
Cyfanswm refeniw cydnabyddedig

**30.7m**
Ceisiadau electronig

**25,945,597**
Teitlau cofrestredig
ar 31 Mawrth 2021

**109,357**
Cyfanswm y chwiliadau Pridiannau Tir Lleol

**87%**
o'r tirfas wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr

**319,568**
Nifer o weithiau y defnyddiwyd ein sianel newydd Cysylltu â Ni

**70%**
Boddhad cwsmeriaid
Da/rhagorol yn Ch4

**Top twenty**
ar gyfer ymgysylltu â gweithwyr (Gwasanaeth Sifil)

**6,393**
Gweithwyr

**60%** Benyw

**40%** Gwryw

**14**
Lleoliadau swyddfa

# Ein rôl yn y farchnad eiddo

## Budd yn y farchnad



Gwerth **£7 triliwn** o dir ac eiddo yn cael ei ddal



**90,000** o geisiadau dyddiol i weld y gofrestr, cynlluniau a dogfennau cysylltiedig

Cofrestrfa Tir EM

- **Register View**
- **Data Pris a Dalwyd**
- **Mynegai Prisiau Tai y DU**
- **MapSearch**

**Budd yn y farchnad** Mae gennym un o'r cronfeydd data eiddo geo-ofodol trafodaethol mwyaf yn Ewrop, gan gynnwys yr holl fenthyciadau gwarantedig a hawliau eiddo eraill yng Nghymru a Lloegr. Er 1990 mae ein cofrestr wedi bod ar agor i'r cyhoedd. Derbyniwn tua 90,000 o geisiadau bob dydd i chwilio'r gofrestr, gyda'r mwyafrif yn cael eu hateb ar unwaith trwy ein e-wasanaethau busnes digidol. Mae cwmnïau PropTech (technoleg eiddo) yn integreiddio ein data yn eu hoffer digidol fwyfwy erbyn hyn i wneud prynu cartref yn gyflymach ac yn haws. O bobl yn holi ynghylch perchnogaeth i wefannau ar-lein fel Zoopla a Rightmove yn dangos y prisiau tai diweddaraf, mae miloedd o bobl yn gweld ein data bob dydd.

## Trafodiad eiddo



**76,000** o ymholiadau gwarantedig bob dydd

Cofrestrfa Tir EM

- **Chwiliad o'r Map Mynegai**
- **Copïau Swyddogol**
- **Pridiannau Tir Lleol**

**Trafodiad eiddo** Cyn y gallwch brynu neu werthu unrhyw eiddo, mae'n hanfodol eich bod yn edrych ar y Gofrestr Tir am yr holl wybodaeth sy'n ymwneud ag ef. Mae ein chwiliad o'r map mynegai, copïau swyddogol a gwasanaethau chwiliadau swyddogol yn rhoi sicrwydd i weithwyr proffesiynol eiddo a dinasyddion trwy warchod trafodion wrth iddynt gael eu cwblhau.

Gall y gwasanaeth **Pridiannau Tir Lleol** ddangos a oes cyfyngiadau ar y defnydd o eiddo. Mae'r gwasanaeth **Pridiannau Tir** yn gwarchod rhai buddion mewn tir digofrestredig ac rydym yn cynnal y mynegai methdaliad ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn cynnal cofrestr o fenthyciadau tymor byr wedi eu gwarantu ar asedau amaethyddols.

## Ar ôl prynu



**400** o gofrestriadau twyllodrus wedi eu hatal er 2009




**17,000** o geisiadau bob dydd i newid y gofrestr


Cofrestrfa Tir EM

- **Register Update**
- **Register Change**
- **Property Alert**


**Ar ôl prynu** Derbyniwn tua 18,000 o geisiadau bob dydd i newid y gofrestr er mwyn adlewyrchu perchnogaeth eiddo yn gywir. Fel arfer mae hyn yn digwydd ar ddiwedd y trafodiad – ar ôl i eitemau fel treth tir y doll stamp gael eu talu ac mae'r eiddo wedi newid dwylo. Dim ond pryd hynny y byddwn yn diweddaru'r gofrestr gyda'r perchnogion newydd a manylion fel morgeisi neu fuddion eraill. Defnyddir y wybodaeth hon hefyd gan sefydliadau fel Banc Lloegr i gyfrifo cyfraddau llog.

**Property Alert** yw un o'n mesurau atal twyll mwyaf effeithiol, gan anfon rhybuddion ebost at danysgrifwyr pryd bynnag y bydd gweithgarwch arwyddocaol ar eiddo y maent yn ei fonitro, fel morgais newydd yn cael ei gymryd. Yn ogystal, mae ein data'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan asiantaethau'r heddlu i frwydro yn erbyn twyll.

# Ceisiadau gwasanaeth




# Refeniw statudol




Nodyn: Nid yw refeniw yn cael ei gadw gan Gofrestrfa Tir EM mwyach, ond mae'n mynd trwy'r Datganiad Ymddiriedolaeth ac yna'n cael ei ildio i Drysorlys Ei Mawrhydi

# Rhagair

## Rhagair y Cadeirydd gan **Michael Mire**



Mae'r Windermere Jetty Museum yn un o'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol ar restr fer 2021 RIBA o bensaernïaeth newydd arobryn yng ngogledd orllewin Lloegr. Cofrestrwyd yr adeilad gan Gofrestrfa Tir EM o dan ddwy brydles, wedi ei gofrestru yn 2007 gan Swyddfa Durham, ac yn 2019 gan Swyddfa Penbedw. Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ddarparodd yr arian i wireddu'r amgueddfa a cheir arwystl ar y Gofrestr Tir o blaid y Gronfa Goffa. Mae pob benthyciad a ddefnyddiwyd fel gwarant yn erbyn eiddo yn cael ei gofnodi gan Gofrestrfa Tir EM i warchod rhoddwyr benthyg ac yn agored i'r cyhoedd eu gweld. Mae cofnodion cofrestr ar gyfer y safle yn cyfeirio'n ôl at brydles a roddwyd ym 1873 a hawliau a gadwyd mewn Trawsgludiad o 1939. Llun: Christian Richters/age fotostock

Mae Cofrestrfa Tir EM yn enw cyfarwydd. Ond mae beth yn union y mae'n ei wneud a sut y mae'n gwneud hynny yn fwy o ddirgelwch. Er enghraifft, mae marchnadoedd eiddo eraill ledled y byd yn dibynnu ar yswiriant teitl i warantu perchnogaeth. Mae platfform Cofrestrfa Tir EM yn darparu gwarant ddiderfyn gyda chefnogaeth y Llywodraeth o fewn ei strwythur ffioedd cymharol isel. Mae pob prydles fasnachol dros saith mlynedd yn cael ei chofrestru gyda ni. Cofnodwn bob morgais ar y Gofrestr Tir, gan wneud benthyca yn erbyn eiddo yn ddiogel i sefydliadau ariannol. Mae ein data ar brisiau eiddo heb eu hail. Dyma pam y mae Cofrestrfa Tir EM yn rhan hanfodol o'r seilwaith cenedlaethol a pham bod ein cydweithwyr yn cydnabod bod y farchnad eiddo yn dibynnu ar Gofrestrfa Tir EM bob dydd.

Mae marchnadoedd eiddo tiriog byd-eang yn gweld adferiad araf ond yn achos y DU mae wedi parhau ar gyflymder. Er bod llawer o farchnadoedd wedi cau neu grebachu, gwelodd y farchnad eiddo yng Nghymru a Lloegr y lefelau uchaf erioed o alw gyda'r hwb a gafwyd gyda gwyliau treth tir y doll stamp.

Roedd hyn wedi helpu i gynnal sefydlogrwydd yn ystod yr argyfwng economaidd a ddaeth gyda'r pandemig gyda Chofrestrfa Tir EM yn chwarae rôl hollbwysig. Mae'n rheswm arall pam mae Cofrestrfa Tir EM yn cael ei hystyried yn iawn felly fel seilwaith cenedlaethol hanfodol.

Ymatebodd ein pobl wych yn gyflym i sicrhau bod trafodion eiddo masnachol, gwerthiannau tai, morgeisi a benthyca a ddefnyddiwyd fel gwariant yn gallu parhau'n ddi-dor er gwaetha'r pandemig. Nid oedd unrhyw laesu dwylo yn ein trawsnewid digidol. Yn wir, cyflymodd yr arloesi. Mae Cofrestrfa Tir EM yn fwy penderfynol byth o arwain y byd ym maes defnyddio dulliau digidol i wneud y farchnad eiddo yn fwy effeithlon ar gyfer ein cwsmeriaid, boed yn ddinasyddion, yn gwmnïau neu'n gyfreithwyr.

Fodd bynnag, dangosodd y pandemig pa mor anodd y mae llawer o drafodion eiddo erbyn hyn gyda rhai yn cymryd misoedd i'w cwblhau oherwydd diffyg gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd a phrosesau lluosog sydd yn aml yn seiliedig ar bapur neu'n ddibynnol arno.

**"Ymatebodd ein pobl wych yn gyflym i sicrhau bod trafodion eiddo masnachol, gwerthiannau tai, morgeisi a benthyca a ddefnyddiwyd fel gwarant yn gallu parhau'n ddi-dor er gwaetha'r pandemig. Nid oedd unrhyw laesu dwylo yn ein trawsnewid digidol. Yn wir, cyflymodd yr arloesi."**



**Michael Mire** Cadeirydd Cofrestrfa Tir EM
Mae Michael hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol Aviva PLC ac yn uwch gynghorydd yn Lazard.

Mae'n amlwg bod technoleg ddigidol yn allweddol i wneud y farchnad yn fwy gwydn. Mae hyn yn cynnwys ein prosesau ein hunain rydym yn eu mudo'n raddol i fod yn ddigidol. Mae Cofrestrfa Tir EM yn dal i gymryd gormod o amser i ddelio â thrafodion cymhleth a gwyddom nad cynnig gwasanaeth brys rhad ac am ddim, er bod hynny'n ddefnyddiol, yw'r ateb yn y tymor hir.

Mae marchnad eiddo fwy gwybodus ac effeithlon yn bwysig hefyd er mwyn lefelu tuag i fyny ar draws y DU. Mae ailadeiladu economïau yn dibynnu ar farchnadoedd eiddo lleol sy'n gweithredu'n dda. Bydd dyfodol lle y gellir defnyddio tir ac eiddo yn ddeallus a'u masnachu mor hawdd â stociau a chyfranddaliadau yn gwella pob agwedd ar economïau lleol gan gynnwys cynllunio, tai, y stryd fawr ar ei newydd wedd, manwerthu, swyddfeydd, trafnidiaeth a'r amgylchedd.

Data eiddo o ansawdd uchel sy'n allweddol er mwyn i hyn fod yn realiti. Ar hyn o bryd, er bod Cofrestrfa Tir EM yn cadw data hanfodol am berchnogaeth eiddo, ceir seilos data sy'n gwneud cwblhau trafodion eiddo a chynllunio datblygiadau newydd yn rhy anodd.

Rydym yn gweithio gyda'r Comisiwn Geo-ofodol ar wneud data yn fwy hygyrch ond mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gymryd yr awenau wrth drawsnewid y farchnad eiddo a sut y gellir symleiddio a chyflymu trafodion trwy ddigideiddio. Ein rhaglen y Stryd Ddigidol yw menter flaengar Cofrestrfa Tir EM i wneud y farchnad eiddo y gorau yn y byd.

Felly mae'r adroddiad hwn yn nodi'n fanwl sut mae ein buddsoddiadau trawsnewid wedi gwella ein sefydliad ein hunain a sut rydym yn gweithio mewn partneriaeth â chwsmeriaid, budd-ddeiliaid a chwmnïau technoleg i greu marchnad eiddo sy'n wirioneddol ddigidol a all ysgogi chwyldro digidol ehangach byth.

Er enghraifft, mae ein Rhaglen Pridiannau Tir Lleol yn bwysicach o lawer nag y mae ei enw'n awgrymu (gweler tudalen 25). Mewn gwirionedd, mae'n gam mawr ymlaen i sicrhau bod mwy o ddata ar gael yn rhwydd ar un platfform, gan gynnwys data sy'n hanfodol i gynllunio. Mae'r Trysorlys wedi gofyn inni gyflymu'r rhaglen oherwydd ei phwysigrwydd economaidd.

Mae ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol sy'n torri tir newydd yn golygu y gall ein cwsmeriaid i gyflwyno data digidol yn syth i'n systemau (tudalennau 30-31). Erbyn hyn rydym yn hyfforddi ein pobl i fod yn arbenigwyr cofrestru'r dyfodol gyda lansiad ein Hacademi Cofrestru Tir newydd. Mae ymchwil a datblygu yn fwyfwy pwysig hefyd ac eleni rydym wedi cyflwyno prawf o gysyniad yn dangos sut y gallai defnyddio talebau ailwampio'n llwyr y modd y mae'r farchnad eiddo a pherchnogaeth eiddo yn gweithio. Bellach mae potensial i wneud eiddo yn arian cyfred digidol.

Mae ein deorydd cychwynnol llwyddiannus Geovation, yn Llundain a Manceinion, gyda chynlluniau i gyrraedd mwy o'r wlad, wedi gweld cwmnïau technoleg eiddo newydd yn ymuno â ni (gweler tudalen 36). Rydym yn gweld helpu ac ariannu'r sector technoleg eiddo, sydd bellach wedi ei gysylltu'n agos â thechnoleg gyllid, fel ffordd arall inni allu gwella'r farchnad eiddo a gwneud ein gwlad y lle gorau i gychwyn busnes digidol.

Felly i grynhoi – mae ein safle unigryw fel y corff cyhoeddus sy'n ganolog i weithrediad y farchnad eiddo wedi ein galluogi i ddod allan o'r pandemig gydag ymdeimlad cryfach o bwrpas a dealltwriaeth gliriach o sut y gallwn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl ar gyfer ein holl fudd-ddeiliaid.

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle i dalu teyrnged i'r cyfarwyddwyr anweithredol sydd wedi gadael y bwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae Doug Gurr, a ddaeth inni o Amazon, Diana Breeze, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac aelod o'r Pwyllgor Gweithredol yn Bunzl a chyn hynny LandSec, a Chris Morson, gyda'i gefndir ym maes cyllid digidol yn Virgin Money, wedi gwneud ein bwrdd yn un o'r rhai gorau yn y sector cyhoeddus. Mae eu hymrwymiad at sicrhau'r safonau llywodraethu uchaf yn rhywbeth rydym ni i gyd yn hynod ddiolchgar amdano.

Croesawn Ann Henshaw, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn British Land, a Jeremy Pee, y Prif Swyddog Digidol yn Marks & Spencer, fel Aelodau Bwrdd Anweithredol newydd. Gallwch ddarllen rhagor amdanyn nhw a'u cyd-swyddogion anweithredol ar dudalen 14.

# Trosolwg

Cyfweliad gyda **Simon Hayes**, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir




Mae 22 Bishopsgate, a elwir hefyd yn Twentytwo, yn adeilad tal masnachol sy'n ychwanegu at nenlinell ddramatig ardal ariannol Dinas Llundain, yn 278m o daldra gyda 62 llawr. Ers ei gwblhau yn 2020, mae Swyddfa Nottingham wedi bod yn cofnodi buddion tenantiaid newydd. Llun: Bradley Stearn /Alamy



Simon Hayes Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir

"Rwy'n ymfalchïo'n fawr yn y ffordd rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr, cwsmeriaid a budd-ddeiliaid, yng ngwir ysbryd cydweithredu i sicrhau y gallai'r farchnad eiddo yng Nghymru a Lloegr barhau i weithredu'n effeithiol."

## Ar ôl eich blwyddyn gyntaf fel Prif Weithredwr, sut byddech chi'n disgrifio rôl Cofrestrfa Tir EM?

Mae marchnad eiddo'r DU yn un o'r marchnadoedd mwyaf gwerthfawr a gweithgar yn y byd – y storfa fwyaf o gyfoeth yn ein cenedl ac yn sail i'n sefydlogrwydd economaidd. Am bron i 160 mlynedd mae Cofrestrfa Tir EM wedi chwarae rôl hollbwysig o ran cynnal y sefydlogrwydd hwnnw trwy sicrhau y gall trafodion eiddo fynd rhagddynt yn ddiogel. Rydym yn gwarantu perchnogaeth sy'n werth dros £7 triliwn o asedau tir ac eiddo, gan wneud ein cofrestri yn rhan o Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol y DU.

Ein prif rôl yw sicrhau y gall trafodion eiddo ddigwydd, heb oedi nac ymyrraeth, ac ar sail gwybodaeth ddibynadwy, gywir ac o ansawdd uchel. Daeth natur hanfodol ein cenhadaeth, p'un ai i hwyluso chwiliadau o'r gofrestr, neu i'w newid i adlewyrchu perchnogaeth newydd, yn fwy amlwg pan gyrhaeddodd y pandemig byd-eang a bygwth tanseilio gweithrediad llyfn y farchnad.

**Sut ymatebodd eich sefydliad i'r pandemig?**

Ein blaenoriaeth oedd ein cwsmeriaid, gan sicrhau y gallent ddibynnu arnom a pharhau i wneud trafodion. Mae'r mwyafrif helaeth o chwiliadau eiddo wedi cael eu cwblhau ar-lein ers cryn amser, ac felly'n llai o her. Fodd bynnag, roedd gwneud newidiadau neu ddiweddariadau i'r gofrestr yn golygu galluogi'r rhan fwyaf o'n cydweithwyr i weithio o bell cyn gynted â phosibl, gan warchod cywirdeb y gofrestr a'n gwasanaethau i'r lefel angenrheidiol yr un pryd.

Symudwyd ar unwaith i drefniadau parhad busnes, gan flaenoriaethu gwasanaethau a galluoedd, a chyfathrebu'n ddyddiol â staff a chwsmeriaid. Yn ogystal â'r ffocws ar gwsmeriaid rhoddwyd pwyslais cryf ar ddiogelwch a llesiant ein holl gydweithwyr trwy gydol y cyfnod anodd hwn. Mae'r gwaith a wnaethom dros y blynyddoedd diwethaf ar ddiwylliant ac ymgysylltu, a'n hymrwymiad at amrywiaeth a chynhwysiant, yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i sicrhau bod y sefydliad yn parhau wedi ei gysylltu a'i ysgogi ar yr adeg hynod heriol hon.

O fewn wythnosau trawsnewidiwyd Cofrestrfa Tir EM o sefydliad sy'n gweithio bron yn gyfan gwbl o'r swyddfa i un lle'r oedd dros 90% o gydweithwyr yn gallu darparu gwasanaethau o gartref. Roedd gweddill y cydweithwyr a oedd yn gorfod cyflawni swyddogaethau hanfodol ar y safle yn gallu gweithio o swyddfeydd sy'n COVID-ddiogel. Mae ein harolygon 'pwls' yn dangos bod cydweithwyr yn teimlo mwy o gysylltiad ac ymrwymiad i'n sefydliad ac i'w gilydd nag erioed o'r blaen ac, ar ôl i weithio o bell gael ei weithredu'n llawn, roeddent yn darparu gwasanaethau ar bron y lefelau a welwyd cyn COVID.

Ond gwyddom, oherwydd yr amharu ar y gwasanaeth, y gallai fod yn rhaid i gwsmeriaid aros yn hwy i rai ceisiadau i newid y gofrestr gael eu prosesu. Er bod y rhan fwyaf o ddiweddariadau yn digwydd ar ôl i drafodiad eiddo gael ei gwblhau, gall fod adegau pan fydd angen gwneud y newidiadau hynny ar frys, fel cofrestru eiddo am y tro cyntaf neu ychwanegu prydles newydd.

Felly ehangwyd ein gwasanaethau "brys" sy'n golygu y gall cwsmeriaid ofyn i gais gael ei gyflymu yn rhad ac am ddim ac osgoi unrhyw ganlyniadau negyddol y gallai oedi eu hachosi. Ar hyn o bryd rydym yn prosesu bron i bedair gwaith cymaint o geisiadau brys ag yr oeddem cyn y pandemig.

Roedd y rhan fwyaf o'n hymdrechion yn parhau i ganolbwyntio ar leihau'r amharu ar ein gwasanaethau craidd. Fodd bynnag, sylweddolom fod dulliau arloesol a gwelliannau eraill y gallem eu gweithredu a fyddai'n cynyddu gwytnwch trawsgludo, fel cyflwyno e-lofnodion. Roedd hyn yn hanfodol ar adeg pan oedd y farchnad eiddo yn parhau i weld galw mawr er gwaethaf cyfyngiadau'r cyfnod clo yn y DU, ond dylai hefyd fod o fudd mawr i bawb yn y tymor hwy.

Rwy'n ymfalchïo'n fawr yn y ffordd rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr, cwsmeriaid a budd-ddeiliaid, yng ngwir ysbryd cydweithredu i sicrhau y gallai'r farchnad eiddo yng Nghymru a Lloegr barhau i weithredu'n effeithiol.



Mae Parc Alderley, datblygiad gan Bruntwood SciTech, yn Macclesfield, yn gartref i gampws gwyddor bywyd un safle mwyaf y DU. Mae un o Labordai Profi Goleudy COVID-19 cyntaf y wlad wedi ei leoli yn y parc ac mae'r ganolfan gynadledda hefyd yn cael ei defnyddio fel Canolfan Brechu Torfol y GIG. Cofrestrwyd y brydles ym mloc 35 gan Swyddfa Abertawe yn Chwefror 2021 i Medicines Discovery Catapult Limited, canolfan y DU ar gyfer ymchwil ac arloesi ym maes meddyginiaeth a sefydlwyd gan y Llywodraeth fel rhan o gynllun Pwerdy'r Gogledd.
Llun: Alderley Park

**Beth ydych chi'n meddwl y gallwch chi ei wneud i helpu cwsmeriaid ac adfer yr economi?**
Rwy'n credu y bu dealltwriaeth erioed mai'r hyn sy'n allweddol i ddatgloi ffordd fwy effeithlon, effeithiol a diogel o gynnal trafodion eiddo yw trwy dechnoleg ddigidol.

Fodd bynnag, bu derbyn a mabwysiadu yn gymharol araf o fewn marchnad eiddo'r DU. Un o'r rhesymau allweddol dros hyn yw bod trafodion tir ac eiddo yn cynnwys llawer o wybodaeth a sawl parti – mae ceisio creu un broses neu blatfform i bawb wedi bod yn anodd yn hanesyddol.

Mae'r pandemig wedi gorfodi pawb i edrych ar sut y maent yn gweithredu. Mae ymchwil diweddar yn awgrymu bod tua chwarter y trafodion eiddo yn cwympo drwodd bob blwyddyn a dangosodd yr estyniad i wyliau treth tir y doll stamp i bawb pa mor anodd yw hi i gwblhau trafodion yn gyflym ac yn effeithlon.

Dechreuon ni weithio'n agosach fyth gyda budd-ddeiliaid a chwsmeriaid, gan ymgysylltu â'r sectorau cyhoeddus a phreifat i ddeall sut y gallem ni helpu. O ganlyniad, crëwyd safon newydd ar gyfer cadarnhau hunaniaeth ddigidol a fydd yn dileu ymhellach gwrthdaro o'r broses prynu a gwerthu cartrefi (gweler tudalen 21).

Ar yr un pryd, buom yn adolygu ein strategaeth ar gyfer y dyfodol ac yn archwilio gyda'n partneriaid sut y gallwn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl rydym yn ei ychwanegu at yr economi, yr amgylchedd a'r gymdeithas gyfan.

Gall gymryd hyd at 13 wythnos i gasglu'r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn i drafodiad eiddo fynd rhagddo. Amcangyfrifir bod y DU yn gwario £3.3 biliwn y flwyddyn ar brawfesur hunaniaeth all-lein â llaw. Mae systemau papur ac electronig cymysg yn arwain at wasanaethau digyswllt ac aneffeithlon, gyda llawer o amser yn cael ei dreulio ar fynd ar drywydd cynnydd ceisiadau.

**Beth yw eich gweledigaeth ar gyfer y farchnad?**
Er mwyn gwneud penderfyniadau mwy gwybodus, mae angen mynediad hawdd a chynnar at wybodaeth tir ac eiddo o ansawdd uchel ar ddinasyddion a busnesau. Dylent gael profiad cwbl ddigidol gyda gwasanaethau ac offer syml a greddfol sy'n rhoi adborth mewn amser real. Dylai gwasanaethau ryngweithio'n ddi-dor â'i gilydd i greu proses esmwyth lle gall partïon lluosog gwblhau trafodion yn gyflym ac yn ddiogel o unrhyw le.

**Sut caiff hyn ei wireddu?**
Y cynhwysyn allweddol yw data eiddo digidol. Mae angen i ddata symud ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn galluogi gwasanaethau cydgysylltiedig. Rhaid i'r ecosystem eiddo gyfan fod yn ddigidol – ar hyn o bryd ceir clytwaith o systemau ar-lein gwaddol nad ydynt yn rhyngweithredol, na allant rannu data ac sy'n arwain at wallau a rhwystredigaeth i'r defnyddwyr. Gall data sy'n ddarllenadwy â pheiriant alluogi awtomeiddio tasgau syml a chreu marchnad ar gyfer gwasanaethau pellach a defnyddio technolegau newydd. Dyma fydd ein prif ffocws o hyd.

Bydd datblygu safonau data unedig yn sicrhau ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth i'r cyhoedd, llunwyr polisi a dadansoddwyr ar draws y farchnad eiddo. Gall data dibynadwy o ansawdd uchel ddatgloi arloesedd ehangach a bod yn sail i farchnad amrywiol a gwydn o wasanaethau, a chefnogi blaenoriaethau eraill.

Bydd ein strategaeth ar gyfer y dyfodol yn canolbwyntio ar sut y gallwn gefnogi'r nodau hynny trwy gyflawni ein gweithgarwch trawsnewid ein hunain ac ar sut rydym ni yn dod â'r farchnad ynghyd i greu cyfleoedd a fydd yn newid nid yn unig prosesau Cofrestrfa Tir EM, ond hefyd y ffordd rydym ni i gyd yn defnyddio ac yn rhyngweithio â thir ac eiddo yn y dyfodol.

Yn olaf, wrth gwrs, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein pobl wych. Mae ein hymrwymiad at greu diwylliant lle gall ein holl gydweithwyr ffynnu yn parhau i fod mor gryf ag erioed. Mae ein model diwylliant newydd yn helpu i lunio'r penderfyniadau a wnânt i greu amgylchedd lle mae'r holl dimau yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cynnwys, eu grymuso ac wedi eu paratoi'n llawn i wella canlyniadau ar gyfer ein cwsmeriaid. Eleni rydym hefyd wedi adolygu ac ailwampio ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, fel ein bod yn adlewyrchu, ac yn ateb anghenion, yr holl boblogaeth a wasanaethwn.

**Sut gallwch chi wneud newid mor radical o fewn y farchnad eiddo?**
Dydw i ddim yn credu ei fod yn newid y gallem ni ac y dylem ni yn unig ei wneud, ond credaf fod gennym rôl allweddol i'w chwarae ac rydym eisoes yn dechrau gwneud hynny.

Ni yw'r unig adran o'r llywodraeth sy'n ymwneud â phob trafodiad eiddo, gan gwblhau dros 30 miliwn o geisiadau gwasanaeth bob blwyddyn, felly rydym mewn sefyllfa unigryw i ddeall a dylanwadu ar draws y maes cyfan.



Rydym hefyd yn cyd-weithio'n agos ag ystod eang o fudd-ddeiliaid o adrannau eraill o'r llywodraeth a chofrestri tir rhyngwladol, gan gynnwys busnesau technoleg newydd a darparwyr gwasanaethau ariannol. Ac, wrth gwrs, bu gennym berthynas gref erioed â chynrychiolwyr masnach a chyrff rheoleiddio.

**Beth yw'r peth pwysicaf a ddysgoch chi dros y flwyddyn ddiwethaf?**
Ar ôl dim ond 18 mis yma cefais fy synnu gan ba mor greadigol a gwydn y gall ein cydweithwyr a'n sefydliad cyfan fod. Boed hynny'n dod o hyd i ffordd o dectsio fideo YouTube 'diolch' i gydweithwyr neu'n cynnal digwyddiadau rhithiol neu weithdai digidol gyda rheolwyr ac arweinwyr, cafodd cydweithwyr eu hysbysu, eu hymgysylltu, eu cefnogi a'u cymell yn wyneb pandemig byd-eang a thrawsnewidiad digidol mawr yn ein dulliau gweithio.

Mae gweithio gyda chwsmeriaid a budd-deiliaid wedi bod yn nodwedd allweddol o'n gallu i arloesi a gwneud newidiadau yn gyflym. Mae ein Fforwm Diwydiant newydd wedi bod yn fan profi cyflym ar gyfer cysyniadau a syniadau cynnar. Mae dod at ein gilydd trwy gyfarfodydd a grwpiau rhithiol wedi ein galluogi i ddeall y materion neu'r cyfleoedd o'r dechrau un a hefyd sicrhau bod y farchnad yn gwybod o'r cychwyn cyntaf yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol.

Wrth inni ddod at ddiwedd ein blwyddyn gyntaf o dan drefniadau fframwaith llywodraeth ganolog newydd (gweler tudalen 45) gallwn fyfyrio'n gadarnhaol ar y modd rydym wedi ymateb i heriau mewn ffordd sy'n ein galluogi i edrych ymlaen gydag ymdeimlad o gyfle. Bydd ein strategaeth ar gyfer y dyfodol yn ceisio nodi sut y gallwn gyflymu ac ehangu'r gwerth y gall Cofrestrfa Tir EM ei gynnig i'r farchnad eiddo ac i'r genedl gyfan.

Yn yr adroddiad hwn gallwch ddarllen mwy am sut mae ein rhaglen drawsnewid yn sicrhau newidiadau heddiw sydd eisoes yn mynd â ni tuag at y weledigaeth honno o'r dyfodol (tudalen 22-27).

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn diweddaru ein gweledigaeth ar gyfer ein rôl yn y farchnad eiddo, gan ganolbwyntio ar y cyfleoedd hynny rydym mewn sefyllfa unigryw i'w cyflawni, eu galluogi neu eu cynorthwyo wrth inni geisio cefnogi adferiad economaidd ar draws y DU, a chefnogi dyfodol mwy cynaliadwy. I wneud hyn, rydym am helpu marchnad eiddo'r DU i fod ymysg y rhai mwyaf digidol yn y byd.


**Beth yw'r amcanion allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn eich barn chi?**
Yn ogystal â'r strategaeth tymor hwy a ddisgrifir uchod, mae'n rhaid inni wella ein gweithrediadau a'n gwasanaeth o ddydd i ddydd. Cyn dechrau'r pandemig roeddem yn dechrau gwneud cynnydd ar leihau ein hôl-groniad o achosion cymhleth. Fodd bynnag, mae'r amharu dilynol ar ein gwasanaethau ochr yn ochr â marchnad annisgwyl o fywiog yn golygu bod gennym dipyn o ffordd i fynd o hyd. Yn anad dim, mae angen inni gynyddu capasiti, gwella cynhyrchiant, a lleihau amserau prosesu.

Mae ein Cynllun Busnes yn amlinellu ein nodau ar gyfer y tair blynedd nesaf, gyda thri amcan allweddol:

- ateb yr anghenion sydd gan ein cwsmeriaid nawr, sy'n golygu darparu ein gwasanaethau yn gyflymach ond cynnal ein hansawdd. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol sy'n canolbwyntio ar optimeiddio ein gweithrediadau, ynghyd â chyflymu digideiddio ac awtomeiddio ein gwasanaethau er mwyn galluogi mwy o wasanaethau amser real;
- edrych ymlaen at y ffordd orau y gallwn alluogi newid yn y farchnad drawsgludo yn y dyfodol; a
- moderneiddio ein diwylliant sefydliadol a'n ffyrdd o weithio, gan gynnwys trwy ddysgu'r gwersi gwerthfawr o 2020/21.

Mae ein cynlluniau yn fwyaf manwl ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22, lle mae gennym sicrwydd cyllideb. Bydd ein cyflwyniad i Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr 2021 yn cefnogi cyflawni ein huchelgeisiau tymor hwy.

Anfonwyd neges fideo o ddiolch trwy neges destun gan Simon Hayes at yr holl gydweithwyr yn Rhagfyr 2020.



# Ein Haelodau Bwrdd Anweithredol



**Kirsty Cooper**

Mae Kirsty yn Gwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd Cwmni ar gyfer Aviva. Sefydlodd dîm arweinyddiaeth byd-eang cyntaf Aviva ac mae ganddi gyfrifoldeb am bolisi cyhoeddus a chyfrifoldeb corfforaethol. Mae Kirsty ar y General Counsel Legal 500 Powerlist ac mae hefyd yn ymddiriedolwr y Tŷ Opera Brenhinol.



**Elliot Jordan**

Elliot yw Prif Swyddog Ariannol ac aelod o Fwrdd Gweithredol Farfetch, y platfform byd-eang blaenllaw ar gyfer ffasiwn foethus. Mae'n gyfrifol am y timau cyllid, cyfreithiol, strategaeth ac adnoddau dynol ar draws y gweithrediad byd-eang. Mae hefyd yn noddwr gweithredol Amrywiaeth a Chynhwysiant. Cyn ymuno â Farfetch, mae Elliot wedi gweithio yn ASOS plc, J Sainsbury plc, Credit Suisse a KPMG.



**Angela Morrison**

Mae Angela yn Brif Swyddog Gweithredu yn Cancer Research UK (CRUK) lle mae'n gyfrifol am Gyllid, AD, Technoleg a Gwasanaethau Corfforaethol. Cyn ymuno â CRUK, roedd Angela yn Gyfarwyddwr Manwerthu, Cadwyn Gyflenwi a Thechnoleg yn Debenhams ac mae hefyd wedi gweithio yn J Sainsbury plc, Direct Line Group ac ASDA Walmart.



**Jeremy Pee**

Jeremy yw'r Prif Swyddog Digidol a Data yn Marks & Spencer (M&S). Datgloi pŵer data i bersonoli a chreu profiadau digidol di-dor yw ei brif ffocws. Mae hyn wedi cynnwys lansiad hynod lwyddiannus platfform ymgysylltu â chwsmeriaid newydd. Cyn ymuno â M&S, Jeremy oedd Uwch Is-lywydd Loblaw Digital, uned ddigidol prif fanwerthwr Canada (trosiant o $45 biliwn). Yn Loblaw Digital, roedd yn gyfrifol am adeiladu a thyfu portffolio amrywiol o fusnesau e-fasnach o'i gychwyn i fwy na $500 miliwn mewn chwe blynedd.



**Ann Henshaw**

Mae gan Ann brofiad helaeth ym maes adnoddau dynol (AD), ar ôl gweithio mewn sawl cwmni mawr ar draws amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys eiddo, yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae'n Gyfarwyddwr AD yn British Land ac yn aelod o'i Dîm Gweithredol. Ymunodd â chwmni 100 Cyfnewidfa Stoc y Financial Times (FTSE) yn Hydref 2015. Mae ei rolau blaenorol yn cynnwys gwasanaethu fel Cyfarwyddwr AD grŵp yn Clear Channel International a Chyfarwyddwr AD yn EDF Energy.



**Ed Westhead**

Mae Ed yn Gyfarwyddwr Gweithredol yn UK Government Investments (UKGI), canolfan rhagoriaeth y llywodraeth ar gyfer cyllid corfforaethol a llywodraethu corfforaethol, wedi ei leoli yn Llundain. Cyn hynny, bu'n aelod bwrdd anweithredol Tŷ'r Cwmnïau a bu ganddo swyddi ym maes cyllid corfforaethol gyda Macquarie a BAE Systems.

# Y Darlun yn Sweden

## Cyfweliad â **Thomas Öberg**, Pennaeth Adran y Gofrestrfa Tir, Lantmäteriet, Sweden



### Pa heriau penodol sydd wedi codi yn Lantmäteriet yn sgil y pandemig COVID-19 byd-eang a sut ydych chi wedi eu goresgyn?

Roedd y pandemig wedi amharu ar ein gweithdrefnau arferol a'n herio i fabwysiadu arferion a phrosesau newydd yn gyflym. Trawsnewidiwyd ein sefydliad seiliedig ar swyddfa yn un oedd yn darparu ar gyfer bron i 90% o'r gweithwyr yn gweithio o bell. Roedd hyn yn bosibl diolch i'n hadran TG ystwyth a aeth ati'n gyflym i roi gliniaduron a chleientiaid Rhwydwaith Preifat Rhithiol i'r holl weithwyr. Roedd bwrdd rheoli Lantmäteriet wedi cwrdd yn aml i reoli'r sefyllfa a llywio'r awdurdod i'r cyfeiriad cywir. Mae ein holl reolwyr a chydweithwyr wedi dangos cyfrifoldeb mawr a chyflawnwyd ein cenadaethau a'n tasgau lawn cystal â chyn y pandemig.

### Yn 2020 cyhoeddodd Lantmäteriet adroddiad ar werth data agored. Sut ydych chi'n gweld rôl data yn llunio'r farchnad eiddo yn y dyfodol?

Mae gwerth data agored wedi bod yn destun trafodaethau dwys dros y degawd diwethaf. Gall y diddordeb cynyddol mewn ailddefnyddio gwybodaeth sector cyhoeddus gael ei gysylltu â lle ddata fel adnodd pwysig a strategol yn yr economi ddigidol. Felly, nid yw'n syndod bod mynediad rhad ac am ddim i ddata'r sector cyhoeddus yn gysylltiedig â gwerth mawr.

Mae Sweden wedi gwneud dadansoddiad effaith seiliedig ar achosion ar werth economaidd-gymdeithasol data sector cyhoeddus agored. Mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar sut y gall y setiau data sydd wedi eu cyfyngu ar hyn o bryd gan ffïoedd effeithio ar bum sector gwahanol.

Mae data agored yn aml yn sbardun ar gyfer arloesi, a dyna pam ei bod yn ddiddorol ystyried y gwerthoedd deinamig anuniongyrchol a all godi pan ddaw cyfleoedd busnes newydd i'r amlwg.

Mae'r astudiaeth yn cyfeirio at 20 maes cymwys o fewn pum sector gwahanol lle mae'r gwerth ychwanegol o ddarparu mynediad agored i'r data arfaethedig yn cyfateb i 10-21 biliwn krona Sweden. Amcangyfrifir bod gan y setiau data arfaethedig y potensial mwyaf yn y sectorau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ac eiddo tiriog, lle byddai darparu mynediad agored i'r data arfaethedig yn creu systemau TG a phrosesau cynllunio mwy effeithlon. At ei gilydd, mae'r dadansoddiad yn dangos bod gwerth sylweddol yn deillio o ddefnydd cynyddol, ailddefnyddio a chyfuno setiau data. Arweiniodd hyn at welliannau effeithlonrwydd a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus.

### Beth yw'r heriau i farchnad eiddo Sweden a sut mae Lantmäteriet yn dylanwadu ar y sector?

Mae'r boblogaeth yn cynyddu yn Sweden ac mae diffyg tai wedi bod yn her yn y wlad ers sawl blwyddyn, gyda phrisiau tai yn codi o ganlyniad.

Mae Sweden ymysg y gwledydd lleiaf poblog yn yr UE, ond mae'r ardaloedd metropolitan yn gartref i fwy na hanner y boblogaeth. Mae mwy o bobl yn gadael cefn gwlad ac yn symud i ddinasoedd mwy. Mae nifer y tai a adeiladwyd yn Sweden wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ond mae'n parhau'n annigonol oherwydd y twf mawr yn y boblogaeth.

Trafodwyd y rhesymau sylfaenol am y diffyg tai yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chytundeb bras ei fod yn ganlyniad i fwy nag un ffactor. Un rheswm yw faint o amser y mae caffael tir a chaniatâd cynllunio yn eu cymryd. Nod Lantmäteriet yw sefydlu seilwaith digidol cenedlaethol, proses cynllunio ac adeiladu symlach, mwy agored ac effeithlon er budd dinasyddion, cwmnïau ac actorion eraill. Er mwyn cael proses adeiladu graffach, rhag-amod sylfaenol yw cael mynediad at wybodaeth agored ac unffurf yn genedlaethol i bawb sy'n rhan o'r broses.

### Beth yw blaenoriaethau eraill Lantmäteriet ar gyfer y flwyddyn nesaf?

Ein prif her heddiw ac yn y dyfodol agos yw cadw golwg ar y datblygiad digidol a chyfreithiol y mae hyn yn gofyn amdano. Bydd digideiddio ein hawdurdod yn her i'n gallu i addasu i dirwedd a sefyllfa newydd lle rydym yn cyflawni ein tasgau mewn modd digidol newydd.

LANTMÄTERIET

# Llunio trawsgludo digidol dibynadwy

**Mike Harlow** Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir



Mae Barics Chelsea yn ailddatblygiad o safon fyd-eang ar gyfer defnydd preswyl yng ngorllewin Llundain. Mae'r safle hanesyddol 12.8 erw yn cynnwys casgliad prin o fflatiau, pentai a thai tref wedi eu lleoli o gwmpas saith sgwâr gardd. Mae Swyddfa Penbedw wedi bod yn prosesu'r ceisiadau diweddaraf. Llun: William Barton/Alamy



> “Roedd cynlluniau ar droed eisoes i weithio gyda’r sector i gefnogi esblygiad digidol llwyddiannus o’r farchnadle. Cyflymodd y cynlluniau hyn pan ddigwyddodd y cyfnod clo cyntaf, a daeth yn amlwg bod offer digidol yn flaenoriaeth i drawsgludwyr.”

**Mike Harlow** Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir

Yn y bôn mae prynu a gwerthu eiddo yn ymwneud â sicrhau bod gan bawb y wybodaeth gywir, hyd at yr adeg pan fyddant yn symud. Gallech fod wedi meddwl na fyddai cyfnodau clo COVID-19 yn effeithio rhyw lawer ar drawsgludo, ond mae’n dal i weithio mewn ffordd eithaf traddodiadol ac nid yw mor ddigidol, neu ddi-bapur, â rhai sectorau busnes eraill.

Roedd cynlluniau ar droed eisoes i weithio gyda’r sector i gefnogi esblygiad digidol llwyddiannus o’r farchnadle. Cyflymodd y cynlluniau hyn pan ddigwyddodd y cyfnod clo cyntaf, a daeth yn amlwg bod offer digidol yn flaenoriaeth i drawsgludwyr. Daeth y rhan fwyaf o’r bobl yn y diwydiant yn weithwyr cartref oedd yn methu cwrdd â chleientiaid ac argraffu neu sganio dogfennau. Ond roedd angen cwblhau trafodion masnachol a phreswyl o hyd ac roedd yr awydd am fusnes newydd yn parhau i fod yn gymharol uchel.

## Meithrin partneriaethau newydd

I ymateb, ffurfiwyd Fforwm Diwydiant sy’n cynnwys rheoleiddwyr, gweithwyr proffesiynol, rhoddwyr benthyg, cyrff masnach ac ymarferwyr rheng flaen yn y sectorau eiddo masnachol a thai.

Gyda’n gilydd fe weithion ni ar gamau i dynnu papur allan o’r darlun. Y flaenoriaeth gyntaf oedd gosod safon ar gyfer llofnodion electronig i ddileu’r gofyniad caeth olaf am bapur mewn proses drawsgludo.

O fewn chwe wythnos roeddem wedi cyflwyno mesur cyntaf o’r enw ‘dull Mercwri, a olygai bod yn rhaid i lofnodwyr sganio a dychwelyd y dudalen wedi ei llofnodi yn unig. Ar yr un pryd, treulion ni’r 12 wythnos nesaf yn datblygu safon ar gyfer llofnodion electronig wedi eu tystio diogel a hollol ddigidol, gan weithio gyda’r fforwm a chwmnïau technoleg cenedlaethol a rhyngwladol.

Er hynny, mae angen tyst ar y llofnodion hyn o hyd, ond yn wahanol i’r llofnodion electronig cymwysedig mwy soffistigedig a rheoledig mae gan y llofnodion cymwysedig ddiogelwch wedi eu hadeiladu i mewn ar gyfer hunaniaeth y llofnodwr a thystiolaeth wedi ei hamgryptio o beth, sut a phryd y cânt eu llofnodi. Rydym yn gweithio gyda’r fforwm a chwmnïau technoleg ar eu cyflwyno. Ymhen amser disgwyliwn mai hwn fydd y norm.

Ein blaenoriaeth nesaf oedd edrych ar y defnydd posibl o wirio hunaniaeth ddigidol wrth drawsgludo. Trwy waith ymchwil roeddem eisoes wedi canfod technoleg y gellir ei defnyddio i adnabod mewn modd diogel a chyfleus y partïon sy’n ymwneud â thrafodiad. Unwaith eto, gweithiwyd mewn partneriaeth â’r darpar gyflenwyr a’r fforwm i ddod o hyd i ffordd o osod safon glir a fyddai’n helpu i ddatblygu mwy o offer digidol ac annog y defnydd ohonynt. Cafodd y safon hunaniaeth ddigidol ddilynol ei chroesawu, sy’n dyst ac yn ddiolch i ymdrech gydweithredol y rhai y buom yn gweithio gyda nhw.

Roedd llofnodion electronig a gwirio hunaniaeth ddigidol yn ymateb cyflym i’r cyfnodau clo, ond maent hefyd yn ddau ddarn pwysig a pharhaol o’r darlun trawsgludo digidol. Maent yn galluogi trafodion ar-lein a di-bapur yn llwyr. Gyda’r fforwm rydym yn parhau i weithio ar gamau eraill a all wneud y broses drawsgludo yn fwy diogel, digidol ac yn agosach at amser real.

Er enghraifft, un elfen allweddol amlwg o ddyfodol digidol yw cael ffydd yn y wybodaeth. Os gallwn dderbyn gwybodaeth fel ffaith ddibynadwy ac nid dim ond data, yna gall prosesu awtomataidd amser real o wasanaethau cofrestru tir fod yn realiti.




Yn Hydref 2020, ymunodd Mike Harlow ag arbenigwr eiddo’r DU Phil Spencer i drafod y mentrau sydd ar y gweill i helpu i gyflymu’r broses drawsgludo a’i gwneud yn fwy effeithlon.

I'r diben hwn rydym yn gweithio gyda'r fforwm a'n sylfaen cwsmeriaid ehangach i benderfynu sut y gallwn ymestyn y defnydd presennol o ardystiadau cyfreithwyr o fewn ceisiadau. Gallai hyn arwain at brosesau cofrestru tir cyflymach, mwy diogel a deallus sy'n gweithio gyda'r broses drawsgludo.

**Cryfhau ein harbenigedd**
Wrth gwrs, mae angen i arbenigedd a barn cofrestru tir fynd law yn llaw â phrosesu mwy awtomataidd. Mae angen inni gynnal y sgil sylfaenol o gofnodi hawliau eiddo yn gywir a defnyddio'r dechnoleg yn graff er mwyn cynyddu ffydd yn y data a'r broses.

Rydym yn parhau i recriwtio cyfreithwyr arbenigol o bob rhan o'r sector i fodloni gofynion gwaith achos cymhleth heddiw a defnyddio eu profiad yn y byd go iawn i ddatblygu cofrestru tir a thrawsgludo digidol.

Rydym yr un mor awyddus i gynnig y cyfleoedd datblygu gorau yn fewnol. Roeddem yn falch iawn eleni i weld ein prentis cyntaf yn cymhwyso i fod yn Gymrawd cymwysedig o Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol ar ôl tair blynedd o waith caled – Brian Jones, Cofrestrydd Tir Cynorthwyol.

**Datblygu ein strategaeth**
Er mwyn sicrhau bod Cofrestrfa Tir EM yn gwneud y cyfraniad gorau i farchnad eiddo iach ac arloesol, rydym wedi datblygu hyb strategaeth canolog. Bydd hwn yn helpu'r Bwrdd i ddeall y gwerth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y gellir ei ryddhau trwy welliannau mewn pethau fel gwybodaeth eiddo digidol a thrawsgludo digidol.

Bydd hefyd yn edrych ar gyflymder a diogelwch trawsgludo ac yn gweithio gyda'r sector i gynnig opsiynau ar sut y gellir cyflawni'r buddion hynny a'r rôl y bydd Cofrestrfa Tir EM yn ei chwarae i hwyluso newid cadarnhaol.

Nod yr holl newidiadau hyn yw gwella ansawdd a lleihau risg, ond mae risg yn codi o'r weithred o newid ei hun. Gan wybod hynny, rydym wedi parhau i gynyddu ein galluogrwydd risg a sicrwydd. Rydym yn falch o nodi bod hawliadau a dangosyddion eraill ar gyfer gwallau a thwyll yn parhau'n isel iawn ar y cyfan ac yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol

# Y prentis cyfreithiol cyntaf yn cymhwyso i fod yn Gymrawd CILEX

Mewn ychydig dros dair blynedd mae Brian Jones wedi mynd o fod yn Swyddog Gweithredol i Gofrestrydd Tir Cynorthwyol, diolch i gwblhau'r cynllun Prentisiaeth Gweithredwr Cyfreithiol Siartredig.

Ar ôl bod yn weithiwr achos am ddwy flynedd, rhoddodd y cynllun lwybr gyrfa glir i Brian, gan gynnig mwy o hyblygrwydd na rhai llwybrau traddodiadol i fod yn gyfreithiwr. Yn ogystal ag elwa o addysg bwrpasol yn Ysgol y Gyfraith CILEx, rhoddodd hyfforddiant mewnol gyfle i Brian gyd-weithio'n agos â chyfreithwyr ac uwch weithwyr achos ar draws Cofrestrfa Tir EM.

Ar ôl cwblhau'r cynllun prentisiaeth tair blynedd cymhwysodd Brian i fod yn Weithredwr Cyfreithiol Siartredig, gan gynnig modd iddo wneud cais am swyddi cyfreithiwr yn fewnol ac yn allanol. Cafodd swydd fel Cofrestrydd Tir Cynorthwyol ac erbyn hyn mae'n mwynhau ei rôl newydd yn cefnogi timau cyflenwi gweithredol Cofrestrfa Tir EM a'i chwsmeriaid.

CILEx CHARTERED INSTITUTE OF LEGAL EXECUTIVES



"Ymuno â Chofrestrfa Tir EM oedd un o'r penderfyniadau gorau a wnes i. Rhoddodd y cynllun prentisiaeth lwyfan gwych imi a'm helpu i wireddu fy uchelgais."


**Brian Jones**
Cofrestrydd Tir Cynorthwyol

## Hawliadau yn erbyn y warant

Y llynedd cafwyd 22 o hawliadau am dwyll a 672 o hawliadau am anghywirdeb yn y gofrestr, o'i gymharu â 18 a 1,055 yn 2019/20.

Telir yr iawndal priodol am hawliadau teg. Roedd hyn yn £3.5m mewn iawndal am dwyll a bron i £2m mewn iawndal am anghywirdeb, o'i gymharu â £2.1m a £3.2m yn 2019/20.

Roedd cyfanswm yr iawndal 0.0000008% yn unig o gyfanswm gwerth y gofrestr eiddo.






Tŷ newydd yn Sittingbourne, Caint, oedd ein 26 miliynfed teitl eiddo pan gafodd ei gofrestru ar 13 Ebrill 2021. Roedd hon yn garreg filltir bwysig o ran cyflawni ein nod o gofrestru'r holl dir yng Nghymru a Lloegr. Llun: Redrow




Mae'r cynghorydd eiddo byd-eang Knight Frank wedi cwblhau gwerthu The Old Bell Hotel, adeilad o'r 13eg ganrif yn Wiltshire y credir iddo fod y gwesty hynaf yn Lloegr, i fuddsoddwyr o America Whim Hospitality. Y pris awgrymedig oedd £3.4m. Prosesodd Swyddfa Fylde y cais cofrestru. Llun: Greg Balfour Evans/Alamy

# Gweithio gyda'r farchnad i wella trawsgludo



"Ymatebodd Cofrestrfa Tir EM yn gyflym i'r problemau a ddaeth gyda'r pandemig, gan gynnig atebion technolegol i'r materion sydd angen sylw nawr."

**I. Stephanie Boyce, Llywydd Cymdeithas y Gyfraith Cymru a Lloegr**

"...roedd llofnodion electronig sy'n dileu'r angen i lofnodi dogfennau cyfreithiol yn gorfforol yn garreg filltir fawr."

**Stephen Ward o'r Cyngor Trawsgludwyr Trwyddedig**

"Roedd hwn yn gam cadarnhaol i'r diwydiant ac mae manteision amlwg i gyflymu digideiddio'r broses drawsgludo."

**Olly Thornton-Berry, cyd-sylfaenydd Thirdfort**

Defnyddiwyd yr adborth a gafwyd gan 61 o sefydliadau ac unigolion ar ein cynigion ar gyfer llofnodion electronig wedi eu tystio a chafodd ein fideo ei wylio mwy na 3,000 o weithiau ar draws pob un o'n platfformau cyfryngau cymdeithasol.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'n Fforwm Diwydiant ar sut y gallem symud tuag at ddyfodol mwy digidol ar gyfer trawsgludo. Daeth y cydweithredu hwn â rhai buddion cyflym i'r farchnad, fel derbyn llofnodion dull Mercwri, yn ogystal â llunio ein cyfarwyddyd ymarfer newydd ar lofnodion electronig a'n safon hunaniaeth ddigidol.

Mae'r fforwm wedi ei ffurfio o grwpiau sy'n cynrychioli:

- cyfraith, rheoleiddwyr a chyrff proffesiynol eiddo a thir;
- cymdeithasau adeiladu a'u corff cynrychioliadol;
- banciau a'u corff cynrychioliadol;
- darparwyr chwilio a data a'u corff cynrychioliadol;
- corff cynrychioliadol syrfewyr;
- adeiladwyr tai;
- corff cynrychioliadol gwerthwyr tai;
- arbenigwyr datganiadau treth eiddo;
- y corff cynrychioli ar gyfer awdurdodau lleol;
- yr Awdurdod Glo.


Dyma sut mae Cofrestrfa Tir EM wedi gweithio gyda'r diwydiant i lunio'r offer digidol sy'n ceisio gwneud trawsgludo yn symlach, yn gyflymach ac yn rhatach.

## Llofnodion electronig

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweithio gyda DocuSign i drawsnewid ein proses lofnodi. Roedd y cydweithrediad yn cynnwys meithrin dealltwriaeth glir o'r dechnoleg, profi ac adborth ar ei weithredu. Cydnabuwyd y gwaith hwn ddiwedd Mai 2021 wrth i DocuSign ennill y wobr Technoleg Tarfu y Flwyddyn yng Ngwobrau Arloesedd yr Wythnos Gyfreithiol ar gyfer rôl DocuSign wrth helpu i ddigideiddio ymhellach ein proses llofnodi a thystio.








Wrth siarad am y bartneriaeth, dywedodd Doug Luftman, Dirprwy Gwnsler Cyffredinol yn DocuSign: “Roedd y deialog agored parhaus yn amhrisiadwy gan gynnig modd inni roi cymorth gwell i’r gymuned gyfreithiol”


Cytunodd Stephen Ward o’r Cyngor y Trawsgludwyr Trwyddedig (CLC): “Roedd datganiad polisi Cofrestrfa Tir EM o lofnodion electronig yn garreg filltir fawr. Bydd y cynlluniau i dystion corfforol gael eu disodli gan dechnoleg sy’n cadarnhau’r llofnod yn ddigidol yn rhywbeth rydym yn disgwyl ei weld yn gynnar y flwyddyn nesaf.”


*Ffynhonnell: Arolwg aelodau CLC Hydref 2020 fel yr adroddwyd yn Property Industry Eye

## Gwiriadau hunaniaeth ddigidol

Oherwydd y pandemig mae llawer o gwmnïau trawsgludo a chyfreithiol wedi cyflymu eu cynlluniau digideiddio er mwyn cadw’r busnes i fynd.

Un maes allweddol yn y gwaith hwn oedd cysylltu â’r cynllun fframwaith hunaniaeth ddigidol. Arweiniwyd trafodaethau ar hyn gan Home Buying and Selling Group.




Esboniodd Cadeirydd y Grŵp, Stuart Young: “Sefydlwyd y Gweithgor Hunaniaeth Ddigidol o fewn Home Buing and Selling Group fel cyfle i roi mwy o eglurder a hyder yn y sector ar sut i ddefnyddio’r dechnoleg hon.

“Cafodd ein casgliadau eu bwydo’n uniongyrchol i safonau hunaniaeth ddigidol drafft Cofrestrfa Tir EM. Y farn gyffredinol yw y dylai diwydiant fabwysiadu cyflwyno proses sicrhau hunaniaeth ddigidol seiliedig ar safonau, gyda chefnogaeth rheoleiddwyr. Byddai hyn yn arwain at leihad sylweddol yn yr amser cwblhau, heb ychwanegu unrhyw gost i’r broses a lleihau’r risg o dwyll. Lleihau’r amser i gwblhau yw’r mater pwysicaf un.”

Gwnaeth Llywydd Cymdeithas y Gyfraith Cymru a Lloegr I. Stephanie Boyce sylwadau ar y gwaith hwn hefyd: “Mae newid technolegol yn y farchnad drawsgludo wedi cyflymu o ganlyniad i bandemig COVID-19.

“Ymatebodd Cofrestrfa Tir EM yn gyflym i’r problemau a ddaeth gyda’r pandemig, gan gynnig atebion technolegol i’r materion sydd angen sylw nawr, fel cael dogfennau wedi eu llofnodi a’u tystio tra bo mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith.

“Rhaid i unrhyw atebion technolegol fod yn hawdd eu defnyddio ac ar gael am gost resymol ac mae angen i gyfreithwyr fod yn hyderus ynghylch pa ddarparwyr sy’n bodloni gofynion Cofrestrfa Tir EM.”

## Ailforgeisio

Mae ein gwasanaeth morgais digidol, Llofnodi eich gweithred morgais, wedi cyrraedd carreg filltir bwysig eleni: caniatáu inni ychwanegu gwybodaeth at y gofrestr heb ymyrraeth gweithiwr achos – sy’n torri tir newydd i Gofrestrfa Tir EM.

Mae tua 30% o’r ceisiadau a dderbynnir gan y gwasanaeth bellach yn cael eu diweddaru mewn ychydig eiliadau o’r adeg y’u cyflwynir.

Yn wyneb un o’r blynyddoedd mwyaf heriol i’r diwydiant eiddo, mae’r gwasanaeth wedi ehangu. Rydym bellach wedi gweld mwy na 40,000 o weithredoedd ailforgeisio wedi eu cofrestru trwy’r gwasanaeth, gyda mwy na 30,000 wedi eu cofrestru ers 1 Ebrill 2020. Rydym hefyd wedi croesawu RBS a’r Co-op i’n rhestr o ddarparwyr ochr yn ochr ag enwau eraill y stryd fawr fel HSBC, Nationwide a Santander.

Gan fyfyrio ar gyhoeddi’r safon hunaniaeth ddigidol, dywedodd Olly Thornton-Berry, cyd-sylfaenydd Thirdfort: “Mae’r safonau arfaethedig yn helpu i roi eglurder i gwmnïau cyfreithiol ar adeg pan fu cynnydd enfawr yn y defnydd o hunaniaeth ddigidol.”

# Ysgogi trawsnewid

**Karina Singh** Cyfarwyddwr Trawsnewid



Mae Weavers Quay Apartments, Manceinion yn darparu mwy na 200 o fflatiau wrth ochr y marina gyda mynediad agos a hawdd at ganol y ddinas. Rhoddodd y budd-ddeiliad Cyngor Dinas Manceinion brydles dyddiedig ym Medi 2020, sydd yn nwylo Cofrestrfa Tir EM i'w phrosesu, ar gyfer cam 3 y datblygiad y tu ôl i Weavers Quay. Llun: John B Hewitt/Shutterstock



**Karina Singh** Cyfarwyddwr Trawsnewid

**"Mae gwasanaethau hollol ddigidol yn allweddol i ddatgloi proses drawsgludo symlach a chyflymach. Mae cwsmeriaid am gael gwasanaethau ac offer syml a greddfol sy'n gallu rhyngweithio'n ddi-dor â'i gilydd. Dyma'r ffocws ar gyfer y mwyafrif o'n buddsoddiad trawsnewid."**

## Cyflymu ein trawsnewid

Mae ein portffolio trawsnewid yn canolbwyntio ar ddau beth: gwneud Cofrestrfa Tir EM hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol a thrawsnewid y ffordd y mae cymdeithas yn rhyngweithio ag eiddo. Yn ystod y pandemig, roedd ein portffolio trawsnewid wedi parhau i ysgogi newid ehangach tuag at farchnad eiddo ddigidol y dyfodol. Trwy weithio gyda'n staff, partneriaid eraill y llywodraeth, budd-ddeiliaid allweddol ac amrywiaeth o gwsmeriaid, credwn fod cyfle gennym i wneud gwir wahaniaeth i'r economi a'r gymdeithas gyfan.

Y llynedd roedd yn rhaid inni fod yn hynod ystwyth a gweithio ar gyflymder wrth i'r cyfnod clo ddod â heriau a chyfleoedd. Yn ogystal â chreu sefydliad sy'n gweithredu'n gyfan gwbl o bell o fewn wythnosau, cyflwynwyd hefyd gwasanaethau, swyddogaethau a gwelliannau newydd. Blaenoriaethwyd ein hymdrechion ar y cyd yn seiliedig ar fewnwelediad. Trwy wneud hyn roeddem ni'n gallu cadw ein cwsmeriaid wrth wraidd ein penderfyniadau, a chadw'r cydbwysedd cywir o nodau tymor byr a thymor hir yr un pryd.

## Llunio marchnad eiddo digidol

Mae cael yr holl wybodaeth i wneud penderfyniadau yn hanfodol er mwyn i drafodion eiddo fynd rhagddynt. Mae bron i 100% o wasanaethau gwybodaeth Cofrestrfa Tir EM eisoes ar gael ar unwaith ar-lein. Rydym yn buddsoddi mewn gwneud ein data yn fwy digidol a rhyngweithredol, gan agor y drws inni a'n cwsmeriaid wneud trafodion digidol ac awtomeiddio mwy o'n gwaith. Mae mwy na 40% o'n data bellach yn ddarllenadwy â pheiriant ac yn gweithio ar y cyd â systemau eraill.

Er nad oedd unrhyw effaith ar ein chwiliadau, roedd yr awdurdodau lleol hynny a oedd eisoes wedi mudo eu data pridiannau tir lleol (fel cyfyngiadau ar ddefnyddio tir a orfodir gan awdurdodau cyhoeddus) i'n gwasanaeth digidol cenedlaethol wedi osgoi'r oedi a brofwyd gan lawer. Rydym wedi ymrwymo i wella cyflymder y ddarpariaeth yn sylweddol, gydag uchelgais i gwblhau'r gwaith o fudo holl wasanaethau Pridiannau Tir Lleol o awdurdodau lleol ar draws Cymru a Lloegr erbyn 2025.

Mae gweithio mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn gam allweddol i ddigideiddio holl wybodaeth eiddo awdurdodau lleol ac yn cefnogi eu hymdrechion ehangach i ddiwygio gwybodaeth gynllunio. Rydym hefyd yn cefnogi gwaith Cymdeithas y Gyfraith a Home Buying and Selling Group, sy'n gweithio tuag at sicrhau bod gwybodaeth eiddo allweddol ar gael yn gynharach o lawer yn y broses.

Hoeliwyd sylw ar y gallu i **wneud trafodion o unrhyw le**. Mewn ymateb buom yn gweithio'n agos â budd-ddeiliaid a chwsmeriaid i gyflymu cyflwyno llofnodion electronig a gwirio hunaniaeth ddigidol i leihau'r ddibyniaeth ar bapur a gwasanaethau wyneb yn wyneb. Bydd y newidiadau hyn yn cynyddu gwytnwch y farchnad drawsgludo, yn ogystal â'r gwerth sydd i'w gael o'r farchnad eiddo. Byddwn yn cynnig 'llofnodion electronig cymwysedig' mwy diogel a haws eu defnyddio cyn bo hir ac rydym bellach wrthi'n archwilio'r posibilrwydd o greu gweithredoedd digidol ac ardystio cyfreithiwr ar-lein. (Darllenwch ragor ar dudalennau 20-21).

Mae **gwasanaethau hollol ddigidol** yn allweddol i ddatgloi proses drawsgludo symlach a chyflymach. Mae cwsmeriaid am gael gwasanaethau ac offer syml a greddfol sy'n gallu rhyngweithio'n ddi-dor â'i gilydd. Dyma'r ffocws ar gyfer y mwyafrif o'n buddsoddiad trawsnewid. Mae wedi arwain at lansio ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol newydd – cam sylweddol ymlaen o ran darparu gwasanaeth gwirioneddol ddigidol i'n cwsmeriaid (gweler tudalen 31). Bydd y garreg filltir hon, ynghyd â chofrestr fwy digidol ac injan gwaith achos digidol newydd, yn datgloi digideiddio o'r dechrau i'r diwedd, gyda'r potensial i awtomeiddio trafodion yn y dyfodol i hybu cyflymder a rhwyddineb ar draws y broses drawsgludo.

Trwy gyfateb y rhan fwyaf o'n buddsoddiad â'r ceisiadau mwyaf syml, niferus, bwriadwn gyflymu ein taith tuag at gofrestru tir digidol. Erbyn y flwyddyn nesaf disgwyliwn i 60% o'n ceisiadau syml fod yn hollol ddigidol, gan wneud ein trafodion symlaf 50% yn fwy effeithlon at ei gilydd. Bydd hyn yn ein galluogi i adleoli cydweithwyr i weithio ar waith mwy cymhleth a llafurus.

Rydym yn parhau i greu **gwasanaeth cyhoeddus sy'n anelu at lwyddiant**. Ochr yn ochr â digideiddio'r broses cofrestru tir, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein pobl arbenigol. Trwy weithredu'n gyflym i alluogi cydweithwyr i weithio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddiogel o gartref, rydym wedi gwella sut rydym yn cyflawni'r newid ac erbyn hyn rydym yn canolbwyntio ar ein diwylliant, ein harweinwyr a'n sgiliau technegol.

Erbyn hyn mae ein model adleoli newid sy'n ceisio cefnogi newid mewn 14 swyddfa yn helpu cydweithwyr mewn mwy na 6,300 o leoliadau i ddeall a mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio. Rhannwyd y model â sawl adran o'r llywodraeth ar ôl iddo gael ei fabwysiadu'n eang ar draws y sefydliad. Mae ein data arolwg diweddar yn dangos bod yr asesiad o 'newid yn cael ei reoli'n dda' o fewn y sefydliad wedi cynyddu 23%.


Mae ein rhaglenni sy'n canolbwyntio ar gydweithwyr ym maes gweithrediadau a digidol, data a thechnoleg wedi bod yn gweithio ar draws y sefydliad i gynyddu ein galluoedd ac ymgorffori diwylliant o welliant parhaus a sgyrsiau'n seiliedig ar ddata. Lansiwyd yr Academi Cofrestru Tir, canolfan rhagoriaeth genedlaethol i oruchwylio a chefnogi ein hyfforddiant technegol, datblygu a rhannu gwybodaeth arbenigol. Mae mwy na 600 o gydweithwyr yn cael eu huwchsgilio bellach trwy'r academi. Rhagwelwn y gall hefyd gefnogi'r sector trawsgludo sydd eisoes yn defnyddio ein cyfarwyddiadau a'n fideos fel man cyfeirio.

Rydym hefyd wedi symud ein holl wasanaethau a systemau i blatfform technoleg hyblyg newydd, sy'n grymuso ein timau datblygu trwy wneud newidiadau a gwelliannau yn gyflymach ac yn haws.

Caewyd un o'n 3 safle canolfan data (ar gyfer storio llawer iawn o ddata o bell) trwy adeiladu neuadd ddata annibynnol o fewn ein cyfleuster presennol. Mae ei chau yn creu buddion o £1.2m yn flynyddol trwy leihau ein rhent, a lleihau'r pŵer y mae ystad ein canolfan ddata yn ei ddefnyddio.

Rydym yn parhau i ddefnyddio data eiddo i alluogi a **chefnogi arloesedd**. Mae ein rhaglenni deori ymchwil, datblygu a chychwynnol arobryn yn archwilio ffiniau marchnad eiddo ddigidol yn y dyfodol ac yn creu cyfleoedd ar gyfer busnes arloesol newydd (gweler tudalennau 37-39). Ein bwriad yw ehangu ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol arobryn y tu hwnt i'n porthol ar-lein. Bydd hyn yn galluogi mynediad at ryngwyneb rhaglennu cymwysiadau rhad ac am ddim i annog darparwyr meddalwedd neu arloeswyr marchnad newydd i integreiddio'r gwasanaethau hollol ddigidol newydd hyn yn eu systemau a'u platfformau eu hunain wrth i elfennau eraill gael eu digideiddio.

## Y model adleoli newid traws-swyddfa




# Cyflymu Pridiannau Tir Lleol

Mae'r gwasanaeth Pridiannau Tir Lleol yn dangos y gall Cofrestrfa Tir EM ddarparu gwasanaeth gwirioneddol ddigidol sy'n cynnig mynediad hawdd ac uniongyrchol i brynwyr eiddo at wybodaeth am eiddo. Mae ein huchelgais i ddarparu cofrestr genedlaethol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr erbyn 2025 yn troi'n realiti.

Ers mynd yn fyw gyda'r awdurdod lleol cyntaf yng Ngorffennaf 2018, rydym wedi treialu modelau ymgysylltu amrywiol. Mae'r rhain wedi cael eu profi a'u mireinio'n gyson i ddarparu datrysiad cadarn a weithiodd yn effeithiol yn ystod y pandemig.

Yn Rhagfyr cyhoeddwyd cynlluniau i fabwysiadu strategaeth ymgysylltu ranbarthol a chafodd ein prosesau eu diwydiannu i helpu i ddarparu'r gwasanaeth yn gyflymach. Mae cronfa £26 miliwn hefyd wedi ei chynnig i awdurdodau lleol sy'n trosglwyddo eu gwasanaeth Pridiannau Tir Lleol i'r gofrestr genedlaethol o fewn amserlen gytunedig. Mae'r taliadau trosglwyddo hyn yn golygu y gallant fynd i'r afael â'r heriau ymarferol a allai rwystro eu cyfranogiad amserol yn y rhaglen.

Erbyn Mai 2021, trosglwyddodd pum awdurdod lleol ychwanegol eu gwasanaeth i'r gofrestr genedlaethol, gan ddod â'r cyfanswm i 17. Rydym yn gweithio gyda gweinidogion, partneriaid y llywodraeth, awdurdodau lleol a'r Bwrdd Cynghori Pridiannau Tir Lleol i gyflymu'r broses o ddarparu gwasanaethau. Mae newidiadau diweddar i ffïoedd gwasanaeth Pridiannau Tir Lleol Cymru yn golygu y gall awdurdodau lleol Cymru drosglwyddo eu gwasanaethau Pridiannau Tir Lleol i'r gofrestr genedlaethol erbyn hyn.




**Cyfanswm nifer y chwiliadau ers Gorffennaf 2018**


## Mwy na 30,000

**Cyfanswm chwiliadau swyddogol**

## Mwy na 100,000

**Cyfanswm chwiliadau personol (rhad ac am ddim)**

Defnyddiodd mwy na 240 o sefydliadau gwahanol borthol Cofrestrfa Tir EM neu Business Gateway i archebu chwiliad swyddogol. Y prif ddefnyddwyr oedd cyfryngwyr chwilio sy'n archebu chwiliadau ar ran eu cleientiaid trawsgludo.






Estyniad i MK Gallery, oriel celfyddydau gweledol cyfoes yn Milton Keynes, a ddyluniwyd gan y penseiri 6a ac a gwblhawyd yn Chwefror 2019. Ysbrydolwyd yr estyniad blwch dur hirsgwar gan uwchgynllun grid y dref. Roedd yr oriel yn un o 100 o sefydliadau diwylliannol i dderbyn cyfran o grant £30 miliwn gan y Garfield Weston Foundation yn Chwefror 2021. Ymunodd Cyngor Milton Keynes â'n Cofrestr Pridiannau Tir Lleol yn Awst 2020, gan drosglwyddo ei gofnodion pridiannau tir lleol i'n gwasanaeth digidol canolog. Llun: ArchLlun/Alamy

# Llinell amser trawsnewid

## 2020/21

### Gwybodaeth cyn penderfynu

Darparu mynediad hawdd a chynnar at ddata tir ac eiddo o ansawdd uchel

O fewn dau ddiwrnod i'r cyfnod clo, adferwyd ein gweithgareddau chwilio â blaenoriaeth, gan alluogi'r farchnad eiddo i barhau i weithredu. Ailddechreuodd yr holl wasanaethau o fewn ychydig wythnosau. Gweler tudalen 33 am ragor o fanylion.

Parhawyd i fudo awdurdodau lleol i'r gofrestr Pridiannau Tir Lleol ar gyflymder ac roedd y gwasanaeth yn ddi-dor trwy gydol y flwyddyn. Gweler rhagor ar dudalen 25.

Mudodd Cyngor Dinas Caerliwelydd a Chyngor Dosbarth Dwyrain Lindsey.

### Gwasanaethau hollol ddigidol

Bydd data digidol yn helpu i ddatgloi proses drawsgludo gyflymach a mwy di-dor

Mewn ymateb i'r cyfnod clo, cyflwynwyd ffurflen gyswllt ar-lein newydd gan alluogi bron i 320,000 o gwsmeriaid i hunan-wasanaethu. Llwyddodd 75% i ddod o hyd i ateb i'w ymholiad heb orfod galw ein timau prysur. Darllenwch ein hastudiaeth achos ar dudalen 50.

View My Applications

VMA

Mae View My Applications wedi cael ei ddefnyddio gan dros 100,000 o ddefnyddwyr – sy'n cyfateb i £1 miliwn o amser cwsmeriaid wedi ei arbed ers ei lansio. Gweler tudalen 31.

Ein datrysiadau Atal Twyll wedi gwella i sicrhau ein bod yn gwarchod cywirdeb y gofrestr. Gweler tudalen 18.

### Gwneud trafodion o unrhyw le

Creu marchnad eiddo fwy diogel, esmwyth a gwydn

Rydym wedi ychwanegu at y rhestr o weithwyr proffesiynol sy'n gallu bod yn dyst i wiriad hunaniaeth ac yn derbyn cadarnhad trwy fideo. Gweler tudalen 49.

Wedi dechrau derbyn llofnodion 'dull Mercwri' yn swyddogol – syniad yn deillio o'n Fforwm Diwydiant. Cewch wybod rhagor ar dudalen 20.

Rydym wedi trawsnewid ein proses lofnodi ac wedi dechrau derbyn llofnodion electronig wedi eu tystio ar ôl cael adborth gan gwsmeriaid. Darllenwch ragor ar dudalen 20.

### Rhyddhau arloesi

Cefnogi technolegau sy'n dod i'r amlwg a gwasanaethau newydd i wella awtomeiddio a chydweithio

Fforwm Diwydiant wedi ei sefydlu i weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wella'r broses drawsgludo. Gweler rhagor ar dudalen 20.

Lansiwyd ein platfform cyhoeddi data newydd, Defnyddio data tir ac eiddo, gan gynnal y cyflenwad llawn o 10 set ddata a thrwyddedau cysylltiedig mewn un lle am y tro cyntaf. Darllenwch ragor ar dudalen 35.

Setiau data prydlesi cofrestredig a chyfamodau cyfyngu wedi eu rhyddhau, gan arwain at dros 2,000 o lawrlwythiadau Gweler tudalen 35.

### Gwasanaethau cyhoeddus rhagorol

Buddsoddi yn ein pobl wych i gael y sgiliau a'r seilwaith cywir

Department for Work & Pensions

Mewn ymateb i COVID-19 adleolwyd 218 o gydweithwyr i'r Adran Gwaith a Phensiynau i gefnogi gwaith hanfodol. Rhagor o wybodaeth ar dudalen 55.

Er mwyn gwasanaethu ein cwsmeriaid yn y ffordd orau bosibl, symudom ni yn gyflym i ddosbarthu 30,000 o ddarnau o offer TG gan alluogi ein cydweithwyr i weithio o bell. Cewch wybod rhagor ar dudalen 33.

Wedi ehangu a chryfhau ein gwasanaeth brys 'carlam' mewn ymateb i'r galw cynyddol gan gwsmeriaid – gweler yr astudiaeth achos ar dudalen 51.

Fe wnaeth ein tîm AD alluogi mynediad ffôn clyfar at ein porthol dysgu, LearnHub, a oedd yn cynnwys barn rheolwr llinell yn dangos hyfforddiant a chynnydd ar lefel unigolyn neu dîm. Gweler tudalen 42.

RED HAT OPENSHIFT

Gweithiom gyda Red Hat Open Shift i symud ein gwasanaethau digidol i blatfform technoleg newydd yn seiliedig ar dechnoleg cynwysliwyddo – un o'r sefydliadau sector cyhoeddus cyntaf yn y DU i wneud hynny. Gweler tudalen 34.

# 2021/22

Cyngor Milton Keynes wedi mudo.

Mwy na 67,000 o gyfanswm chwiliadau swyddogol a phersonol Pridiannau Tir Lleol. Rhagor o wybodaeth ar dudalen 25.

Stockton-on-Tees, Spelthorne, Sevenoaks, Stratford-on-Avon a Welwyn Hatfield wedi mudo. Mae hyn yn mynd â'r cyfanswm i 17 awdurdod lleol ar y gofrestr Pridiannau Tir Lleol.

Awtomeiddio prosesau robotig yn golygu y gallai'r Ganolfan Cymorth Cwsmeriaid drin achosion ac ymholiadau yn gyflym. Gweler tudalen 34.

Mae prosesau robotig yn chwilio oddeutu 119,000 o geisiadau bob wythnos, gan arbed amser i weithwyr achos wirio a yw ceisiadau blaenorol wedi eu cwblhau. Darllenwch ragor ar dudalen 34.

DRS

Wedi arbed 313 o oriau gweithiwr achos ers i'r gwasanaethi Llofnodi eich gweithred morgais gael ei awtomeiddio – y tro cyntaf i'r gofrestr gael ei diweddaru heb ymyrraeth gweithiwr achos. Rhagor o wybodaeth ar dudalen 31.

195 o ddefnyddwyr yn cytuno i fod yn fabwysiadwyr cynnar y Gwasanaeth Cofrestru Digidol o 329 o fusnesau. Gweler tudalen 31 am wybodaeth.

TR1 Checklist

DRS

Lansiwyd ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol arobryn yn Ebrill – mae mwy na 35,000 o geisiadau eisoes wedi eu cyflwyno. Gweler tudalen 31.

View My Applications
12/07/2021
VMA

Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig wedi ei ychwanegu at View My Applications, gyda 60,000 o ddefnyddwyr yn elwa yn ystod y mis cyntaf. Cewch wybod rhagor ar dudalen 30.

Ym Mai 2021, dechreuodd robotiaid symud ceisiadau carlam wedi eu cymeradwyo, gan sicrhau bod 250 o'r ceisiadau mwyaf brys bob dydd yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl. Cewch wybod rhagor ar dudalen 34.

Wedi cefnogi datblygiad gwiriadau hunaniaeth ar-lein mwy diogel ar gyfer prynwyr eiddo trwy gyhoeddi ein Safon Hunaniaeth Ddigidol. Gweler tudalen 21 i wybod rhagor.

Gwaith wedi parhau ar ddigideiddio a gwella ein Cofrestru Data – 43% digidol erbyn hyn (data wedi ei strwythuro ac ansawdd wedi ei wirio). Cewch wybod rhagor ar dudalen 34.

Wedi gweithio gyda'r Comisiwn Geo-ofodol i gyflymu'r broses drawsgludo. Cewch wybod rhagor ar dudalen 39.

Wedi cefnogi'r garfan ddiweddaraf i ymuno â'n Rhaglen Gyflymu Geovation. Gweler tudalen 37.

Future Ways of Working Framework and Guidance

Wedi dod yn y 20 uchaf ar gyfer ymgysylltiad gweithwyr yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Gweler tudalen 42 am wybodaeth.

Lansio'r fenter Brilliant Teams, Inspiring Leaders yn Hull a Chaerlŷr – darllenwch am hyn ar dudalen 30.

Mwy na 1,500 o gydweithwyr wedi helpu i lunio ein hegwyddorion Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol, gan gynnwys ein diwylliant dymunol, arweinyddiaeth, technoleg a dewisiadau buddsoddi yn y gweithle. Gweler tudalen 41.

Wedi arbed £1.2 miliwn mewn rhent a'r defnydd o bŵer trwy leihau nifer y canolfannau data o 3 i 2. Gweler rhagor ar dudalen 24.

Deuddeg wythnos o hyfforddiant wedi eu cwblhau gan bob un o'r 461 o ddechreuwyr newydd sy'n cyfateb i 106 mlynedd o fuddsoddiad. Gweler tudalen 42.

Wedi cyflawni efydd yng ngwobrau Profiad Gweithwyr 2021 y DU. Gweler tudalen 41.

Wedi recriwtio bron i 900 o gydweithwyr yn ystod y flwyddyn. Gweler tudalen 42.

Lansio'r Academi Cofrestru Tir, canolfan rhagoriaeth ar gyfer dysgu. Dros 600 o bobl eisoes wedi cael eu huwchsgilio. Gweler tudalen 24.

Cofrestrfa Tir EM
Academi CT

# Darparu gwasanaeth a ysgogir gan gwsmeriaid

**Chris Pope** Prif Swyddog Gweithrediadau



Mae One Blackfriars yn ddatblygiad defnydd cymysg yn No. 1 Blackfriars Road yn Bankside, Llundain. Mae'r datblygiad yn cynnwys tŵr 52 llawr ar uchder o 170m a dau adeilad llai gyda chwech a phedwar llawr. Mae defnydd o'r adeiladau yn cynnwys fflatiau preswyl, gwesty a lle manwerthu yn ogystal â man cyhoeddus newydd sydd i'w greu. Cofrestrwyd prydlesi ar gyfer y fflatiau yn Swyddfa Durham. Llun: Shutterstock



Chris Pope Prif Swyddog Gweithrediadau

“Ar ôl ei brofi’n helaeth gyda dros 250 o gwsmeriaid, lansiwyd ffordd newydd, hollol ddigidol i ofyn am newidiadau i’r Gofrestr Tir. Mae ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol newydd yn golygu y gall cwsmeriaid fewnbynnu data yn uniongyrchol, gan ddileu’r angen am ffurflenni cais ar bapur a chadarnhau gwybodaeth cyn iddi gael ei chyflwyno.”

## Darparu gwasanaeth yn wyneb pandemig

Gan ein bod yn rhan o bob trafodiad eiddo, derbyniwn tua 90,000 o chwiliadau sydd wedi eu hawtomeiddio’n bennaf, a thua 17,000 o geisiadau i’n harbenigwyr newid y gofrestr bob dydd.

Cyn COVID-19, ychydig o bobl oedd â’r offer i weithio o bell. Roedd tri chwarter o’n cydweithwyr sy’n gweithio ar y rheng flaen ac yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i gwsmeriaid yn dibynnu ar dechnoleg bwrdd gwaith sydd wedi eu cysylltu trwy seilwaith sefydlog.

O fewn diwrnodau i’r cyfnod clo gychwyn, roeddem wedi creu digon o alluogrwydd gweithio o gartref i ddarparu gwasanaethau hanfodol ac sy’n sensitif o ran amser, fel chwiliadau a chopïau swyddogol, i’r lefelau a welwyd cyn y bandemig. Dri mis yn ddiweddarach roeddem eisoes wedi cwblhau trawsnewidiad mawr trwy alluogi 98% o gydweithwyr i ddarparu gwasanaethau cofrestru tir o’u cartref am y tro cyntaf.

Mae graddfa ac arwyddocâd y newid radical hwn, a sicrhaodd fod y farchnad eiddo yn aros yn gyfan, yn rhywbeth rydym yn falch iawn ohono. Er bod ansawdd y gwaith wedi parhau’n gryf, yr anhawster a wynebwyd oedd yr ôl-groniad o geisiadau heb eu cwblhau a oedd wedi cynyddu tra oeddem yn adfer ein gwasanaethau i bron y lefelau a welwyd cyn-COVID.


Er i lawer o farchnadoedd eraill grebachu, roedd y galw am eiddo yn ddi-baid. Roedd cyflwyno gwyliau treth tir y doll stamp a’i estyniad dilynol wedi atalnodi stori’r farchnad eiddo a barhaodd, er gwaethaf pob dim, i ffynnu yn ystod dirywiad economaidd cyffredinol.

Fe wnaethon ni chwarae rhan hanfodol yn y stori honno. Erbyn Rhagfyr roeddem ni wedi lleihau’r ôl-groniad gan fwy na thraean ond, ar y cyfan, roedd yn rhaid i gwsmeriaid aros yn hwy na’r arfer i wneud newidiadau i’r gofrestr.

Er na fyddai’r oedi hyn fel arfer yn effeithio ar drafodiad eiddo, cafodd ein gwasanaeth brys ei hyrwyddo a’i gryfhau sy’n galluogi cwsmeriaid i gyflymu ceisiadau brys yn rhad ac am ddim. Felly, roeddem yn gwbl barod pan gynyddodd y galw am wasanaethau brys mwy na phedair gwaith i sicrhau y gallai trafodion eiddo fynd rhagddynt yn ddidrafferth ac yn gyflym.

Rydym yn cynnal arolygon rheolaidd ar gyfer ein cwsmeriaid i’n helpu i gynllunio ein darpariaeth gwasanaeth barhaus yn well. Ar ddechrau’r flwyddyn gwelwyd effaith ar nifer y cwsmeriaid a roddodd y sgôr uchaf inni am ein darpariaeth gwasanaeth ond, trwy ganolbwyntio ein hymdrechion ar y problemau a nodwyd yn yr arolygon hyn, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roedd y ffigur hwn wedi codi uwchlaw’r sgorau a roddwyd cyn i effeithiau’r pandemig gael eu teimlo.

### Sgôr boddhad cwsmeriaid




## Gwasanaethau newydd i gwsmeriaid

Mae darparu gwasanaeth gwych yn ganolog i’n pwrpas. Er bod y pandemig wedi effeithio ar ein darpariaeth gwasanaeth, llwyddwyd i aros yn agosach at anghenion ein cwsmeriaid nag erioed o’r blaen. O fewn diwrnodau sefydlwyd sianel gyfathrebu newydd Cysylltu â Ni ar ein gwefan, gan alluogi mwy o gwsmeriaid i hunan-wasanaethu a sicrhau ein bod yn gallu blaenoriaethu ymholiadau brys.

Mae cyfathrebu dwyffordd â chwsmeriaid wedi bod yn allweddol i sicrhau hyd yn oed tra ein bod yn parhau i wynebu ôl-groniad o geisiadau heb eu cwblhau, gallwn ddod o hyd i ffyrdd o wella'r gwasanaeth a gynigiwn. Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi datblygu ymhellach ein dealltwriaeth o anghenion ein cwsmeriaid a'r farchnad drawsgludo yn fwy cyffredinol.

Ymholiadau ynghylch cynnydd oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros alwadau i'n Canolfan Cymorth i Gwsmeriaid. Trwy ein porthol ar-lein, erbyn hyn gall cwsmeriaid weld eu holl geisiadau mewn un lle, ymateb yn uniongyrchol i geisiadau am wybodaeth a gweld cynnydd, gan gynnwys y nodwedd newydd dyddiad cwblhau disgwyliedig. Mae'r gwelliannau hyn yn rhoi gwell profiad i gwsmeriaid gan sicrhau'r defnydd mwy effeithlon o amser ein cydweithwyr. Lansiwyd gwasanaeth newydd hefyd ar gyfer aelodau'r cyhoedd sydd angen cael hyd i fanylion sylfaenol at ddibenion ymchwil. Erbyn diwedd Mawrth 2021, ers ei lansio, roedd dinasyddion wedi defnyddio'r gwasanaeth mwy greddfol newydd hwn mwy na 1.25 miliwn o weithiau. Yn y pen draw bydd yn disodli ein gwasanaeth hŷn wrth inni ddadgomisiynu'r ddefnydd ohono yn raddol.

Ar ôl ei brofi'n helaeth gyda dros 250 o gwsmeriaid trawsgludo, yn Ebrill lansiwyd ffordd newydd, hollol ddigidol i ofyn am newidiadau i'r Gofrestr Tir. Mae ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol newydd yn golygu y gall cwsmeriaid fewnbynnu data yn uniongyrchol, gan ddileu'r angen am ffurflenni cais ar bapur a chadarnhau gwybodaeth cyn ei chyflwyno.

Mae'r gwasanaeth newydd hwn eisoes ar gael trwy ein porthol ar-lein, lle mae mwy nag 80% o'r trafodion yn cael eu cwblhau. Ers inni ddechrau datblygu'r gwasanaeth mae dros 35,000 o geisiadau wedi cael eu cyflwyno a chafodd y gwasanaeth ei gydnabod gan y 2021 Real IT Awards, gan ennill yn y categori Gwasanaeth Cwsmeriaid Rhagorol yn Mai. Rydym bellach yn ehangu mynediad trwy ein sianel rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau, Business Gateway. Bydd hyn yn golygu y gall cwsmeriaid sydd eisoes yn defnyddio arferion digidol integredig neu systemau rheoli achos elwa ar y Gwasanaeth Cofrestru Digidol a gwasanaethau digidol newydd eraill wrth iddynt fynd ar-lein. Ein bwriad yw i hyn fod y brif ffordd y mae cwsmeriaid yn cyflwyno eu ceisiadau inni.

Math mwy digidol o gofrestru yw'r allwedd i ddatgloi arbedion effeithlonrwydd gweithredol sylweddol lle gellir prosesu ceisiadau a thasgau syml gan ddefnyddio awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial. Mae hyn yn golygu y gall ein harbenigwyr ganolbwyntio ar y newidiadau mwy cymhleth. Bydd ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn ein gweld yn sicrhau cynnydd o 40% mewn effeithlonrwydd ar gyfer diweddariadau i'r gofrestr, gan ein galluogi i adleoli mwy o'n harbenigwyr i fynd i'r afael â'n hôl-groniad cyfredol.

## Cryfhau arbenigedd

Wrth gwrs, nid technoleg ddigidol yw'r unig ffocws. Yr elfen hanfodol arall yw ein pobl arbenigol. Mewn sawl ffordd mae'r pandemig wedi cyflymu ein cynlluniau i greu swyddogaeth gweithrediadau genedlaethol ac rydym eisoes yn ailystyried sut bydd gweithrediadau yn edrych yn y dyfodol.

Eleni, recriwtiwyd mwy na 500 o gydweithwyr gwaith achos a darparu hyfforddiant technegol unigol i fwy na 640 o aelodau staff ar bob gradd. Mae ein cynlluniau ar gyfer 2021/22 yn blaenoriaethu optimeiddio ein capasiti gweithredol, a byddwn yn recriwtio 650 o aelodau o staff eraill, gan gynnwys uwch weithwyr achos gweithredol, ac yn darparu mwy na 1,200 o ymyriadau hyfforddiant technegol. Rydym hefyd wedi dechrau cyflwyno ein rhaglen arweinyddiaeth newydd i greu'r diwylliant y mae ei angen arnom o fewn ein timau gweithrediadau. Disgwyliwn y byddwn wedi cyflwyno'r rhaglen lawn erbyn diwedd 2021.

### Brilliant by design – Cyflwyno timau gwych yn Hull, Caerlŷr a thu hwnt

Mae ein rhaglen Brilliant Teams, Inspiring Leaders yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o botensial ein pobl trwy gynnwys sgiliau arwain, datblygu a gwelliant parhaus yn ein holl dimau gweithredol. Fe'i cynlluniwyd i wella perfformiad a helpu i'n symud tuag at y diwylliant a ddymunwn. Rydym wedi cynnal cynlluniau peilot yn ein swyddfeydd yn Hull a Chaerlŷr sydd wedi cynnig modd inni brofi a datblygu'r prosiect cyn ei rannu'n fwy cyffredinol. Mae'r gwaith yn fyw erbyn hyn yn Plymouth, Fylde, Abertawe, Durham, Caerloyw a Peterborough a chaiff ei gyflwyno i bob swyddfa cyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf. Fel rhan o'r rhaglen rydym yn creu canolfan rhagoriaeth, gyda'r galluogrwydd a'r capasiti angenrheidiol, i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen yn ogystal â chynnal ac ymgorffori'r newidiadau a ddymunir. Mae'r adborth cychwynnol a'r adroddiadau o'r cynlluniau peilot eisoes yn dangos canlyniadau calonogol ar gyfer y sefydliad a'n poble.




# Real IT Awards

# Enillydd 2021

Darparu Profiad Rhagorol i Gwsmeriaid yn y categori gwobrau prosiect ar gyfer ein **Gwasanaeth Cofrestru Digidol**

**Gwasanaeth Cofrestru Digidol**

"...greddfol a manwl iawn. Cyffrous iawn i'w ddefnyddio a gallu gweld y gwahaniaeth y gall hyn ei wneud."
**Defnyddiwr porthol, PM Law Ltd.**




## Ei gwneud hi'n symlach ac yn gyflymach i gyflwyno ac olrhain ceisiadau

Daw'r mwyafrif helaeth o geisiadau Cofrestrfa Tir EM trwy'r porthol ar-lein. Mae'r sianel hon yn hynod bwysig i waith bob dydd llawer o drawsgludwyr a buom yn archwilio sut i sicrhau bod eu profiad mor gryf â phosibl.

### Cyflwyno ceisiadau

Mae'r Gwasanaeth Cofrestru Digidol yn symleiddio'r ffordd y gall cwsmeriaid gyflwyno ceisiadau inni trwy'r porthol. Mae ei allu i godi gwallau posibl cyn cyflwyno yn gwella ansawdd y cais.

Trwy ddal y data yn y modd hwn, gallwn wirio a dilysu'r wybodaeth yn awtomatig cyn iddi gael ei chyflwyno, gan helpu i osgoi ceisiadau am wybodaeth (ymholiadau) ar gyfer camgymeriadau sylfaenol.

Ochr yn ochr â'r gwirio gwallau awtomataidd, bydd y gwasanaeth hefyd yn cyfrifo'n awtomatig y ffioedd i'n cwsmeriaid yn ogystal â chyn-boblogi data penodol o'r gofrestr a rhoi mwy o opsiynau i arbed ac adolygu pob cais. Mae pob un o'r nodweddion hyn yn arwain at geisiadau o ansawdd gwell, gan arbed amser i'n cwsmeriaid ac i ninnau. Ar ôl ei brofi gyda mwy na 1,500 o ddefnyddwyr unigol, lansiwyd y gwasanaeth yn Ebrill 2021. Byddwn yn cynnwys nodweddion newydd yn raddol trwy gydol y flwyddyn i ddod ynghyd â chyflwyno'r gwasanaeth i gwsmeriaid Business Gateway.


### Adolygu cynnydd ceisiadau

Yn Awst 2020 lansiwyd View My Applications ar gyfer holl ddefnyddwyr y porthol. Mae'r nodwedd newydd hon yn dwyn ynghyd manylion ceisiadau'r cwsmer i gyd mewn un lle, gan nodi'n glir y statws a'r holl ddogfennaeth berthnasol sy'n gysylltiedig â'r cais. Mae mwy na 100,000 o ddefnyddwyr y porthol wedi defnyddio'r teclyn ers ei lansio.

Ym Mai 2021, cafodd dyddiad cwblhau disgwyliedig ei gynnwys ar gyfer pob cais, gan roi dyddiad calendr i gwsmeriaid yn nodi pryd y mae'n rhesymol iddynt ddisgwyl derbyn y cais wedi ei gwblhau.

**View My Applications**

"Mae'n gwneud darparu diweddariadau ychydig bach yn gyflymach ac yn rhoi gwell gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae'r ffaith ei fod hefyd yn cynnwys y dogfennau cysylltiedig yn fendith!"
**Liz Lennox, Arweinydd Eiddo Rhanbarthol, Taylor Rose TTKw**



# Paratoi ar gyfer dyfodol digidol

**Andrew Trigg** Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg




Mae'r adeilad eiconig BBC Television Centre yn White City, gorllewin Llundain, yn gyfarwydd i bawb fel cefndir i lawer o raglenni'r BBC. Mae'r adeilad, y mae rhannau ohono yn Radd II rhestredig, ers ei ailddatblygu yn cynnwys llety preswyl gan gynnwys fflat penty a werthwyd eleni am £7 miliwn, a gafodd ei gofrestru yn Swyddfa Plymouth.
Llun: Cristian Mircea Balate/iStock



**Andrew Trigg** Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg

> "O fewn 12 wythnos roeddem ni wedi symud ein systemau i blatfform rhithiol diogel a chadarn ac wedi dosbarthu dros 30,000 o ddarnau o offer TG – gan adfer ein gwasanaethau yn llawn. Rhoddodd ein cydweithwyr y gefnogaeth a'r arweiniad angenrheidiol i sicrhau y gallai pawb weithio eto ac ni chafodd unrhyw un ei adael ar ôl."

Yn hanesyddol roedd y mwyafrif o'n 6,400 o gydweithwyr yn gweithio'n gyfan gwbl o un o'n 14 swyddfa. Fel llawer o sefydliadau roedd yn rhaid inni ymateb yn gyflym pan roddwyd y cyfyngiadau yn eu lle ym Mawrth 2020. Dim ond 13% o'n gweithlu oedd â'r offer TG angenrheidiol i'w galluogi i weithio o gartref, felly roedd yn rhaid inni wneud Cofrestrfa Tir EM yn sefydliad o bell dros nos.

Roedd yn rhaid inni ddod o hyd i ffordd i alluogi ein harbenigwyr cofrestru i wneud newidiadau i'r gofrestr o gartref am y tro cyntaf erioed. Roedd angen inni hefyd sicrhau y gallai ein holl dimau gwasanaethau cymorth a thechnoleg gydweithredu ac ymgysylltu o bell hefyd. Wrth gwrs, roedd yn rhaid i unrhyw ddatrysiadau warchod cywirdeb y gofrestr a'r triliynau o bunnoedd o asedau a ddelir ynddi.


Dros y ddau ddiwrnod cyntaf roeddem ni wedi sicrhau bod gwasanaethau â blaenoriaeth yn cael eu hadfer o bell, diolch i'r gwaith blaenorol a gafodd ei wneud i awtomeiddio'r mwyafrif o chwiliadau.

O fewn 12 wythnos roeddem ni wedi symud ein systemau i blatfform rhithiol diogel a chadarn ac wedi dosbarthu mwy na 30,000 o ddarnau o offer TG, gan adfer ein gwasanaethau yn llawn. Rhoddodd ein cydweithwyr y gefnogaeth a'r arweiniad angenrheidiol i sicrhau y gallai pawb weithio eto ac ni chafodd unrhyw un ei adael ar ôl – gan gynnwys yr ychydig gydweithwyr hanfodol hynny oedd angen gweithio o'n swyddfeydd. Nid oedd disgwyl i gyrff cyhoeddus sy'n cael eu hariannu'n llawn o'r pwrs cyhoeddus roi staff ar ffyrlo, ac nid oedd Cofrestrfa Tir EM am roi unrhyw un ar ffyrlo, a doedd dim rhaid iddynt wneud hynny.

Er bod y newidiadau hyn yn ymateb i'r pandemig i gychwyn, mae wedi profi i fod yn drawsnewidiad arwyddocaol ar gyfer Cofrestrfa Tir EM. Er gwaetha'r naid ffydd ar gyfer ein sefydliad, croesawodd cydweithwyr y defnydd o dechnoleg ddigidol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gydweithio a chysylltu â'i gilydd, rhywbeth a adlewyrchir yn ein sgorau cryf yn yr Arolwg Pobl.




"...rhoddodd ein timau ddatrysiadau arloesol a diogel yn eu lle mewn ychydig wythnosau, rhywbeth a fyddai wedi cymryd misoedd fel arfer."
**Steve Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr – Technoleg**



## Trawsnewid digidol

Trwy greu gwasanaethau newydd a galluogi llofnodion digidol ac awtomeiddio diweddariadau i'r gofrestr am y tro cyntaf erioed, rydym wedi parhau i gynnig dulliau arloesol i'r farchnad sy'n ei gwneud hi'n haws i'n cwsmeriaid wneud busnes gyda ni, hyd yn oed yn ystod yr adegau mwyaf heriol.

Fodd bynnag, gwyddom er mwyn creu math o gofrestru gwirioneddol ddigidol bod yn rhaid inni ddwyn ynghyd nid yn unig gwasanaethau cwsmeriaid digidol ond hefyd peiriant gwaith achos digidol, wedi ei gefnogi gan gofrestr hollol ddigidol a geo-ofodol.

Rydym wedi datblygu proses gwaith achos newydd y bydd ein cydweithwyr arbenigol yn ei defnyddio i greu a diweddaru cofrestri. Mae'n cymryd y data y mae cwsmeriaid yn eu cyflwyno trwy ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol newydd (tudalen 31) a, phan fydd paramedrau'n caniatáu hynny, mae'n cymhwyso rheolau busnes a pheiriannau gwneud penderfyniadau robotig naill ai i awtomeiddio'r diweddariad neu gyfeirio achosion i'n pobl pan fydd angen inni ddefnyddio eu sgiliau arbenigol a'u barn i wneud penderfyniad.

Defnyddiwyd offer Awtomeiddio Proses Robotig i chwilio trwy geisiadau yn gyflym iawn i ddod o hyd i geisiadau blaenorol, ysgwyddo'r baich gweinyddol o anfon llythyrau atgoffa a chefnogi'r gwaith o reoli'r gwasanaeth cais brys.

Mae Cofrestr Tir ddigidol ac ystâd dechnoleg fodern yn sail i hyn i gyd. Mae ein Cofrestr Tir ddigidol yn rhoi data y gellir eu darllen â pheiriant y gallwn eu defnyddio wrth ddilysu data cwsmeriaid ac mae'n golygu bod ein systemau yn gwybod pa gofnodion sydd mewn cofrestr pan fydd ein system newydd yn ystyried yr hyn y mae angen inni ei wneud gyda chais. Mae hwn yn alluogwr hanfodol i awtomeiddio yn y dyfodol. Rydym wedi mudo 43% o'n data cofrestr bresennol i'r gofrestr ddigidol newydd, yn erbyn targed o 40%, gyda'r nod o gynyddu hyn i 60% erbyn diwedd y flwyddyn nesaf. Mae'r ffocws hyd yma wedi bod ar y ceisiadau hynny y gellir eu hawtomeiddio a'r rhai sy'n codi ymholiadau.


Yn 2021/22 bwriadwn ddwyn ynghyd yr elfennau hynny i ddigideiddio'r diweddariadau cofrestr, sy'n cynnwys 70% o'n ceisiadau â llaw. Bydd canolbwyntio ar hyn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd gweithredol sylweddol yn y tymor byr, gan alluogi ein harbenigwyr i ganolbwyntio ar leihau'r ôl-groniad o geisiadau mwy cymhleth. Fodd bynnag, bydd blaenoriaethu digideiddio diweddariadau cofrestr hefyd yn gosod y sylfeini ar gyfer awtomeiddio gwasanaethau newid cofrestr eraill dros y tymor canolig.

Rydym wedi buddsoddi hefyd yn y seilwaith sylfaenol sy'n cefnogi ein gwasanaethau digidol. Rydym wedi gweithio gyda Red Hat Openshift i weithredu platfform technoleg a rennir newydd i sicrhau bod ein gwasanaethau yn haws i'w rhedeg a'u cynnal. Mae'r platfform yn rhedeg ar dechnoleg cynwyslwytho, gan ein gwneud yn un o'r sefydliadau sector cyhoeddus cyntaf yn y DU i fabwysiadu'r dechnoleg hon.

## Archwilio dyfodol eiddo

Rydym wedi parhau â'r gwaith a ddechreuwyd gyda'n rhaglen ymchwil a datblygu, y Stryd Ddigidol, ac erbyn hyn mae ein cymuned arloesi wedi gweithio gyda mwy na 250 o sefydliadau i archwilio sut y gall technoleg newydd ein helpu ni a'r farchnad eiddo ehangach.

Ein nod yw gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae'r Stryd Ddigidol yn eu cynnig, trwy ei defnyddio fel cyfrwng i ateb rhai o'r cwestiynau strategol mawr ar gyfer Cofrestrfa Tir EM a'r farchnad eiddo. Mae gwyddor data a thechnoleg dysgu peirianyddol yn faes y byddwn yn ei archwilio ymhellach. Rydym am ddysgu sut y gallem ryddhau gwerth y data ymhellach o fewn y gofrestr, a pha fuddion y gallai hyn eu cynnig inni a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau.




# Cadw mewn cysylltiad

### Barn gweithiwr achos

"Roeddwn i'n gweithio o swyddfa Hull pan ddaeth y gorchymyn i aros gartref. Roedd cynlluniau wrth gefn eisoes yn eu lle oedd yn golygu ein bod ni i gyd wedi ein cysylltu â'n rheolwyr llinell ac yn gallu mewngofnodi i'r fewnrwyd yn ddiogel i gael y cyfarwyddiadau diweddaraf. Roedd cyfathrebu gwych yn golygu bod gweithwyr achos yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ar bob cam ac ymhen dim fe gasglais fy offer trwy drefniadau diogel a hwylus dros ben. Wrth osod yr offer a mewngofnodi nôl gartref, roedd yn amlwg faint o feddwl, ymdrech a chynllunio oedd wedi mynd i mewn i addasu'r amgylchedd swyddfa i weithio o bell. Cyfrannwyd at fyrddau gwybodaeth tîm i sicrhau bod gan bawb y wybodaeth ddiweddaraf, yn rhannu awgrymiadau a chyngor ac yn gwneud y mwyaf o'r nodweddion meddalwedd sy'n sail i'r 'normal newydd' yn gyflym iawn. Fel y swyddfa beilot ar gyfer Brilliant Teams, Inspiring Leaders roedd Hull wedi arwain y gwaith o ddatblygu byrddau gwybodaeth tîm a'u rôl o ran cydweithredu o bell. Gyda chyfarfodydd rhithiol, rhannu sgriniau a 'sgwrsio' ar-lein, ynghyd â systemau hyfforddi newydd trawiadol, gall y rhan fwyaf o'n gwaith gael ei wneud o gartref bellach yn gyflym ac yn effeithlon."

**Alister Heywood, Gweithiwr Achos**

### Sylwadau'r Gyfarwyddiaeth Digidol, Data a Thechnoleg

"Roeddem ni'n barod i ymateb i sicrhau bod gan bawb fynediad at yr ebost a'n mewnrwyd trwy ddefnyddio talebau diogelwch a mynediad SMS i'r ebost ar raddfa fawr. Cafodd ein cyfrifiaduron bwrdd gwaith eu troi'n proto-gliniaduron ac o fewn wythnosau roedd yr offer gan bron pob un o'n cydweithwyr i gael desgiau tebyg i'r hyn roedd yn gyfarwydd iddynt yn y swyddfa. Rhoddodd ein timau ddatrysiadau arloesol a diogel ar waith mewn ychydig wythnosau, rhywbeth a fyddai wedi cymryd misoedd fel arfer. Roedd sicrhau a dosbarthu offer TG yn allweddol i gynnal y gwaith y mae'r sefydliad yn ei wneud ond y tu ôl i'r llenni cafodd platfformau diogel newydd eu hadeiladu hefyd a fydd yn galluogi'r sefydliad i ailfeddwl sut ac o ble y mae'n gweithio. "

**Steve Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr – Technoleg**

# Y Stryd Ddigidol – archwilio dyfodol eiddo


Mae'r Stryd Ddigidol yn parhau i weithio gydag aelodau'r gymuned i flaenoriaethu, dylunio a phrofi technoleg newydd a gwasanaethau cysyniadol ym maes cofrestru tir.

## Defnyddio talebau

Mae ein gwaith ar dalebau bellach wedi dod i ben. Crëwyd prototeip o Gofrestrfa Tir EM gan greu a dosbarthu talebau digidol i gynrychioli perchnogaeth teitl. Byddai'r talebau hyn yn cael eu storio ar gronfa ddata wedi ei seilio ar dechnoleg floc-gadwyn. Gan ddefnyddio talebau diogelwch sy'n gysylltiedig â'r daleb teitl, byddai perchnogion eiddo yn gallu cofnodi perchnogaeth ffracsiynol o eiddo – lle mae gan fwy nag un person fudd cyfreithiol mewn eiddo – yn ddiogel a chyda mwy o hyblygrwydd nag sy'n bosibl ar hyn o bryd. Gweithiodd y tîm gyda chymuned y Stryd Ddigidol i ddangos sut y gellid masnachu'r talebau diogelwch hyn ar farchnadle ddigidol. Mae hyn yn agor cyfres o fuddion posibl, gan gynnwys darparu mwy o gyfle ar gyfer buddsoddi a pherchen ar eiddo.

## Rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau trawsnewidiol

O dan y thema hon rydym wedi archwilio sut y gellid darparu rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau i fywiogi'r farchnad a thrawsnewid y ffordd y mae cwsmeriaid yn rhyngweithio â ni. Crëwyd proses trafodion eiddo ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau a'u profi gyda darparwyr rheoli achosion, er mwyn gallu deall o'r gymuned pa fuddion y gallai'r rhain eu cynnig. Trawsnewidiodd y cysyniad hwn y broses drawsgludo. Byddai Cofrestrfa Tir EM yn darparu data am eiddo yn gynharach o lawer yn y broses drawsgludo. Mae hyn yn golygu y gellid dilysu yn gynharach a bod unrhyw wallau yn cael eu nodi ac yn cael sylw cyn cwblhau. Cafodd y casgliadau eu dogfennu a'u rhannu ac maent wedi mynd ymlaen i lunio'r map ffordd a'r penderfyniadau ar gyfer ein sianel rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau, Business Gateway, yn y dyfodol.




Ymddangosodd Eddie Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol, ar BBC Click ym Mawrth 2021

## Mwy o ddata, haws eu defnyddio

Mae datgloi gwerth ehangach data tir ac eiddo yn parhau i fod yn elfen allweddol o'n huchelgeisiau yn y dyfodol i fod yn sefydliad seiliedig ar ddata mwyaf blaenllaw yn y byd.


Ym Mawrth 2020 lansiwyd ein platfform cyhoeddi data newydd, Defnyddio data tir ac eiddo, gan letya 10 set ddata a thrwyddedau cysylltiedig mewn un lle am y tro cyntaf. Mae'r gwasanaeth wedi gwella hygyrchedd ac wedi galluogi trwyddedu electronig ac integreiddio rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau llawn, sy'n gwella argaeledd a hygyrchedd ein deallusrwydd eiddo yn fawr iawn.

Yng Ngorffennaf 2020 ychwanegwyd y setiau data prydlesi cofrestredig a chyfamodau cyfyngu. Cyhoeddwyd y ddau o dan ystod o drwyddedau sy'n cynnwys telerau rhad ac am ddim ar gyfer defnyddiau personol ac ymchwil, trwydded fasnachol ar gyfer defnydd busnes, a 'thrwydded archwilio' wedi ei theilwra i feithrin datblygiad cynhyrchion a gwasanaethau newydd ac sy'n cael eu datblygu trwy ganiatáu i gwsmeriaid brofi cyfleoedd yn rhad ac am ddim am dri mis.

Mae'r setiau data, sydd ar gael trwy'r gwasanaeth Defnyddio data tir ac eiddo, yn gam mawr o ran gwireddu'r potensial economaidd ehangach yn ein data gan alluogi arloesedd mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig ag eiddo yr un pryd.

Mae sefydliadau wedi gallu cyfuno'r data ag amrywiaeth o wybodaeth o ffynonellau eraill (fel yr Arolwg Ordnans a Thŷ'r Cwmnïau) a chreu cyfres o bortholau eiddo a chynllunio. Gall tanysgrifwyr ddelweddu eiddo ar fap (wedi ei wella trwy amlyncu polygonau Cofrestrfa Tir EM), pennu addasrwydd yr eiddo ar gyfer prisiad awtomataidd, sefydlu proffil risg (fel a oes cyfamod cyfyngu ar y teitl?), asesu sawl blwyddyn sydd ar ôl ar dymor y brydles a gwahaniaethu rhwng lesddeiliaid tymor byr a thymor hir wrth ddadansoddi cofnodion perchnogaeth adeiladau.

Mae'r set ddata prydlesi cofrestredig yn cynnwys cyfeirnodau eiddo unigryw (UPRNs) a oedd ar gael o dan Gytundeb Geo-ofodol Sector Cyhoeddus y Comisiwn Geo-ofodol yn yr un mis, gan nodi'r cam diweddaraf mewn dull cydweithredol traws-sefydliadol i gefnogi'r economi trwy ddata tir ac eiddo.



Llun: pikcha/Shutterstock

## Chwilio am wybodaeth tir ac eiddo

Boed yn brisiau neu'n berchnogaeth, nid yw'r sgwrs genedlaethol byth yn bell i ffwrdd o eiddo, ac mae Cofrestrfa Tir EM yn dal llawer o'r data sy'n sail i'r cyfan. O bobl a sefydliadau sydd am wybod pwy sy'n berchen ar ddarn o dir i gwmnïau eiddo tiriog sy'n cynhyrchu eu mynegeion prisiau tai a newyddiadurwyr sy'n darganfod faint mae tŷ yn ei gostio, mae miloedd yn edrych ar ein data bob dydd am lu o resymau. Mae'n helpu i gefnogi'r economi ac yn asgwrn cefn diwydiannau sy'n gysylltiedig ag eiddo.

Cafodd ein gwasanaeth *Defnyddio data tir ac eiddo* fwy na 1.2 miliwn o chwiliadau yn ei flwyddyn gyntaf. Mae'r cyfleuster newydd hwn yn hawdd ei ddefnyddio ac yn borthol i unrhyw un gael hyd i'r wybodaeth y mae ei hangen arnynt, mewn swmp, fel prisiau tai, perchnogaeth neu wybodaeth arall.

*"Cyn hyn, proses â llaw oedd hi i raddau helaeth gyda setiau data wedi eu storio mewn systemau gwahanol. Erbyn hyn mae'r setiau data yn cael eu storio mewn lleoliad canolog ac mae'r rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau yn ei gwneud hi'n hawdd i awtomeiddio, gan arbed amser inni a sicrhau bod gennym ni'r wybodaeth ddiweddaraf bob tro. Roeddem ni'n hoffi sut mae Cofrestrfa Tir EM wedi ymgysylltu â ni, gan roi gwybod inni ymlaen llaw am nodweddion newydd neu newidiadau a gwrando ar ein barn. "*

**Adem Certel, Partner, Dadansoddwr Data, Knight Frank**

## Defnyddio data tir ac eiddo

*"Mae'r gwasanaeth newydd yn symleiddio'r broses o sefydlu defnyddiwr a lawrlwytho data. Mae allwedd mynediad rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau a'r gallu i awtomeiddio lawrlwytho setiau data misol yn gam ymlaen y dylai holl gyrff y llywodraeth geisio ei efelychu. Mae'n flaengar ac yn symud gyda'r oes, chwa o awyr iach."*

**Tom Plews, Cyfarwyddwr, Arloesi yn CLS Data**

## Partneriaeth gyda'r Comisiwn Geo-ofodol

Fel un o chwe chorff partner y Comisiwn Geo-ofodol (Geo6), rydym wedi bod yn rhan annatod o'r Rhaglen Gwella Data, sy'n gydweithrediad traws-sefydliadol mewn perthynas â gwella data, mwy o gyfathrebu a rhannu syniadau ac arfer gorau. Bydd ymgorffori'r canlyniadau o'r rhaglen yn symud y DU gam yn nes at gyflawni'r amcan "Gwella mynediad at ddata lleoliad gwell".

O ganlyniad i'r cydweithredu, erbyn hyn:

- mae gennym drwyddedau cliriach sy'n cyfateb â'r holl gyrff partner, gan greu dull cyson i ddefnyddwyr y data a lleihau'r risg o gamddefnyddio data;
- mae gennym gatalog data cyffredin wedi ei symleiddio, gan ddarparu gwybodaeth graidd am y setiau data geo-ofodol rydym yn eu dal a'u rheoli. Mae'r catalog hwn ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored;
- rydym wedi darparu adnodd gwerthfawr i'r prosiectau ac wedi chwarae rôl ganolog wrth gyflwyno Strategaeth Geo-ofodol y DU, trwy'r data geo-ofodol sydd gennym a'n harbenigedd helaeth; ac
- rydym wedi arwain ar brosiect i archwilio'r gwerth y gellid ei gynhyrchu yn y diwydiant tai a chynllunio trwy gael mynediad gwell at ddata. Mae'r prosiect wedi creu prototeip sy'n dangos sut y gellir defnyddio'r data geo-ofodol sydd gennym i ddod â buddion economaidd ehangach, yn yr achos hwn gwybodaeth am orchymyn diogelu coed o ddata Pridiannau Tir Lleol.

Mae'r achos dros bwysigrwydd data geo-ofodol wedi parhau i gael ei wneud yn ystod pandemig COVID-19. O ddosbarthu bwyd a chyflenwadau i brofi ac olrhain a chyflwyno'r brechlyn ar lefelau lleol a chenedlaethol, yn sail i'r holl weithgarwch hwn yw data agored ac arloesi. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi parhau â'i hymdrechion i fod yn fodel rôl yn y weledigaeth ehangach honno ac yn ein gwaith gyda'r Comisiwn Geo-ofodol hyd yn hyn. Ein nod ar gyfer y dyfodol yw mabwysiadu dull mwy cynaliadwy tuag at ein strategaeth cyhoeddi data a'n trawsnewidiad geo-ofodol. Byddwn yn parhau i weithio gyda chyrff partner a'r comisiwn i helpu i ddiffinio llwyddiant o ran data ac ansawdd gwell a haws eu canfod, hygyrch, rhyngweithredol ac y gellir eu hailddefnyddio, yn unol â chonglfeini'r Strategaeth Ddata Genedlaethol.

## Carfannau Geovation

Cenhadaeth y rhaglen Geovation Accelerator yw helpu i lansio a thyfu datrysiadau arloesol ar gyfer heriau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n harneisio pŵer data a thechnoleg. Mewn partneriaeth â'r Arolwg Ordnans, mae Cofrestrfa Tir EM wedi bod yn cefnogi trac PropTech, sy'n darparu o leiaf chwe mis o gefnogaeth â ffocws. Ers Hydref 2017 rydym wedi cefnogi 24 o gwmnïau trwy'r rhaglen ar draws chwe charfan. Ymunodd y garfan ddiweddaraf yn Ebrill 2021 ac, fel eu rhagflaenwyr, byddant yn derbyn y gefnogaeth ganlynol.

- Mentoriaid – cefnogaeth arbenigol gan arweinwyr diwydiant.
- Cyllid – grant o £10,000 dros chwe mis.
- Gweithfannau – 12 mis o le desg pwrpasol.
- Data – mynediad at setiau data Arolwg Ordnans, Cofrestrfa Tir EM a phartneriaid.
- Datblygu cynnyrch – timau datblygu darbodus ac ystwyth
- Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus – hyrwyddo a marchnata gweithredol.
- Datblygiad proffesiynol – gweithdai a sesiynau 1:1.
- Datblygiad personol – hyfforddiant cyflwyno ac annerch.

Mae'r cwmnïau rydym wedi eu cefnogi wedi parhau i dyfu a ffynnu, gan gefnogi'r economi a'r diwydiant ehangach a dod ag arloesedd i'r farchnad. Er enghraifft, mae Thirdfort, rhan o raglen gwanwyn 2018, bellach yn helpu i lunio trawsgludo yn y dyfodol trwy ei blatfform cadarnhau hunaniaeth ddigidol.


# Cwrdd â’r garfan Geovation newydd

## Carfan gwanwyn 2020




**Building Passport** Mae’r system basbort yn cynnig modd storio, trefnu a rhannu gwybodaeth adeiladu. Wedi ei ddatblygu gydag arweiniad gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, cwmnïau rheoli adeiladu blaenllaw ac arbenigwyr o’r farchnad yswiriant ac eiddo, mae’n ceisio lleihau’r risgiau o drychineb a gwneud i ddeiliaid deimlo’n fwy diogel yn yr eiddo tiriog y maent yn byw ynddo a’i ddefnyddio.

Mae cynllun peilot parhaus gyda Thân ac Achub Surrey yn dylanwadu ar gyfeiriad y platfform yn y dyfodol. Mae gwelliannau i’r amgylchedd adeiledig yn addo bod yn sylweddol wrth i’r cynllun gael ei gyflwyno ar draws y DU.




Mae **Staze**, OneStay cyn hynny, yn ap bwcio munud olaf, wedi ei leoli yn y DU sy’n dangos argaeledd eiddo ar rent dros gyfnod o bythefnos. Ei nod yw ei gwneud hi’n rhatach, yn haws ac yn gyflymach i gwsmeriaid bwcio teithiau ac i helpu rheolwyr eiddo i gael y ddeiliadaeth a’r elw mwyaf posibl trwy gyrraedd gwesteion newydd i lenwi bylchau yn y calendrau bwcio. Dros y chwe mis diwethaf, mae’r ap newydd wedi codi £500,000 i adeiladu tîm o chwe aelod o staff amser llawn





Mae **Occubly** wedi bod yn gweithio gyda darparwyr tai i greu cymwysiadau pwrpasol sy’n ei gwneud hi’n haws i reoli, dadansoddi a defnyddio setiau data cymhleth. Mae’r busnes newydd yn helpu landlordiaid cymdeithasol a chorfforaethol mawr i harneisio data i wella boddhad tenantiaid, perfformiad busnes a chydymffurfiaeth. Mae ffrydiau gwaith yn cynnwys datrysiad llety dros dro i leihau amser rheoli a chynyddu effeithlonrwydd a neilltuo tai i bobl agored i niwed, fel rhan o wasanaeth modern sy’n cefnogi cymunedau lleol.

GEOVATION




# Cwrdd â'r garfan Geovation newydd


## Carfan hydref 2020




Mae **Sail Homes** yn cynnig proses werthu hwylus heb straen i berchnogion tai gan osgoi'r meini tramgwydd cyffredin sy'n gysylltiedig â gwerthu eiddo. Mae gwerthu eiddo heb gadwyn yn dal i gymryd tua phedwar mis a hanner o'r cynnig i gyfnewid. Mae Sail Homes wedi creu ymagwedd "dim cadwyn, dim poen" at werthu. Ar y diwrnod y mae cwsmer yn cyfarwyddo Sail, bydd y cwmni'n cychwyn y broses gyfreithiol, yn paratoi'r ddogfennaeth, yn archebu chwiliadau ac yn gwneud ymholiadau. Mae Sail yn nodi bod gwerthiannau, ar gyfartaledd, yn cael eu cwblhau cyn pen 57 diwrnod ar ôl i gleientiaid dderbyn cynnig, gyda'r gwerthiant cyflymaf yn cymryd 22 diwrnod. Yn 2021, bydd Sail yn ychwanegu gwasanaethau cyfreithiol at ei bortffolio busnes, gan dargedu pedair wythnos ar gyfartaledd i drawsgludo.





Platfform ar-lein yw **adoor** Platfform sy'n dwyn ynghyd prynwyr, gwerthwyr, trawsgludwyr a gwerthwyr tai i olrhain y broses trafodion eiddo. Mae Adoor yn canolbwyntio ar gyfathrebu a rhannu gwybodaeth, gan geisio darparu dangosfwrdd sy'n grymuso asiantau a thrawsgludwyr trwy ddileu ymholiadau ailadroddus, gan alluogi pawb dan sylw i ganolbwyntio ar gwblhau trafodion yn gyflymach a sicrhau profiad hwylus i brynwyr a gwerthwyr.




Mae **Mappin Technologies** yn datblygu datrysiadau meddalwedd ar gyfer adeiladau mawr, gan gynnig ap ffôn clyfar sy'n helpu ymwelwyr i ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas safle – 'Google Maps i'w defnyddio dan do' – sy'n hwyluso hygyrchedd ac yn darparu ffordd uniongyrchol i dynnu sylw staff at unrhyw risgiau sy'n codi yn y gofod. Mae'r ap yn cynhyrchu data dienw ar lif defnyddwyr sy'n cael ei fwydo i mewn i feddalwedd dadansoddeg lleoliad i lywio neilltuo gofod a staff ar gyfer strategaethau gwerthu, marchnata, ynni a diogelwch.




# Carfan gwanwyn 2021





Mae **Digihome** yn system gartref glyfar sy'n dwyn popeth at ei gilydd ar gyffyrddiad botwm fel goleuo, gwresogi, clyweled, rhyngrwyd a diogelwch.

Gyda nodweddion aml-ystafell, a'r gallu i rannu gydag unrhyw un yn y cartref, mae'n ffordd gyfleus a syml o ddal y wybodaeth gywir sy'n helpu i arbed amser ac arian o gwmpas y cartref.




Mae **NOCO Energy** yn arbenigo mewn agregu a phrosesu data i gyflymu datgarboneiddio trwy weithio'n agos gyda datblygwyr prosiectau ynni adnewyddadwy a chronfeydd buddsoddi i roi data gwneud penderfyniadau hanfodol iddynt. Maent yn defnyddio data geo-ofodol mawr i nodi cyfleoedd yn y farchnad datblygu solar. Mae llwyddiant diweddar yn y maes hwn wedi arwain at y galw am ddatrysiad mwy awtomataidd y gellir ei addasu wrth raddfa ar gyfer integreiddio mwy a mwy o ddata.




Mae **SearchLand** yn ap gwe data eiddo a chynllunio seiliedig ar fapiau ar gyfer datblygwyr, cynllunwyr, penseiri a buddsoddwyr tymor byr a chanolig i wneud penderfyniadau gwybodus am eiddo a thir.

Mae'n cwmpasu gwybodaeth helaeth gan gynnwys ffiniau teitl a pherchnogaeth, perchnogaeth tir yn y DU, chwiliadau perchnogaeth cwmnïau, gwerthoedd marchnad hanesyddol a chyfredol ar gyfer pob math o eiddo yn Lloegr, dadansoddi ceisiadau cynllunio a haenau mapiau.



# Creu'r diwylliant ar gyfer llwyddiant

**Simon Morris** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol





**Simon Morris** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol


> **"Mae ein sgôr ymgysylltu gyffredinol bellach yn yr 20 uchaf ar draws sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil ac yn sylweddol uwch o'i gymharu ag adrannau tebyg eraill, sy'n llwyddiant anhygoel. Cofnodwyd naid debyg yn ein sgorau arweinyddiaeth a rheoli newid hefyd felly rydym am ddysgu o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda ac adeiladu ar y cynnydd rydym wedi ei wneud."**

Am bron i 160 o flynyddoedd rydym wedi darparu'r ffydd a'r hyder y mae eu hangen ar y farchnad eiddo a'r economi trwy ein harbenigedd ac unplygrwydd ym mhopeth a wnawn. Mae'r ymdeimlad hwn o hanes a phwrpas yn sail i'n gwerthoedd a diwylliant y sefydliad.


Y diwylliant hwn sydd wedi sicrhau bod ein pobl wedi wynebu heriau'r flwyddyn ddiwethaf, gan ddod o hyd i atebion creadigol yn yr amgylchiadau mwyaf anodd ac ar adeg pan na fu iechyd, llesiant a harneisio doniau pawb erioed mor bwysig.

Yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2020 cofnodwyd ein sgorau uchaf erioed. Mae ein cyfanswm sgorau ar gyfer wyth o'r naw thema yn yr arolwg wedi eu rhestru yn y categori 'perfformwyr uchel'

**Sgôr Mynegai Ymgysylltu**




**Arweinyddiaeth a Rheoli Newid**




**Sgôr Mynegai PERMA 74%**

*(Cyfartaledd y Gwasanaeth Sifil 73%)*

Mae Model PERMA yn cynrychioli pum elfen graidd hapusrwydd a llesiant.

Mae ein sgôr ymgysylltu gyffredinol bellach yn yr 20 uchaf ar draws sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil ac yn sylweddol uwch o'i gymharu ag adrannau tebyg eraill, sy'n llwyddiant anhygoel. Cofnodwyd naid debyg yn ein sgorau arweinyddiaeth a rheoli newid hefyd felly rydym am ddysgu o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda ac adeiladu ar y cynnydd rydym wedi ei wneud.

Adlewyrchwyd y ffocws ar sicrhau diogelwch a llesiant ein pobl yn ein sgôr mynegai PERMA, a gododd yn uwch na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil i 74%, gyda'n hymateb llesiant i COVID-19 yn cael ei gydnabod ar draws y llywodraeth fel un sy'n batrwm i eraill. Cawsom gydnabyddiaeth diwydiant hefyd, gan sicrhau gwobr efydd yng Ngwobrau Profiad Gweithwyr y DU 2021 yn y categori'r Cwmni Gorau sy'n Canolbwyntio ar Weithwyr.

## Ffordd newydd o weithio

Er nad oedd y mwyafrif helaeth o'n staff erioed wedi gweithio o gartref o'r blaen, maent wedi croesawu technoleg gweithio o bell gyda chyfarfodydd, digwyddiadau a sesiynau hyfforddi rhithiol. Mae defnyddio'r dechnoleg hon yn ein galluogi i gyrraedd pobl yn gyflymach ac mae ein dulliau creadigol yn hwyluso rhyngweithio gwell a'r gallu i ymgysylltu ag arweinwyr i raddau mwy nag erioed o'r blaen. Rydym wedi cynnal mwy na 70 o sesiynau holi ac ateb rhithiol. Mae 1,000 o gydweithwyr ar gyfartaledd yn mynychu ein digwyddiadau cenedlaethol misol gyda'r Prif Weithredwr, Simon Hayes, tra bo sesiwn gyda Bwrdd y Cofrestrfa Tir EM wedi denu tua 1,700. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol yn gyffredinol, gyda sgôr ffafrioldeb o fwy na 90% a derbyniwyd sylwadau fel:

*"Rwy'n hoffi'r ffaith bod ein harweinwyr yn hapus i gael eu holi gan staff a bod llesiant staff yn rhywbeth y maen nhw'n wirioneddol poeni amdano."*

Mae'r arloesiadau hyn yn gosod y sylfeini ar gyfer newidiadau mwy uchelgeisiol i'r ffordd rydym yn gweithio, gyda model cyfunol yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r rhaglen Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol, sy'n ceisio trawsnewid ein gweithleoedd, ein technoleg a'n harferion, gan roi pobl a diwylliant wrth wraidd hyn i gyd. Rhannodd mwy na 10% o'r gweithlu eu barn a helpu i lunio'r cynlluniau cynnar fel rhan o'r cam darganfod. Rydym hefyd wedi annog pawb i gymryd rhan mewn sgwrs dros fis am ffyrdd newydd o

weithio. Rydym wedi gwrando ar adborth ac o ganlyniad, mae fframwaith yn cael ei ddatblygu i gefnogi gwneud penderfyniadau ynghylch pryd a ble i weithio sydd nid yn unig yn ystyried dewisiadau busnesau ac unigolion ond sydd hefyd yn sicrhau bod gennym yr hyblygrwydd i addasu a darparu gwasanaethau yn y blynyddoedd i ddod.

## Adeiladu timau gwych

Rydym wedi parhau i adeiladu a chynnal y gweithlu dawnus y mae ei angen arnom i ddarparu gwasanaethau cofrestru tir arbenigol, gan recriwtio 872 o gydweithwyr, gan gynnwys i rolau gweithredol hanfodol. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant parhaus gyda phrosesau'n cael eu haddasu i ddarparu ar gyfer cynnal cyfweliadau o bell.

Cafodd cyfres o raglenni datblygu digidol ei chychwyn yn canolbwyntio ar reoli ac arwain o bell, 'The Art of Being Brilliant', ac rydym yn datblygu rheoli ar ddull hyfforddi i alluogi ein cydweithwyr i gyrraedd eu potensial llawn a gwneud y mwyaf o'u perfformiad. Cynhaliwyd mwy na 6 sesiwn ar-lein, gan ddenu 1,533 o fynychwyr. Fe symudon ni i sesiynau ymsefydlu o bell hefyd ar gyfer y dechreuwyr newydd a ymunodd â'r sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae datblygu galluogrwydd ar bob lefel wedi cynnwys lansio Academi Cofrestru Tir technegol, fel rhan o fframwaith dysgu ehangach sy'n canolbwyntio ar adeiladu a phroffesiynoli gwybodaeth ac arbenigedd cofrestru tir ar draws y sefydliad. Yn ogystal â hybu ein galluogrwydd gweithredol, rydym yn parhau i fuddsoddi a chryfhau ein gwasanaethau cymorth, gan greu swyddogaeth ddadansoddi newydd a hybu ein harbenigedd mewnol o ran cynllunio a strategaeth.

Rydym wedi canolbwyntio'n helaeth ar iechyd a llesiant i gynnig cymorth i gydweithwyr pan fydd ei angen arnynt fwyaf. Mae darparu hyblygrwydd o ran sut a ble maent yn gweithio wedi sicrhau ein bod yn parhau i ateb anghenion ein cwsmeriaid ac mae wedi atgyfnerthu diwylliant sy'n cydnabod bod pobl yn llwyddo orau pan fydd eu hanghenion llesiant yn cael eu hateb.

## Creu cymuned gynhwysol

Rydym wedi parhau i feithrin perthnasoedd ar draws cyfarwyddiaethau, graddau a lleoliadau gyda'n rhwydweithiau amrywiaeth mewnol ac wedi gweithio gyda'n cydweithwyr du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i wella amrywiaeth y gweithlu trwy gynlluniau recriwtio a dilyniant mewnol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o faterion hil yn y gwaith trwy wella cyfathrebu ac ymgysylltu â staff.

Mae'r Rhwydwaith Gweithwyr Anabl a'r tîm Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol wedi bod yn archwilio sut y gallai patrymau gwaith newydd effeithio ar y rhai sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw, tra bod Rhwydwaith y Merched wedi cefnogi ymgyrchoedd ehangach ynghylch rhyw, ynghyd â darparu cymorth gyda'r menopos i gydweithwyr. Mewn blwyddyn heriol, bu ffocws ar roi cymorth i unigolion lle bo angen, fel y bobl hynny sy'n gwarchod eu hunain gartref.

Mae ein rhwydweithiau wedi chwarae rôl amhrisiadwy ar gyfer eu haelodau ar yr adeg hon ac wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r heriau a wynebant. Ysgrifennodd aelod o'n Rhwydwaith Sicrwydd (a elwid yn flaenorol yn LGBTI (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, rhyngrywiol)+) flog am iechyd meddwl, ac mae cydweithwyr o Rwydwaith y Gofalwyr wedi rhannu straeon am gefnogi eu teuluoedd yn ystod y cyfnod clo.

Rydym am greu gweithlu ar gyfer y dyfodol ac wedi treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn datblygu ein hymagwedd at gynhwysiant, gan sicrhau ei fod yn cyfateb â'n model diwylliant. Rydym wedi lansio strategaeth newydd sy'n amlinellu ein gweledigaeth ac sy'n canolbwyntio ar wella ein sylfaen dystiolaeth yn ogystal â datblygu gwybodaeth a sgiliau i gefnogi ein nodau.

Cyflawnwyd y llwyddiannau hyn trwy gyfnod lle bu'n rhaid inni addasu yn ôl ffactorau allanol a chyflymu ein hymagweddau at ddatblygu ein diwylliant. Mae'r pandemig wedi dangos inni yr hyn y gallwn ei wneud, ond yr her nawr yw sut rydym yn dal yr ysbryd hwnnw o arloesi a darparu gwasanaethau yn y tymor hwy.

Gan adeiladu ar lansio ein datganiad diwylliant yn 2019, rydym wedi datblygu model newydd sy'n nodi'r camau tuag at gyflawni'r diwylliant rydym yn anelu ato. Rydym yn glir mai dim ond trwy greu amgylchedd lle gall ein holl bobl ffynnu y byddwn yn gallu cyflawni ein huchelgeisiau i wirioneddol drawsnewid y farchnad eiddo.


# Mynd yn ddigidol gyda datblygiad

Roedd dysgu arloesol ar-lein a defnyddio offer digidol wedi ysgogi dysgu a datblygu cydweithwyr tra eu bod yn gweithio o gartref, gan gyrraedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen ac am gost llawer is.

Dechreuon ni trwy alluogi mynediad ffonau clyfar i'n porthol dysgu Learnhub a thrawsnewid ein cynnwys personol traddodiadol ar gyfer fformatau digidol. Ailwampiwyd rhaglenni ymsefydlu corfforaethol, digwyddiadau hyfforddi a rhaglenni datblygu.

Er mwyn helpu rheolwyr i reoli timau o bell cynhaliwyd gweithdai a digwyddiadau rhithiol – gan ddefnyddio offer ystafell ddosbarth rhithiol fel Adobe Connect a Microsoft Teams.

Ehangwyd ein fframwaith datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth a darparwyd rhaglenni datblygu gan ddefnyddio offer fel gweminarau a phodlediadau Zoom, yn ogystal â thechnolegau dysgu rhithiol oedd yn annog cydweithredu.




Arweiniodd ein dull gweithio at gynnydd o 11% yng nghanlyniad yr Arolwg Pobl ar gyfer dysgu a datblygu, mwy na 5,000 o fynychwyr ar sesiynau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gweithdai a rhaglenni ymsefydlu i reolwyr, a miloedd yn darllen ein cylchlythyr datblygu misol rhyngweithiol.

Canolbwyntiodd gweithdai rhithiol fel rhan o'n Rhaglen Datblygu Staff Ddigidol ar wyddor seicoleg gadarnhaol ac roedd yr ymateb i'r sesiynau yn gadarnhaol dros ben gyda sylwadau fel "Diolch yn fawr, hollol ysbrydoledig" ac "Wedi mwynhau hyn yn fawr, methu aros am y rhai nesaf"

# Codi ysbryd trwy ymdeimlad o gymuned

Chwaraeodd ein rhwydwaith chwaraeon a chymdeithasol llwyddiannus LR Leisure rôl ganolog wrth gadw pobl mewn cysylltiad pan oeddent yn gweithio o gartref, trefnu gweithgareddau iechyd a llesiant ar gyfer ein pobl. Roedd y rhain wedi cynnig gwir deimlad o berthyn a chymuned yn ystod cyfnod o gyswllt cymdeithasol cyfyngedig i lawer.


Mae ein gwirfoddolwyr, yn lleol ac yn genedlaethol, wedi bod yn hollol ysbrydoledig yn y gwaith a wnânt i godi calonnau pawb.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi symud ar-lein i gysylltu ein gweithlu mewn ffyrdd newydd a gwahanol. Mae ein cwisiau rhithiol misol wedi cynnwys eitemau gan ein Prif Weithredwr a'n cyfarwyddwyr. Rydym wedi cynnal heriau iechyd a llesiant misol gyda 300 i 700 yn cofrestru bob mis, wedi rhedeg ein fersiwn ein hunain o'r Eurovision Song Contest ac wedi cynnal Parti Nadolig rhithiol a fynychwyd gan fwy na 600 o bobl.

Mae gennym galendr digwyddiadau prysur wedi ei drefnu ar gyfer 2021, sy'n cyfuno gweithgareddau wyneb yn wyneb a rhithiol wrth inni barhau i ddathlu ein pobl.


















# Dadansoddiad perfformiad ac adolygiad ariannol

## **Iain Banfield** Prif Swyddog Ariannol



Mae 100 Bishopsgate yn Ninas Llundain yn ddatblygiad masnachol defnydd cymysg wedi ei gwblhau yn 2019 ac wedi ei ddylunio gan Allies and Morrison ac Arney Fender Katsalidis, sy'n mesur 187 metr. Mae'r adeilad 40 llawr yn trawsnewid o fod yn baralelogram ar y gwaelod, oherwydd cynllun y strydoedd canoloesol gwreiddiol o'i gwmpas, i fod yn betryal ar y brig. Mae'r adeilad wedi ei gofrestru'n rhydd-ddaliad i'r Leathersellers' Guild o dan gasgliad o deitlau gwahanol. Mae Swyddfa Penbedw newydd gwblhau prydlesi ar gyfer lloriau 20-32 ar ran Freshfields Bruckhaus Deringer, un o gwmnïau cyfreithiol mwyaf y DU. Llun: Commission Air/Alamy



Iain Banfield Prif Swyddog Ariannol

"Rydym hefyd wedi buddsoddi'n helaeth yn ein capasiti trwy gynyddu nifer y gweithwyr achos a gyflogwn a'r swyddogaethau cymorth ehangach y mae eu hangen i weithredu fel adran o'r llywodraeth ganolog. Rydym wedi gwella effeithiolrwydd ein systemau ac wedi cefnogi datblygiad ein pobl."

## Newid statws

Yn unol ag ailddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, di-rymwyd statws masnachu Cofrestrfa Tir EM ar 1 Ebrill 2020. Mae hyn yn golygu bod Cofrestrfa Tir EM yn 2020/21 wedi ei hariannu trwy'r broses Amcangyfrifon Seneddol fel rhan o'r llywodraeth ganolog. Mae hyn wedi newid edrychiad a theimlad ein hadroddiad ariannol gyda gwariant bellach yn cael ei adrodd trwy'r cyfrifon adnoddau yn erbyn y cyfansymiau rheoli a osodwyd gan Drysorlys EM. Mae'r holl ffïoedd, taliadau ac incwm masnachol bellach yn cael eu dal trwy ein Datganiad Ymddiriedolaeth a'u hildio i Drysorlys EM. Gellir gweld datganiadau ariannol manwl ar gyfer y ddau ar dudalennau 93-96 a thudalennau 121-123.

Mae'r datganiadau ariannol newydd yn golygu bod angen ailddatgan symiau cymharol y flwyddyn flaenorol a adroddwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon diwethaf. Mae Nodyn 18 i'r cyfrifon adnoddau yn amlinellu'r ailddatganiad hwn yn fwy manwl.

## Crynodeb ariannol

Efallai bod ein statws wedi newid ond nid yw ein huchelgais craidd wedi newid. Roedd ein prif amcan ariannol wedi parhau yn 2020/21, sef cydbwyso buddsoddiad yn y capasiti a'r galluoedd tymor byr y mae eu hangen arnom i wasanaethu'r galw o ddydd i ddydd am ein gwasanaethau, ochr yn ochr â'r trawsnewidiad tymor hwy sy'n ofynnol i'n helpu i fod y gofrestrfa tir fwyaf blaenllaw yn y byd rydym yn anelu at fod.

Rwy'n falch i ddweud ein bod wedi ymateb yn llwyddiannus i'r heriau hyn. Rydym hefyd wedi buddsoddi'n helaeth yn ein capasiti trwy gynyddu nifer y gweithwyr achos a gyflogwn a'r swyddogaethau cymorth ehangach y mae eu hangen i weithredu fel adran o'r llywodraeth ganolog. Rydym wedi buddsoddi'n helaeth yn ein gallu trwy wella effeithiolrwydd ein systemau ynghyd â chefnogi datblygiad ein pobl trwy raglenni megis Brilliant Teams, Inspiring Leaders. Rydym wedi gwneud hyn trwy alluogi ein pobl a'n cwsmeriaid i weithio mewn ffyrdd newydd trwy gyflwyno gweithio o gartref i nifer helaeth o bobl ar gyfer mentrau marchnad gan gynnwys cyflwyno e-lofnodion. Ac rydym wedi rheoli hyn i gyd gan gadw o fewn y rheolaethau gwariant newydd a osodwyd gan Drysorlys EM cyn dechrau'r pandemig.

## Adolygiad o'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol

| Tabl cryno 2020-21 | Alldro | Cyllideb Amcangyfrif Atodol |
|---|---|---|
| **Mewn £000** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | |
| Adnoddau | 332,700* | 346,357 |
| Cyfalaf | 32,160 | 40,211 |
| **Cyfanswm** | **364,860** | **386,568** |
| | | |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | |
| Adnoddau | (858) | 22,000 |
| Cyfalaf | - | - |
| **Cyfanswm** | **(858)** | **22,000** |
| | | |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **331,842** | **368,357** |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **32,160** | **40,211** |
| **Cyfanswm Gwariant Cyllideb** | **364,002** | **408,568** |

* Cysoni i alldro y Datganiad o Wariant Net Cyfunol o £381.8m trwy ychwanegu Cymorth Grant Cyfalaf (£52.8m) (gweler tudalen 47 Trosglwyddo asedau) a Gwariant a Reolir yn Flynyddol (-£0.9m), heb gynnwys incwm heb ei gyllidebu (£2.8m).

Cafodd ein tanwariant adnoddau a chyfalaf yn erbyn y gyllideb ei ysgogi gan oedi penodol i wariant a chostau gweithredu is o ganlyniad i COVID-19.

Er inni gynyddu nifer y gweithwyr achos yn ystod y flwyddyn, gohiriwyd eu recriwtio a'u cynnwys wrth inni fenthyg dros 200 o recriwtiaid newydd i'r Adran Gwaith a Phensiynau i gefnogi'r ymateb traws-lywodraeth ehangach i'r pandemig. Yn ogystal, cafwyd costau gweithredu is, o'u cymharu â'r gyllideb, wrth inni addasu ein ffyrdd o weithio yn sgil y cyfnod clo cyntaf. Golyga hyn ein bod wedi tanwario yn erbyn cyfansymiau rheoli Terfynau Gwariant Adrannol Adnoddau a Therfynau Gwariant Adrannol Cyfalaf o £13.7m a £8.1m yr un.

## Adolygiad ariannol o'r Cyfrifon Adnoddau

Fel rhan o'r newidiadau i'n statws rydym wedi cynhyrchu Datganiad o Wariant Net Cyfunol (SoCNE) sy'n cyfrif am wariant yn unig am y tro cyntaf. Cyn hynny, ym mlwyddyn ariannol 2019/20, roeddem wedi cyfrif am incwm a gwariant mewn un datganiad.

| | 2020/21<br>£m | Ailddatganwyd 2019/20<br>£m |
|---|---|---|
| **Costau staff** | 243.7 | 225.9 |
| **Prynu nwyddau a gwasanaethau** | 70.5 | 65.9 |
| **Taliadau dibrisio ac amorteiddio*** | 11.8 | 9.0 |
| **Taliadau indemniad ar gyfer indemnio gan gynnwys costau cyfreithiol**** | 5.6 | 5.4 |
| **Cyfanswm Gwariant Gweithredu** | 331.6 | 306.2 |
| **Incwm/treuliau ariannu** | 0.6 | (1.1) |
| **Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu** | - | (3.1) |
| **Gwariant adnoddau net am y flwyddyn** | 332.2 | 302.0 |
| **Darpariaethau eraill a ddefnyddiwyd** | 0.5 | 2.1 |
| **Cyfanswm adnoddau Terfynau Gwariant Adrannol** | 332.7 | 304.1 |


* Heb gynnwys amhariad a godir i Wariant a Reolir yn Flynyddol.

** Heb gynnwys symudiadau yn y ddarpariaeth indemniad (wedi eu dosbarthu fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol).

## Costau staff

Rydym wedi recriwtio mwy o gydweithwyr arbenigol ac wedi ariannu mwy o oramser i helpu i reoli'r galw. Cynyddodd ein cyfrif pennau cyfwerth ag amser llawn cyfartalog o 5,136 i 5,503 ar 31 Mawrth 2021. Cyfrannodd hyn at gynnydd mewn costau staff ar gyfer ein gweithgarwch busnes fel arfer, gan godi o £225.9m yn 2019/20 i £243.7m yn 2020/21.

## Prynu nwyddau a gwasanaethau




Y meysydd gwariant allweddol a'u symudiadau o 2019/20 oedd:

— gwasanaethau TG, gan gynnwys cynnal a chadw offer a thrwyddedau, wedi cynyddu o £14.9m i £16.1m yn 2020/21, gan adlewyrchu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithredu gweithio o gartref ar gyfer mwy na 5,500 o staff a'r costau TG sy'n gysylltiedig â chyflawni ein rhaglen drawsnewidi;

— gwasanaethau proffesiynol, sydd wedi cynyddu o £9.2m i £10.3m yn 2020/21 yn unol â gweithgareddau trawsnewid ychwanegol. Mae hyn yn ymwneud i raddau helaeth â gwariant trwy ein partneriaid cyflenwi digidol; a

— chostau llety, a gynyddodd gan £2.9m i £18.9m yn rhannol o ganlyniad i fuddsoddiad un-tro mewn gwneud swyddfeydd yn COVID diogel a mwy o gostau glanhau.

## Dibrisiant, costau ariannu a thaliadau indemniad

Cynyddodd dibrisiant gan £2.8m o ganlyniad i fuddsoddiad cyfalaf hanesyddol. Cafwyd costau o £0.6m yn ymwneud â llog ar brydlesi cyllid. Yn olaf, mae ein costau nad ydynt yn gostau staff hefyd yn cynnwys effaith ein gwarant teitl a gefnogir gan y wladwriaeth, sy'n helpu i ategu cywirdeb y gofrestr. Mae'n darparu diogelwch i ddioddefwyr twyll neu yn achos gwallau heb eu rhagweld. Yn 2020/21, talwyd £5.6m (gan gynnwys costau cyfreithiol Cofrestrfa Tir EM) yn erbyn 540 o hawliadau, cynnydd o £0.2m o'i gymharu â 2019/20.

## Gwariant cyfalaf (Terfynau Gwariant Adrannol Cyfalaf)

Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn 2020/21 oedd £32.2 miliwn, gan gynnwys £13.6m ar y rhaglen drawsnewid. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â TG, meddalwedd a chyfalafu costau datblygu Pridiannau Tir Lleol.

## Gwariant a reolir yn flynyddol

Yn 2020/21 cafwyd tâl o £2.2m ar gyfer amhariad eiddo a drosglwyddwyd i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth. Cafodd hyn ei wrthbwyso gan ailbrisiad ar i lawr o'r ddarpariaeth indemniad o £2.6m a defnyddio £0.5m o ddarpariaethau eraill, gan arwain at dâl net i'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol o (£0.9m).

Gellir cael rhagor o wybodaeth am hawliadau heb eu talu a darpariaethau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR) (IBNR) – gan gynnwys dadansoddiad sensitifrwydd sy'n adlewyrchu natur dybiedig y rhwymedigaeth IBNR a thueddiad y ddarpariaeth i amrywio – yn nodyn 13 i'r cyfrifon.

## Trosglwyddo asedau i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth


Ar 31 Mawrth 2021, llofnododd Cofrestrfa Tir EM gytundeb ag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth. asiantaeth weithredol Swyddfa'r Cabinet, i drosglwyddo ein heiddo rhydd-ddaliol, ochr yn ochr â'r mwyafrif o'n heiddo prydlesol hir. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo'r berchnogaeth gyfreithiol o'r tir, adeiladau ac unrhyw gydrannau cysylltiedig. Byddwn yn prydlesu'r eiddo hyn o Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth gyda thaliadau rhent yn dechrau ar 1 Ebrill 2021.

Trosglwyddwyd yr asedau i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2021 heb unrhyw gost ynghlwm wrtho gan arwain at grant cyfalaf mewn nwyddau sy'n hafal i'r gwerth teg o £52.8m. Cafodd hyn ei wrthbwyso yn y gyllideb gyfalaf gan y gwerth gwaredu, gan arwain at effaith dim net ar y gyllideb gyfalaf.

Roedd yr holl asedau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn destun prisiad proffesiynol gan Montagu Evans ar 31 Mawrth 2021, sef y dyddiad trosglwyddo a'r dyddiad adrodd. Arweiniodd hyn at dâl amhariad o £2.2m i'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

## Ffïoedd a thaliadau

O ganlyniad i'r newid yn ein statws, casglwn yr holl ffïoedd a thaliadau ac yn eu hildio i Drysorlys EM ar ôl cwblhau'r gwaith. Yn unol â chyfarwyddyd gan Drysorlys EM mae'r incwm hwn bellach yn cael ei adrodd mewn Datganiad Ymddiriedolaeth blynyddol ar wahân. Roedd y farchnad eiddo yng Nghymru a Lloegr wedi parhau'n gyfnewidiol trwy gydol 2020/21 yn dilyn COVID-19. Yn 2020/21 casglwyd ffïoedd o £289.0m gan gwsmeriaid gyda cheisiadau sy'n werth £232.5m wedi eu prosesu yn ystod y flwyddyn.
Dros y cyfnod hwnnw, cynyddodd hyn y balans o Ffïoedd a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw (FREDA) gan £56.4m, gan gymryd y cyfanswm i £97.0m miliwn ar 31 Mawrth 2021. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r amharu ar y gwasanaethau ôl-gwblhau yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn wrth i alluoedd gweithio o gartref effeithiol a diogel gael eu sefydlu.




Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd bron hanner ein ffïoedd yn ymwneud â diweddariadau i deitlau presennol yn y gofrestr, a oedd yn cyfrif am £149.3m, ac o'r rhain roedd creu cofnodion newydd yn y gofrestr (fel cofrestriadau cyntaf, trosglwyddiadau o ran a phrydlesi newydd) wedi cynhyrchu incwm o £38.1m.

Daeth ein prif lif incwm arall o wasanaethau ymholiadau gwarantedig, sy'n gamau hanfodol ym mhob trafodiad eiddo a lle y gwelwn y galw mwyaf. Mae'r rhain yn wasanaethau cyn cwblhau sy'n hanfodol i redeg y farchnad eiddo ac maent wedi bod ar gael i gwsmeriaid trwy gydol pandemig COVID-19. Yn 2020/21, roedd gwasanaethau ymholiadau gwarantedig yn cyfrif am £57.0m.

Mae gwasanaethau gwybodaeth yn golygu y gall defnyddwyr fynd ar-lein i gael braslun o unrhyw lain o dir neu eiddo cofrestredig. Cynhyrchodd y rhain £19.7m yn 2020/21.

Darparwn wasanaethau tir ac eiddo eraill hefyd. Mae ein gwasanaeth Pridiannau Tir digidol yn gwarchod buddion mewn tir digofrestredig ac rydym yn cynnal y mynegai methdaliad ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae ein Hadran Credydau Amaethyddol yn cynnal cofrestr o fenthyciadau tymor byr wedi eu gwarantu ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill. Gyda'i gilydd cynhyrchodd y rhain £6.5m.

Yn ogystal, cynigiwn wasanaethau data masnachol i gwsmeriaid yn y farchnad eiddo a'r economi ehangech. Cynhyrchodd incwm o ryddhau ein data yn fasnachol £3.9 miliwn yn 2020/21.

Ar wahân i'r incwm sy'n deillio o'n gwasanaethau, derbyniwn incwm rhenti o £2.8m o eiddo buddsoddi a ddelir gan Gofrestrfa Tir EM. Adroddir ar yr incwm hwn yn ein cyfrifon adnoddau, ond caiff ei ildio i Drysorlys EM yn hytrach na'i gadw gan Gofrestrfa Tir EM.

## 2021/22 ymlaen

Fel rhan o lythyr setliad 2021/22 mae Trysorlys EM wedi dyrannu setliad o £376.0m (Terfynau Gwariant Adrannol Adnoddau) a £57.7m (Terfynau Gwariant Adrannol Cyfalaf) i Gofrestrfa Tir EM, a fydd yn golygu y gallwn barhau i fuddsoddi mewn cydweithwyr rheng flaen a gwasanaethau trawsnewid a chyflymu'r broses o gyflwyno'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol yr un pryd. Yn ogystal, dyrannwyd £75.0m (Terfynau Gwariant Adrannol Cyfalaf) inni ar gyfer trosglwyddo i'r Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 newydd ar gyfer prydlesi ariannu.

## Gwella ein gwasanaethau – Trawsnewid

Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau, mae ein strategaeth yn dibynnu ar fuddsoddi mewn trawsnewid y gwasanaethau a ddarparwn a sut rydym yn eu darparu. Yn 2020/21, buddsoddwyd £22.7m (ac eithrio Pridiannau Tir Lleol) o Derfynau Gwariant Adrannol Adnoddau yn ein rhaglen newid uchelgeisiol, cynnydd o £5.3m o 2019/20. Yn ogystal, gwariwyd £13.6m ar drawsnewid Terfynau Gwariant Adrannol Cyfalaf.

Mae'r mwyafrif o'r gwariant hwn yn ymwneud â pharhad ein rhaglenni digidol a data. Nod cyffredinol y rhain yw moderneiddio ein gwasanaethau a gwella amrediad ein data, a mynediad at y data hynny. Bydd yn cynnig modd inni ddarparu gwasanaethau gwell, cyflymach, a mwy effeithlon a hynny am lai o gost.

Blaenoriaethwyd nifer o ffrydiau gwaith i alluogi ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid i barhau i weithio mor effeithiol â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys y rhaglen Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol, gwelliannau i'r porthol a chyflwyno e-lofnodion.

Fe wnaethom barhau i gyflymu cynnydd y rhaglen Pridiannau Tir Lleol gydag 17 o awdurdodau lleol newydd yn mudo i'r gwasanaeth (fel y nodir ar dudalen 25) gan greu costau o £3.1m (Terfynau Gwariant Adrannol Adnoddau) a £3.9m (Terfynau Gwariant Adrannol Cyfalaf). Bydd y rhaglen yn cynyddu'n sylweddol o ran ei chwmpas o 2021/22 yn unol ag uchelgais y Llywodraeth i fudo'r 219 o awdurdodau lleol sy'n weddill dros y pedair blynedd nesaf.

# Cynllunio a pherfformiad strategol

## Esblygiad ein fframwaith perfformiad

Roeddem wedi bwriadu cyflwyno fframwaith perfformiad newydd ar ddechrau'r flwyddyn hon. Yn sgil pandemig COVID-19, mabwysiadwyd dull ystwyth ar gyfer cynllunio busnes i sicrhau ein bod yn gallu canolbwyntio adnoddau ar gynnal ein gwasanaethau hanfodol a sicrhau'r adferiad gorau posibl ar gyfer y farchnad eiddo.

Ers i'r amgylchedd gweithredol sefydlogi, rydym wedi trosglwyddo i fframwaith perfformiad corfforaethol newydd, sy'n barod i'w fabwysiadu'n llawn o 2021/22. Fe'i cynlluniwyd i ategu dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer cynllunio yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Fframwaith Gwerth Cyhoeddus, ac fe'i cynlluniwyd ar sail ffocws Cofrestrfa Tir EM ar gefnogi'r canlyniadau cenedlaethol canlynol:

— mae ffydd a hyder mewn perchnogaeth tir;
— mae'r broses drawsgludo yn gyflym, yn hawdd ac yn ddiogel; ac
— mae data eiddo yn cefnogi economi sefydlog ac arloesol yn y DU.

Mae'r fframwaith hwn wedi ei gynllunio i bara, gan ddarparu mecanwaith i gefnogi cynllunio strategol dros y blynyddoedd nesaf, ac fe'i ategir gan y dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a nodir isod. Bydd y trywydd perfformiad disgwyliedig ar gyfer pob DPA yn cael eu cyflwyno yn y Cynllun Busnes Blynyddol, a bydd adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn monitro yn erbyn y trywydd hwn.

**Iechyd mewnol y sefydliad**

**Ffocws y sefydliad ar ganlyniadau**

DPAau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

Mae ffydd a hyder mewn perchnogaeth tir

Mae'r broses drawsgludo yn gyflym, yn hawdd ac yn ddiogel

Mae data eiddo yn cefnogi economi sefydlog ac arloesol yn y DU

**1 Ffydd cwsmeriaid yng nghywirdeb a manylder y cofrestri**

Oes gan ein cwsmeriaid ffydd yn y wybodaeth a gedwir ar y Gofrestr Tir?

**2 Boddhad cwsmeriaid**

Ydym ni'n darparu gwasanaeth sy'n cyfateb ag anghenion ein cwsmeriaid?

DPAau sy'n canolbwyntio ar allbwn

**3 Ymgysylltiad staff**

Pa mor gysylltiedig ydy ein staff yn teimlo tuag at eu gwaith a'n sefydliad?

**4 Cost ein gwasanaethau**

Pa mor effeithlon ydy ein busnes yn cael ei redeg?

**5 Cywirdeb cofnodion newydd ar y gofrestr**

Sut mae newidiadau i'r gofrestr yn effeithio ar gywirdeb y gofrestr?

**6 Ceisiadau wedi eu cwblhau**

Oes gan Gofrestrfa Tir EM y capasiti a'r gallu priodol i ddarparu ei gwasanaethau mewn modd amserol?

**7A Cyflymder ein gwasanaethau**

Faint o amser ydy ceisiadau yn eu treulio yng Nghofrestrfa Tir EM (heb gynnwys yr amser a dreulir yn aros am ymateb gan gwsmer a gweithredu arall gan drydydd parti)?

**7B Yr amser a gymerir i newid y gofrestr**


Faint o amser ydy hi'n cymryd i'r gofrestr adlewyrchu perchnogaeth yn gywir?

Nodyn: Canlyniadau yw'r nodau cyffredinol rydym yn ceisio eu cefnogi. Allbynnau yw'r gwasanaethau a ddarparwn sy'n cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hynny.

## Rhoi sicrwydd

Cafodd ein hymagwedd at reoli perfformiad ei ail-ganolbwyntio yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn i gefnogi ein hymateb i COVID-19. Roedd angen inni addasu ein ffyrdd o weithio er mwyn i'r farchnad eiddo barhau i weithredu. Fel yr adroddwyd ar dudalen 33 roedd hyn yn cynnwys sefydlu galluoedd gweithio o gartref effeithiol a diogel ar gyfer y mwyafrif helaeth o'r gweithlu am y tro cyntaf erioed. Datblygwyd a rhannwyd dangosyddion perfformiad newydd ddwywaith yr wythnos gyda'r Bwrdd Gweithredol i fonitro cynnydd a rhoi sicrwydd ynghylch ymateb y sefydliad.

O fewn dau ddiwrnod i'r cyfnod clo adferwyd ein gweithgareddau chwilio â blaenoriaeth, gan sicrhau parhad y gwasanaeth ar gyfer y gwiriadau cyn cwblhau a cheisiadau brys y mae'r broses prynu cartref yn dibynnu arnynt. Roedd ein holl wasanaethau yn gweithredu o fewn ychydig wythnosau.



# Ein dangosyddion perfformiad allweddol a'n targedau cyflawnadwy cynllunio busnes

**O dan ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol mae targedau cyflawnadwy allweddol. Mae'r tabl yn rhoi enghreifftiau o sut mae'r targedau cyflawnadwy allweddol yn ategu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

### DPA 1 Ffydd cwsmeriaid yng nghywirdeb a manylder cofrestri

Datblygu achos busnes ar gyfer cyflymu cyflwyno'r rhaglen Pridiannau Tir Lleol, a chael cymeradwyaeth trwy Drysorlys EM

### DPA 2 Boddhad cwsmeriaid

Cyflawni gwelliannau i'r porthol, gan alluogi cwsmeriaid i olrhain cynnydd ceisiadau

Teleffoni Canolfan Cymorth Cwsmeriaid wedi ei alluogi i'w ddarparu o ganol Mai 2020

Cyflwyno Gwe Sgwrs Canolfan Cymorth Cwsmeriaid

### DPA 3 Ymgysylltiad staff

Gweithredu dyfarniad cyflog ar gyfer 2019 a negodi'n llwyddiannus codiad cyflog yn gyfnewid am foderneiddio telerau ac amodau cyflogaeth

Cyflwyno Model Diwylliant, sy'n cynnwys themâu ar foderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio a datblygu ymhellach ein perthnasoedd â chwsmeriaid

Diweddaru ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan nodi'r camau allweddol i wella cynrychiolaeth y gweithlu a chreu diwylliant mwy cynhwysol

### DPA 4 Cost ein gwasanaethau

Nodi a monitro risgiau twyll a busnes arall newydd sy'n deillio o COVID-19 a'r dirywiad economaidd

Negodi'n llwyddiannus setliad Adolygiad o Wariant sy'n cefnogi buddsoddiad parhaus yn ein staff a'n trawsnewidiad

### DPA 5 Cywirdeb cofnodion newydd ar y gofrestr

Cyflwyno swyddogaethau i leihau ymholiadau oherwydd anghysondebau mewn enwau

### DPA 6 Ceisiadau wedi eu cwblhau

Lansio'r Academi Cofrestru Tir newydd i gefnogi adeiladu gallu gweithredol

Lansio beta cyhoeddus y Gwasanaeth Cofrestru Digidol

### DPA 7a Cyflymder ein gwasanaethau

Diweddaru ein huchelgais trawsnewid a blaenoriaethu cynlluniau i adlewyrchu effaith COVID-19

### DPA 7b Yr amser a gymerir i newid y gofrestr

Dechrau derbyn llofnodion electronig ar weithredoedd trawsgludo, gan ddileu'r gofyniad caeth olaf am lofnodion papur ac inc gwlyb yn y broses drawsgludo

Darparu golwg o'r gofrestr ar-lein a chynlluniau teitl yn Chwilio am wybodaeth tir ac eiddo

## Ein hymagwedd at gynllunio busnes

Mabwysiadwyd ymagwedd fwy hyblyg ac iteraidd at gynllunio eleni i sicrhau ein bod yn ddigon ymatebol i'r datblygiadau sy'n dod i'r amlwg ac anghenion newidiol ein cwsmeriaid. Sefydlwyd a chynhaliwyd ymgysylltiad rheolaidd â chynrychiolwyr y diwydiant ac arbenigwyr ar draws y farchnad drawsgludo, dinasyddion a busnes i gefnogi hyn. Defnyddiwyd y mecanweithiau hyn i roi gwybodaeth gyson i'n cwsmeriaid am yr hyn y gallent ei ddisgwyl.

Mae cyflymu ein cynlluniau i gyflwyno llofnodion electronig, gwiriadau hunaniaeth cryptograffig digidol a gweithredoedd digidol i gyd yn enghreifftiau o'r ffordd rydym wedi addasu ein cynlluniau gwreiddiol mewn ymateb i anghenion esblygol y diwydiant. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cychwyn ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol, wedi lansio View My Applications ac wedi cyflwyno dyddiadau cwblhau disgwyliedig ar gyfer defnyddwyr y porthol, yn ogystal â chychwyn digideiddio ar raddfa fawr ein prosesau cais i ddiweddaru cofrestr. Dros hanner gyntaf y flwyddyn, benthyciwyd 218 o'n pobl i'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd i gefnogi ymateb ehangach y llywodraeth i'r pandemig.

At ei gilydd, rydym wedi llwyddo i gyflawni 39 o'n 48 (81%) o dargedau cyflawnadwy allweddol ar amser yn ystod y flwyddyn, a disgwylir i'r naw sy'n weddill gael eu cyflawni yn ystod misoedd cyntaf 2021/22.


# Olrhain perfformiad – DPAau penodol

Ar y cyfan, bu hon yn flwyddyn gryf i Gofrestrfa Tir EM. Rydym wedi cynnal ein gwasanaethau yn wyneb heriau rhyfeddol dros y 12 mis diwethaf, a hefyd wedi rhoi fframwaith newydd ac ecosystem data ar waith a fydd yn galluogi'r sefydliad i ddeall yn well beth sy'n ysgogi ein perfformiad yn y dyfodol. Mae'r ddealltwriaeth ddyfnach hon o'n busnes, ynghyd â'n cynlluniau buddsoddi a normaleiddio amodau'r farchnad, yn ein rhoi mewn sefyllfa wych i barhau i wella perfformiad dros y blynyddoedd i ddod.

O'r DPAau y mesurwyd ein hunain yn eu herbyn eleni, mae tri (DPA 1, 2 a 3) yn gyson â'r rhai a ddefnyddiwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Rydym hefyd wedi datblygu pedwar DPA ychwanegol, mae un wedi cael ei dreialu yn ystod 20/21 (DPA 6) ac adroddir yn ffurfiol yn erbyn y gweddill o 21/22 ymlaen.

## DPA 1 Oes gan ein cwsmeriaid ffydd yn y wybodaeth a gedwir ar y Gofrestr Tir?

**Ffydd cwsmeriaid yng nghywirdeb a manylder y gofrestr**





Roedd ffydd cwsmeriaid (DPA 1) wedi parhau'n uchel trwy gydol y flwyddyn. Dangosodd y canlyniadau a gasglwyd gan gwmni ymchwil annibynnol fod 79% o gwsmeriaid wedi ein graddio naill ai'n dda neu'n rhagorol (8-10 ar raddfa 10 pwynt) o ran sicrhau cywirdeb a manylder y Gofrestr Tir, 2% yn uwch nag yn 2019/20.

### Canolfan Cymorth Cwsmeriaid

Bu'n rhaid i'n Canolfan Cymorth Cwsmeriaid ailadeiladu ei gwasanaethau ar ôl y cyfnod clo cyntaf ac er inni ganfod datrysiad i alluogi ei gweithredu o bell, cyflwynwyd sianel newydd Cysylltu â Ni ar GOV.UK i roi datrysiad hunangymorth i gwsmeriaid allu dod o hyd i wybodaeth allweddol. Erbyn canol Mai roeddem wedi ailagor llinellau ffôn y Ganolfan a dros y misoedd dilynol roeddem nid yn unig wedi ehangu'r oriau ar alwad ond hefyd wedi parhau i wella'r sianel Cysylltu â Ni.

**542,011**


o alwadau wedi eu hateb yn 2020/21





# DPA 2 Ydym ni'n darparu gwasanaeth sy'n cyfateb ag anghenion ein cwsmeriaid?

**Boddhad cwsmeriaid**




Er gwaetha'r amharu ar ein gweithgareddau, a rhai newidiadau yn y safonau gwasanaeth i ddarparu ar gyfer hyn, ein sgôr boddhad cwsmeriaid (DPA 2) oedd 64% am y flwyddyn gyfan. Gwelsom ostyngiad dealladwy mewn boddhad cwsmeriaid ar ganol y flwyddyn wrth i'r pandemig effeithio ar y broses drawsgludo gyfan, ond gwelsom welliant graddol yn ail hanner y flwyddyn wrth i'n gwasanaethau normaleiddio

## Gwasanaeth carlam: Mynd uwchlaw a thu hwnt

Mae gwasanaethau sy'n galluogi cwblhau gwerthiannau wedi bod yn flaenoriaeth inni bob amser ac yn fwy nag erioed mewn blwyddyn o alw mawr ochr yn ochr â phandemig byd-eang a welodd y diwydiant eiddo cyfan yn symud adref, gan arafu'r farchnad am gyfnod. Wrth inni ddod i arfer â gweithio o bell, ar ddiwedd gwyliau treth tir y doll stamp gwelwyd trawsgludwyr mewn ras yn erbyn amser. Er mwyn helpu ein cwsmeriaid, cryfhawyd, hyrwyddwyd ac ehangwyd ein gwasanaeth brys, gan sicrhau y gallai cais brys gael ei gyflymu yn rhad ac am ddim a'i gwblhau o fewn 10 diwrnod. Er i'r galw am geisiadau brys gynyddu bedair gwaith bron – o 2,914 o geisiadau yn Ebrill 2020 i 11,413 ym Mawrth 2021 – deliwyd â llawer ohonynt ar yr un diwrnod neu o fewn 48 awr, a 97% mewn llai na 10 diwrnod. Roedd hyn wedi sicrhau y gallai pobl mewn amgylchiadau anodd bwrw ymlaen â'u bywydau.

**2,914 o geisiadau**
Ebrill 2020



**11,413 o geisiadau**
Mawrth 2021




*"...Diolch ichi gyd am ddelio â hyn mor gyflym. Mae fy ngŵr a'n dau o blant wedi bod yn byw mewn carafán ar ddreif fy rhieni sy'n hunan-ynysu oherwydd roedd rhaid inni symud allan ar ôl gwerthu ond doedden ni ddim yn gallu cwblhau ar ein cartref newydd nes ichi ddiweddaru'r gofrestr..."*

*"...Gwych. Dyn ni mor ddiolchgar!! Yn enwedig ar adeg mor galed. Fe aethoch chi uwchlaw a thu hwnt i'm tawelu heb unrhyw straen. Rydyn ni'n disgwyl cymryd dau blentyn maeth o 18 Mai. Heb eich cymorth chi fydden ni ddim wedi gallu symud i mewn i'r eiddo gwag na chynnig cartref iddyn nhw..."*



# DPA 3 Pa mor gysylltiedig ydy ein staff yn teimlo tuag at eu gwaith a'n sefydliad?

**Ymgysylltiad staff**





Ein sgôr ymgysylltiad staff (DPA 3) yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2020 oedd 71%, sy'n welliant o 8% o'i gymharu â 2019/20 a'r sgôr uchaf erioed i Gofrestrfa Tir EM ei chofnodi erioed, gan ein rhoi yn 18fed allan o 106 o sefydliadau llywodraethol a gymerodd ran yn yr arolwg, a'r cyntaf ymhlith y rhai o faint tebyg.

## Myfyrio a chofio flwyddyn yn ddiweddarach

Ym Mawrth, flwyddyn o'r diwrnod y caeodd ein swyddfeydd, cynhaliwyd gwasanaeth coffa rhithiol arbennig a fynychwyd gan 800 o gydweithwyr. Bu farw naw o gydweithwyr Cofrestrfa Tir EM yn ystod y flwyddyn ac roedd llawer o rai eraill wedi colli anwyliaid i COVID-19.

Rhannodd y mynychwyr luniau, atgofion a straeon a chymryd rhan mewn munud o dawelwch cenedlaethol ar y cyd.


Roedd technoleg gydweithredol yn golygu y gallem ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb a gwella ein diwylliant sy'n canolbwyntio ar weithwyr ac ymdeimlad o gymuned sydd wedi helpu cydweithwyr i gefnogi ei gilydd trwy'r adegau anoddaf ac wedi rhoi cyfle i'n sefydliad ffynnu.





# DPA 6 Oes gan Gofrestrfa Tir EM y capasiti a’r gallu priodol i ddarparu ei gwasanaethau mewn modd amserol?

Allbwn y cais – pob math o gais




Ymhlith y DPAau newydd, treialwyd DPA 6, sef cyfran y ceisiadau rydym yn eu prosesu yn erbyn y rhai rydym yn eu derbyn. Roedd y pandemig wedi cael effaith fawr ar ein cyfarwyddiaeth Gweithrediadau ac ymatebwyd yn gyflym i sefydlu ein gweithlu gweithrediadau swyddfa i brosesu ceisiadau o gartref. Rydym yn fwy hyblyg yn barhaol o ganlyniad. Fel yr amlinellir yn ein Cynllun Busnes Blynyddol, dechreuodd ymarfer recriwtio a dilyniant ar raddfa fawr eleni i gynyddu capasiti a hyblygrwydd o fewn y gyfarwyddiaeth ond i gefnogi ymateb y genedl i’r pandemig benthycwyd 218 o ddechreuwyr newydd i’r Adran Gwaith a Phensiynau. Er gwaethaf hyn ein hallbwn eleni oedd 97.6% o’r gwaith a dderbyniwyd. Bydd cyflymu ein cynlluniau digideiddio ac awtomeiddio yn ysgogi prosesu cyflymach, gan ein galluogi i leihau ein hôl-groniad o geisiadau dros amser.

## Gweithio gyda’n gilydd i ymateb i COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19 gweithiodd tua 220 o’n cydweithwyr swyddogion cofrestru i gefnogi tasgau â blaenoriaeth a gyflawnir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Cyn y pandemig, byddai’r Adran Gwaith a Phensiynau fel arfer yn derbyn tua 8,000 o geisiadau Credyd Cynhwysol yr wythnos. Cynyddodd hyn i oddeutu 58,000 o geisiadau yr wythnos, a chyflwynwyd pob un o’r ceisiadau hynny gan berson neu deulu mewn angen. Galwyd ar ein tîm i gefnogi rhai o’r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas trwy gyfnod mor anodd.

“Roedd llawer o enghreifftiau lle rydym wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau’r hawlwyr. Un enghraifft oedd cefnogi hawlydd a oedd yn ei chael hi’n anodd i dalu ei filiau trwy ohirio rhai ad-daliadau ‘ymlaen llaw’ oedd yn ddyledus. Gwnaeth hyn wahaniaeth mawr wrth iddyn nhw ailgychwyn chwilio am swydd newydd.”
**Will Hawtin – Swyddfa Fylde**

Department for Work & Pensions



*“Roedd yn brofiad anhygoel bod yn rhan o dîm rhithiol a oedd yn gweithio i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a gafodd eu heffeithio’n negyddol gan COVID-19.”*

# Cynaliadwyedd

**Carbon**
**73%**
o ostyngiad

**Dŵr**
**68%**
o ostyngiad

**Gwastraff**
**85%**
o ostyngiad

**Papur**
**84%**
o ostyngiad

**Gwastraff wedi ei ailgylchu**
**65%**

**Proses troi gwastraff yn ynni**
**34%**



Llun: Pajor Pawel/Shutterstock

## Ymrwymiadau carbon sero-net

Mae ein hymrwymiad i gyflawni gofynion carbon sero-net y Llywodraeth wedi cynnwys uwchraddio i oleuadau LED (deuod allyrru golau) yn swyddfeydd Penbedw a Weymouth a gweithio gydag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ar dri adeilad (Caerloyw, Telford a Hull) gan ddarparu prosiectau goleuadau LED ychwanegol, gyda nod bellach o weithredu dulliau cynhyrchu trydan ffotofoltäig, a gwella effeithlonrwydd gwresogi, awyru ac aerdymheru a datgarboneiddio trwy ddefnyddio pympiau gwres i gael gwared â hylosgiad nwy.

### Papur 84%

Gwastraff papur wedi gostwng o 505 tunnell i 78 tunnell.

### Gwastraff wedi ei ailgylchu 65%

99% o'r cyfanswm gwastraff nad yw'n mynd i safle tirlenwi. Mae gwastraff wedi ei ailgylchu yn cynnwys ailgylchu cymysg (plastig, tun, ffoil ac ati), papur a gwydr.

### Proses troi gwastraff yn ynni 34%

Mae llosgi ar gyfer troi gwastraff yn ynni yn cyfrannu'n sylweddol at ein targedau cyffredinol.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar ein hymrwymiadau oherwydd effaith COVID-19 a byddwn yn ceisio ymgorffori cynifer o newidiadau cadarnhaol ag y gallwn pan fyddwn yn symud i ffordd hybrid o weithio. Eleni rydym wedi gweithio ar gyflawni rhai prosiectau mawr yn unol ag ymrwymiadau carbon sero-net y Llywodraeth.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- newid offer lifftiau, gan gynnwys gosod moduron mwy effeithlon yn Hull;
- uwchraddio goleuadau i rai LED ym Mhenbedw a Weymouth a chychwyn gwaith ar y cyd ag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth yn Hull, Caerloyw a Telford, lle bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2021/22;
- newid goleuadau allanol gyda rhai LED yn Hull, Plymouth ac Abertawe;
- newid boeleri yn Nottingham;
- newidiadau i'r system wresogi yn Croydon a Plymouth;
- newid Systemau Rheoli Adeiladu yng Nghaerlŷr; a
- gwelliannau yn y ddarpariaeth cysgodi solar yn Weymouth

Rydym wedi parhau â'n hymrwymiad at welliannau bioamrywiaeth mewn partneriaeth â'n darparwr gwasanaeth rheoli cyfleusterau ISS a'u cadwyn gyflenwi. Gyda gwelliannau wedi eu cyflawni yn swyddfeydd Plymouth, Telford a Weymouth, cytunir ar barhad pellach y rhaglen hon.

## Mentrau eraill

Rydym wedi dechrau trosglwyddo o amlenni plastig i rai papur yn dilyn treial llwyddiannus, gyda'r nod o symud yr holl bost sy'n mynd allan i amlenni papur yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## Ein perfformiad

Mae ein System Rheoli Amgylcheddol yn sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus ac yn gweithio tuag at y targedau a osodwyd fel rhan o Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth a gofynion Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Glasu'r Llywodraeth.

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â'r canllawiau cyfredol a gyflenwyd gan Drysorlys EM.

Rydym wedi parhau â'n hachrediad i'r safon amgylcheddol ISO14001 sy'n cadarnhau ein perfformiad yn annibynnol ar draws yr ystod lawn o weithgareddau cynaliadwyedd o fewn y sefydliad. Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd i archwilydd allanol newydd a llwyddwyd i gadw ein hachrediad trwy archwiliad o bell yn Nhachwedd.

Mae'r perfformiad presennol yn erbyn data sylfaen cynaliadwyedd 2009/10 fel a ganlyn yn erbyn targedau Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth.

| | Cyflawnwyd | Targed ar gyfer 2021 | Ar darged/wedi ei gyflawni? |
|---|---|---|---|
| Carbon | 73% o ostyngiad | 40% o ostyngiad | Ie |
| Gwastraff yn codi | 85% o ostyngiad yn y gwastraff a gynhyrchir<br><br>65% wedi ei ailgylchu<br><br>1% i safle tirlenwi<br><br>34% proses Troi Gwastraff yn Ynni | Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan o leiaf 25%<br><br>Ailgylchu neu gompostio o leiaf 70% o wastraff ac anfon llai na 10% o'r gwastraff i safle tirlenwi | Ie |
| Defnydd o ddŵr | 68% o ostyngiad | 25% o ostyngiad (ein targed ni) | Ie |
| Defnydd o bapur | 84% o ostyngiad | Lleihau ein defnydd o bapur gan 50% o linell sylfaen 2009/10 | Ie |

Primrose Hill Passivhaus, Plymouth. Datblygiad newydd o gydberchnogaeth a chartrefi ar rent fforddiadwy yn Whitleigh Plymouth yw un o'r datblygiadau Passivhaus mwyaf yn y DU. Mae'r cartrefi yn effeithlon iawn o ran ynni ac yn aerdyn, gyda ffenestri a drysau gwydr triphlyg, sy'n golygu bod boeler nwy bach yn y tŷ a dim ond dau reiddiadur i gyd. Wedi ei gwblhau ym Mehefin 2019, adeiladwyd y 72 o gartrefi newydd i'r manylebau uchel sy'n ofynnol gan safon Passivhaus a derbyniodd y datblygiad ardystiad Passivhaus ar ôl ei gwblhau. Mae dau ddeg tri o brydlesi cydberchnogaeth wedi eu cofrestru gan swyddfa Croydon. Llun: plymouthcommunityhomes.co.uk



Yn ogystal, rydym yn parhau i gyflawni'r gofynion canlynol o fewn Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth:

Parhau i ddilyn arferion caffael cyhoeddus sy'n gynaliadwy, er mwyn i'r llywodraeth brynu cynhyrchion mwy cynaliadwy ac effeithlon gyda'r nod o gael y gwerth am arian gorau i gymdeithas.

Bydd adrannau'n adrodd ar y systemau sydd ganddynt yn eu lle a'r camau a gymerwyd i gefnogi'r ymrwymiad hwn, gan gynnwys:

— ymgorffori cydymffurfiaeth â Safonau Prynu'r Llywodraeth mewn contractau caffael adrannol a chanolog, o fewn cyd-destun blaenoriaethau cyffredinol y llywodraeth o werth am arian a symleiddio prosesau caffael; a
— deall a lleihau effeithiau'r gadwyn gyflenwi.

| Maes | | Perfformiad | |
|---|---|---|---|
| | | Gwirioneddol (£'000) | Targed gostyngiad 2021 |
| Ynni: allyriadau nwyon tŷ gwydr, pob maes o fewn y cwmpas | allyriadau carbon (tunelli) | 3,895 | 9,776 |
| | gwariant (£) | 1,779 | |
| Gwastraff | defnydd (tunelli) | 299 | 1,484 |
| | gwariant (£) | 99 | |
| Dŵr | defnydd ($m^3$) | 18,492 | 38,346 |
| | gwariant (£) | 134 | |

## Llywodraethu cynaliadwyedd
Mae cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol yn cael ei reoli trwy'r Fframwaith Llywodraethu Cynaliadwyedd a chyfarfodydd â'r darparwr rheoli cyfleusterau. Gweinyddir hyn gan y Rheolwr Cynaliadwyedd ar y cyd â'n Huwch Bartneriaid Busnes Cyfleusterau a'n darparwr Rheoli Cyfleusterau Cyfan.

## Cyflawni gofynion ychwanegol Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth yn gyffredinol
Mae'r targedau'n parhau i ysgogi llywodraeth ganolog i fod yn fwy cynaliadwy a sicrhau gofyniad Deddf Newid Hinsawdd (2008) sef bod gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael ei gyflawni erbyn 2021.

## Addasu i newid hinsawdd
Mae effeithiau newid hinsawdd yn cael eu hystyried yn ystod gwaith a phrosiectau adeiladu. Defnyddiwn y wybodaeth a gesglir yn yr arolygon cyflwr adeiladau a blaengynlluniau cynnal a chadw fel rhan o'n strategaeth lleihau cynaliadwyedd pan fyddwn yn gwneud gwaith adnewyddu mawr, adleoli neu'n cael offer adeiladu mawr newydd. Mae'r cynllun addasu i newid hinsawdd yn cael ei adolygu'n barhaus.

Mae cyflawni gofynion carbon sero-net y Llywodraeth yn rhan o'r ystyriaethau y tu ôl i benderfyniadau cynnal a chadw a rheoli eiddo ehangach. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae gwaith wedi dechrau ar nifer o weithfeydd carbon sero mawr a ariennir gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth. Byddwn yn cyflwyno cynllun carbon sero yn gynnar y flwyddyn ariannol nesaf yn unol ag Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

## Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol
Cydnabyddwn bwysigrwydd Bioamrywiaeth. Mae cynlluniau bioamrywiaeth wedi cael eu creu ac yn cael eu gweithredu yn Fylde, Hull, Plymouth, Weymouth a Telford. Bydd y broses hon yn parhau ar safleoedd a gafodd eu neilltuo fel rhai a fydd yn elwa ar welliannau yn y dyfodol, fel Abertawe.

## Carbon
Rydym wedi lleihau'r defnydd o drydan gan ychydig llai na 1.5 KWh. Mae hyn yn adlewyrchu'r defnydd llai o'n hadeiladau i gyfartaledd o 10% o'r ddeiliadaeth arferol, gan barhau i fod ar agor i ddarparu gwasanaethau hanfodol yr un pryd. Roedd llawer llai o deithio o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol ond nid yw'n cael effaith fawr ar y carbon cyffredinol a ddefnyddir gan y daw hyn o'r ystâd swyddfa yn bennaf. Mae'r defnydd o nwy wedi cynyddu gan ychydig llai nag 8% ers y pandemig. Adroddir yn gyffredinol bod adeiladau swyddfa wedi defnyddio 20% yn fwy o nwy y mis ar gyfartaledd na'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod awyru adeiladau ag awyr iach oerach a cholli capasiti thermol y tu mewn (oherwydd llai o bobl, llai o offer electronig ac ati) wedi cynyddu'r galw am wresogi. Mae ein perfformiad yn llawer gwell na'r 20% a ddyfynnwyd.

Ein gostyngiad cyffredinol mewn allyriadau carbon er 2009/10 yw 73%. Gweler Atodiad C am ddata tueddiadau hanesyddol.

## Gwastraff
Y targed a osodwyd yw lleihau faint o wastraff a gynhyrchir gan o leiaf 25% o linell sylfaen 2009/10 a cheisio ei leihau ymhellach, ailgylchu neu gompostio o leiaf 70%, ac anfon llai na 10% i safle tir lenwi.

Mewn partneriaeth â'n darparwyr gwastraff rydym wedi symud dros y flwyddyn i gyflawni dim gwastraff yn cael ei anfon i safle tirlenwi. Ar hyn o bryd rydym yn cyrraedd y rhan fwyaf o'r targedau, gyda swm y gwastraff a gynhyrchir wedi ei leihau gan 85%, ac mae 99% o'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi i'w droi'n ynni (34%) yn hytrach na mynd i safle tirlenwi. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at y perfformiad cyffredinol. Yr unig faes lle na wnaethom gyrraedd targed gwastraff oedd ar gyfer y swm a ailgylchwyd, sef 65% yn erbyn targed o 70%. Gostyngodd papur gwastraff o 505 tunnell i 78 tunnell.

Rheolir gwastraff trwy ddau lwybr. Rheolir papur trwy gontract gwaredu cyfrinachol y tu allan i'r trefniadau rheoli cyfleusterau. Mae gwastraff arall yn cael ei drin trwy'r contract rheoli cyfleusterau.

Mae papur yn cyfateb i 22% o'r gwastraff sy'n codi ac anfonwyd 78 tunnell i'w ailgylchu. Ein gostyngiad cyffredinol mewn gwastraff a gynhyrchwyd er 2009/10 yw 85%. Gweler Atodiad C am ddata tueddiadau hanesyddol.

## Defnydd o ddŵr
Y targed yw parhau i leihau'r dŵr a ddefnyddir o linell sylfaen 2009/10. Mae hyn yn golygu y gall adrannau osod eu targedau mewnol eu hunain ar gyfer lleihau'r defnydd o ddŵr ac adrodd ar eu cynnydd yn eu herbyn. Yn ogystal, bydd adrannau yn parhau i adrodd ar y defnydd o ddŵr swyddfa ($m^3$ fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn).

Cafwyd gostyngiad o 68% yn y defnydd o ddŵr yn erbyn targed o 25%. Fodd bynnag, dylid nodi, yn gyffredinol, bod deiliadaeth wedi bod tua 10% o'r staff cyfwerth ag amser llawn, gan ddarparu gwasanaethau hanfodol a diwallu rhai anghenion llesiant.

## Defnydd o bapur
Mae targed Glasu'r Llywodraeth ar gyfer lleihau'r papur a ddefnyddiwn gan 50% o flwyddyn sylfaen Cofrestrfa Tir EM o 2011/12 yn dangos gwelliant cyfredol o 84% o'r defnydd o bapur cyfwerth ag A4. Mae ein rhaglen gwasanaethau digidol a symud tuag at argraffu ar gais yn parhau i gael effaith sylweddol.

## Caffael cynaliadwy
Ym Medi 2020 cyhoeddwyd Nodyn Polisi Caffael 06/20, sy'n fodel newydd gyda'r nod o ddarparu gwerth cymdeithasol ar draws yr holl gaffaeliadau a dendrwyd yn gystadleuol o 1 Ionawr 2021. Mae hyn yn golygu ein bod yn defnyddio pwysiad 10% o leiaf yn ein gwerthusiad o gynigion fel rhan o'r broses sgorio.

Mae metrigau gwerth cymdeithasol yn cael eu cymhwyso ar draws ystod o themâu gwahanol i'n helpu i gael y gorau o'n contractau ac mae'n cynnwys adferiad COVID-19, mynd i'r afael â'r adferiad economaidd, ymladd newid yn yr hinsawdd, cyfle cyfartal a llesiant. Mae'r rhain i gyd yn bynciau rydym ni fel sefydliad eisoes yn teimlo'n angerddol amdanynt. Rydym yn ystyried elfennau cynaliadwyedd trwy gydol y cylch bywyd caffael cyfan.

Mae ein strategaeth gaffael yn cynnwys adran sy'n ymdrin â chynaliadwyedd i sicrhau bod hyn bob amser yn cael ei ystyried. Rydym hefyd yn cyfeirio at Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth fel rhan o'n polisi caffael ac yn cael hyfforddiant rheolaidd gan gyflenwyr ar yr agweddau hyn, gan gynnwys sesiwn gydag ISS (un o'n cyflenwyr cyfleusterau), lle dysgwyd sut i fod yn fwy gwyrdd gyda'n gilydd a sut i sicrhau lefelau uwch o gynaliadwyedd fel y'i hyrwyddir trwy ein hwythnosau masnachol y llynedd.



Mae Stonebridge Mills, Leeds, yn rhan allweddol o hanes ardal Farnley a Wortley ond mae wedi bod yn segur ac mewn cyflwr adfeiliedig ers blynyddoedd lawer. Cafodd y safle, sy'n ymestyn i ryw 3.6 hectar, ac yn cynnwys cyfres o adeiladau diwydiannol traddodiadol, ynghyd â hen fythynnod a swyddfeydd melin, eu cofrestru gan swyddfa Croydon ym Mawrth 2021. Llun: Advent Developments/Rushbond Plc

# Gwybodaeth gorfforaethol arall



Mae Cane Hill, Coulsdon, safle gadawedig 205 erw a arferai fod yn gartref i ysbyty seiciatryddol Cane Hill ac a ymddangosodd ar glawr blaen albwm David Bowie, ar fin gael ei drawsnewid gan greu 700 o gartrefi newydd yn Croydon. Roedd Dirprwy Faer Tai a Thir Awdurdod Llundain Fwyaf wedi dathlu dechrau'r gwaith adeiladu yn Cane Hill Park, un o brosiectau mwyaf Llundain i drawsnewid tir cyhoeddus segur. Mae gwerthiannau tai diweddar wedi cael eu cofrestru gan swyddfa Croydon. Llun: Google Earth

## Deiliad gwybodaeth sector cyhoeddus

Cyflawnwn ein rôl fel deiliad gwybodaeth sector cyhoeddus, rôl a gymerwn o ddifrif, trwy ddilyn deddfwriaeth diogelu data'r DU a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi ei heithrio rhag dilyn rhai hawliau diogelu data unigol lle y byddai dilyn y ddeddfwriaeth yn groes i Ddeddf a Rheolau Cofrestru Tir. Mae'r Tîm Hawliau Gwybodaeth yn arwain rhaglen cydymffurfio preifatrwydd i helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiadau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

Derbyniwyd 476 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ac atebwyd 456 ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith.

Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'n hasedau gwybodaeth, mae'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth a'r model perchnogaeth yn gwella effeithiolrwydd rheolaeth gyffredinol ein hasedau a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth. Bydd strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd newydd yn ein helpu i sicrhau cywirdeb, sensitifrwydd a diogelwch ein hasedau gwybodaeth gorfforaethol ac ar yr un pryd rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen ar staff i gyflawni ein nodau a'n hamcanion.

Wrth ddarparu ein gwasanaethau data, mae Cofrestrfa Tir EM yn cydymffurfio â Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015. (Cynghorwyd Cofrestrfa Tir EM na fydd y newidiadau i ailddefnyddio gwybodaeth sector cyhoeddus a wnaed gan Gyfarwyddeb Data Agored Ewropeaidd 2019 yn cael eu gweithredu yn y DU).

## Targed effaith busnes

Mae'r sgôr targed effaith busnes yn cynnwys effaith economaidd gweithgarwch rheoleiddio lle bydd y baich neu'r budd yn effeithio ar fusnesau sy'n uwch na'r trothwy o £5m. Mae Cofrestrfa Tir EM yn adolygu ei gweithgareddau yn rheolaidd er mwyn asesu'r effaith ar ei chwsmeriaid busnes o ran cydymffurfio â'i phrosesau a gofynion rheoleiddio. Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull electronig o gyflwyno ceisiadau i'w gwneud hi'n haws ac yn rhatach i ddelio â ni, ac eleni dechreuwyd derbyn llofnodion electronig ar weithredoedd trawsgludo, sy'n un o elfennau allweddol proses drawsgludo ddigidol.

## Iechyd a diogelwch

Rydym wedi cyflwyno newidiadau polisi rhagweithiol ac adweithiol i fodloni gofynion newidiol pandemig COVID-19. Cyflwynwyd Polisi Ymateb i Weithio o Gartref y Coronafeirws penodol a Pholisi Dychwelyd i'r Swyddfa (ar gyfer gweithwyr allweddol). Er mwyn wynebu'r newidiadau yn yr amgylchedd gwaith, cyflwynwyd hefyd broses adrodd am ddamweiniau ar gyfer damweiniau cysylltiedig â gwaith i'r rhai sy'n gweithio gartref ac adolygwyd a diweddarwyd polisi asesu'r gweithle offer sgrin arddangos.

Mae gweithgareddau cysylltiedig â COVID-19 wedi eu cyflwyno yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ganolog ac maent yn cynnwys cwblhau asesiadau risg a rhestrau gwirio ar lefel safle, gan arwain at ganllawiau a phrotocolau i fonitro effaith lefelau deiliadaeth uwch a lliniaru'r risg i weithwyr allweddol. Er mwyn sicrhau bod ein hadeiladau yn ddiogel COVID-ddiogel, rydym wedi cyflwyno cynlluniau ymateb i ddigwyddiadau COVID penodol, cynlluniau rheoli cadw pellter cymdeithasol a threfniadau glanhau gwell, ac wedi cynyddu'r cynhyrchion glanweithdra sydd ar gael. Cyflwynwyd prosesau newydd hefyd i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion rhaglen Profi ac Olrhain y GIG.

Cofnodwyd gwybodaeth am brofion COVID-bositif ar gyfer staff sy'n mynychu'r swyddfa er Hydref 2020. Dros y cyfnod hwnnw, rydym wedi cael 45 o ganlyniadau profion positif COVID-19, gan gynnwys achosion y mae staff, tenantiaid a chontractwyr wedi rhoi gwybod amdanynt.

Rydym wedi cynnal cydymffurfiaeth ein prif offer mecanyddol a thrydanol trwy'r pandemig, gan weithio ar y cyd â'n darparwr rheoli cyfleusterau, gan ein galluogi i gadw pob adeilad ar agor i hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau allweddol a chynnal gweithle COVID-ddiogel yr un pryd.

Yn Rhagfyr 2020 llwyddwyd i gynnal ein hachrediad i Safon ISO 45001 trwy archwiliad allanol o bell a gwblhawyd gan ein harchwilwyr penodedig. Mae cadw'r safon hon yn rhoi sicrwydd o aeddfedrwydd ein system rheoli iechyd a diogelwch a chyfatebiaeth ag arferion gorau, ac mae'n hyrwyddo gwelliant parhaus.

Rydym wedi addasu ein hasesiadau Offer Sgrin Arddangos. Erbyn hyn mae'r rhain yn adlewyrchu'r lleoliadau gweithle gwahanol ac yn cynnwys cwestiynau cymwys sy'n ymwneud â phob lleoliad. Rydym wedi gwella'r wybodaeth reoli a'r swyddogaethau adrodd yn ystod trosglwyddo i blatfform asesu newydd, gan ddarparu data byw ar nifer yr asesiadau sydd wedi eu cwblhau a nifer y staff sydd â risgiau uchel. Er mwyn cynorthwyo gyda gwaith cartref a rheoli'r risgiau sy'n ymwneud ag Offer Sgrin Arddangos, rydym wedi darparu contract dodrefn newydd i gynnwys darparu dodrefn ac offer er mwyn gallu efelychu'r gweithle swyddfa yn y cartref.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21, cofnodwyd cyfanswm o 16 o ddamweiniau. Fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

**Gweithle swyddfa**

- 9 damwain yn ymwneud â staff Cofrestrfa Tir EM
- 0 damwain yn ymwneud â chontractwyr.
- 1 damwain yn ymwneud ag ymwelwyr

**Gweithle cartref**

- 7 damwain yn ymwneud â staff Cofrestrfa Tir EM
- 0 damwain yn ymwneud â chontractwyr.
- 0 damwain yn ymwneud ag ymwelwyr

Nid oedd angen adrodd am unrhyw un o'r damweiniau uchod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus.

## Cwynion

Cofnodwyd 5,169 o gwynion yn 2020/21 o'i gymharu â 5,678 yn 2019/20, gostyngiad o bron i 10%. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i effaith COVID-19, a oedd ar adegau yn ystod y flwyddyn wedi lleihau cysylltiadau a cheisiadau cwsmeriaid yn sylweddol.

Un ffactor arbennig o arwyddocaol yn hyn o beth oedd atal dros dro ein gweithdrefn ganslo ar gyfer y mwyafrif o geisiadau cofrestru gyda cheisiadau heb eu hateb am wybodaeth (ymholiadau) rhwng Mai a Thachwedd 2020, a oedd yn achos cyffredin o gwynion yn flaenorol. Roedd hwn yn un o ystod o fesurau dros dro a roddwyd yn eu

lle i helpu cwsmeriaid trwy bandemig COVID-19 (rhoddir rhagor o fanylion isod).

Cafodd 47% o'r cwynion a gofnodwyd eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol. Adborth cwsmeriaid am yr oedi wrth brosesu ceisiadau cofrestru ac ymholiadau cwsmeriaid cysylltiedig oedd y maes mwyaf cyffredin o gwynion a gadarnhawyd, sef 32% o'r cyfanswm a gadarnhawyd. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai o'n hamseroedd prosesu ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn awtomataidd yn hwy nag yr hoffem iddynt fod.

Roedd y prif feysydd eraill o gwynion a gadarnhawyd yn ymwneud â'r ceisiadau am wybodaeth (ymholiadau) y gofynnwn i gwsmeriaid pan nad yw eu ceisiadau yn cynnwys y wybodaeth ofynnol (8%).

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd i ddwy gŵyn Cofrestrfa Tir EM yn ystod y flwyddyn. Ni adroddwyd ar y rhain eto.

Cynhaliwn ddadansoddiad o'r holl gwynion a gafwyd trwy gydol y flwyddyn i ddal a gweithredu ar bwyntiau dysgu. Er enghraifft, dywedodd ein cwsmeriaid yr hoffent gael:

- cyfarwyddyd ar sut i gyflymu ceisiadau ac inni roi mwy o gymorth iddynt wrth esbonio'r opsiynau sydd ar gael iddynt pan fyddwn yn gwrthod ceisiadau. Rydym wedi diweddaru ein cyfarwyddyd ar sut i ofyn i gyflymu cais a beth i'w ddarparu, ac rydym wedi rhoi cyhoeddusrwydd ehangach i hyn. Rydym hefyd wedi diwygio ein geiriad safonol a ddefnyddir pan fyddwn yn gwrthod ceisiadau neu pan fydd angen mwy o wybodaeth arnom i helpu gyda chysondeb a bod yn gliriach ar yr hyn y mae ei angen arnom i ailystyried y cais;
- rhagor o wybodaeth am statws cynnydd ceisiadau cofrestru sy'n aros i'w prosesu, y rheswm dros yr oedi a'n hamseroedd cwblhau ar gyfartaledd ar gyfer y gwahanol fathau o geisiadau rydym yn eu prosesu. Gall cwsmeriaid e-wasanaethau busnes sy'n cyflwyno ceisiadau trwy borthol Cofrestrfa Tir EM ddefnyddio'r gwasanaeth View My Applications erbyn hyn i wirio statws, cynnydd a dyddiad cwblhau disgwyliedig ceisiadau sy'n aros i'w prosesu. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth fanylach a gyhoeddir ar GOV.UK am amseroedd cwblhau; a
- datrysiad mwy digidol sy'n eu helpu i gyflwyno ceisiadau yn gywir y tro cyntaf. Mae ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol ar gael i gwsmeriaid e-wasanaethau busnes sy'n cyflwyno ceisiadau trwy borthol Cofrestrfa Tir EM, ar gam brawf i gychwyn a bydd yn destun datblygiadau pellach yn y dyfodol. Dylai hyn leihau gwallau a'r angen inni wneud ceisiadau am wybodaeth (ymholiadau).

Oherwydd effaith COVID-19, cyflwynwyd ystod o fesurau i helpu cwsmeriaid ar ôl gwrando ar eu hadborth. Roedd manylion eu hadborth a'r camau a gymerwyd yn cynnwys y canlynol.

- Roeddent yn cael anawsterau wrth gadarnhau eu hunaniaeth eu hunain gerbron gweithiwr trawsgludo proffesiynol at ddibenion cofrestru tir. Cyflwynwyd newidiadau dros dro i'n gofynion tystiolaeth hunaniaeth, gan gynyddu'r ystod o weithwyr proffesiynol a all gadarnhau hunaniaeth, a derbyn cadarnhad trwy fideo-alwad.
- Roeddent am gael amser ychwanegol i ymateb i geisiadau am wybodaeth (ymholiadau). Cafodd dileu ceisiadau gyda cheisiadau heb eu hateb am wybodaeth (ymholiadau) eu hatal dros dro. O Dachwedd 2020 ail-ddechreuwyd dileadau ond mewn ffordd raddol, gan anfon llythyrau atgoffa a rhoi mwy o amser i ymateb i geisiadau.
- Roeddent yn cael anawsterau wrth ymweld â swyddfeydd trawsgludwyr i lofnodi dogfennau papur oedd yn cynnwys partïon lluosog ac oedd yn gofyn am lofnod(ion) gerbron tyst. Nes clywir yn wahanol, rydym yn derbyn at ddibenion cofrestru, drosglwyddiad o berchnogaeth a gweithredoedd penodol eraill a gyflawnir trwy ddull rhithiol, y cyfeirir atynt fel Llofnodion Mercwri, a hefyd trwy lofnodion electronig wedi eu tystio.

Mae ein Hadolygydd Cwynion Annibynnol yn darparu gwasanaeth adolygu a datrys cwynion rhad ac am ddim a diduedd ar gyfer unrhyw gwsmer sy'n anhapus â'r modd rydym wedi delio â'i gŵyn. Trwy gydol y flwyddyn, mae ei hadroddiadau a'i hargymhellion sy'n deillio o'r cwynion y mae wedi eu hadolygu wedi parhau i ddarparu ffynhonnell werthfawr o fewnwelediad a nodi meysydd lle mae angen inni wella.

Rydym yn parhau i adolygu ein prosesau adborth cwsmeriaid gan geisio gwella'r ffordd rydym yn cydnabod ac yn delio â chwynion a'n helpu i nodi'n fwy effeithiol mewnwelediadau a gwelliannau sy'n deillio o adborth cwsmeriaid. Mae newid arfaethedig i ddarparwr meddalwedd masnachol ein system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn 2021/22 yn rhoi cyfle inni gynnwys gwelliannau pellach yn y system honno.

## Safonau gwasanaeth

Mae manylion y gwasanaeth y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl gennym i'w gweld ar ein gwefan: https://www.gov.uk/government/publications/hm-land-registry-service-standards.cy.

## Crynodeb blynyddol o weithgareddau'r Pwyllgor Rheol Cofrestru Tir

Cyfansoddwyd Pwyllgor Rheol Cofrestru Tir o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i roi cyngor a chymorth i'r Arglwydd Ganghellor yn wreiddiol, ond erbyn hyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ar lunio rheolau cofrestru tir a gorchmynion ffïoedd o dan y Ddeddf.

Yn Ebrill 2020, rhoddodd y pwyllgor gyngor a chymorth i ddiwygiad brys Rheolau Cofrestru Tir 2003 i roi hyblygrwydd ychwanegol lle bo angen yn ystod amgylchiadau eithriadol, fel pandemig COVID-19. Pan fydd angen, gallai'r rheolau diwygiedig helpu i warchod y rhai sydd yn y broses prynu cartref. Daeth y rheolau diwygiad i rym ar 16 Ebrill 2020.

Yn Ebrill 2021, bu'r pwyllgor yn craffu ac yn cynghori ar y gorchymyn ffïoedd newydd arfaethedig, y disgwylir iddo gael ei weithredu yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yn wyneb y cyfyngiadau ar symudiadau, cynhaliwyd busnes y pwyllgor trwy'r ebost. Ni fu unrhyw newidiadau i'r aelodaeth yn ystod y flwyddyn.

## Caethwasiaeth fodern

Cefnogwn fesurau i sicrhau nad oes lle i gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys caethwasiaeth a masnachu pobl, yn ein sefydliad nac yn ein cadwyni cyflenwi. Rydym yn parhau i ddefnyddio gweithdrefnau cadarn, gan

gynnwys yn ein contractau a'n prosesau recriwtio, ac yn hwyluso gallu cydweithwyr i godi unrhyw bryderon, gan gynnwys unrhyw rai yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi.

## Cynllun Iaith Gymraeg

Parhawn i fod yn ymrwymedig i'n hymrwymiadau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru. Chris Pope, y Prif Swyddog Gweithrediadau, yw'r uwch berchennog cyfrifol ar gyfer y cynllun. Cymeradwywyd ein cynllun cyfredol sy'n cynnwys ein cynllun gweithredu pedair blynedd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 27 Medi 2019. Mae gennym dîm ymroddedig ar gyfer y Gymraeg yn Swyddfa Abertawe a llinell ffôn Gymraeg ar gyfer ymholiadau cyffredinol – 0300 006 0422.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau Cymraeg i'w gweld yn https://www.gov.uk/government/organisations/land-registry/about/welsh-language-scheme.cy

## Cydlynu polisi a budd-ddeiliaid

Mae Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir yn cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau i gynnal enw da Cofrestrfa Tir EM gyda'r llywodraeth a budd-ddeiliaid allweddol. Mae'n cydlynu ein cyfraniad a'n hymateb i ddatblygiad polisïau'r llywodraeth a'n cynrychiolaeth yn rhyngwladol. Mae Cofrestrfa Tir EM yn mabwysiadu dull gweithredol at sganio gorwelion polisi er mwyn sicrhau ei bod yn ymateb yn briodol i ymgynghoriadau ffurfiol. Mae'r swyddfa yn gyfrifol am berthynas Cofrestrfa Tir EM â'i hadran nawdd yn ogystal â llywodraethu corfforaethol sy'n cynnwys Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd. Mae'r swyddfa hefyd yn cefnogi'r uwch dimau gweithredol ac anweithredol.

Mae Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir yn cydweithio'n agos ag UK Government Investments sy'n gweithredu fel asiant yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol gan gynrychioli budd y Llywodraeth mewn dull llywodraethu a pherfformiad Cofrestrfa Tir EM fel sefydliad. Gweithiwn yn unol â'n fframwaith a gafodd ei ddiweddaru a'i gyhoeddi yn Ionawr 2021, gan adlewyrchu ein statws fel adran anweinidogol gydag ymrwymiadau ffurfiol i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Trysorlys Ei Mawrhydi a'r Comisiwn Geo-ofodol.

Yn ystod y flwyddyn, mae Cofrestrfa Tir EM wedi darparu cyngor arbenigol ar gofrestru tir, nodau strategol a chanlyniadau arfaethedig Cofrestrfa Tir EM i sawl menter polisi llywodraeth a budd-ddeiliaid allweddol. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys gweithio'n agos gyda'r Adran Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gyfateb ein dulliau hunaniaeth ddigidol arloesol â pholisi ehangach ar hunaniaeth ddigidol a'r strategaeth ddata genedlaethol; a chyfrannu at waith y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar ddiwygio lesddaliad a chydradd-ddaliad, ac ar ddiwygio cynllunio. Uchafbwyntiau eraill fu arwain paratoadau Cofrestrfa Tir EM ar gyfer diwedd cyfnod trosglwyddo'r UE a pharatoi ymateb y Llywodraeth i adolygiad Comisiwn y Gyfraith o'r Ddeddf Cofrestru Tir, a gyhoeddwyd ar 25 Mawrth ac sy'n nodi ystod o gamau nesaf tuag at weithredu amrywiaeth o argymhellion i ateb anghenion trawsgludo modern. Cefnogwyd adrannau eraill o'r llywodraeth yn ystod Cwestiynau Seneddol trwy gydol y flwyddyn ac ymatebodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i bum Cwestiwn Seneddol oedd yn ymwneud yn benodol â Chofrestrfa Tir EM gyda phynciau gan gynnwys y data a gadwn ar berchnogaeth tir, y gwasanaethau a ddarparwn a'r dechnoleg a ddefnyddiwn.

Mae'r swyddfa yn cydlynu perthnasoedd budd-ddeiliaid allweddol Cofrestrfa Tir EM i sicrhau bod ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn rhan annatod o ddarpariaeth cwsmeriaid Cofrestrfa Tir EM, gyda mewnwelediad a phrofiad yn cael eu rhannu'n eang. Rydym yn manteisio ar gyfleoedd i asesu sut mae pobl yn teimlo gan gasglu a rhannu gwybodaeth i lywio cynllunio a darpariaeth effeithiol ar draws y sefydliad yn ogystal â llywio datblygu polisi ac ymyriadau. Mae Cyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir yn dwyn ynghyd sefydliadau cynrychioliadol allweddol sy'n ymwneud â'r broses drawsgludo ac mae wedi cwrdd pedair gwaith i rannu barn a chyfrannu at ddatblygu polisi Cofrestrfa Tir EM trwy rannu persbectifau ar draws y diwydiant.

Sefydlwyd y Fforwm Diwydiant yn Ebrill 2020 i ymgysylltu'n uniongyrchol â chroestoriad o fudd-ddeiliaid a chwsmeriaid i lywio proses flaenoriaethu Cofrestrfa Tir EM a gwrando ar gwsmeriaid wrth iddynt ddelio â heriau'r pandemig. Trwy wneud hyn roeddem yn gallu gweithio ar y cyd i ymlacio a diwygio prosesau a pholisïau fel bod trafodion eiddo yn parhau i allu digwydd wrth i'n cwsmeriaid addasu i sefyllfaoedd gwaith gwahanol.

Erbyn hyn mae'r fforwm yn un o'n mecanweithiau ymgysylltu allweddol, a byddwn yn parhau i'w ddefnyddio i benderfynu ar y ffordd orau o gefnogi cwsmeriaid. Mae wedi archwilio atebion gwahanol i wella effeithiolrwydd y farchnad eiddo trwy adeiladu cyd-ddealltwriaeth a gweledigaeth o'r mesurau y gallai Cofrestrfa Tir EM eu cymryd i helpu'r farchnad eiddo fod yn fwy effeithlon ac effeithiol er budd cyffredinol. Mae hefyd wedi darparu sianel i Gofrestrfa Tir EM brofi syniadau'n agos gyda grŵp cynrychioliadol o fudd-ddeiliaid a chwsmeriaid a chael effaith yn uniongyrchol.

Cadwodd Cofrestrfa Tir EM gysylltiad pwysig â chofrestrfeydd tir yr Alban, Gogledd Iwerddon, Iwerddon ac Ynys Manaw trwy gynnal pedwar cyfarfod ar-lein. Mae'r swyddfa hefyd wedi sicrhau bod Cofrestrfa Tir EM wedi mabwysiadu presenoldeb rhyngwladol priodol i rannu arfer gorau, gan gynnwys trwy gymryd rhan yn y Gynhadledd Cofrestri Teitlau flynyddol yn Nhachwedd 2020 ac fel aelod o Weithgor Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Gweinyddu Tir. Mae'r gweithgor wedi cyfarfod ar-lein trwy gydol y flwyddyn, gyda Chofrestrfa Tir EM yn cyflwyno fel rhan o drafodaeth banel ym Mawrth 2021 ar ddigideiddio carlam fel effaith COVID-19. Mae Swyddfa'r Prif Weithredwr hefyd wedi cydlynu ymgysylltiad Cofrestrfa Tir EM â'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu wrth ddarparu gwasanaethau cynghori i gefnogi ymrwymiadau datblygu rhyngwladol.



**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
9 Gorffennaf 2021

# Geirfa

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Adnodd Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | Eitemau o natur anrheoladwy neu anrhagweladwy. Ar gyfer Cofrestrfa Tir EM, yr elfen bwysicaf yw'r symudiad blynyddol yn narpariaeth y Gronfa Indemniad, a ddefnyddir i warantu cywirdeb y Gofrestr Tir. Mae'r ddarpariaeth yn gweithredu fel dull i indemnio'r sefydliad yn erbyn twyll a/neu wallau. |
| **Adnodd Terfyn Gwariant Adrannol** | Terfyn net sy'n cynnwys costau rhedeg sefydliadol o ddydd i ddydd. Mae'r cyfanswm hwn yn cael ei ddadansoddi fel arfer yn symiau wedi eu clustnodi (costau dibrisio ac amorteiddio) a symiau heb eu clustnodi. |
| **Awtomeiddio proses robotig** | Math o dechnoleg awtomeiddio proses busnes. |
| **Bloc-gadwyn** | Cyfriflyfr cyhoeddus wedi ei ddosbarthu a'i ddatganoli. |
| **Cais** | Gwneud cais i gofrestru tir digofrestredig, diweddaru tir cofrestredig neu deitlau eiddo, neu wneud cais am wybodaeth gan Gofrestrfa Tir EM. |
| **Cais am wybodaeth** | Lle mae'n rhaid i Gofrestrfa Tir EM wneud ymholiadau i'r ceisydd ynghylch cais oherwydd bod gwybodaeth neu dystiolaeth yn eisiau neu'n anghywir ac felly ni ellir ei brosesu. |
| **Cais creu cofrestr** | Unrhyw gais sy'n arwain at greu cofrestr hollol newydd, fel trosglwyddo rhan o deitl sy'n bodoli eisoes, prydles newydd neu gofrestru tir am y tro cyntaf. |
| **Ceisiadau/gwasanaethau brys** | Gall cwsmeriaid wneud cais i Gofrestrfa Tir EM brosesu cais ar frys. |
| **Copi swyddogol** | Copïau o weithredoedd a dogfennau sy'n cael eu ffeilio gyda ni, gan gynnwys cofrestri teitl a chynlluniau teitl, y gwarantir eu bod yn gywir ac y gellir eu cyflwyno fel tystiolaeth fel pe baent yn ddogfennau gwreiddiol. |
| **Cyfamod cyfyngu** | Cytundeb, wedi ei gynnwys mewn gweithred fel arfer, sy'n creu ymrwymiad ar berchennog y tir dan sylw, megis cyfyngu ar ddefnyddiau tir. |
| **Cyfyngiad** | Cofnod sy'n cyfyngu Cofrestrfa Tir EM rhag diweddaru'r gofrestr oni bai bod amodau penodol yn cael eu bodloni. |
| **Cyfyngiad Gwariant Adrannol Cyfalaf** | Buddsoddiad mewn meddalwedd a gynhyrchir yn fewnol, offer TG ac ystadau. |
| **Cynllun teitl** | Cynllun yn dangos arwynebedd eiddo cofrestredig ar fap, yr Arolwg Ordnans fel arfer. |
| **Cynwyslwytho** | Math o system weithredu sy'n pecynnu cod a'i holl ddibyniaethau fel bod pob cynhwysiad unigol yn rhedeg yn gyflym ac yn ddibynadwy o un amgylchedd cyfrifiadurol a rennir. |
| **Chwiliad swyddogol** | Yn cynnig modd i bobl fel prynwyr tai neu roddwyr benthyg morgeisi gael blaenoriaeth i gwblhau ar eu pryniant, prydles neu bridiant dros geisiadau a gyflwynir wedi hynny. |
| **Datganiad Ymddiriedolaeth** | Y datganiadau ariannol sy'n rhoi cyfrif am y refeniw a gesglir gan Gofrestrfa Tir EM sy'n ddyledus i Gronfa Gyfunol Trysorlys EM. Ar gyfer Cofrestrfa Tir EM, mae hyn yn cyfeirio at refeniw o ffïoedd a thaliadau, ac incwm o weithgareddau masnachol. |
| **Deallusrwydd artiffisial** | Deallusrwydd a dysgu a arddangosir gan beiriannau. |
| **Defnyddio talebau** | Creu cynrychiolaeth ddigidol (taleb) wedi ei seilio ar floc-gadwyn o ased go iawn fel eiddo. |
| **Diweddaru cofrestr** | Unrhyw gais i newid cofrestr cyfan teitl eiddo sy'n bodoli, gan gynnwys morgeisi newydd, newid enw, trosglwyddiadau a rhyddhadau. |
| **Dull Mercwri** | 'Llofnodion electronig' lle mae'r gweithredoedd wedi eu llofnodi mewn beiro a'u tystio yn bersonol, yna eu dal gyda sganiwr neu gamera i gynhyrchu copi digidol addas. |
| **Fintech** | Mae Fintech yn cyfuno'r gair 'finance' a 'technology' ac mae'n cyfeirio at fusnesau sy'n defnyddio technoleg i wella neu awtomeiddio gwasanaethau a phrosesau ariannol. |
| **Fforwm y Diwydiant** | Trawsdoriad o gwsmeriaid a budd-ddeiliaid yn y farchnad eiddo a drawsgludir gan Gofrestrfa Tir EM, sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wella'r broses drawsgludo. |
| **Fframwaith Hyblyg Caffael Cynaliadwy** | Dull hunanasesu sy'n cynnig modd i sefydliadau fesur a monitro eu cynnydd ar gaffael cynaliadwy dros amser. |
| **Geo-ofodol** | Data a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â lleoliad penodol. |
| **Golwg o'r gofrestr** | Gweld y fersiwn cyfredol o'r gofrestr. |
| **Gwasanaeth Cofrestru Digidol** | Gwasanaeth porthol Cofrestrfa Tir EM sy'n caniatáu i geisiadau gael eu cyflwyno'n ddigidol lle mae'r data'n cael ei wirio'n awtomatig cyn ei gyflwyno |
| **Gwasanaethau cofrestru craidd** | Cofrestru perchnogaeth, buddion a morgeisi yn erbyn tir ac eiddo. |
| **Gweld dogfen** | Gweld dogfen fel PDF, ei hargraffu neu ei harbed. |
| **Gwelliant parhaus** | Ymdrech barhaus i wella cynhyrchion, systemau, gwasanaethau a gwybodaeth. |
| **Pridiannau Tir** | Buddion mewn tir digofrestredig a all gael eu gwarchod gan gofnod yn y Gofrestr Pridiannau Tir. |
| **PropTech** | Defnyddio technoleg i helpu unigolion a chwmnïau i ymchwilio, prynu, gwerthu a rheoli eiddo tiriog. |
| **Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol** | Term a ddefnyddir i ddisgrifio prosesau, systemau, cyfleusterau, technolegau, rhwydweithiau, asedau a gwasanaethau sy'n hanfodol i iechyd, diogelwch, neu lesiant economaidd y genedl a gweithrediad effeithiol y llywodraeth. |
| **Teitl** | Tystiolaeth o hawl rhywun i eiddo. |
| **Trosglwyddiad o ran** | Trosglwyddiad o ran o deitl cofrestredig, megis pan fydd tŷ a gardd yn cael eu cofrestru o dan un teitl ac mae'r perchennog yn gwerthu rhan o'r ardd. |
| **View My Applications** | Gwasanaeth rhad ac am ddim o fewn porthol Cofrestrfa Tir EM sy'n cynnig modd i ddefnyddwyr weld yr holl gymwysiadau a wneir trwy ddefnyddio'r porthol, ynghyd â gwirio'r statws a lawrlwytho'r holl ddogfennau perthnasol sy'n ymwneud â phob cais. |
| **Ymholiad** | Gweler 'Cais am wybodaeth'. |
| **Ymholiadau gwarantedig** | Gwasanaethau sy'n darparu gwybodaeth a chanlyniadau sy'n dod gyda gwarant y wladwriaeth. |
| **Ystwyth** | Dull o reoli prosiectau sy'n defnyddio ymdrechion cydweithredol i ddatblygu atebion sy'n cyflawni ei nodau. |

# Adroddiad atebolrwydd

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr


Yn yr adran hon nodir aelodau ein pwyllgorau a'n byrddau cyfarwyddo allweddol ac eglurir eu cyfrifoldebau.

#### Ein strwythur llywodraethu

Mae system lywodraethu dwy haen gan Gofrestrfa Tir EM:

- Bwrdd Cofrestrfa Tir EM (yn cynnwys aelodau bwrdd anweithredol a chyfarwyddwyr gweithredol)
- Bwrdd Gweithredol Cofrestrfa Tir EM (yn cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol)

Mae'r strwythur hwn yn galluogi'r Aelodau Bwrdd Anweithredol i ddarparu her briodol i'r Bwrdd Gweithredol gan ganiatáu i'r aelodau gweithredol wneud penderfyniadau effeithiol ar weithrediad Cofrestrfa Tir EM o ddydd i ddydd.




#### Bwrdd Cofrestrfa Tir EM

Amlinellir rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn y Fframwaith a gytunwyd gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cefnogi, yn herio'n adeiladol ac yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'i dim uwch reolwyr ar berfformiad, gweithredu a datblygu. Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn helpu uwch reolwyr i osod gweledigaeth strategol Cofrestrfa Tir EM, yn sicrhau bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael gwybodaeth briodol, ac yn cynorthwyo'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn ei gyfrifoldeb fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer llywodraethu Cofrestrfa Tir EM. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn gofynion statudol a gweinyddol ac o fewn terfynau ei awdurdod ac unrhyw awdurdod dirprwyedig.

Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet, mae gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EM y dasg o gynghori ar pum prif faes, eu herio a'u goruchwylio.

- Eglurder strategol
- Synnwyr masnachol
- Pobl dalentog
- Canolbwyntio ar ganlyniadau
- Gwybodaeth rheoli

Gyda chymorth ei Bwyllgor Archwilio a Risg, mae'r Bwrdd hefyd yn sicrhau bod Cofrestrfa Tir EM yn gweithio o fewn fframwaith o drefniadau a rheolaethau llywodraethu darbodus ac effeithiol sy'n golygu bod modd asesu a rheoli risg yn briodol. Yn rhan o'r swyddogaeth honno, cytuna'r Bwrdd ar y gweithgareddau allweddol y bydd angen i Gofrestrfa Tir EM eu cyflawni i fodloni ei hamcanion strategol fel y'u nodir yn ei Strategaeth Fusnes gyhoeddedig. Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cefnogi'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir i sicrhau bod yr adnoddau dynol ac ariannol angenrheidiol yn eu lle er mwyn i Gofrestrfa Tir EM allu bodloni'r amcanion hyn. Mae'n cytuno ar archwaeth risg y sefydliad, yn cymeradwyo'r cynllun a'r gyllideb flynyddol ac yn adolygu'n rheolaidd perfformiad mewn perthynas â thargedau cytunedig.

Ym Mai 2021, cytunwyd ar gylch gorchwyl wedi ei ddiweddaru ar gyfer Bwrdd Cofrestrfa Tir EM, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau.

Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cynnwys cymysgedd o gyfarwyddwyr gweithredol ac aelodau bwrdd anweithredol. Mae aelodau bwrdd anweithredol y Bwrdd yn fedrus iawn a chanddynt brofiad yn y meysydd perthnasol i gefnogi a herio'r Bwrdd Gweithredol. Daeth cyfnod tri o aelodau'r bwrdd anweithredol i ben y flwyddyn hon yn Ionawr 2021, ac ymunodd dau aelod bwrdd anweithredol newydd ym Mehefin 2021.

Mae'r aelodau bwrdd anweithredol yn annibynnol ar reolaeth. Mae gofyn iddynt lofnodi datganiad blynyddol sy'n cofnodi unrhyw wrthdaro buddion posibl a datgan unrhyw fuddion newydd yn y cyfamser. Cedwir cofnod 'Cofrestr Buddion' canolog. Gweler nodyn 17 i'r cyfrifon ar dudalen 115 a nodyn 6 i'r Datganiad Ymddiriedolaeth ar gyfer datgeliadau parti cysylltiedig.

Yn Ionawr 2021 cynhaliodd Bwrdd Cofrestrfa Tir EM hunanasesiad o'i effeithiolrwydd a thrafodwyd y canlyniadau yng nghyfarfod y Bwrdd. Mae'r asesiad hwn yn dangos bod Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn effeithiol ar y cyfan, ond gyda chyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus o ran blaengynllunio strategol a phapurau bwrdd llawer mwy cryno.

# Bwrdd Cofrestrfa Tir EM



**Michael Mire**

**Cadeirydd Anweithredol**

Mae Michael yn gyn Uwch Bartner yn McKinsey, lle yr arbenigodd ym maes gwasanaethau ariannol ac e-fasnach, ac erbyn hyn mae'n gyfarwyddwr anweithredol yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Aviva. Mae hefyd yn Uwch Ymgynghorydd yn Lazard. Cafodd Michael ei addysgu ym Mhrifysgol Rhydychen ac Ysgol Fusnes Harvard lle yr enillodd radd Meistr mewn Gweinyddu Busnes (MBA) ac yn Ysgolhaig Baker.



**Kirsty Cooper**

**Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol**

Mae Kirsty yn Gwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd Cwmni ar gyfer Aviva. Sefydlodd dîm arweinyddiaeth byd-eang cyntaf Aviva ac mae'n gyfrifol am bolisi cyhoeddus a chyfrifoldeb corfforaethol. Mae Kirsty ar Legal 500 Powerlist y Cwnsler Cyffredinol a hefyd yn ymddiriedolwr y Tŷ Opera Brenhinol.



**Elliot Jordan**

**Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg**

Mae Elliot yn Brif Swyddog Ariannol ac yn aelod o Fwrdd Gweithredol Farfetch, y prif lwyfan byd-eang ar gyfer ffasiwn moethus. Mae'n gyfrifol am y timau cyllid, cyfreithiol, strategaeth ac adnoddau dynol ar draws gweithrediad byd-eang. Mae hefyd yn noddwr gweithredol Amrywiaeth a Chynhwysiant. Cyn ymuno â Farfetch mae Elliot wedi dal swyddi yn ASOS plc, J Sainsbury plc, Credit Suisse a KPMG.



**Angela Morrison**

**Aelod Bwrdd Anweithredol**

Mae Angela yn Brif Swyddog Gweithredu yn Cancer Research UK (CRUK) lle mae'n gyfrifol am Gyllid, AD, Technoleg a Gwasanaethau Corfforaethol. Cyn ymuno â CRUK roedd Angela yn Gyfarwyddwr Manwerthu, Cadwyn Gyflenwi a Thechnoleg yn Debenhams ac mae hefyd wedi cael rolau yn J Sainsbury plc, Direct Line Group ac ASDA Walmart.



**Jeremy Pee**

**Aelod Bwrdd Anweithredol**

Jeremy yw'r Prif Swyddog Digidol a Data yn Marks & Spencer. Cyn hynny roedd yn Uwch Is-lywydd Loblaw Digital, uned ddigidol prif fanwerthwr Canada. Mae gan Jeremy radd Meistr mewn Gweinyddu Busnes (MBA) o Ysgol Fusnes Harvard a gradd mewn peirianneg o Brifysgol Waterloo.



**Ann Henshaw**

**Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau**

Mae gan Ann brofiad helaeth ym maes adnoddau dynol, ar ôl gweithio mewn sawl cwmni mawr ar draws amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys eiddo, yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae'n Gyfarwyddwr AD yn British Land ac yn aelod o'i Dim Gweithredol. Mae ei rolau blaenorol yn cynnwys gwasanaethu fel Cyfarwyddwr Grŵp AD yn Clear Channel International a Chyfarwyddwr AD yn EDF Energy.



**Ed Westhead**

**Aelod Bwrdd Anweithredol, UKGI (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol)**

Mae Ed yn Gyfarwyddwr Gweithredol yn UK Government Investments (UKGI), canolfan rhagoriaeth y Llywodraeth ar gyfer cyllid corfforaethol a llywodraethu corfforaethol, wedi ei leoli yn Llundain. Cyn hynny bu'n aelod bwrdd anweithredol ar gyfer Tŷ'r Cwmnïau ac mae wedi cael rolau blaenorol ym maes cyllid corfforaethol gyda Macquarie a BAE Systems.

# Bwrdd Gweithredol



**Simon Hayes**

**Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir**

Ymunodd Simon yn Nhachwedd 2019. Cyn hynny mae wedi dal sawl swydd uwch yn y Swyddfa Gartref, gan gynnwys Cyfarwyddwr Rhanbarthol cyntaf Asiantaeth Ffiniau'r DU ar gyfer America, Cyfarwyddwr Rhyngwladol Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI) ac yn olaf Cyfarwyddwr Fisâu a Dinasyddiaeth yn UKVI. Roedd cyfrifoldebau Simon yn cynnwys sefydlu Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar gyfer dinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yn y DU.



**Mike Harlow**

**Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir**

Ymunodd Mike yn Chwefror 2018. Graddiodd o Goleg Imperial mewn peirianneg fecanyddol cyn newid i'r gyfraith. Yna bu'n gweithio fel cyfreithiwr yn Llundain am 15 mlynedd, yn gweithredu ar ran cleientiaid eiddo masnachol, ac 11 mlynedd yn English Heritage fel ei Gyfarwyddwr Cyfreithiol ac Ysgrifennydd Corfforaethol. Cafodd brofiad ar lefel bwrdd o newid sefydliadol a'r gyfraith treftadaeth a diwygio polisi.



**Iain Banfield**

**Prif Swyddog Ariannol**

Ymunodd Iain yn Chwefror 2019. Cyn hynny fe dreuliodd dwy flynedd a hanner yn yr Adran Masnach Ryngwladol, yn gyntaf fel y Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Cyllid Strategol ac yna fel Cyfarwyddwr Cyllid dros dro. Cyn hynny bu'n Gyfarwyddwr Cyllid ar gyfer UK Trade & Investment ac mae wedi cael rolau yn y Weithrediaeth Gyfranddalwyr a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.



**Chris Pope**

**Prif Swyddog Gweithrediadau**

Ymunodd Chris yn Hydref 2017. Treuliodd 27 o flynyddoedd fel swyddog y Peirianwyr Brenhinol. Yn dilyn profiad yn y sector preifat fel Cyfarwyddwr Prosiectau Grŵp yn Tribal Group ac fel Pennaeth Gwasanaethau Peirianneg Gweithredol yn Laing O'Rourke, symudodd Chris i Gyngor Merton fel Cyfarwyddwr Trawsnewid. Bu'n Gyfarwyddwr Masnachol hefyd yn yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ac yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.



**Karina Singh**

**Cyfarwyddwr Trawsnewid**

Ymunodd Karen yn 2017. Mae ei gyrfa wedi cwmpasu amrywiaeth o rolau yng Nghyllid a Thollau EM a Thrysorlys EM, lle y bu'n Bennaeth y tîm Polisi TAW. Mae wedi gweithio ym maes cyflawni newid am y 15 mlynedd diwethaf gan arwain rhaglen drawsnewid genedlaethol ar gyfer cwmni peirianneg yn y sector preifat. Yn fwy diweddar, roedd Karina yn Gyfarwyddwr Trawsnewid yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio.



**Simon Morris**

**Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol**

Cafodd Simon ei benodi ym Mehefin 2020. Dechreuodd ei yrfa fel hyfforddai graddedig ar gyfer Boots cyn symud ymlaen i rolau rheoli ym Maes Awyr Heathrow, BUPA Health Insurance a Danone. Fe'i penodwyd yn Aelod Siartredig o Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu yn 2016. Ei rôl fwyaf diweddar oedd fel Cyfarwyddwr Grŵp AD ar gyfer DDD Limited.



**Andrew Trigg**

**Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg**

Ymunodd Andrew yn 2005 ac mae wedi bod yn Gyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg er Mai 2020. Ei rôl flaenorol oedd fel Prif Swyddog Geo-ofodol a Data. Dechreuodd ei yrfa fel academydd ac yna treuliodd amser yn y diwydiant geo-ofodol yn gweithio mewn rolau masnachol ac i awdurdod lleol. Yna bu'n gweithio i'r Arolwg Ordnans am 10 mlynedd, lle roedd yn gyfrifol am gyflwyno MasterMap.

| Aelodaeth Bwrdd Cofrestrfa Tir EM | |
|---|---|
| **Anweithredol** | |
| Michael Mire | Cadeirydd Anweithredol |
| Kirsty Cooper | Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol, Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau (RemCo) (o 8 Ionawr 2021) |
| Diana Breeze | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd RemCo (tan 7 Ionawr 2021) |
| Doug Gurr | Aelod Bwrdd Anweithredol (tan 7 Ionawr 2021) |
| Ann Henshaw | Aelod Bwrdd Anweithredol (o 1 Mehefin 2021) |
| Elliot Jordan | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg |
| Angela Morrison | Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Chris Morson | Aelod Bwrdd Anweithredol (tan 7 Ionawr 2021) |
| Jeremy Pee | Aelod Bwrdd Anweithredol (o 1 Mehefin 2021) |
| Ed Westhead | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) |
| **Gweithredol** | |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol |
| Mike Harlow | Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| Chris Pope | Prif Swyddog Gweithrediadau |

## Blwyddyn mewn ffocws

Yn ystod 2020/21 roedd y materion a gafodd sylw gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cynnwys:

— ymateb i COVID-19 a'r effaith ar staff, perfformiad, risg a chyllid;
— cynllunio busnes, cyllideb a fframwaith perfformiad, gan gynnwys adolygu blaenoriaethau trwy gydol y flwyddyn adrodd, goruchwyliaeth strategol o Adolygiad Gwariant 2020 a arweiniodd at gytundeb Trysorlys EM i gynigion, cynllunio a datblygu busnes 2021/22 a chytuno ar fframwaith perfformiad newydd;
— trafodaethau strategaeth fusnes ar uchelgais Cofrestrfa Tir EM a'r ffordd ymlaen ar gyfer strategaeth newydd gan gynnwys cytuno ar fframwaith strategol i gyflawni'r strategaeth newydd a symud i gyhoeddi strategaeth fyw sy'n esblygu ac sy'n cael ei diweddaru'n flynyddol;
— cynnydd, blaenoriaethu a chynllunio gweithredol a thrawsnewidiol gan gynnwys sicrhau bod ffocws parhaus ar gynhyrchiant;
— parhau i weithio ar leihau'r ôl-groniad o achosion cymhleth;
— cyflymu'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol ac achosion busnes cysylltiedig gan arwain at gymeradwyaeth Trysorlys EM;
— ailasesu archwaeth risg Cofrestrfa Tir EM gan arwain at ddatganiad archwaeth risg newydd;
— canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil a datblygu'r strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant; a
— threfniadau llywodraethu anweinidogol newydd Cofrestrfa Tir EM gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol fel y'u nodwyd yn y Fframwaith a adolygwyd ac y cytunwyd arno gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EM, yn ogystal â gwelliannau i drefniadau llywodraethu mewnol.

## Cyfarfodydd Bwrdd Rhithiol

Cyfarfu Bwrdd Cofrestrfa Tir EM 15 gwaith yn 2020/21. Yn sgil pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fwrdd Cofrestrfa Tir EM gwrdd yn rhithiol, ad-drefnwyd yr amserlen cyfarfodydd er mwyn gallu cwrdd yn amlach gan alluogi Bwrdd Cofrestrfa Tir EM i gadw i fyny â'r amgylchedd sy'n newid. Cynhaliwyd cyfarfodydd bwrdd hwy bob chwe wythnos, gyda chyfarfodydd byrrach, yn canolbwyntio ar berfformiad a risg, yn cael eu cynnal rhyngddynt.

Yn Nhachwedd cynhaliodd Bwrdd Cofrestrfa Tir EM ddigwyddiad holi ac ateb rhithiol ar draws y sefydliad gyda'r staff. Roedd y digwyddiad yn un o'r digwyddiadau holi ac ateb rhithiol mwyaf poblogaidd y flwyddyn gyda dros 1,700 o staff yn ymuno.

## Ymgysylltu â budd-ddeiliaid

Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn rhan allweddol o sicrhau bod Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

— Mae Cofrestrfa Tir EM yn un o chwe chorff partner craidd y Comisiwn Geo-ofodol (y 'Geo6'). Trwy gydol y flwyddyn, bu'r Cadeirydd yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r Comisiwn Geo-ofodol. Roedd y Prif Weithredwr a'r Prif Gofrestrydd Tir wedi cwrdd yn rheolaidd â'i swyddog cyfatebol yn y Comisiwn Geo-ofodol a chyda chyrff partner Geo6 eraill fel y bo'n briodol.
— Parhaodd y Cadeirydd i ymgysylltu'n rheolaidd â'r Comisiwn Geo-ofodol ac mae aelodau'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd â chwe chorff partner craidd y Comisiwn Geo-ofodol.
— Mae'r Cadeirydd a'r Prif Weithredol a Phrif Gofrestrydd Tir yn ymgysylltu'n rheolaidd â Gweinidog yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Ysgrifennydd Parhaol yr adran honno, a chyfarfu â Phrif Weithredwr y Gwasanaeth Sifil.
— Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol rhwng y Cadeirydd, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'r Prif Swyddog Ariannol ac UK Government Investments (UKGI), gyda chyfarfodydd anffurfiol rhyngddynt, i drafod llywodraethu, perfformiad ariannol a materion perthnasol eraill, fel yr amlinellir yn y Fframwaith.
— Ymgysylltodd aelodau'r Bwrdd â'u swyddogion cyfatebol yn adrannau eraill o'r llywodraeth fel Trysorlys EM a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ôl yr angen.
— Cyfarfu aelodau Bwrdd yn rheolaidd â budd-ddeiliaid sy'n aelodau o Gyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir a Fforwm y Diwydiant gan elwa ar eu gwybodaeth a'u harbenigedd, profi syniadau, rhannu gwybodaeth a

thrafod materion cysylltiedig â thir ac eiddo.
— Cyfarfu aelodau Bwrdd yn rhithiol â'u swyddogion cyfatebol yng nghofrestri tir yr Alban, Iwerddon, Gogledd Iwerddon ac Ynys Manaw bedair gwaith trwy gydol y flwyddyn yn y 'cyfarfod pum cofrestrfa', yn ogystal ag eraill o bob cwr o'r byd.

## Pwyllgorau Bwrdd Cofrestrfa Tir EM

### Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi Bwrdd Cofrestrfa Tir EM a'r Swyddog Cyfrifyddu trwy adolygu a cheisio sicrhad ar y fframwaith rheoli risg, y fframwaith rheoli, llywodraethu, cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau, safonau allanol a gofynion statudol. Mae'n adolygu Prif Risgiau'r sefydliad ac yn darparu goruchwyliaeth a her wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gweld y gofrestr risg ynghyd â data cysylltiedig â pherfformiad yn ogystal ag adroddiad rheoli risg mwy manwl ar gyfer o leiaf un Brif Risg.

Yn ystod 2020/21 roedd y materion a gafodd sylw gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys:

— goruchwylio a mewnbwn i ddatblygiad y fframwaith risg a sicrwydd, cynlluniau aeddfedrwydd, tacsonomi risg a'r datganiad archwaeth risg;
— monitro a herio Prif Risgiau Cofrestrfa Tir EM, gan gynnwys darparu cyfeiriad;
— goruchwylio'r rhaglen seiliedig ar risg o weithgarwch sicrwydd archwilio mewnol a monitro gweithredu camau rheoli cytunedig;
— goruchwylio'r newid i ffwrdd o gronfa fasnachu i fod yn adran anweinidogol;
— her i barhad busnes a gweithgarwch cysylltiedig â seiberddiogelwch;
— goruchwylio a herio ansawdd data a'r gofrestr;
— goruchwylio a herio'r Ddarpariaeth Cronfa Indemniad;
— monitro a herio rheolaethau twyll heriol a'r strategaeth gwrth-dwyll;
— adolygu'r broses chwythu'r chwiban;
— ystyried a herio dyfarniadau ariannol allweddol.

| Aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio a Risg | |
|---|---|
| Elliot Jordan | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg |
| Angela Morrison | Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Chris Morson | Aelod Bwrdd Anweithredol (tan 7 Ionawr 2021) |
| Ed Westhead | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) |
| **Mynychwyr** | |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir |
| Mike Harlow | Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol |
| Stuart Brown | Pennaeth Dros Dro Archwilio Mewnol (1 Hydref 2020 i 4 Ebrill 2021) |
| Rick Deuttenburg | Dirprwy Gyfarwyddwr, Risg a Sicrwydd (tan 6 Tachwedd 2020) |
| Harnaik Dhillon | Pennaeth Archwilio Mewnol (o 5 Ebrill 2021) |
| Patrick Green | Pennaeth Archwilio Mewnol (tan 30 Medi 2020) |
| Alastair Vella-Sultana | Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Risg a Sicrwydd (o 7 Tachwedd 2020) |
| Cynrychiolydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |

### Y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau yn sicrhau bod tâl (ac, os yw'n briodol, trefniadau enwebu), gan gynnwys strategaeth tâl uwch aelodau, yn ategu nodau Cofrestrfa Tir EM ac yn goruchwylio recriwtio, cadw a pherfformiad y tîm gweithredol ac Uwch Swyddogion eraill y Gwasanaeth Sifil o fewn polisïau tal y Gwasanaeth Sifil.

Yn ystod 2020/21 roedd y prif faterion a gafodd sylw gan y Pwyllgor Tal ac Enwebiadau yn cynnwys:

— perfformiad y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir;
— perfformiad a thâl yr Uwch Wasanaeth Sifil;
— achos busnes tâl; a
— strwythur, datblygu a chynllunio dilyniant yr uwch arweinyddiaeth.

| Aelodau'r Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau | |
|---|---|
| Ann Henshaw | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Tal ac Enwebiadau (o 1 Mehefin 2021). |
| Kirsty Cooper | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau (o 8 Ionawr 2021 i 31 Mai 2021) |
| Diana Breeze | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau (tan 7 Ionawr 2021) |
| Chris Morson | Aelod Bwrdd Anweithredol (tan 7 Ionawr 2021) |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir |
| Ed Westhead | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) |
| **Mynychwyr** | |
| Simon Morris | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (o 8 Mehefin 2020) |
| Jon Cocking | Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol (tan 5 Mehefin 2020) |

## Manylion presenoldeb ar gyfer Bwrdd Cofrestrfa Tir EM, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau

| Enw | Teitl | Cyfnod* | Bwrdd | Pwyllgor | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bwrdd Cofrestrfa Tir EM | Archwilio | Tâl |
| **Aelodau bwrdd anweithredol** | | | | | |
| Michael Mire | Cadeirydd Anweithredol | | 14/15 | - | - |
| Kirsty Cooper | Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol | | 13/15 | - | - |
| Diana Breeze | Aelod Bwrdd Anweithredol | Tan 7 Ionawr 2021 | 10/12 | – | 1/1 |
| Doug Gurr** | Aelod Bwrdd Anweithredol | Tan 7 Ionawr 2021 | 0/12 | - | - |
| Elliot Jordan | Aelod Bwrdd Anweithredol | | 14/15 | 4/4 | - |
| Angela Morrison | Aelod Bwrdd Anweithredol | | 15/15 | 4/4 | - |
| Chris Morson | Aelod Bwrdd Anweithredol | Tan 7 Ionawr 2021 | 12/12 | 3/3 | 1/1 |
| Ed Westhead | Aelod Bwrdd Anweithredol/ Cynrychiolydd UKGI | | 14/15 | 4/4 | 1/1 |
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | | 15/15 | 4/4 | 1/1 |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol | | 15/15 | 4/4 | - |
| Mike Harlow | Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | | 15/15 | 4/4 | - |
| Chris Pope | Prif Swyddog Gweithrediadau | | 15/15 | - | - |
| Simon Morris | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (o 8 Mehefin 2020) | | - | - | 1/1 |

* penodiad yn berthnasol i'r cyfan o'r flwyddyn adrodd oni nodir fel arall.

** Mae Doug Gurr wedi rhoi cyngor i Gofrestrfa Tir EM y tu allan i'r cyfarfodydd bwrdd a drefnwyd ac nid yw wedi cymryd unrhyw daliad yn y flwyddyn adrodd.

## Y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'i aelodau yw cyfarwyddwyr gweithredol Cofrestrfa Tir EM. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am arwain a rheoli'r gwaith o baratoi Strategaeth Fusnes gymeradwy Cofrestrfa Tir EM, y cynllun busnes blynyddol, amcanion a thargedau ac am reolaeth weithredol y sefydliad o ddydd i ddydd, gan gynnwys cydymffurfio â Fframwaith Cofrestrfa Tir EM. Yn ystod 2020/21 cyfarfu'r Bwrdd Gweithredu ddwywaith yr wythnos.

Cyfarfu aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn fisol fel y Bwrdd Trawsnewid, sy'n cynnwys aelodaeth estynedig o rannau priodol o'r sefydliad. Mae'r Bwrdd Trawsnewid yn goruchwylio'r gwaith o sicrha newid digidol a gweithredol o fewn y sefydliad trwy oruchwylio rhaglenni a phrosiectau cyflenwi, eu cyfatebiaeth strategol, buddion, risgiau a chyllid.

Trwy fecanwaith llythyrau dirprwyo unigol, mae aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ymdrin â'r gwaith o redeg Cofrestrfa Tir EM o ddydd i ddydd.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi parhau i weithio gyda'r 'Grŵp Arweinyddiaeth' ehangach a'i ddatblygu trwy sefydlu trafodaethau perfformiad wythnosol a sesiynau 'cinio a dysgu' i godi pynciau penodol sydd angen eu trafod yn anffurfiol. Mae holl aelodau'r Bwrdd Gweithredol ac aelodau'r Grŵp Arweinyddiaeth ehangach wedi cymryd rhan mewn ymarferion adborth 360 i lywio datblygiad.

| Aelodau'r Bwrdd Gweithredol | |
|---|---|
| Simon Hayes (Cadeirydd) | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir |
| John Abbott | Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg (tan 11 Mai 2020) |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol |
| Jon Cocking | Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol (tan 5 Mehefin 2020) |
| Mike Harlow | Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| Simon Morris | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (o 8 Mehefin 2020) |
| Chris Pope | Prif Swyddog Gweithrediadau |
| Karina Singh | Cyfarwyddwr Trawsnewid |
| Andrew Trigg | Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg (o 12 Mai 2020) |
| **Mynychwyr** | |
| Cathy Jenkins | Pennaeth Staff |
| Ronal Patel | Pennaeth Cyfathrebiadau Corfforaethol |
| Rick Deuttenburg | Dirprwy Gyfarwyddwr, Risg a Sicrwydd (tan 6 Tachwedd 2020) |
| Alastair Vella-Sultana | Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Risg a Sicrwydd (o 7 Tachwedd 2020) |

## Pwyllgorau a phaneli gweithredol eraill

Mae nifer o bwyllgorau yn adrodd i'r Bwrdd Gweithredol. Adolygwyd a diwygiwyd y rhain yn ystod 2020/21 fel rhan o newid statws Cofrestrfa Tir EM i fod yn adran anweinidogol. Mae'r pwyllgorau newydd yn rhoi cymorth ychwanegol i'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir fel Swyddog Cyfrifyddu, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arferion gorau, gan ddarparu atebolrwydd cliriach a bodloni anghenion y Bwrdd Gweithredol yn well. Erbyn hyn maent yn cynnwys:

- Y Pwyllgor Buddsoddi, Masnachol a Chyllid: Cynghori'r Bwrdd Gweithredol ar y fframweithiau masnachol ac ariannol cyffredinol a ddefnyddir gan Gofrestrfa Tir EM, gan gynnwys craffu a darparu cyngor ar achosion busnes, rheoli contractau a rhoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu ar y Fframwaith Dirprwyo Ariannol.
- Y Pwyllgor Pobl ac Ystadau: Datblygu argymhellion ar gyfer y Bwrdd Gweithredol ar faterion sy'n gysylltiedig â strategaeth pobl ac ystadau ac yn rhoi sicrwydd ar gymhwyso strategaethau a pholisïau pobl yn effeithiol, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu, effaith gronnol newid ar bobl, ymgysylltu, diwylliant ac iechyd a diogelwch.
- Y Pwyllgor Perfformiad a Data Perfformiad: Goruchwylio monitro gwybodaeth am berfformiad a rheoli perfformiad gan gynnwys gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer monitro perfformiad yn y dyfodol a dangosyddion perfformiad allweddol, a rhoi sicrwydd bod data sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn cael eu casglu a'u rheoli'n briodol.
- Y Pwyllgor Risg a Chywirdeb: Cefnogi amcan Cofrestrfa Tir EM o gynnal ffydd a hyder yn y data sydd gan Gofrestrfa Tir EM yn ei chofrestri a deall, monitro a chydlynu ymdrech i reoli risgiau ar draws y sefydliad, gan gynnwys adolygu data risg, ystyried tueddiadau a risgiau sy'n dod i'r amlwg, adolygiadau cyfnodol o strategaethau ac adroddiadau archwilio, a goruchwylio cynigion newid arferion sydd ag effaith risg sylweddol.
- Y Grŵp Gweithredu Tactegol: Cynllunio a gweithredu, yn unol â chyfarwyddyd y Bwrdd Gweithredol, digwyddiadau/gweithgareddau sy'n gofyn am gydlynu a chydweithredu traws-sefydliadol y tu hwnt i'r hyn y gellir ei gyflawni'n hawdd trwy drefniadau rheoli arferol, yn enwedig yn sgil COVID-19, gan gynnwys cyflawni rhan o'r strwythur gorchymyn fel rhan o'r trefniadau Parhad Busnes.

Mae pwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol yn cwrdd tuag unwaith y mis ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gweithredol ar ôl pob cyfarfod. Mae Cyfarwyddwr Gweithredol yn cadeirio pob is-bwyllgor ac mae'r aelodaeth yn cynnwys uwch arweinwyr o bob rhan o'r sefydliad. Caiff is-bwyllgorau eu cefnogi gan nifer o grwpiau ar eitemau penodol megis amrywiaeth a chynhwysiant, iechyd a diogelwch a gwrth-dwyll.

Caiff y Bwrdd Trawsnewid eu cefnogi gan grwpiau rhaglenni a phrosiectau. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol ar draws meysydd rhaglen ar ddigidol a data, gwella gwasanaeth, cwsmeriaid, pridiannau tir lleol, seilwaith TG a datblygu pobl a thimau.

## Digwyddiadau diogelwch

Mae diogelwch yn cael ei orchwylio gan y Panel Diogelwch a Chydnerthedd. Cafwyd pedwar digwyddiad diogelwch corfforol yn ystod y flwyddyn ac nid oedd un ohonynt ar gyfer digwyddiadau arwyddocaol (Dosbarth 1). Mae digwyddiadau Dosbarth 1 yn cynnwys materion fel anaf i aelod o staff neu drydydd parti, niwed sylweddol i eiddo, lladrad sylweddol neu achos sylweddol o dor systemau.

Cafwyd 39 o fân ddigwyddiadau seiber-ddiogelwch yn ystod y flwyddyn ac o'r rhain, nid oedd un ohonynt ar gyfer digwyddiad arwyddocaol (Dosbarth 1).

## Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Cafodd tri digwyddiad cysylltiedig â data personol eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Penderfynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r digwyddiadau a adroddwyd.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

## Cyfrifon Adnoddau

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cyfarwyddo Cofrestrfa Tir EM i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau sy'n rhoi manylion yr adnoddau sy'n cael eu caffael, eu dal neu eu gwaredu yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes yr adran a'i hincwm a gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon rhesymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fel cyfanwaith yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn Swyddog Cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol a gwarchod asedau Cofrestrfa Tir EM, i'w gweld yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr Cofrestrfa Tir EM yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad llywodraethu gan Simon Hayes, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir

## Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM rwy'n gyfrifol am gynnal strwythurau llywodraethu corfforaethol sy'n cefnogi cyflawni nodau, amcanion a thargedau Cofrestrfa Tir EM, gan ddiogelu cyllid cyhoeddus ac asedau Cofrestrfa Tir EM.

Cefais fy mhenodi'n Brif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir o 11 Tachwedd 2019. Rwyf wedi derbyn llythyr penodi gweinidogol yn unol â Deddf Cofrestru Tir 2002 a llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol i Drysorlys Ei Mawrhydi yn fy mhenodi'n Swyddog Cyfrifyddu.

Newidiodd Cofrestrfa Tir EM i fod yn adran anweinidogol ar 1 Ebrill 2020. Nodir fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu yng nghyfarwyddyd Rhedi Arian Cyhoeddus, sef sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y cyfrifir yn briodol amdano ac fe'i defnyddir yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r prif ddyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chynnal y cofrestri a ddelir gan Gofrestrfa Tir EM i'w gweld yn Neddf Cofrestru Tir 2002, Deddf Pridiannau Tir 1972, a Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975.

## Statws Bwrdd Cofrestrfa Tir EM

O ganlyniad i ailddosbarthiad Cofrestrfa Tir EM gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i'r is-sector llywodraeth ganolog at ddibenion ystadegol cyfrifon cenedlaethol, penderfynwyd y dylai statws cronfa fasnachu Cofrestrfa Tir EM ddod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2019/20.

Ar 1 Ebrill 2020 dirymwyd statws cronfa fasnachu Cofrestrfa Tir EM o dan y gyfraith ac ymunodd Cofrestrfa Tir EM ag adrannau llywodraeth ganolog eraill gyda'i chyfansymiau rheoli gwariant blynyddol yn cael eu dirprwyo'n uniongyrchol gan Drysorlys EM ac mae'n derbyn ei rheolaethau gwariant trwy'r brif broses amcangyfrifiad o gyflenwad. Mae rhagor o fanylion ar amcangyfrifiad a setliad Cofrestrfa Tir EM ar gyfer 2021/22 i'w gweld ar GOV.UK. O dan y statws newydd hwn, mae Cofrestrfa Tir EM yn ildio'i hincwm i'r Llywodraeth trwy'r gronfa gyfunol ac yn cyfrif amdano yn y Datganiad Ymddiriedolaeth sydd i'w weld ar dudalennau 118 i 126.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Pwrpas y fframwaith llywodraethu yw rhoi sicrwydd bod Cofrestrfa Tir EM yn cyflawni ei dyletswyddau mewn modd sy'n bodloni'r safonau priodol o ran rheoli risg a rheolaeth fewnol yn effeithiol. Mae'n seiliedig ar brosesau sy'n ceisio nodi a blaenoriaethu'r cyfleoedd a'r risgiau i gyflawni strategaeth Cofrestrfa Tir EM, ei hamcanion strategol a thargedau perfformiad. Mae'n cyfateb â'n dyletswyddau statudol ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi nodau strategol a llywodraethu adran nawdd Cofrestrfa Tir EM, sef yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae llywodraethu Cofrestrfa Tir EM a'i pherthynas â chyrff eraill y llywodraeth wedi ei nodi mewn Fframwaith y cytunwyd arno gyda'r Gweinidogion yn Nhachwedd 2020 ac a gyhoeddwyd ar GOV.UK ar 8 Ionawr 2021. Mae ein dull o lywodraethu yn unol â Llywodraethu Corfforaethol Adrannau Llywodraeth Ganolog Trysorlys EM: Cod Arfer Da.

Mae tîm llywodraethu Cofrestrfa Tir EM yn mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Llywodraethu Partneriaid yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i rannu a dysgu o arferion gorau.

## Rheolaethau canolog

Cyfeirir at fy rôl fel Prif Gofrestrydd Tir yn Neddf Cofrestru Tir 2002, Deddf Pridiannau Tir 1972, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975. Mae'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn gyfrifol am gadw'r cofrestri hynny a sefydlwyd at ddibenion y Deddfau hynny, ac mae ganddo'r holl bwerau, cyfrifoldebau a dyletswyddau a roddir ac a orfodir ar y Cofrestrydd gan y Deddfau hynny a chan y rheolau ac is-ddeddfwriaeth arall a wneir oddi tanynt. Wrth gyflawni'r swyddogaethau penodol hyn sy'n ymwneud yn bennaf â pherchnogaeth a thrafodion eiddo, nid yw'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn destun unrhyw reolaeth na chyfarwyddyd gweinidogol. Mae'r swyddogaethau hynny yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth gan y llys.

Wrth reoli ei busnes yn fwy cyffredinol, mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu o fewn fframwaith y ddirprwyaeth fel y'i diffinnir gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer cyrff hyd braich, a'r dirprwyaethau penodol a awdurdodir gan swyddogion yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Trysorlys EM a'r Fframwaith. Mae'r Fframwaith yn nodi'r berthynas sydd gan Gofrestrfa Tir EM â'r Comisiwn Geo-ofodol. Ar wahân i hyn, mae gofyniad hefyd i weithio gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i sicrhau bod cynnyrch a ryddheir yn cydymffurfio â'r safonau o ran diogelwch, effeithiolrwydd a chysondeb.

## Strategaeth Fusnes 2017/22

Mae gan Gofrestrfa Tir EM Strategaeth Fusnes uchelgeisiol ar gyfer y cyfnod 2017/22. Ei hamcanion yw gwireddu ymrwymiad y Llywodraeth i Gofrestrfa Tir EM fod y gofrestrfa tir fwyaf blaenllaw yn y byd am gyflymder, symlrwydd a dull agored i ddata.

Yn ystod 2020/21 gweithiodd Bwrdd Cofrestrfa Tir EM a'r Bwrdd Gweithredol ar ddiwygio'r Strategaeth Fusnes fel yr amlinellir yn yr adroddiad Perfformiad.

## Fframwaith ar gyfer rheoli risg

Mae Cofrestrfa Tir EM yn defnyddio'r model Tair Llinell Amddiffyn ar gyfer sicrhau effeithiolrwydd rheoli risg ac i roi lefel briodol o sicrwydd i Fwrdd Cofrestrfa Tir EM fod Cofrestrfa Tir EM yn rheoli risgiau o fewn yr archwaeth risg.

Yn Chwefror cynigiodd y Bwrdd Gweithredol ddatganiad Archwaeth Risg newydd a gafodd ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'i gytuno gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EM. Datblygwyd y datganiad archwaeth ymhellach ar gyfer pob categori ein tacsonomeg risg.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn adolygu ei phrif risgiau yn gyson. Mae'r perchnogion risg yn eu hadolygu unwaith bob mis ac mae'r Bwrdd Gweithredol yn edrych arnynt ar y cyd unwaith bob chwarter. Er bod llawer o'r risgiau wedi aros yr un fath yn ei hanfod, fel twyll, gwall, parhad busnes, capasiti prosesu a seiberddiogelwch, roedd y trefniadau gweithio a'r amgylchedd gweithredu newydd yn ystod y pandemig wedi hoelio sylw ar sut roedd angen i reolaethau newid i fodloni archwaeth.

Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM a'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried y Prif Risgiau yn ffurfiol bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Risg a Chywirdeb yn ystyried y Prif Risgiau yn fisol ac yn mynd at wraidd pob Prif Risg yn gylchol, a dilynir hyn gan adolygiad gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cael sicrwydd gan Dîm Cywirdeb y Gofrestr ynghylch ansawdd gwaith achos a'r Grŵp Gwrth-Dwyll ynghylch y gallu i wrthsefyll twyll.

Mae gofyn i bob cyfarwyddwr gyflwyno datganiad o sicrwydd ddwywaith y flwyddyn sy'n ymdrin â'i risgiau pennaf ac allweddol i'r gyfarwyddiaeth ac effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y rheolaethau sy'n lliniaru'r rhain.

Mae'r swyddogaeth sicrwydd ail linell yn canolbwyntio'n bennaf ar gywirdeb y cofrestri, ac ansawdd yr allbwn o'n timau gwaith achos. Mae hefyd yn darparu ymgysylltiadau sicrwydd pwrpasol, ad hoc ar gyfer prosiectau a newidiadau pan fydd angen. Bu cyfnod o drosglwyddo tuag at gyflawni sicrwydd seiliedig ar risg, mwy thematig a gwasanaethau cynghori.

Mae'r Prif Gynghorydd Diogelwch, fel y'i cymeradwywyd gan Swyddfa'r Cabinet o dan raglen Trawsnewid Diogelwch y Llywodraeth, yn gyfrifol am yr holl drefniadau parhad a diogelwch busnes, rhai corfforol, personél a seiber. Mae'r Prif Gynghorydd Diogelwch yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg bod gweithgareddau rheoli risg parhad busnes a diogelwch yn cael eu cyflawni yn unol â'r safonau a osodir gan y llywodraeth.

Mae gan Gofrestrfa Tir EM bolisi chwythu'r chwiban cadarn yn ei le ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o wasanaeth cyhoeddus. Ni chafwyd unrhyw achosion newydd o chwythu'r chwiban yn ystod y cyfnod adrodd.

## Ymateb i'r coronafeirws

Mae argyfwng cenedlaethol y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith ar Gofrestrfa Tir EM ac ar y farchnad eiddo yn gyffredinol. Gweithredodd Cofrestrfa Tir EM ei Chynllun Ymateb i'r Pandemig ym Mawrth 2020. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu strwythur ymateb i argyfwng i orchwylio'r paratoadau, yn seiliedig ar flaenoriaethu clir i gadw'r amharu ar wasanaethau cofrestru tir i'r lleiaf posibl gydag effeithiau uniongyrchol, tymor canolig a thymor hwy ar y farchnad eiddo a chwsmeriaid.

Dilynodd Cofrestrfa Tir EM ganllawiau'r llywodraeth a rhoddwyd trefniadau ar waith i alluogi staff i barhau wedi eu cysylltu a'u cefnogi. Roedd Cofrestrfa Tir EM wedi darparu offer i sicrhau bod gan staff y modd i weithio'n ddiogel ac yn gynhyrchiol o'u cartrefi pan oedd hynny'n ymarferol, a sicrhau bod canllawiau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu cynnal mewn swyddfeydd lle nad oedd modd gweithio o bell. Mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld yn yr adroddiad Perfformiad.

Gwellodd Cofrestrfa Tir EM ei chyfathrebiadau â chwsmeriaid mewnol ac allanol gan gynnwys cynyddu adroddiadau i Weinidogion yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Bwrdd Cofrestrfa Tir EM. Fel rhan o hynny, sefydlodd Cofrestrfa Tir EM Fforwm Diwydiant i alluogi Cofrestrfa Tir EM i weithio'n gyflym i fynd i'r afael ag anghenion cwsmeriaid a budd-ddeiliaid.

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi parhau i addasu ac ymateb i'r sefyllfa sy'n newid, gan gynnwys dwyn ymlaen a chyflwyno newidiadau technegol a gweithdrefnol newydd i helpu cwsmeriaid; datblygu gwybodaeth reoli i roi sicrwydd a chefnogi penderfyniadau ar lefel bwrdd; a chyflwyno cynllun busnes treigl tri mis i gefnogi blaenoriaethau busnes diwygiedig

## Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Rhoddodd Cofrestrfa Tir EM dîm yn ei le i sicrhau ei bod yn barod i adael yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys rheoli risgiau cysylltiedig.

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi cydymffurfio â newidiadau i weithdrefnau caffael ac wedi monitro risgiau i gontractau yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet, gan gynnwys rheoli effeithiau posibl ar gadwyni cyflenwi, gweithwyr a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Rhoddwyd diweddariadau rheolaidd i Fwrdd Cofrestrfa Tir EM a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

## Adrodd am berfformiad

Yn ogystal â'r adroddiadau ariannol misol gan y Prif Swyddog Ariannol, derbyniaf wybodaeth am berfformiad sefydliadol, sy'n cael ei lunio o ddata perfformiad ehangach a dderbynnir ac a adolygir gan y Pwyllgor Perfformiad a Data Perfformiad cyn ei gyflwyno'n fisol i'r Bwrdd Gweithredol. Fel y nodir yn adran Perfformiad yr adroddiad hwn, rydym wedi esblygu ein hymagwedd at berfformiad eleni, gan drosglwyddo i ddull sy'n fwyfwy seiliedig ar ddata ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gan gynnwys mesur aeddfedrwydd diwylliannol sefydliadol trwy ein 'Model Aeddfedrwydd Diwylliannol' sydd newydd ei ddatblygu.

Mae gan Gofrestrfa Tir EM dîm dadansoddi penodedig sy'n dod o dan fantell y Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Busnes sy'n sicrhau ansawdd y wybodaeth reoli y mae'n ei defnyddio trwy 'r sefydliad cyfan. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn derbyn data sy'n agos at fod yn amser real ar ddarparu gwasanaeth ochr yn ochr â gwybodaeth reoli sy'n hanfodol i'r busnes yn wythnosol, gyda lefelau priodol o wybodaeth reoli yn cael eu darparu i fyrddau a thimau allweddol eraill.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu nifer o fodelau sy'n hanfodol i'w busnes craidd. Mae Grŵp Goruchwylio Modelu a Chymorth Gwneud Penderfyniadau yn darparu goruchwyliaeth a her berthnasol ar gyfer ein modelau busnes hanfodol, ac rydym wedi gweithredu strwythur perchnogaeth sy'n cydymffurfio ag Aqua Book a dogfennaeth sicrhau ansawdd.

Mae perfformiad ariannol yn cael ei fonitro ac adroddir arno trwy gyfrwng adroddiadau misol. Ceir gweithdrefn ar gyfer gosod cyllidebau blynyddol ac adolygu perfformiad ariannol a rhagolygon blwyddyn gyfan. Mae adolygiadau rhagolygon chwarterol yn weithredol gan roi goruchwyliaeth a sicrwydd priodol i'r Bwrdd Gweithredol a Bwrdd Cofrestrfa Tir EM.

Rwyf wedi cynnal sesiynau holi ac ateb 'swyddfa' a 'chenedlaethol' trwy gydol y flwyddyn, fel y mae aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol a'r dirprwy gyfarwyddwyr. Roedd y sesiynau yn cynnig cyfle hollbwysig i ymgysylltu â staff ar reoli trwy COVID-19 yn ogystal â materion eraill o bryder i'n staff ar bob lefel yn y sefydliad. Rwyf innau, ynghyd ag aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol, yn ysgrifennu blogiau rheolaidd yn cwmpasu negeseuon allweddol pwysig, sy'n cael eu cyhoeddi ar blatfform lle mae modd cyflwyno sylwadau a sgwrsio.

Rwy'n cynnal cyfarfodydd un i un rheolaidd â'r Cadeirydd sydd wedi bod yn rhithiol dros y 12 mis diwethaf. Rwyf wedi cwrdd hefyd ag amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid allanol trwy gyfarfodydd rheolaidd a grwpiau ymgysylltu ffurfiol â budd-ddeiliaid er mwyn deall eu pryderon a'r cyd-destun gweithredol.

## Sicrwydd caffael

Caf fy sicrhau gan y Prif Swyddog Ariannol, ynghylch caffaeliadau penodol, fod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet (gan gynnwys rheolaethau Swyddfa'r Cabinet) a Thrysorlys EM a bod uwch reolwyr wedi cydymffurfio â'r canllawiau hyn a chanllawiau caffael penodol Cofrestrfa Tir EM. Trwy gydol COVID-19, rydym wedi ystyried a chymhwyso cyfarwyddyd Swyddfa'r Cabinet, lle bo hynny'n berthnasol, ar ryddhau cyflenwyr rhag ymrwymiadau cytundebol a dulliau caffael mewn argyfwng. Rydym hefyd wedi mabwysiadu dulliau monitro gwell ar gyfer sefydlogrwydd ariannol cyflenwyr ar gyfer ein contractau sy'n fwyaf hanfodol i'n busnes.

Rydym wedi gwella ein llywodraethu masnachol yn 2020 trwy gyflwyno Pwyllgor Buddsoddi, Masnachol a Chyllid newydd sy'n is-bwyllgor o'r Bwrdd Gweithredol gydag adrodd rheolaidd, ac erbyn hyn mae'n gyfrifol am gymeradwyo contractau sy'n werth dros £1m yn ogystal ag adolygu a chymeradwyo achos busnes pob rhaglen. Mae gwaith ar y gweill i ehangu cylch gorchwyl y grŵp hwn i fod yn gyfrifol am benderfyniadau ynghylch ffïoedd a thaliadau, a goruchwylio sicrwydd rheoli contractau.

## Archwilio Mewnol a barn

Ar gyfer y 12 mis yn diweddu 31 Mawrth 2021, mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer Cofrestrfa Tir EM fel a ganlyn: "Mae gan Gofrestrfa Tir EM fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol i'w helpu i gyflawni ei hamcanion busnes yn foddhaol, a rheoli risgiau allweddol yn effeithiol. Er bod ein gwaith wedi nodi bod angen gwneud gwelliannau parhaus i'r fframwaith risg a rheolaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddigonol ac yn effeithiol wrth i'r busnes barhau i drawsnewid, mae'r statws cyffredinol yn aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol'.

## Casgliad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd ynghylch gweithredu rheolaeth fewnol, y cyngor annibynnol a'r sicrwydd a ddarperir gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, canlyniadau'r broses sicrwydd archwiliad mewnol, ac wedi ystyried arsylwadau'r archwilydd allanol. Yn wyneb y dystiolaeth hon, rwyf yn fodlon bod systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg priodol wedi bod yn eu lle ar gyfer y flwyddyn dan sylw a hyd at y dyddiad cymeradwyo.



**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
9 Gorffennaf 2021

# Adroddiad atebolrwydd seneddol

## 1. Adroddiad Tâl

### Polisi ar gyfer uwch weision sifil

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:

— yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol;
— amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff;
— polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer cyflenwi gwasanaethau adrannol;
— y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y nodir yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth; a
— tharged chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r Corff Adolygu yn ystyried y dystiolaeth a roddir iddo am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Gosodir cyflog y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau Cofrestrfa Tir EM, gan weithredu yn ôl awdurdod Bwrdd Cofrestrfa Tir EM, yn ystyried yr argymhellion tâl a ddarperir gan reolwyr llinell ac yn penderfynu ar ddosbarthiad tâl perfformiad yn yr adolygiad blynyddol o dâl ar gyfer uwch weision sifil Cofrestrfa Tir EM, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet.

Mae tâl sylfaenol a dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol ar gyfer uwch weision sifil, ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn https://www.gov.uk/government/publications/senior-civil-service-performance-management.

Yn ystod y flwyddyn aelodau'r Pwyllgor Tâl oedd yr Aelodau Bwrdd Anweithredol Diana Breeze (Cadeirydd) a Chris Morson hyd nes i'w penodiadau ddod i ben yn Ionawr 2021, yr Aelodau Bwrdd Anweithredol Kirsty Cooper ac Ed Westhead, Simon Hayes fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir, Mike Harlow fel Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir. Mynychwyd y pwyllgor hefyd gan Simon Morris, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr, o'i benodiad ar 8 Mehefin 2021 a Jon Cocking fel Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr tan 8 Mehefin 2021 ac fel Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr am weddill y flwyddyn.

### Polisi ar gyfer gweision sifil eraill

Mae'r tâl i weithwyr Cofrestrfa Tir EM nad ydynt ar raddau Uwch Weision Sifil yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng Cofrestrfa Tir EM a'r undebau, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

### Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i benodiadau Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar deilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall, mae gan yr holl gyfarwyddwyr a gwmpesir gan yr adroddiad hwn benodiadau sy'n benagored ac yn amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis. Byddai terfynu'r swydd yn gynnar i'r cyfarwyddwyr sydd ar gontractau gwasanaeth penagored, heblaw am gamymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael ei ddigolledu fel y nodir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservicecommission.org.uk

## Cyflog a thâl perfformiad – cyfarwyddwyr gweithredol[1] 2020/21

| | Cyflog<br>£'000 | Tâl perfformiad<br>£'000 | Buddion mewn nwyddau<br>I'r £100 agosaf | Buddion pensiwn[2]<br>£ | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Simon Hayes<br>Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 135 – 140 | – | – | 142,000 | 275 – 280 |
| Mike Harlow<br>Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 120 – 125 | 10 – 15 | – | 52,000 | 185 – 190 |
| John Abbott[3]<br>Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg<br>Blynyddol cyfatebol | 10 – 15<br>(120 – 125) | –<br>– | –<br>– | 0<br>– | 10 – 15<br>(120 – 125) |
| Dr Andrew Trigg[4]<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg<br>Blynyddol cyfatebol | 85 – 90<br>(90 – 95) | –<br>– | –<br>– | 108,000<br>– | 190 – 195<br>(90 – 95) |
| Simon Morris[5]<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliadol a Gweithwyr<br>Blynyddol cyfatebol | 90 – 95<br>(110 – 115) | – | – | 37,000 | 130 – 135<br>(110 – 115) |
| Jon Cocking[6]<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr<br>Blynyddol cyfatebol | 15 – 20<br>(85 – 90) | 5 -10<br>– | –<br>– | 36,000<br>– | 60 – 65<br>(85 – 90) |
| Iain Banfield<br>Prif Swyddog Ariannol | 110 – 115 | 10 – 15 | – | 60,000 | 185 – 190 |
| Chris Pope<br>Prif Swyddog Gweithrediadau | 130 – 135 | – | – | 52,000 | 185 – 190 |
| Karina Singh<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid | 110 – 115 | – | – | 78,000 | 190 – 195 |

1. Wedi ei archwilio.
2. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi ei luosi 20 gwaith) a hefyd (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.
3. Daeth penodiad John Abbott i ben ar 11 Mai 2020.
4. Dechreuodd penodiad Dr Andrew Trigg fel Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg ar 1 Mai 2020. Mae'r symiau a ddatgelir uchod yn berthnasol i'w benodiad fel Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg.
5. Dechreuodd penodiad Simon Morris fel Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr ar 8 Mehefin 2020.
6. Dechreuodd penodiad Jon Cocking fel Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr ar 5 Mehefin 2020. Mae'r symiau a ddatgelir uchod yn berthnasol i'w benodiad fel Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr

## Cyflog a thâl perfformiad – cyfarwyddwyr gweithredol[1] 2019/20

| | Cyflog<br>£'000 | Tâl perfformiad<br>£'000 | Digolledu am golli swydd<br>£'000 | Buddion mewn nwyddau I'r £100<br>£100 | Buddion pensiwn[2]<br>£ | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Simon Hayes[3]<br>Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 50 – 55 | – | | – | 73,000 | 125 – 130 |
| Blynyddol Cyfatebol | (135 – 140) | – | | – | – | (135 – 140) |
| Mike Harlow[4]<br>Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 125 – 130 | 10 – 15 | | – | 44,000 | 185 – 190 |
| John Abbott[5]<br>Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg | 120 – 125 | 10 – 15 | | – | 28,000 | 160 – 165 |
| Jon Cocking[6]<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr | 85 – 90 | 10 – 15 | | – | 70,000 | 165 – 170 |
| Iain Banfield<br>Prif Swyddog Ariannol/Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes | 110 – 115 | – | | – | 125,000 | 235 – 240 |
| Chris Pope<br>Prif Swyddog Gweithrediadau/ Cyfarwyddwr Gweithrediadau | 130 – 135 | – | | – | 52,000 | 180 – 185 |
| Karina Singh<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid | 110 – 115 | – | | – | 48,000 | 155 – 160 |
| Robin Malpas[7]<br>Pennaeth y Grŵp Cyfreithwyr Lleol | 85 – 90 | 5 – 10 | | – | 95,000 | 170 – 175 |
| Blynyddol Cyfatebol | (85 – 90) | – | | – | – | (85 – 90) |
| Mike Westcott-Rudd[8]<br>Cynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd | 80 – 85 | 0 – 5 | 40 – 45 | – | 24,000 | 150 – 155 |

1. Wedi ei archwilio.
2. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi ei luosi 20 gwaith) a hefyd (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.
3. Dechreuodd penodiad Simon Hayes fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir ar 11 Tachwedd 2019.
4. Daeth dyrchafiad dros dro Mike Harlow i'r swydd Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir i ben ar 10 Tachwedd 2019. Mae'r cyfanswm cyflog yn cynnwys cyfnod o 11 Tachwedd 2019 i 31 Mawrth 2020 pan ddychwelodd i'w rôl fel Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir.
5. Daeth penodiad John Abbott i ben ar 11 Mai 2020.
6. Roedd tâl perfformiad Jon Cocking ar gyfer 2019/20 yn cynnwys elfennau tâl yn ôl perfformiad a Thâl Perfformiad Corfforaethol yn ei rinwedd barhaol fel Dirprwy Gyfarwyddwr. Daeth dyrchafiad dros dro Jon fel Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr i ben ar 5 Mehefin 2020, a ddychwelodd i'w rôl wedi hynny fel Dirprwy Gyfarwyddwr.
7. Daeth dyrchafiad dros dro Robin Malpas i ben ar 10 Tachwedd 2019. Mae'r symiau a ddatgelwyd uchod yn berthnasol i'w benodiad yn Gwnsler Cyffredinol Dros Dro a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir.
8. Daeth penodiad Mike Westcott-Rudd i ben ar 31 Mawrth 2020.

## Cyflog – cyfarwyddwyr anweithredol[1]

| | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| Michael Mire<br>Cadeirydd Anweithredol | 55 – 60 | 55 – 60 |
| Diana Breeze[3]<br>Cadeirydd Anweithredol<br>(Blynyddol Cyfatebol) | 15 – 20<br><br>(20 – 25) | 20 – 25 |
| Kirsty Cooper<br>Cyfarwyddwyr Anweithredol | 20 – 25 | 20 – 25 |
| Doug Gurr[5]<br>Cyfarwyddwyr Anweithredol | – | – |
| Elliot Jordan[6]<br>Cadeirydd Anweithredol<br>(Blynyddol Cyfatebol) | 20 – 25 | 10 – 15<br><br>(20 – 25) |
| Angela Morrison<br>Cadeirydd Anweithredol | 20 – 25 | 20 – 25 |
| Chris Morson[4]<br>Cadeirydd Anweithredol<br>(Blynyddol Cyfatebol) | 15 – 20<br><br>(20 – 25) | 20 – 25 |
| Ed Westhead[2]<br>Cadeirydd Anweithredol | – | – |

1. Wedi ei archwilio.
2. Mae Ed Westhead yn cynrychioli buddion UK Government Investments (UKGI) ac nid yw'n cael unrhyw dâl gan Gofrestrfa Tir EM. Dechreuodd penodiad Ed ar 15 Gorffennaf 2019.
3. Daeth penodiad Diana Breeze i ben ar 7 Ionawr 2021.
4. Daeth penodiad Chris Morson i ben ar 7 Ionawr 2021.
5. Nid yw Doug Gurr yn cael unrhyw dâl gan Gofrestrfa Tir EM. Daeth ei benodiad i ben ar 7 Ionawr 2021.
6. Dechreuodd penodiad Elliot Jordan ar 15 Awst 2019.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, hawliau neilltuedig i bwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n ddarostyngedig i drethiant y DU. Mae'r tablau ar dudalennau 74 i 76 yn seiliedig ar daliadau cronnus a wnaed gan y Gofrestrfa Tir ac felly wedi eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan Gofrestrfa Tir EM ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

## Dyfarniadau perfformiad

Mae dyfarniadau yn seiliedig ar y lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac yn cael eu gwneud fel rhan o'r broses adolygu perfformiad. Mae'r dyfarniadau a adroddwyd yn cyfeirio at y perfformiad yn y flwyddyn y cawsant eu talu i'r unigolyn. Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau perfformiad yn 2020/21. Mae'r dyfarniadau a adroddwyd yn 2019/20 yn ymwneud â pherfformiad yn 2018/19.

## Buddion pensiwn[1]

| | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 | | Cyfanswm cronnus Mawrth 2020 | | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth | | Gwir gynnydd mewn gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn | Cyfandaliad | Pensiwn | Cyfandaliad | 2021 | 2020 | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Simon Hayes<br>Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 5 – 7.5 | 10 – 12.5 | 40 – 45 | 80 – 85 | 706 | 580 | 98 |
| Mike Harlow<br>Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 2.5 – 5 | – | 30 – 35 | – | 512 | 457 | 31 |
| Dr Andrew Trigg<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg | 2.5 – 5 | 12.5 – 15 | 35 – 40 | 105 – 110 | 840 | 702 | 110 |
| Simon Morris<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr | 0 – 2.5 | – | 0 – 5 | – | 25 | 0 | 18 |
| Jon Cocking<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr | 0 – 2.5 | – | 30 – 35 | – | 507 | 468 | 19 |
| Iain Banfield<br>Prif Swyddog Ariannol | 2.5 – 5 | 0 – 2.5 | 30 – 35 | 55 – 60 | 440 | 392 | 28 |
| Chris Pope<br>Prif Swyddog Gweithrediadau | 2.5 – 5 | – | 15 – 20 | – | 289 | 232 | 38 |
| Karina Singh<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid | 2.5 – 5 | 0 – 2.5 | 50 – 55 | 50 – 55 | 912 | 822 | 54 |

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu Alpha, sy'n rhoi buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol yr un faint ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil newydd a benodwyd a'r mwyafrif o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag Alpha. Cyn hynny, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae pedair rhan i'r Cynllun hwnnw: 3 adran sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (Classic, Premium neu Classic Plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (Nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau Classic, Premium, Classic Plus, Nuvos ac Alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y cynllun hwnnw ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheiny oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i Alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae'r

holl aelodau sy'n newid i Alpha yn cael eu buddion cynllun wedi eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddion cynharach mewn un o rannau cyflog terfynol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cael y buddion hynny ar sail ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael Alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu Alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 naill ai ddewis y trefniadau buddion wedi eu diffinio priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau o'r cynllun Classic, Premium, Classic Plus, Nuvos ac Alpha. Bydd buddion yn y cynllun Classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd yr aelod yn ymddeol. Ar gyfer Premium, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun Classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae'r cynllun Classic Plus yn hybrid, gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â'r cynllun Classic a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun Premium. Yn y cynllun Nuvos bydd aelod yn adeiladu pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth â'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn a enillwyd gan yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun, ac mae'r pensiwn cronnus yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion yn y cynllun Alpha yn cronni mewn modd tebyg i Nuvos, ac eithrio bod y gyfradd cronni yn 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (symud) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn budd-ddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) at gynnyrch pensiwn budd-ddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os yw'n cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd ei aelodaeth weithredol o'r cynllun yn dod i ben os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn nag oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau Classic, Premium a Classic Plus, 65 ar gyfer aelodau o Nuvos, a'r uchaf o 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i aelodau Alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu Alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk.

## Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (GTCAP) yw gwerth cyfalafog, wedi ei asesu gan actiwari, buddion y cynllun pensiwn y mae aelod wedi eu cronni ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronnus yr aelod ac unrhyw bensiwn priod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTCAP yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn gymwys iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelodau o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir GTCAP yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

## Gwir gynnydd mewn GTCAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTCAP a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# 2. Adroddiad staff

## Costau staff ar gyfer 2020/21

| | Staff parhaol £'000 | Prentisiaid £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 177,533 | 891 | 1,524 | 179,948 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 17,258 | 44 | 121 | 17,423 |
| Costau pensiwn eraill | 45,798 | 218 | 348 | 46,364 |
| **Cyfanswm costau staff** | **240,589** | **1,153** | **1,993** | **243,735** |

## Adroddiad staff ar 31 Mawrth 2021


| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr (gan gynnwys penodiadau cyfnod penodol) | 6,393 | 5,787 |
| Aelodau parhaol cyfwerth ag amser llawn | 5,800 | 5,189 |
| Nifer y prentisiaid | 57 | 80 |
| Nifer y staff dros dro/dan gontract | 87 | 69 |
| Diwrnodau salwch cyfartalog fesul gweithiwr | 5.1 | 7.8 |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau hyfforddi fesul gweithiwr | 5.8 | 4.8 |
| Diwrnodau hyfforddi fesul prentis | 53 | 44 |
| Gwariant hyfforddiant fel canran o'r bil cyflogau | 0.42% | 0.37% |
| Gweithwyr benyw | 60.1% | 60.5% |
| Gweithwyr rhan-amser | 31.4% | 33.9% |
| Gweithwyr o leiafrifoedd ethnig | 5.8% | 5.5% |
| Gweithwyr sy'n nodi bod anabledd ganddynt | 7.8% | 8.3% |
| Trosiant staff | 4.5% | 5.4% |
| Sgorau ymgysylltiad staff | 71% | 63% |

## Dadansoddiad rhyw ar 31 Mawrth 2021

| | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Aelodau bwrdd anweithredol | 3 | 2 | 5 |
| Cyfarwyddwyr gweithredol[1] | 6 | 1 | 7 |
| Uwch Wasanaeth Sifil – band 2[1] | 6 | 1 | 7 |
| Uwch Wasanaeth Sifil – band 1[1] | 10 | 9 | 19 |
| Gweithwyr parhaol (heb gynnwys Uwch Weision Sifil)[2] | 2,529 | 3,838 | 6,367 |
| Prentisiaid[2] | 29 | 28 | 57 |

1. Mae rhai gweithwyr Uwch Wasanaeth Sifil hefyd yn gyfarwyddwyr ac wedi eu cynnwys yn y ddau gategori.
2. Mae rhai prentisiaid hefyd yn weithwyr parhaol ac yn cael eu cynnwys yn y ddau gategori.

## Cyfwerth ag amser llawn cyfartalog yn ystod y flwyddyn



### Datgeliadau oddi ar y gyflogres

Cyflogiadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer mwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis:

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| **Cyflogiadau presennol ar 31 Mawrth 2021** | **26** | **25** |
| O'r rhai sy'n bodoli am: | | |
| — llai na blwyddyn adeg adrodd | 22 | 16 |
| — rhwng blwyddyn a dwy flynedd adeg adroddg | 4 | 9 |
| — rhwng dwy a thair blynedd adeg adrodd | – | – |
| — rhwng tair a phedair blynedd adeg adrodd | – | – |
| — rhwng pedair neu ragor o flynyddoedd adeg adrodd | – | – |
| **Cyflogiadau newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis:** | | |
| **Cyflogiadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021** | **35** | **42** |
| O'r rhain y rhai: | | |
| — sydd wedi eu hasesu yn rhai sydd wedi eu dal gan IR35 | 34 | 40 |
| — sydd wedi eu hasesu yn rhai sydd wedi eu dal gan IR35 | 1 | 2 |
| — sydd wedi eu terfynu o ganlyniad i beidio â derbyn sicrwydd | – | – |
| Nifer a gyflogwyd yn uniongyrchol (trwy Gwmni Gwasanaeth Personol wedi ei gontractio i adran) ac sydd ar gyflogres adrannol | – | – |
| Nifer y cyflogiadau a ailaseswyd at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 35 | 42 |
| Nifer y cyflogiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad o gysondeb | – | – |
| **Cyflogiadau oddi ar y gyflogres aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020** | | |
| Nifer y cyflogiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol yn ystod y flwyddyn ariannol | – | – |
| Cyfanswm yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres yr ystyrir eu bod yn "aelodau bwrdd, a/neu'n uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol", yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyflogiadau oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres | 9 | 9 |

### Gwariant ar wasanaeth ymgynghori

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cost gwasanaeth ymgynghori | 1,442 | 1,719 |
| **Cyfanswm** | **1,442** | **1,719** |

## Adnoddau

Mae Strategaeth Bobl Cofrestrfa Tir EM yn amlinellu sut y byddwn yn meithrin ein gallu trwy gynnal cynllun gweithlu strategol blynyddol a datblygu cynlluniau adnoddau i ddarparu rhaglen o recriwtio wedi ei gynllunio'n rheolaidd ac yn rhagweithiol.

Eleni, symudwyd yn ddiofyn i recriwtio allanol i sicrhau bod gan wasanaethau gweithredol a chymorth craidd y gallu i ddarparu swyddogaethau statudol i safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt gan nad oedd recriwtio mewnol ac ar draws y llywodraeth ar gael. Rydym wedi mynd i'r afael ag anghenion rheng flaen a chynaliadwyedd y gweithlu yn y dyfodol trwy recriwtio carfan o swyddogion cofrestru a swyddogion cofrestru gweithredol.

Rydym wedi gwella meysydd galluogrwydd penodol, yn enwedig ym maes trawsnewid digidol a sgiliau datblygu ystwyth, trwy recriwtio ac ymgysylltu bob chwarter â phartneriaid cyflenwi trwy Fframweithiau'r Llywodraeth. Mae hyn wedi gwella'r capasiti digidol i gyflawni ein nodau ar gyfer Cofrestr Tir ddigidol a helpu tuag at ailddiffinio rôl gweithwyr achos yn y dyfodol. Rydym wedi cefnogi'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol trwy gynyddu capasiti o fewn y tîm.

Rydym wedi adolygu llwybrau mynediad presennol a rhai newydd a chafodd ein cynlluniau prentisiaeth eu hehangu i gynnig y cyfle i bobl ennill cymhwyster ym maes y gyfraith, adnoddau dynol, technoleg gwybodaeth a chyllid.

Fel rhan o'r cynllun gweithlu blynyddol, anogwyd mwy o gynrychiolaeth ar draws yr holl grwpiau amrywiol. Cawn ein llywodraethu gan Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddewis pobl i'w penodi ar sail teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored ac wedi cynnal cydymffurfiaeth. Mae pob un o'n cyfleoedd gwaith yn cael ei hysbysebu gan ddilyn y Cynllun Hyderus o ran Anabledd sy'n sicrhau y bydd pobl anabl yn symud ymlaen i gam nesaf y broses ddethol os yw eu cais yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Ein polisi yw sicrhau nad yw unrhyw brofion a ddefnyddir yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr anabl a bod addasiadau rhesymol a digonol yn cael eu gwneud lle y bo angen.

## Recriwtio

I gefnogi ein safonau gwasanaeth craidd, ac ategu ein gweithlu parhaol, gwnaethpwyd nifer o benodiadau swyddog cofrestru, gan ganiatáu i'n cydweithwyr mwy profiadol ganolbwyntio ar weithgareddau cofrestru craidd mwy cymhleth.

Mae contractwyr oddi ar y gyflogres wedi cael eu defnyddio hefyd i fodloni anghenion tymor byr mewn meysydd mwy arbenigol, ac mae gwybodaeth am gydymffurfiaeth a datgeliadau i'w gweld ar dudalen 80.

## Iechyd a llesiant

**Y Strategaeth Cefnogi ein Pobl – cynllun cyflenwi Presenoldeb, Iechyd a Llesiant Cofrestrfa Tir EM**

Mae Fframwaith Presenoldeb, Iechyd a Llesiant Cofrestrfa Tir EM yn ceisio darparu dull cyfannol at iechyd a llesiant, gan osod disgwyliadau clir ar gyfer pob aelod o staff, a helpu i sicrhau ein bod yn parhau i wneud Cofrestrfa Tir EM yn lle gwych i weithio.

Mae ein fframwaith yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol, sef:

- diwylliant – byddwn yn creu'r amgylchedd iawn i gefnogi presenoldeb, iechyd a llesiant;
- atal – byddwn yn helpu ein hunain ac eraill i fod yn iachach ac aros yn y gwaith;
- ymyrraeth – byddwn yn sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei roi ar yr adeg gywir;
- dychwelyd i'r gwaith – byddwn yn helpu ein pobl i fynd yn ôl i'r gwaith mewn modd amserol.

Mae ein cynllun cyflenwi Presenoldeb, Iechyd a Llesiant yn ceisio creu diwylliant yng Nghofrestrfa Tir EM sy'n cydnabod pwysigrwydd iechyd a llesiant, ac adeiladu amgylchedd sy'n cefnogi ein llesiant ac sy'n ein helpu i ofalu am ein hiechyd ein hunain. O ran iechyd meddwl, rydym am wneud gwahaniaeth go iawn yn y modd y byddwn yn ystyried iechyd meddwl, yn siarad amdano ac yn gweithredu yn ei gylch – er mwyn i Gofrestrfa Tir EM fod yn sefydliad lle mae materion iechyd meddwl yn cael eu deall yn gyffredinol a'u stigma'n cael ei chwalu; lle bydd ein pobl yn teimlo'n hyderus i siarad am eu hafiechyd meddwl; a lle bydd ein rheolwyr yn barod i adnabod a deall y sbectrwm o faterion iechyd meddwl y gallent ddod ar eu traws a chefnogi'r rhai yr effeithir arnynt.

Y flwyddyn hon rydym wedi darparu amrywiaeth o fentrau i gefnogi ein cydweithwyr a'r sefydliad, gan gynnwys:

- hyrwyddo a chyfrannu at ymgyrchoedd iechyd ar draws Cofrestrfa Tir EM, wedi eu cefnogi gan ein rhwydwaith o bwyllgorau iechyd a llesiant lleol a chynorthwywyr cymorth cyntaf iechyd meddwl, dan arweiniad ein cydweithwyr Cofrestrfa Tir EM gan ddefnyddio eu profiadau a'u straeon personol eu hunain, yn ogystal â'n Bwrdd Gweithredol. Mae ymgyrchoedd wedi cynnwys wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl, diwrnod ymwybyddiaeth straen, ymwybyddiaeth ariannol, a'r ymgyrch 'byw'n iach'. Yn ogystal, mae ciosgau iechyd wedi cael eu cyflwyno ar draws ein swyddfeydd i ddarparu mynediad rhwydd at sgrinio iechyd;
- creu pecynnau cymorth o adnoddau ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl a niwroamrywiol, ar gyfer pob cydweithiwr i godi ymwybyddiaeth a chyfeirio at y cymorth a'r arweiniad sydd ar gael;
- ennill Dyfarniad Arian ym Mynegai Llesiant yn y Gweithle MIND sy'n feincnod o bolisi ac arferion gorau, a chreu a rhoi ar waith cynllun gweithredu cysylltiedig yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed. Yn unol â'r argymhellion a wnaed, mae polisïau Adnoddau Dynol wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn ategu ymrwymiad y sefydliad at iechyd meddwl;
- mae ymagwedd ragweithiol Swyddfa Abertawe at iechyd a llesiant wedi ennill Dyfarniad Aur gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r dyfarniad Safon Iechyd Corfforaethol yn arwydd o ansawdd ar gyfer iechyd a llesiant yn y gweithle ac yn edrych ar y gwaith y mae'r sefydliad yn ei wneud i greu amgylchedd gwaith cynhwysol a chadarnhaol;
- mae gwaith wedi mynd rhagddo i wella'r broses ddatgelu i annog bod yn agored yn ystod proses recriwtio Cofrestrfa Tir EM ac mae paneli recriwtio wedi cael eu hyfforddi ar niwroamrywiaeth;
- ail-hyrwyddo ein dewis o wasanaethau Rhaglen Cymorth i Weithwyr trwy sgyrsiau wyneb yn wyneb i bob aelod o staff ar draws ystad Cofrestrfa Tir EM; a
- chyflenwi amrywiaeth o fentrau hyfforddi ffurfiol ac anffurfiol, gan gydweithio â'n darparwyr Rhaglen Cymorth i Weithwyr ac Iechyd Galwedigaethol, gan roi'r arweiniad a'r cyngor i reolwyr llinell wella eu hyder a'u gallu ar weithdrefnau absenoldeb salwch a helpu staff sy'n delio â materion iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

## Galluogrwydd

Y flwyddyn hon gwelsom nifer o ddatblygiadau yn ymwneud â meithrin ein staff. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno'r Academi Cofrestru Tir a symud ein dulliau dysgu a datblygu i fod yn fwy digidol.

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn niweddariad Simon Morris yn yr adroddiad Perfformiad sy'n dechrau ar dudalen 42.

## Cynnwys gweithwyr

Rydym yn parhau i ymgysylltu'n anffurfiol ac yn ffurfiol â'n cydweithwyr a'u cynrychiolwyr.

Mae blogiau'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwr wedi parhau i gael eu cyhoeddi bob wythnos yn ystod y flwyddyn ac mae ein cydweithwyr wedi cael eu hannog i ymateb iddynt gyda'r nod o greu deialog agored a gonest a chyfnewid barn.

Disgwylir i reolwyr gael trafodaethau misol rheolaidd ag aelodau tîm unigol i drafod yn agored berfformiad gweithwyr, syniadau ar gyfer gwella arferion gwaith, materion sefydliadol ehangach, newidiadau ac unrhyw bryderon sydd gan weithwyr. Yn ystod pandemig COVID-19 a'r symud tuag at weithio o bell, bu mwy o ffocws ar lesiant gweithwyr sydd wedi arwain at drafodaethau a chefnogaeth fwy rheolaidd.

Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â'n hundebau llafur. Mae'r Prif Weithredwr ac aelodau o'i dîm yn cwrdd yn ffurfiol â chynrychiolwyr yng nghyfarfodydd Cyngor Adrannol Whitley ddwywaith y flwyddyn. Mae strwythurau yn eu lle ar gyfer cyfarfodydd lleol Whitley, ac ymgynghorir â'r undebau ar faterion penodol.

Mae deialog rheolaidd anffurfiol rhwng y Prif Weithredwr ac arweinwyr undebau llafur wedi parhau yn ystod y flwyddyn. Mae gweithrediad cysylltiadau cyflogaeth o ddydd i ddydd yn cael ei reoli trwy gyfarfodydd Ymgysylltu ac Ymgynghori misol rhwng uwch reolwyr a chynrychiolwyr adrannol undebau llafur, ochr yn ochr â chyfarfodydd Trawsnewid a Newid bob pythefnos. Rydym hefyd wedi cyflwyno cyfarfod wythnosol ychwanegol o ganlyniad i gyflwyno gweithio o bell a'r angen i gyhoeddi arweiniad a chefnogaeth ychwanegol, ac i ddatrys materion a phryderon yn brydlon.

Rydym yn parhau i fonitro'r defnydd o Facility Time ar y cyd â chydweithwyr undebau, ac rydym o fewn 0.1% i ffigur canllaw y bil tâl a osodwyd gan Swyddfa'r Cabinet; am ragor o fanylion gweler tudalen 84.

Lansiwyd ein gwaith ar ddiwylliant ym Mai 2019 ac mae wedi cael ymateb cadarnhaol. Roedd yr ymateb i bandemig COVID-19 yn golygu bod angen newid ein diwylliant yn gyflym ac mae ymateb y sefydliad wedi bod yn anhygoel. Roedd y ffocws ar lesiant ein pobl yn rhan flaenllaw o bob ystyriaeth ac, o ganlyniad, rydym wedi gweld gwelliannau cadarnhaol pellach yn ein sgorau ymgysylltu yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil.

Mae arolygon mewnol rheolaidd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi dangos bod y gwelliannau hyn wedi eu cynnal ac mae pobl yn cyfeirio'n gadarnhaol at y ffordd y mae Cofrestrfa Tir EM wedi ymateb. Rydym wedi ymrwymo i gynnal ac adeiladu ar yr hyn rydym wedi ei ddysgu o weithio a rheoli'n wahanol yn ystod y 12 mis diwethaf wrth inni symud i sefyllfa o ymagwedd fwy strwythuredig a chynlluniedig at esblygu ein diwylliant.

Byddwn yn gwneud hyn trwy gyfateb â'n model (aeddfedrwydd) sydd newydd ei gyflwyno ac sy'n rhannu ein datganiad diwylliant cychwynnol yn saith 'lens' manylach. Mae'r model wedi ei ddatblygu a'i addasu dros y 12 mis diwethaf wrth inni ddysgu trwy ein profiadau o weithio o bell yn ddigynllun a'r angen i reoli mewn ffordd wahanol, gan ganolbwyntio'n helaeth ar lesiant gweithwyr. Mae datblygu'r model wedi cynnwys ystod eang o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr, rhwydweithiau staff a chydweithwyr undebau, gyda sesiynau mewnwelediad yn cael eu cynnal i brofi'r cysyniad a'r manylion.

Bydd y Pwyllgor Pobl ac Ystadau yn goruchwylio cynnydd yn erbyn y model, ar ôl i Gofrestrfa Tir EM osod ei llinell sylfaen yn ei erbyn, a dilynir hyn gan fapio gweithgarwch wedi ei gynllunio a phresennol iddo er mwyn ffurfio'r cynllun corfforaethol diwygiedig. Mae meysydd â blaenoriaeth i fesur ac asesu yn eu herbyn wedi eu nodi, a diwygiwyd y brif risg gyda rheolaethau lens-benodol. Mae gweithgaredd tebyg yn cael ei efelychu o fewn pob cyfarwyddiaeth.

Mae adborth staff yn parhau i fod yn rhan allweddol o gynllunio ac asesu cynnydd tuag at ein diwylliant a ddymunir. Yn ogystal ag adborth i'r arolwg, mae trafodaethau adeiladol parhaus â'r undebau ar lefel adrannol a lleol, yn ogystal ag annog staff i gymryd rhan ar bwyllgorau eraill (gan gynnwys iechyd a llesiant, cymdeithasol a chwaraeon, amrywiaeth ac elusennol), ac ymweliadau cyfarwyddwyr gyda sesiynau holi ac ateb, i gyd yn hanfodol o ran sicrhau bod barn ein cydweithwyr yn cael ei chlywed a'i deall.

## Amrywiaeth

**Beth mae Cofrestrfa Tir EM yn ei wneud i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant?**

Ceisiwn adeiladu gweithlu sy'n adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn ei gwasanaethu a chreu diwylliant cynhwysol sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu amrywiaeth. Rydym wedi parhau i adeiladu ar y sylfeini a osodwyd y llynedd gyda rhaglen eang o weithgareddau.

Mae adnoddau yn faes allweddol ac rydym wedi ceisio parhau i ddenu, cadw a datblygu doniau amrywiol. Mae ein harferion recriwtio yn gynhwysol, gan sicrhau bod hysbysebion yn cael eu gwirio am iaith ac yn cynnwys datganiadau cadarnhaol. Mae pob un yn agored i addasiadau rhesymol i gefnogi'r broses recriwtio.

Mae COVID-19 wedi codi nifer o faterion gyda chydweithwyr yn gweithio o gartref trwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi sicrhau bod cydweithwyr a oedd angen addasiadau yn y gweithle wedi cael y rhain wedi eu trosglwyddo i'w cartrefi ac wedi gweithio i gefnogi'r rheini lle mae problemau newydd wedi codi. Rydym wedi bod yn wyliadwrus wrth gefnogi iechyd meddwl gan gyfeirio'n rheolaidd at yr amrywiaeth o ffynonellau sydd ar gael.

Mae ein rhwydweithiau staff wedi chwarae eu rhan wrth gefnogi'r rhai y maent yn eu cynrychioli a'u cynghreiriaid gyda chyswllt rheolaidd, gan gyfeirio at ffynonellau cyngor trwy amryw o ddulliau gan gynnwys cyfleoedd ebost a gweminar.

Mae gweithgor yn cefnogi dilyniant ar gyfer ein cydweithwyr du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) wedi ei sefydlu sy'n edrych ar y rhwystrau y gall y cydweithwyr hyn eu hwynebu o ran dilyniant. Nod hyn yw creu cyfleoedd i gefnogi piblinell o ddoniau gyda modelau rôl trwy gymorth rhagweithiol. Mae nifer o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal gan gynnwys gweithdy dan arweiniad yr Athro Binna Kandola ar gyfer yr holl gydweithwyr i ysgogi meddwl am hiliaeth a rhagfarn yn y gweithle.

Rydym yn parhau i fonitro ein cynnydd tuag at gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn gwybod bod mwy i'w wneud i wella ein sefyllfa.

Mae'r flwyddyn wedi cynnig cyfle i ymchwilio a datblygu ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ar gyfer 2020-2024 a ryddhawyd ddechrau Ebrill 2021. Mae hyn yn cael ei danategu gan ein gwaith gyda'r tîm dadansoddeg gan ddod â ffynonellau data amrywiol ynghyd i ddarparu mewnwelediad clir a ddefnyddiwyd i osod y cyfeiriad, gan ganolbwyntio ar wella ein sylfaen dystiolaeth a datblygu gwybodaeth a sgiliau i gefnogi cynhwysiant.

## Adrodd ar gynlluniau digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac eraill – pecynnau ymadael[1]

| Band cost pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 | 2019/20 | 2020/21 | 2019/20 | 2020/21 | 2019/20 |
| £0–£10,000 | – | – | 1 | 11 | 1 | 11 |
| £10,001–£25,000 | – | – | 2 | – | 2 | – |
| £25,001–£50,000 | – | – | 2 | 2 | 2 | 2 |
| £50,001–£100,000 | – | – | 1 | – | 1 | – |
| £100,001–£150,000 | – | – | – | – | – | – |
| £150,001–£200,000 | – | – | – | – | – | – |
| >£200,000 | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm y pecynnau ymadael** | – | – | **6** | **13** | **6** | **13** |
| **Cyfanswm cost** | – | – | **£181,522** | **£162,862** | **£181,522** | **£166,862** |

1. Wedi ei archwilio.

Gwnaethpwyd chwe thaliad ex-gratia yn 2020/21 (2019/20: 10).

### Digolledu ar gyfer colli swydd

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrif amdanynt yn llawn ym mlwyddyn y cytundeb contract i ymadael. Pan fo'n gymwys, mae costau ychwanegol budd pensiwn gostyngol am adael y cynllun yn cael eu talu gan Gofrestrfa Tir EM ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y tabl.

### Lluosrifau tâl[1]

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn ei sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad.

Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, taliadau cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf (£'000) | 135 – 140 | 135 – 140 |
| **Cyfanswm canolrif (£)** | **27,256** | **26,295** |
| Cymhareb tâl | 5.0 | 5.1 |

1. Wedi ei archwilio.

Yn 2020/21 ni chafodd unrhyw weithwyr dâl oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr parhaol sy'n ennill y cyflog uchaf. Roedd tâl yn amrywio o £135,000 – £140,000 i £15,000 – £20,000 (2019/20: £135,000 – £140,000 i £15,000 – £20,000).

## Amser cyfleuster undeb llafur

## Cyfnod amser: 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

**Misoedd: 12**

### Tabl 1: Swyddogion undeb perthnasol

| Nifer y gweithwyr a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol | Nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|
| 117 | 105.33 |

### Tabl 2: Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster

| Canran yr amser | Nifer y gweithwyr |
|---|---|
| 0% | 56 |
| 1 – 50% | 61 |
| 51 – 99% | 0 |
| 100% | 0 |
| **Cyfanswm** | **117** |

### Tabl 3: Canran y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster

| | Swm |
|---|---|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £273,293 |
| Cyfanswm y bil tâl | £249,665,046 |
| Canran cyfanswm y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster | 0.109% |

### Tabl 4: Gweithgareddau am dâl undebau llafur

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar weithgareddau am dâl undebau llafur | 0.00 |
| Cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar amser cyfleuster am dâl | 11300.82 |
| Amser a dreuliwyd ar weithgareddau am dâl undebau llafur yn ganran o gyfanswm yr oriau cyfleuster am dâl | 0.00% |

# 3. Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol

Yn ychwanegol at y datganiadau ariannol sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EM baratoi Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (SoPS) a nodiadau ategol. Mae'r SoPS a'r nodiadau cysylltiedig yn destun archwiliad, fel y manylir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.

Mae'r SoPS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario yn erbyn ei Amcangyfrifiad o Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a dynnir yn bennaf o'r Gronfa Gyfunol), y mae'r Senedd yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn rhoi manylion y cyflenwad ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os yw endid yn gwario mwy na'r terfynau a osodir gan ei Amcangyfrif o Gyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn derbyn barn gymwysedig.

Mae ffurf y SoPS yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon o Gyflenwad, a gyhoeddwyd ar GOV.UK, er mwyn gallu cymharu rhwng yr hyn y mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r SoPS yn cynnwys tabl cryno, gyda manylion am berfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, arian a wariwyd (mae cyllidebau'n cael eu llunio ar sail croniadau ac felly ni fydd yr alldro yn cyfateb yn union â'r arian a wariwyd) a gweinyddu.

Mae'r nodiadau ategol yn manylu ar y canlynol: y llinell Alldro yn ôl llinell Amcangyfrifiad, gan ddarparu dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni alldro â gwariant gweithredu net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, i gysylltu'r SoPS â'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni alldro i'r gofyniad arian parod net (nodyn 3), a, dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Mae'r SoPS a'r Amcangyfrif yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu sy'n debyg ond yn wahanol i IFRS. Mae dealltwriaeth o'r fframwaith cyllidebu ac esboniad o'r termau allweddol i'w gweld ar dudalen 88, yn adran adolygiad ariannol yr adroddiad perfformiad. Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus a'r rhesymau pam mae rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS hefyd i'w gweld ym Mhennod 1 o'r Canllawiau Cyllidebu Cyfunol, sydd ar gael ar GOV.UK.

Mae'r SoPS yn rhoi darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y mae'r Senedd yn pleidleisio arni ac yn ei chydnabod. Mae'r adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad Perfformiad, yn darparu trafodaeth gryno o alldro yn erbyn amcangyfrif a swyddogaethau fel cyflwyniad i'r datgeliadau SoPS.

## Amcangyfrif o alldro o'i gymharu â'r amcangyfrif a bleidleisiwyd

### Tabl cryno 2020/21

| Math o wariant | Nodyn SoPS | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Arbedion/(tâl-dros-ben) alldro yn erbyn amcangyfrifiad | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Alldro a bleidleisiwydd £'000 | Heb ei bleidleisio £'000 | Cyfanswm £'000 | Pleidleisiwyd £'000 | Heb ei bleidleisi £'000 | Cyfanswm £'000 | Pleidleisiwyd £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | 332,700 | – | 332,700 | 346,357 | – | 346,357 | 13,657 | 13,657 |
| Cyfalaf | 1.2 | 32,160 | – | 32,160 | 40,211 | – | 40,211 | 8,051 | 8,051 |
| **Cyfanswm** | | **364,860** | **–** | **364,860** | **386,568** | **–** | **386,568** | **21,708** | **21,708** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | (858) | – | (858) | 22,000 | – | 22,000 | 22,858 | 22,858 |
| Cyfalaf | 1.2 | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm** | | **(858)** | **–** | **(858)** | **22,000** | **–** | **22,000** | **22,858** | **22,858** |
| **Cyfanswm cyllideb** | | | | | | | | | |
| Cyfanswm adnoddau | | 331,842 | – | 331,842 | 368,357 | – | 368,357 | 36,515 | 36,515 |
| Cyfanswm cyfalaf | | 32,160 | – | 32,160 | 40,211 | – | 40,211 | 8,051 | 8,051 |
| **Cyfanswm gwariant cyllideb** | | **364,002** | **–** | **364,002** | **408,568** | **–** | **408,568** | **44,566** | **44,566** |
| **Gwariant heb fod yn gyllideb** | | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm cyllideb a heb fod yn gyllideb** | | **364,002** | **–** | **364,002** | **408,568** | **–** | **408,568** | **44,566** | **44,566** |

Mae'r ffigurau yn y mannau a amlinellir mewn llinell drwchus yn cwmpasu'r terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd. Cyfeiriwch at y llawlyfr canllaw Amcangyfrifon o Gyflenwad, sydd ar gael yn GOV.UK, i gael manylion am y terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd.

### Gofyniad arian parod net 2020/21

| | Nodyn SoPS | Alldro £'000 | Amcangyfrif £'000 | Arbedion/(tâl-dros-ben) alldro yn erbyn amcangyfrifiad £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad arian parod net** | 3 | **357,549** | **398,001** | **40,452** |

# Nodiadau i'r Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol ar 31 Mawrth 2021

## SoPS 1. Manylion alldro, yn ôl llinell amcangyfrif

### SoPS 1.1 Dadansoddiad o alldro adnoddau net yn ôl llinell amcangyfrif

| Math o wario (Adnoddau) | Alldro adnoddau | | | | Amcangyfrif | | | Arbedion/ (tâl-dros-ben) alldro yn erbyn amcangyfrifiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhaglen | | | | | | | |
| | Gros | Incwm | Net | Cyfanswm | Cyfanswm | Trosglwydd-iadau | Cyfanswm gan gynnwys tros-glwyddiadau | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwario o fewn Terfynau Gwariant Adrannol** | | | | | | | | |
| Gwariant a bleidleisiwyd | | | | | | | | |
| A. Gwariant Terfynau Gwariant Adrannol craidd Cofrestrfa Tir EM | 332,700 | – | 332,700 | 332,700 | 346,357 | – | 346,357 | 13,657 |
| **Cyfanswm gwario mewn Terfynau Gwariant Adrannol** | **332,700** | **–** | **332,700** | **332,700** | **346,357** | **–** | **346,357** | **13,657** |
| **Gwario mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | |
| Gwariant a bleidleisiwyd | | | | | | | | |
| B. Gwariant a Reolir yn Flynyddol craidd Cofrestrfa Tir EM | (858) | – | (858) | (858) | 22,000 | – | 22,000 | 22,858 |
| **Cyfanswm gwariant mewn Terfynau Gwariant Adrannol** | **(858)** | **–** | **(858)** | **(858)** | **22,000** | **–** | **22,000** | **22,858** |
| **Gwariant Adrannol** | **331,842** | **–** | **331,842** | **331,842** | **368,357** | **–** | **368,357** | **36,515** |

### SoPS 1.2 Dadansoddiad o alldro cyfalaf yn ôl llinell amcangyfrif

| Math o wario (cyfalaf) | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Arbedion/ (tâl-dros-ben) alldro yn erbyn amcangyfrifiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Net | Cyfanswm | Trosglwydd-iadau | Cyfanswm gan gynnwys tros-glwyddiadau | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwario mewn Terfynau Gwariant Adrannol** | | | | | | | |
| Gwariant a bleidleisiwyd | | | | | | | |
| A. Gwariant Terfynau Gwariant Adrannol craidd Cofrestrfa Tir EM | 84,914 | (52,754) | 32,160 | 40,211 | – | 40,211 | 8,051 |
| **Cyfanswm gwario mewn Terfynau Gwariant Adrannol** | **84,914** | **(52,754)** | **32,160** | **40,211** | **–** | **40,211** | **8,051** |
| **Gwario mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | |
| Gwariant a bleidleisiwyd | | | | | | | |
| B. Gwariant a Reolir yn Flynyddol craidd Cofrestrfa Tir EM | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm gwario mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | – | – | – | – | **–** | – | – |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **84,914** | **(52,754)** | **32,160** | **40,211** | **–** | **40,211** | **8,051** |

Mae colofnau cyfanswm amcangyfrif yn cynnwys trosglwyddiadau. Trosglwyddiadau yw perthynas y ddarpariaeth yn yr Amcangyfrifon nad oes angen awdurdod seneddol ar eu cyfer (oherwydd nid yw'r Senedd yn pleidleisio i'r lefel honno o fanylion ac yn dirprwyo i Drysorlys Ei Mawrhydi). Mae rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau ar gael yn y Llawlyfr Amcangyfrifon o Gyflenwad, sydd ar gael ar GOV.UK. Mae'r golofn alldro yn erbyn amcangyfrifiad yn seiliedig ar y cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau a wnaed. Mae cyfanswm yr amcangyfrif cyn trosglwyddiadau wedi ei gynnwys er mwyn i ddefnyddwyr allu cysylltu'r amcangyfrif yn ôl i'r Amcangyfrifon a roddwyd gerbron y Senedd.

## SoPS 2. Cysoni alldro i wariant gweithredu net

| | Nodyn | Alldro |
|---|---|---|
| | | £'000 |
| **Cyfanswm alldro adnoddau yn SoPS** | SoPS1.1 | 331,842 |
| Ychwanegu: Grantiau cyfalaf mewn nwyddau | SOCNE | 52,752 |
| Llai: Incwm gweithredu arall | SOCNE | (2,780) |
| **Cyfanswm** | | **381,814** |
| | | |
| **Gwariant gweithredu net yn y Datganiad Cyfunol o Wariant Cynhwysfawr Net** | SOCNE | **381,814** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, mae'r alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg, ond yn wahanol i, IFRS. Felly mae'r cysoni hwn yn pontio'r alldro adnoddau i wariant gweithredu net, gan gysylltu'r SoPS i'r Datganiadau Ariannol.

Mae grant cyfalaf mewn nwyddau yn adlewyrchu'r trosglwyddiad cyllideb mewn perthynas â throsglwyddo asedau i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.

## SoPS 3. Cysoni alldro adnoddau net i'r gofyniad arian parod net

| | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Arbedion/ (tâl-dros-ben) alldro yn erbyn amcangyfrifiad |
|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Alldro adnoddau** | SoPS1.1 | 331,842 | 368,357 | 36,515 |
| **Alldro cyfalaf** | SoPS1.2 | 32,160 | 40,211 | 8,051 |
| | | **364,002** | **408,568** | **44,566** |
| Addasiadau i ddileu eitemau heb fod yn arian parod: | | | | |
| Dibrisio ac amorteiddio | | (11,806) | (11,357) | 449 |
| Ad-dalu prydlesi ariannu cyfalaf | | 273 | – | (273) |
| Eitemau eraill heb fod yn arian parod (Symudiad Darpariaeth Indemniad) | | (3,029) | (22,000) | (18,971) |
| Amhariad anghyfredol | | (2,200) | – | 2,200 |
| Tâl yr archwilydd | | (106) | – | 106 |
| Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy | | (1,686) | – | 1,686 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy | | 6,013 | 22,790 | 16,777 |
| Defnyddio darpariaethau | | 6,087 | – | (6,087) |
| Symudiadau mewn symiau taladwy yn ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd trwy'r SOCNE | | 1 | – | (1) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **357,549** | **398,001** | **40,452** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, mae'r alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, nid ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoni hwn yn pontio'r alldro adnoddau a chyfalaf i'r gofyniad arian parod net.

## SoPS 4. Symiau incwm i'r Gronfa Gyfunol SoPS4.1 Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

### Symiau'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

| | Cyfanswm alldro 2020/21 | |
|---|---|---|
| Mae'r incwm canlynol yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (dangosir derbyniadau arian parod mewn llythrennau italig). | Croniadau | Sail arian parod |
| Incwm y tu allan i gwmpas yr Amcangyfrifon | £'000 | £'000 |
| Arian parod dros ben y gellir ei ildio i'r Gronfa Gyfunol | 2,780 | *2,403* |
| Cyfanswm y symiau a dalwyd ac sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | – | *377* |
| **Cyfanswm y symiau a dalwyd ac sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | **2,780** | ***2,780*** |

### SoPS4.2 Incwm y Gronfa Gyfunol

Nid yw incwm y Gronfa Gyfunol a ddangosir yn nodyn 4.1 yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan yr adran pan oedd yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn hytrach nag fel y brif adran. Adroddir ar y symiau a gasglwyd fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol (sydd fel arall wedi eu heithrio o'r prif ddatganiadau ariannol) fel rhan o Ddatganiad Ymddiriedolaeth yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn.

# 4. Datgeliadau atebolrwydd seneddol

### 1. Colledion a thaliadau arbennig (wedi eu harchwilio)

Nid oes unrhyw golledion neu daliadau arbennig i'w datgelu am fod cyfanswm yr holl golledion yn llai na £300,000 ac ni chafwyd unrhyw daliadau arbennig.

### 2. Ffïoedd a thaliadau (wedi eu harchwilio)

### Ffïoedd a thaliadau[1]

Cynhyrchir y wybodaeth ganlynol am brif weithgareddau Cofrestrfa Tir EM at ddibenion ffïoedd a thaliadau ac nid yw'n ffurfio adroddiad segmentau o dan IFRS 8 (gweler nodyn 2).

| | Statudol | | | Anstatudol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cofrestru teitl[2] | Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol[3] | Pridiannau Tir Lleol[5] | Incwm rhent: | Incwm masnachol[4] | Cyfanswm |
| **2020/21** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Incwm | 226,042 | 6,268 | 225 | 2,780 | 3,857 | **239,172** |
| Cost y gwasanaeth | (294,768) | (163) | (3,178) | – | (2,412) | **(300,521)** |
| Treuliau gweinyddol | (26,460) | (27) | (3,610) | (329) | (373) | **(30,799)** |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu** | **(95,186)** | **6,078** | **(6,563)** | **2,451** | **1,072** | **(92,148)** |
| **2019/20** | | | | | | |
| Incwm | 288,860 | 7,019 | 126 | 2,675 | 7,182 | **305,862** |
| Cost y gwasanaeth | (253,911) | (183) | (1,691) | – | (2,252) | **(258,037)** |
| Treuliau gweinyddol | (21,285) | (30) | (4,436) | (346) | (348) | **(26,445)** |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu** | **13,664** | **6,806** | **(6,001)** | **2,329** | **4,582** | **21,380** |

1. Wedi ei archwilio.
2. Cofrestru teitl – yn cynnwys dyletswyddau statudol Cofrestrfa Tir EM o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002.
3. Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol – cofrestr o fenthyciadau tymor byr wedi eu gwarantu ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill.
4. Incwm masnachol – yn cynnwys rhyddhau data Cofrestrfa Tir EM yn fasnachol.
5. Pridiannau Tir Lleol – roedd Deddf Seilwaith 2015 wedi trosglwyddo cyfrifoldeb i Gofrestrfa Tir EM am gynnal cofrestr o Bridiannau Tir Lleol yn raddol. Rhoddwyd cymeradwyaeth i gyflwyno Pridiannau Tir Lleol fesul cam ac aeth gwasanaeth cam 1 yn fyw yng Ngorffennaf 2018.

### 3. Rhwymedigaethau digwyddiadol o bell

Mae'r barnau a luniwyd i roi gwerth ar y Gronfa Indemniad yn asesiad ar gyfer digwyddiadau ar yr adeg hon ac nid ydynt yn cynnwys asesiad ar gyfer digwyddiadau sy'n rhy ansicr neu'n rhy bell i'w cynnwys. Felly nid oes unrhyw gydnabyddiaeth o'r newid posibl yng ngwerth y ddarpariaeth ar gyfer digwyddiadau ansicr a dim ond ar gyfer newidiadau yng ngwerth digwyddiadau hysbys y gwneir asesiad. Dangosir rhagor o fanylion am effaith newidiadau mewn digwyddiadau hysbys ar dudalennau 110 a 111.

**Simon Hayes**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
9 Gorffennaf 2021

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cofrestrfa Tir EM am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, Sefyllfa Ariannol, Llifoedd Arian Parod, Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr Cofrestrfa Tir EM; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu o bwys. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adroddiadau ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol fel y'u dehonglir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM.

Rwyf wedi archwilio'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig, a'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cyfrifyddu a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi ei harchwilio.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EM ar 31 Mawrth 2021 a'r gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol:

- mae'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 ac yn dangos na wariwyd mwy na'r cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA) (UK), y gyfraith sy'n gymwys, a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud hi'n ofynnol imi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2019. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwyf yn annibynnol ar Gofrestrfa Tir EM yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cofrestrfa Tir EM o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth arwyddocaol ar allu Cofrestrfa Tir EM i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi'r datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Cofrestrfa Tir EM wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd y Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarparant yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd i'w gweld yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nad yw'n cynnwys y rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi ei harchwilio, y datganiadau ariannol a'm tystysgrif yr archwilydd arnynt. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall heblaw i'r graddau a ddatgenir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt. Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd trwy gynnal yr archwiliad neu'n ymddangos fel arall fel petai wedi ei cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau sylweddol ymddangosiadol, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os wyf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, fod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall honno, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w

harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraethu 2000; ac
— mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yn sgîl y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gofrestrfa Tir EM a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd arno ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd ichi os, yn fy marn i:

— nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw neu nid yw manylion digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau y mae fy staff heb ymweld â nhw; neu
— nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a manylion cyfrifyddu; neu
— ni wneir rhai datgeliadau o dâl a bennir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM; neu
— nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
— nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

— paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adroddiadau ariannol cymwys ac am fodloni ei hun eu bod yn rhoi golwg wir a theg;
— rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiad ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall; ac
— asesu gallu Cofrestrfa Tir EM i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gwblheir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn sylweddol os yw'n rhesymol i ddisgwyl y gallant ddylanwadu, yn unigol neu ar y cyd, ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â deddfau a rheoleiddio, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

— Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cofrestrfa Tir EM a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cofrestrfa Tir EM mewn perthynas â:
  • nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  • canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig; a
  • y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau Cofrestrfa Tir EM sy'n ymwneud â Deddf Cofrestru Tir 2002, Rheolau Cofrestru Tir 2003, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir 1972;
— trafodaethau'r tîm ymgysylltu a chynnwys arbenigwyr mewnol a/neu allanol perthnasol, gan gynnwys rhai yn ymwneud â'r Gronfa Indemniad ynghylch sut a ble y gallai twyll godi yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd ar gyfer twyll yn y maes canlynol: cydnabod refeniw a phostio cyfnodolion anarferol;
— sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cofrestrfa Tir EM yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu yn unol â nhw, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu effaith sylfaenol ar weithrediadau Cofrestrfa Tir EM. Roedd y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Cyflenwi a Neilltuo (Prif Amcangyfrifon) 2020 a deddfwriaeth cyflogaeth, treth a phensiynau.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

— adolygu datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
— holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
— darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
— wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy reolwyr yn gweithredu y tu hwnt i'r rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a luniwyd wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Hefyd, cyfathrebais ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm ymgysylltu

gan gynnwys arbenigwyr mewnol a thimau archwilio cydrannau arwyddocaol a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy nhystysgrif.

Mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad o Gyflenwad Seneddol yn cyflwyno'r alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd yn briodol ac nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Gofyniad Heb Fod yn Gyllideb (Adnoddau) a Gofyniad Arian Parod Net. Mae hefyd yn ofynnol imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â chyfrifoldeb llywodraethu am, ymysg pethau eraill, cwmpas ac amseru arfaethedig yr archwiliad a chasgliadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol yn y rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies** **9 Gorffennaf 2021**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau ariannol adrannol

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2020/21<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2019/20<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu arall | 3.1 | (2,780) | (2,675) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **(2,780)** | **(2,675)** |
| Costau staff | 5.1 | 243,735 | 225,869 |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 3.2 | 70,497 | 65,880 |
| Dibrisio, amorteiddio a thaliadau amharu | 3.2 | 14,005 | 9,577 |
| Darpariaeth indemniad a thaliadau ar gyfer indemniad gan gynnwys costau cyfreithiol | 3.2 | 3,049 | (16,850) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **331,286** | **284,476** |
| **Gwariant gweithredu net** | | **328,506** | **281,801** |
| Cyfalaf grant mewn nwydda | 3.2, 19 | 52,752 | – |
| Incwm cyllid | 6 | (19) | (3,268) |
| Treuliau ariannu | 7 | 575 | 605 |
| Colled ar waredu asedau anghyfredol | | – | 1,583 |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | 4 | – | (3,129) |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | **381,814** | **277,592** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i wariant gweithredu net | | | |
| (Elw)/colled net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 8.1, 8.2 | 2,484 | (4,574) |
| (Elw)/colled net ar ailbrisio asedau anniriaethol | 9.1, 9.2 | – | – |
| (Elw)/colled net ar ailbrisio eiddo buddsoddi | 8.3 | – | (180) |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **384,298** | **272,838** |

Mae'r holl weithgareddau yn parhau mewn gweithrediadau. Ailddatganwyd balansau 2019/20 i adlewyrchu dileu'r balansau hynny a adroddir erbyn hyn yn Natganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 97 i 117 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2021

| | | 2020/21 | | Ailddatganwyd<br>2019/20 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8.1 | 22,949 | | 75,584 | |
| Eiddo buddsoddi | 8.3 | – | | 3,130 | |
| Asedau anniriaethol | 9.1 | 45,554 | | 26,870 | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 11.2 | 472 | | 925 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | **68,975** | | **106,509** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 11.1 | 5,439 | | 6,672 | |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | 10 | 23,474 | | – | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **28,913** | | **6,672** |
| **Cyfanswm asedau** | | | **97,888** | | **113,181** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12.1 | 60,815 | | 43,354 | |
| Ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 12.1 | 310 | | 273 | |
| Darpariaethau tymor byr | 13.1 | 60 | | 517 | |
| | | | 61,185 | | 44,144 |
| Cronfa Indemniad | 13.2 | | 70,600 | | 73,200 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **131,785** | | **117,344** |
| **Asedau anghyfredol a hefyd (rhwymedigaethau)/asedau cyfredol net** | | | **(33,897)** | | **(4,163)** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 12.2 | 3,699 | | 4,009 | |
| Darpariaethau tymor hir | 13.1 | – | | 5 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | **3,699** | | **4,014** |
| **(Rhwymedigaethau)/asedau net** | | | **(37,596)** | | **(8,177)** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | | | |
| Cronfa wrth gefn ailbrisio | | | – | | 24,981 |
| Cronfa Gyffredinol | | | (37,596) | | (33,158) |
| **Cyfanswm ecwiti** | | | **(37,596)** | | **(8,177)** |

Ailddatganwyd balansau 2019/20 i adlewyrchu dileu'r balansau hynny sydd wedi eu diweddaru erbyn hyn fel rhan o Ddatganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 97 i 117 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.



**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
9 July 2021

# Datganiad o lifoedd arian parod am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2020/21 £'000 | Ailddatganwyd 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Incwm/(gwariant) gweithredu net | SOCNE | (328,506) | (281,801) |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | 4 | – | 3,129 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod | | | |
| Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar | 3.2 | 7,173 | 4,978 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 3.2 | 4,632 | 4,068 |
| Amharu asedau anghyfredol | 3.2 | 2,200 | 512 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 11 | 1,686 | 709 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill | 12 | (6,013) | 2,948 |
| Llai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd trwy'r SOCNE | | (1) | – |
| Tâl yr archwilydd | 3.2 | 106 | – |
| Gostyngiad/(cynnydd) yn y Gronfa Indemniad | 13.2 | 3,029 | (27,550) |
| Defnydd o Ddarpariaeth y Gronfa Indemniad | 13.2 | (5,629) | 5,350 |
| Defnydd o ddarpariaethau eraill | 13.1 | (458) | (1,837) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(321,781)** | **(289,494)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | 8.1 | (8,847) | (13,914) |
| Prynu asedau anniriaethol | 9.1 | (23,316) | (9,248) |
| Enillion o waredu asedau diriaethol | | – | 3 |
| Llog a dderbyniwyd | 6 | 19 | 3,268 |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(32,144)** | **(19,891)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Ariannu o'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) | SOCTE | 380,650 | – |
| Difidendau a dalwyd (fel cronfa fasnachu) | | – | – |
| Ad-daliadau o elfen gyfalaf ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 15.1 | (273) | (241) |
| Elfen llog ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 7 | (575) | (605) |
| **Ariannu net** | | **379,802** | **(846)** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | 25,877 | (310,231) |
| Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | | (2,403) | (2,675) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol yn y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | 23,474 | (312,906) |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r cyfnod** | 10 | **–** | **312,906** |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y cyfnod** | SOFP | **23,474** | **–** |

Mae'r holl weithgareddau yn parhau mewn gweithrediadau. Mae balansau 2019/20 wedi eu hail-ddatgan i adlewyrchu dileu'r balansau hynny a adroddir bellach yn Natganiadau Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 97 i 117 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | Cronfa wrth gefn ailbrisio | Cronfa gyffredinol | Cyfanswm cronfeydd wrth gefn |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans wedi ei ailddatgan ar 31 Mawrth 2019** | **20,308** | **247,028** | **267,336** |
| **Newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn 2019/20** | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | – | (277,592) | **(277,592)** |
| Symiau'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | – | (2,675) | **(2,675)** |
| Enillion a cholledion ailbrisio | 4,754 | – | **4,754** |
| Symudiadau cronfeydd wrth gefn eraill gan gynnwys trosglwyddiadau | (81) | 81 | **–** |
| **Balans wedi ei ailddatgan ar 31 Mawrth 2020** | **24,981** | **(33,158)** | **(8,177)** |
| **Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr 2020/21** | | | |
| Cronfa Seneddol Net – wedi ei dynnu i lawr | – | 380,650 | **380,650** |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | – | (381,814) | **(381,814)** |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | – | (2,403) | **(2,403)** |
| Tâl yr archwilydd | – | 106 | **106** |
| Enillion a cholledion ailbrisio | (2,484) | – | **(2,484)** |
| Trosglwyddiad cronfa wrth gefn ailbrisio | (22,497) | 22,497 | **–** |
| Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | (377) | **(377)** |
| Addasiad cyflenwad (taladwy)/derbyniadwy | – | (23,097) | **(23,097)** |
| **Ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth 2021** | **–** | **(37,596)** | **(37,596)** |

Mae'r holl weithgareddau yn parhau mewn gweithrediadau. Mae balansau 2019/20 wedi eu hail-ddatgan i adlewyrchu dileu'r balansau hynny a adroddir bellach yn Natganiadau Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 97 i 117 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon adrannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2020/21 ac maent yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn y Llawlyfr yn dilyn Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u haddasir neu fel y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig Cofrestrfa Tir EM at ddibenion penodol rhoi darlun gwir a theg. Cymhwyswyd polisïau cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol o ran y datganiadau ariannol.

Ar 1 Ebrill 2020, newidiodd Cofrestrfa Tir EM o fod yn gronfa fasnachu i fod yn adran anweinidogol. Fel cronfa fasnachu, ariannwyd Cofrestrfa Tir EM trwy incwm, gydag unrhyw warged yn cael ei ddychwelyd i Drysorlys EM fel difidend. Fel adran anweinidogol, mae gan Gofrestrfa Tir EM ei chyfansymiau rheoli gwariant blynyddol a ddirprwyir yn uniongyrchol gan Drysorlys Ei Mawrhydi ac mae'n ildio'r ffïoedd a'r taliadau y mae'n eu casglu i'r Gronfa Gyfunol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'r rheolwyr o'r farn bod y sail busnes gweithredol yn briodol gan fod rhwymedigaeth gyfreithiol arnom o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu gwasanaethau statudol mewn perthynas â chofrestru tir ac mae digon o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r sefydliad yn y dyfodol. At hynny, yn yr un modd ag adrannau eraill o'r llywodraeth, mae ariannu rhwymedigaethau'r adran yn y dyfodol i'w talu gan grantiau cyflenwad yn y dyfodol a chymhwyso incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan y Senedd.

*Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond heb fod yn weithredol eto*

Daeth IFRS 16 Prydlesi i rym ar 1 Ionawr 2019 gan ddisodli IAS 17 Prydlesi. Fodd bynnag, argymhellodd Trysorlys EM fod adrannau o'r llywodraeth yn gohirio mabwysiadu'r safon gyfrifyddu hon tan 1 Ebrill 2022, er y caniateir i rai adrannau ei mabwysiadu'n gynnar o dan amgylchiadau cyfyngedig. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi dewis mabwysiadu'r safon hon o 1 Ebrill 2021, ac ymdrinnir â hyn yn fanylach yn nodyn 1.18.

Disgwylir i'r newid o 1 Ebrill 2021 gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol effeithio ar dri eiddo sy'n gweithredu prydlesi ac un eiddo a ddelir ar sail anfasnachol o fewn y llywodraeth. Mae gwerthoedd wedi eu cyfalafu yr hawliau hyn i ddefnyddio asedau wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfradd prydles sy'n bodoli o 1.99%* (* Trysorlys EM PES 2020) a gyhoeddwyd Rhagfyr 2020) sydd gyda'i gilydd â hawl i ddefnyddio gwerth cyfalaf o £4.2m. Gan y bydd Cofrestrfa Tir EM yn creu asedau hawl i ddefnyddio, a rhwymedigaethau prydles cyfatebol, ni ddisgwylir i asedau net newid yn sylweddol. Ni fydd unrhyw gyllid cyfalaf ychwanegol yn ofynnol, ac yn lle codi rhent bydd y taliadau sy'n ddyledus yng ngostyngiad yn y rhwymedigaethau hawl i ddefnyddio a chostau llog cyllid, ynghyd â dibrisiad wedi ei amorteiddio o werthoedd asedau hawl i ddefnyddio. Cydnabyddir cost gychwynnol fel ail-ddatganiad ôl-weithredol ar gyfer 2020/21.

Mae IFRS 16 yn caniatáu i brydlesai ddiystyru asedau a rhwymedigaethau sydd wedi eu hatodi i brydlesi sydd â thymor o lai na 12 mis. Mae un brydles gan Gofrestrfa Tir EM ar hyn o bryd gyda thymor o lai na 12 mis.

Bydd IFRS 17 Contractau Yswiriant yn weithredol o 1 Ionawr 2023 ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus. Rhagwelir na chaiff y safon adrodd hon unrhyw effaith gyfrifyddu ar Gofrestrfa Tir EM oherwydd ni ddelir unrhyw gontractau yswiriant o'r fath.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi ei addasu ar gyfer ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi, asedau a ddelir i'w gwerthu ac asedau anniriaethol i werth teg fel y pennir gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

### 1.3 Meysydd o amcangyfrif a barnau arwyddocaol

Mae amcangyfrifon a barnau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Yr amcangyfrifon a'r barnau oedd â risg arwyddocaol o achosi addasiad sylweddol i'r symiau sy'n cario o asedau a rhwymedigaethau o fewn y cyfnod cyfrifyddu nesaf yw:

- Nodyn 9 – prisiad ac oes economaidd ddefnyddiol yr asedau anniriaethol. Y prisiad yw cost amnewid uniongyrchol y gofrestr a'r data sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae'r gost amnewid yn cynnwys yr holl gostau sy'n cael eu mesur yn ddibynadwy ac mae'r oes economaidd yn cael ei adolygu bob blwyddyn ariannol i benderfynu a yw digwyddiadau ac amgylchiadau yn parhau i gefnogi'r oes a ddewiswyd. Mae asedau anniriaethol hefyd yn cael eu hasesu'n flynyddol ar gyfer amhariad yn unol ag IAS 36.
- Nodyn 13.2 – amcangyfrif o'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i setlo'r holl hawliadau indemniad y gwyddys amdanynt ac sydd wedi codi ond heb eu hadrodd – lle y ceir ansicrwydd o ran cyfran yr hawliadau sy'n aros i'w prosesu a gaiff eu talu yn y pen draw, gwerth y taliadau hynny ac effaith unrhyw farnau cyfreithiol. Ar gyfer hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR), ni wyddys nifer yr hawliadau sydd heb eu hadrodd a hefyd yr adeg pan fydd gwall yn dod i'r amlwg a gwerth unrhyw hawliad posibl.

### 1.4 Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid

Mae IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid wedi cael ei fabwysiadu. Mae meini prawf cydnabod incwm o fewn IFRS 15 yn gyson â pholisi cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM.

Mae'r holl ffïoedd a thaliadau statudol yn cael eu dal mewn Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM ar wahân. Mae incwm yn y Datganiad o Wariant Net yn ymwneud ag incwm rhenti eiddo a gydnabyddir wrth i'r symiau fod yn ddyledus.

### 1.5 Segmentau gweithredu
Segmentau gweithredu Cofrestrfa Tir EM yw'r cyfarwyddiaethau yr adroddir arnynt mewn modd sy'n gyson â'r adrodd mewnol a ddarperir i'r Prif Benderfynwr Gweithredu. Y saith segment busnes y gellir adrodd arnynt yw: Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir, Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Cyllid a Busnes, Gweithrediadau, Cyfreithiol, Trawsnewid a Digidol, Data a Thechnoleg. Mae hyn yn seiliedig ar drefniadaeth fewnol a strwythur rheoli'r grŵp, a dyma'r brif ffordd y mae'r prif penderfynwr gweithredu yn cael gwybodaeth ariannol. Prif benderfynwr gweithredu Cofrestrfa Tir EM yw Simon Hayes, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir.

### 1.6 Buddion gweithwyr
Cydnabyddir y gost o ddarparu buddion gweithwyr yn y cyfnod pan fydd Cofrestrfa Tir EM yn cael gwasanaethau gan ei gweithwyr, yn hytrach na phan gaiff ei thalu neu pan fydd yn daladwy. Cydnabyddir buddion gweithwyr tymor byr fel gwariant yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Cydnabyddir taliadau perfformiad dim ond pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'w talu a gellir rhoi amcangyfrifon dibynadwy o'r costau. Cydnabyddir buddion terfynu swydd pan ellir dangos bod cytundeb diwrthdro i derfynu cyflogaeth y gweithiwr(gweithwyr) cyn dyddiad ymddeol y cynlluniau neu o ganlyniad i gynnig i annog diswyddiad gwirfoddol.

### 1.7 Pensiynau
Mae gweithwyr Cofrestrfa Tir EM yn weision sifil ac mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu Gynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn 'Alpha'. Cynlluniau buddion wedi eu diffinio aml-gyflogwr heb eu hariannu yw'r rhain, ond ni all Cofrestrfa Tir EM nodi ei chyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol ar sail resymol a chyson. Felly mae Cofrestrfa Tir EM wedi cyfrif am gyfraniadau a thaliadau i'r cynlluniau hyn o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 Buddion Gweithwyr fel petaent yn gynlluniau cyfraniad wedi ei ddiffinio. Mae rhwymedigaeth ar gyfer talu buddion yn y dyfodol yn dâl ar Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu gynllun Alpha.

### 1.8 Eiddo, offer a chyfarpar
Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn cael eu prisio'n broffesiynol gan briswyr eiddo allanol, annibynnol sydd â chymwysterau proffesiynol cydnabyddedig priodol a phrofiad diweddar yn lleoliad a chategori'r eiddo a brisir. Cynhaliodd Montagu Evans (prisiwr cofrestredig Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)) brisiad bwrdd gwaith ym Mawrth 2021 i hwyluso'r broses o drosglwyddo asedau i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (gweler Nodyn 19).

Mae FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EM ddatgelu asedau anghyfredol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol am werth teg. Ar gyfer asedau sy'n cael eu defnyddio mae'r FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i asedau gweithredol gael eu mesur ar eu gwerth cyfredol yn eu defnydd presennol, yn hytrach na gwerth y farchnad fel sy'n ofynnol gan IFRS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar. Mae manylion addasiadau FReM sy'n parhau i fod yn gymwys ar gyfer 2020/21 i'w gweld ar GOV.UK (chwiliwch 'Llawlyfr Adrodd Ariannol 2020/21').

Ar gyfer asedau oes fer heblaw eiddo, defnyddir cost hanesyddol yn fras amcan o werth teg yr ased. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol ac adeiladau prydlesol wedi eu cynnwys yn ôl ailbrisiad llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad. Mae'r holl asedau anghyfredol diriaethol eraill yn cael eu cynnwys yn ôl cost hanesyddol llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad.

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio. Ar gyfer asedau eraill mae'r tâl dibrisiad yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu cost neu swm wedi ei ailbrisio, llai amcangyfrif o werth gweddillol asedau anghyfredol, yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill gan ddefnyddio dull llinell syth.

Mae eiddo, offer a chyfarpar arall yn cynnwys cyfarpar a pheiriannau TG a swyddfa. Mae Cofrestrfa Tir EM yn cyfalafu gwariant dros £1,000 ar gyfer ased unigol. Lle y bo'n briodol, mae asedau unigol sy'n is na'r lleiafswm gwerth ar gyfer cyfalafu yn cael eu grwpio. Polisi Cofrestrfa Tir EM yw peidio â chyfalafu gwariant ar osodiadau a ffitiadau, dodrefn swyddfa yn bennaf, oherwydd ni ystyrir eu bod yn sylweddol.

Mae oes asedau yn cael ei hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliol | Dim |
| Adeiladau rhydd-ddaliol | Amcangyfrif o oes ddefnyddiol |
| Adeiladau prydlesol | Cyfnod y brydles neu amcangyfrif o oes ddefnyddiol |
| Cyfarpar telegyfathrebu | 5 mlynedd |
| Cyfarpar swyddfa | 5 mlynedd |
| Cyfrifiaduron: prif-ffrâm | 5 mlynedd |
| Cyfrifiaduron: personol | 5 mlynedd |
| Ceblau strwythuredig | 10 mlynedd |
| Offer a pheiriannau trwm | 10 mlynedd |

### 1.9 Amhariad asedau anghyfredol
Cynhelir adolygiadau amhariad ar ddiwedd bob blwyddyn ac os oes arwyddion bod yr ased wedi dioddef colled amhariad mae tâl yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd yn digwydd. Os yw'r ased yn cael ei gario am swm wedi ei ailbrisio, mae'r golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio, yn ôl maint y gronfa wrth gefn ailbrisio sy'n berthnasol i'r ased, gydag unrhyw swm dros ben wedi ei nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Os ceir unrhyw arwydd felly, amcangyfrifir swm adenilladwy yr ased er mwyn pennu graddfa'r golled amhariad. Y swm adenilladwy yw'r uchaf o werth teg llai costau i werthu a gwerth mewn defnydd.

Ar gyfer asedau sy'n cael eu datblygu, cynhelir adolygiad blynyddol i gadarnhau bod yr asedau hyn yn parhau i fodloni'r meini prawf mesur o fewn IAS 38 Asedau Anniriaethol.

### 1.10 Asedau anniriaethol
Nodir asedau anniriaethol yn ôl cost hanesyddol llai amorteiddiad cronedig a cholledion amhariad cronedig fel dirprwy ar gyfer gwerth teg, gan nad yw marchnad weithredol yn bodoli ar gyfer asedau anniriaethol yr adran. Gelwir y driniaeth hon hefyd yn Gost Amnewid Wedi ei Dibrisio.

*Trwyddedau meddalwedd*
Mae asedau anniriaethol a gaffaelwyd ar wahân yn cael eu dangos yn ôl cost hanesyddol. Mae'r costau a gafwyd i gaffael a dechrau defnyddio'r asedau hyn wedi eu cyfalafu. Mae'r rhain yn cynnwys costau contractwyr, deunyddiau, costau llafur i'w priodoli'n uniongyrchol a chostau gorbenion i'w priodoli'n uniongyrchol.

Mae trwyddedau meddalwedd wedi eu cynnwys yn ôl cost llai amorteiddio cronedig. Cânt eu hamorteiddio ar sail llinell syth ar gyfradd o:

| | |
|---|---|
| Prif-ffrâm | 5 mlynedd |
| Cyfrifiaduron personol | 5 mlynedd |

*Costau datblygu meddalwedd*
Yn unol ag IAS 38, cyfalafir gwariant a gafwyd ar ddatblygu seilwaith TG newydd (gan gynnwys costau trydydd parti a chostau uniongyrchol ymdrech staff mewnol). Caiff costau datblygu i'w priodoli'n uniongyrchol i gynllunio a phrofi cynhyrchion meddalwedd adnabyddadwy unigryw a reolir gan Gofrestrfa Tir EM eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir gofynion IAS 38.

Mae'r costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol wedi eu cyfalafu fel rhan o'r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol. Cydnabyddir gwariant datblygu arall nad yw'n bodloni'r meini prawf hyn fel treuliau a gafwyd. Nid yw costau datblygu a chafodd eu cydnabod yn flaenorol fel treuliau yn cael eu cydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae'r holl wariant ymchwil yn cael ei ddileu wrth iddo godi.

Cofnodir gwariant a gafwyd wrth ddatblygu meddalwedd fel ased anniriaethol sy'n cael ei adeiladu ac yna caiff ei drosglwyddo i'w ddefnyddio fel ased anniriaethol pan fydd y meddalwedd hwnnw a'r data cysylltiedig ar gael gan Gofrestrfa Tir EM i'w chwsmeriaid.

Mae costau datblygu meddalwedd yn cael eu categoreiddio fel asedau sydd wrthi'n cael eu datblygu o fewn Nodyn 9.

*Pridiannau Tir Lleol*
Cwblhaodd Cofrestrfa Tir EM y gwaith o adeiladu a datblygu cofrestr gyfrifiadurol i gadw data Pridiannau Tir Lleol yng Ngorffennaf 2018. Ar 31 Mawrth 2021, ychwanegwyd y data sy'n gysylltiedig ag 13 awdurdod lleol at y gofrestr ac mae'n cael ei ddefnyddio.

O dan IAS 38, cyfalafwyd costau datblygu ar gyfer dau ased ar wahân: cronfa ddata i ddal y wybodaeth; a'r data ei hun, y mae angen eu glanhau, eu digido a'u mudo i'r gronfa ddata hon. Ar ôl dechrau gwasanaeth y gofrestr, caiff y cydrannau hyn eu hamorteiddio dros eu hoesau defnyddiol priodol sef:

| | |
|---|---|
| Cofrestr Pridiannau Tir Lleol | 5 mlynedd |
| Data Pridiannau Tir Lleol | 10 mlynedd |

**1.11 Eiddo buddsoddi**
Mae eiddo buddsoddi yn cael ei fesur yn ôl ei werth teg. Y prisiad gwerth teg yw ei werth cyfredol ar y farchnad yn ei ddefnydd presennol.

Pan fydd eiddo buddsoddi yn cael ei werthu neu ei drosglwyddo, caiff ei ailbrisio i'r swm adferadwy a chaiff unrhyw swm gweddilliol a ddelir yn y Gronfa Ailbrisio ei drosglwyddo i Enillion a Gadwyd (gweler Nodyn 1.8 am fanylion y prisiwr a ddefnyddiwyd).

Cafodd yr holl eiddo buddsoddi eu cynnwys yn y trosglwyddiad ased i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2021. Mae manylion pellach y trosglwyddiad hwn i'w gweld yn Nodyn 19.

**1.12 Symiau derbyniadwy masnach**
Nid yw symiau derbyniadwy masnach yn cario unrhyw log a chânt eu datgan yn ôl eu gwerth enwol wedi ei leihau gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anenilladwy. Mae'r darpariaethau amhariad hyn yn cael eu cofnodi mewn treuliau gweinyddu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Cymerir bod y swm sy'n cario o symiau derbyniadwy masnach yn fras amcan o werth teg.

Os disgwylir casglu symiau derbyniadwy o fewn blwyddyn neu lai, cânt eu dosbarthu fel asedau cyfredol.

**1.13 Arian parod ac arian parod cyfatebol**
Mae arian parod yn cynrychioli arian mewn llaw, arian parod a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a banciau masnachol. Mae'r banc masnachol ac adneuon Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn gronfeydd sydd ar gael ar unwaith.

**1.14 Symiau taladwy masnach**
Mae symiau taladwy masnach yn ymrwymiadau i dalu am nwyddau a gwasanaethau sydd wedi cael eu caffael yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr. Mae cyfrifon taladwy wedi eu dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol. Mae symiau taladwy masnach wedi eu datgan yn ôl eu gwerth enwol. Ystyrir bod swm cario symiau taladwy masnach yn fras amcan o werth teg.

**1.15 Darpariaethau**
Mae Cofrestrfa Tir EM yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol ac adeiladol sy'n ansicr o ran eu hamseru neu swm ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr ar y dyddiad hwnnw o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r ymrwymiadau. Gan fod effaith disgowntio yn amherthnasol, caiff ei chynnwys fel rhan o'r ailbrisiad i'r ddarpariaeth honno yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'i datgelu ar linell ar wahân. Codir darpariaethau ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a chânt eu cofnodi fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. (Mae manylion pellach, gan gynnwys sensitifrwydd, i'w gweld yn Nodyn 13.)

**1.16 Cronfa Indemniad**
Mae Atodlen 8 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EM indemnio trydydd partïon yn erbyn colled a achosir gan gamgymeriadau yn y gofrestr, camgymeriadau mewn canlyniadau chwlio a dogfennau a gollwyd gan Gofrestrfa Tir EM. Mae'r rhan fwyaf o hawliadau indemniad Cofrestrfa Tir EM yn deillio o gamgymeriadau yn y gofrestr, ac mae rhai o'r camgymeriadau hyn yn ganlyniad i ffugio dogfennau megis pridiannau. Yn wir mae twyll/ffugio fel arfer yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r taliadau indemniad, ac nid yw'r flwyddyn hon yn eithriad. O dan Atodlen 8 i'r Ddeddf, mae hawliau statudol gan Gofrestrfa Tir EM i adennill y taliadau hyn gan drydydd partïon, os yw'r trydydd partïon ar fai, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, am y golled.

Fel ar y dyddiad cyfrifyddu cyfredol, mae taliadau am hawliadau yn y dyfodol yn ansicr o ran eu hamseru a'u swm. Mae'r Gronfa Indemniad wedi ei sefydlu ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r ymrwymiad. Mae'r Gronfa Indemniad yn cael ei gosod ar ôl ystyried amcangyfrifon actiwaraidd o gost yr hawliadau a adroddwyd ond heb eu setlo, yn ogystal â hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd. Mae'r amcangyfrif o gost hawliadau yn cynnwys y treuliau a gafwyd wrth setlo'r hawliadau hynny.

Mae swm sy'n cario y Gronfa Indemniad yn deillio o farnau beirniadol, amcangyfrifon a rhagdybiaethau yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Mae'r amcangyfrifon hyn: a'r rhagdybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu'n chwarterol gan Gofrestrfa Tir EM, wedi eu cefnogi gan ei hactiwari annibynnol, sef Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Ar ôl y dyddiad cyfrifyddu, cynhelir adolygiad pellach o'r hawliadau a dderbyniwyd gan Gofrestrfa Tir EM (hyd at y dyddiad y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon) er mwyn gweld a yw'r Gronfa Indemniad wedi ei phrisio'n briodol o hyd. Mae'r cyfrifon hyn yn rhoi'r gwerthoedd setlo tebygol ar gyfer hawliadau cyfredol a hawliadau yn y dyfodol yn erbyn y Gronfa Indemniad. Rhoddir manylion pellach am y Gronfa Indemniad yn Nodyn 13.2 o'r adroddiad hwn.

**1.17 Rhwymedigaethau digwyddiadol**
Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau y mae posibilrwydd yn unig y byddant yn crisialu ac nid ydynt yn bodloni meini prawf darpariaethau wedi eu dosbarthu'n rhwymedigaethau digwyddiadol. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i, hawliadau am golledion sy'n deillio o wallau neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol Cofrestrfa Tir EM fel yr yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr (gweler Nodyn 14).

**1.18 Prydlesi ariannu**
Os yw Cofrestrfa Tir EM yn cadw holl risgiau a gwobrwyon bod yn berchennog ased sy'n ddarostyngedig i brydles o dan IAS 17, mae'r brydles yn cael ei thrin fel prydles ariannu. Mae rhandaliadau sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi cyllid, yn glir o daliadau ariannu, yn cael eu cynnwys yn rhwymedigaethau gyda'r gwerthoedd ased cyfatebol wedi eu cofnodi o fewn asedau anghyfredol a'u dibrisio dros y byrrach o'u hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig neu dymor eu prydles. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr elfen gyllid, a godir ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel llog, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau'r ymrwymiad sy'n weddill ar gyfer rhandaliadau yn y dyfodol.

**Bydd IFRS 16 hefyd yn gymwys i Gofrestrfa Tir EM yn 2021/22**
Mae IFRS 16 Prydlesi yn darparu model cyfrifyddu prydlesai sengl, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i brydlesai gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni bai bod tymor y brydles yn 12 mis neu lai, neu mae'r ased sylfaenol yn bodloni meini prawf IFRS 16 i'w dosbarthu fel "gwerth isel". Mae'r IFRS yn effeithiol yn y sector preifat ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Ionawr 2019. Bydd Cofrestrfa Tir EM yn mabwysiadu IFRS 16 yn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau 1 Ebrill 2021.

Mae IFRS 16 yn rhoi diffiniad culach o brydles nag IAS 17 (Prydlesi) ac IFRIC 4 (Penderfynu a yw Trefniant yn Cynnwys Prydles) trwy ei gwneud hi'n ofynnol i asedau a rhwymedigaethau gael eu cydnabod i gychwyn ar werth gostyngol yr isafswm taliadau prydles, ac y bydd yr asedau, i'w disgrifio fel asedau "hawl i ddefnyddio", yn cael eu cyflwyno o dan eiddo, offer a chyfarpar. Mae Cofrestrfa Tir EM yn disgwyl i'w phrydlesi ariannu presennol barhau i gael eu dosbarthu fel prydlesi. Bydd yr holl brydlesi gweithredu presennol wedi eu cynnwys o fewn cwmpas IFRS 16 o dan y rheolau 'hawl taid/tad-cu' a fandadwyd yn y FReM ar gyfer y trosglwyddiad cychwynnol i IFRS 16. Felly, bydd gweithredu IFRS 16 yn cynyddu gwerth asedau eiddo, offer a chyfarpar a gwerth rhwymedigaethau prydles.

Ar ôl cael eu cydnabod yn gychwynnol, caiff asedau hawl i ddefnyddio eu hamorteiddio ar sail llinell syth a chaiff llog ei gydnabod ar y rhwymedigaethau. Ac eithrio pan fydd wedi ei addasu ar gyfer ailbrisio lle bo hynny'n berthnasol, bydd y model cost yn cael ei gymhwyso i asedau ar gyfer prydlesi heblaw prydlesi sydd â rhent hedyn papur, a gaiff eu mesur ar sail cost amnewid wedi ei dibrisio. O ganlyniad, bydd amseriad cydnabod cyfanswm costau prydlesu yn newid, gan y bydd costau llog yn uwch ar ddechrau prydles.

Mae Trysorlys EM yn cynnig y bydd IFRS 16 yn cael ei weithredu gan ddefnyddio'r dull dal i fyny cronnus; o ganlyniad, ni chaiff cymariaethau eu hailddatgan a bydd mesur y balansau asedau a rhwymedigaeth a gydnabyddir yn weithredol o 1 Ebrill 2021 yn adlewyrchu bwriadau'r grÐp ar y dyddiad hwnnw. Mae Trysorlys EM hefyd yn cynnig cyhoeddi cyfradd fenthyca fewnol ganolog i endidau, pan na allant gael y gyfradd sydd ymhlyg yn y contract prydles.

Gan y bydd IFRS 16 yn cael ei weithredu trwy ddefnyddio'r dull dal i fyny cronnus, ni fydd cymariaethau ar gyfer 2020/21 yn cael eu hailddatgan, a bydd yr addasiad i asedau net yn cael ei wneud o 1 Ebrill 2021. Ar gyfer y trefniadau perthnasol sydd o fewn cwmpas IFRS 16, ystyrir bod effaith gweithredu yn gynnydd o oddeutu £79.17m mewn asedau a rhwymedigaethau ar hyn o bryd.

Mae'r asedau hawl i ddefnyddio ac ymrwymiadau prydlesu wedi cael eu cyfrifo yn unol â'r polisi a ddisgrifir uchod.

**1.19 TAW**
Mae Cofrestrfa Tir EM yn rhoi cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Allan Gwasanaethau Trysorlys EM. Ar gyfer gweithgarwch anstatudol – sef gweithgarwch busnes – codir TAW a'i hadennill yn ôl rheolau TAW fasnachol. Codir TAW anadenilladwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei chynnwys yng nghostau prynu wedi eu cyfalafu asedau anghyfredol. Os yw treth wrth werthu yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth wrth brynu, nodir y symiau yn glir o TAW.

**1.20 Ailddatganiad o ganlyniadau 2019/20**
Mae canlyniadau 2019/20 wedi eu hail-ddatgan i adlewyrchu trosglwyddo Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol i Ddatganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM ar wahân. Manylir ar effaith hyn yn Nodyn 18.

## 2 Segmentau gweithredu

### 2.1 Segmentau gweithredu

| 2020/21 | Busnes fel Arfer £'000 | Costau Canolog (£) £'000 | Prosiectau £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 3,408 | – | – | **3,408** |
| Adnoddau Dynol | 7,265 | (3) | 591 | **7,853** |
| Cyllid a Gwasanaethau Busnes | 11,102 | 84,199 | 2,999 | **98,300** |
| Gweithrediadau | 186,389 | – | 8,083 | **194,472** |
| Cyfreithiol a Sicrwydd | 19,377 | 3,049 | – | **22,426** |
| Y Gyfarwyddiaeth Trawsnewid | 2,080 | 3,651 | 3,479 | **9,210** |
| Digidol, Data a Thechnoleg | 37,209 | 490 | 11,226 | **48,925** |
| **Cyfanswm** | **266,830** | **91,386** | **26,378** | **384,594** |
| **2019/20** | | | | |
| Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 3,481 | – | – | **3,481** |
| Adnoddau Dynol | 6,894 | (3,133) | 92 | **3,853** |
| Cyllid a Gwasanaethau Busnes | 11,881 | 18,713 | 170 | **30,764** |
| Gweithrediadau | 175,886 | 12 | 4,456 | **180,354** |
| Cyfreithiol a Sicrwydd | 18,628 | (16,823) | – | **1,805** |
| Y Gyfarwyddiaeth Trawsnewid | 2,363 | 4,448 | 3,081 | **9,892** |
| Digidol, Data a Thechnoleg | 36,383 | (44) | 13,779 | **50,118** |
| **Cyfanswm** | **255,516** | **3,173** | **21,578** | **280,267** |

Pennir segmentau gweithredu yn unol ag IFRS 8 Segmentau Gweithredu yn seiliedig ar ba wybodaeth a gyflwynir at ddibenion gwneud penderfyniadau i'r Prif Benderfynwr Gweithredu. Prif Benderfynwr Gweithredu Cofrestrfa Tir EM yw'r Swyddog Cyfrifyddu.

Mae strwythur Cofrestrfa Tir EM yn golygu bod yr holl asedau a gynhwysir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn eu hanfod yn cael eu defnyddio ar gyfer gweinyddiaeth gyffredinol a budd Cofrestrfa Tir EM yn ei chyfanrwydd. O ganlyniad, nid ydynt yn cael eu dosrannu i segmentau gweithredu yn y tabl uchod.

Nodir y disgrifiad ar gyfer pob segment gweithredu isod.

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir**
Mae'r gyfarwyddiaeth yn gweithio i gynnal a gwella enw da Cofrestrfa Tir EM ar ran y Prif Weithredwr a'r Prif Gofrestrydd Tir trwy gyfathrebu corfforaethol, llywodraethu, polisi a swyddogaethau budd-ddeiliaid effeithiol.

**Adnoddau Dynol**
Mae Adnoddau Dynol yn gweithio i helpu Cofrestrfa Tir EM i gyflawni ei blaenoriaethau gweithredol a sefydliadol, a meithrin capasiti a gallu sefydliadol i gwrdd â heriau newydd.

**Cyllid a Gwasanaethau Busnes**
Mae'r Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Busnes yn cynnwys Rheoli Cyfleusterau, Cyllid, Masnachol, Cynllunio a Pherfformiad Grŵp a Strategol.

**Gweithrediadau**
Prif swyddogaeth y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau yw cofrestru tir a darparu lefel gynaliadwy o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid, wedi ei fesur yn erbyn cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol.

**Cyfreithiol a Sicrwydd**
Mae Cyfreithiol a Sicrwydd yn gweithio i ddiogelu cywirdeb y gofrestr, gan sicrhau bod gennym y rheolau, y gorchmynion, y cyfarwyddiadau a'r hysbysiadau yn eu lle i weithredu'n effeithiol.

**Y Gyfarwyddiaeth Trawsnewid**
Mae'r Gyfarwyddiaeth Trawsnewid yn llunio ac yn cydlynu'r gweithgaredd trawsnewid sy'n digwydd ar draws yr holl gyfarwyddiaethau eraill.

**Digidol, Data a Thechnoleg**
Mae'r Gyfarwyddiaeth Digidol, Data a Thechnoleg yn gyfrifol am: adeiladu gwasanaethau digidol newydd; diffinio a gweithredu strategaeth ddata Cofrestrfa Tir EM; datblygu cynhyrchion data; a rheoli, cynnal a datblygu'r holl dechnoleg y mae staff yn ei defnyddio.

**Ffrydiau gwariant**
Rhennir y ffrydiau gwariant yn dri chategori: busnes fel arfer; costau canolog; a phrosiectau. Bwriad yr is-adran hon yw dangos costau rhedeg y gyfarwyddiaeth, y tasgau ychwanegol sy'n cael eu cwblhau gan y gyfarwyddiaeth (prosiectau), a gwahanu'r costau rhedeg canolog ar gyfer Cofrestrfa Tir EM (costau canolog).

**Costau canolog**
Mae'r categori hwn yn cynnwys eitemau megis croniadau gwyliau staff, costau eiddo, dibrisio, amorteiddio, darpariaethau ac amhariadau sy'n cael eu monitro gan un gyfarwyddiaeth ond y gellid eu dosrannu ar draws y sefydliad. Ceir esboniadau isod ar gyfer yr anghysondebau mwyaf arwyddocaol sy'n codi yn y categori.

Yn 2020/21, gellir priodoli £52.75m o gostau canolog yng Ngwasanaethau Cyllid a Busnes i'r grant cyfalaf mewn nwyddau ar gyfer trosglwyddo eiddo i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (gweler nodyn 19).

**Amrywiant rhwng Nodyn 2. Segmentau Gweithredu a'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net**
Cyflwynir y segmentau gweithredu a ddangosir uchod yn glir o refeniw (gweler nodyn 3).

# 3 Nwyddau a gwasanaethau

## 3.1 Incwm gweithredu

| | Nodyn | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | | (2,780) | (2,675) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **(2,780)** | **(2,675)** |

## 3.2 Costau eraill

| **Eitemau arian parod** | Nodyn | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau TG | | 16,065 | 14,854 |
| Hurio peiriannau | | 2,792 | 3,032 |
| Costau staff eraill gan gynnwys hyfforddiant | | 4,828 | 3,116 |
| Tâl am brydlesi gweithredu – adeiladau | 15.2 | 1,627 | 1,627 |
| Ffïoedd proffesiynol | | 10,294 | 9,151 |
| Costau Tribiwnlys haen gyntaf | | 3,141 | 2,901 |
| Costau llety | | 18,898 | 15,970 |
| Costau arolwg a sganio | | 3,695 | 5,185 |
| Costau storio ffeiliau | | 4,121 | 3,766 |
| Costau eraill | | 4,930 | 6,198 |
| Tâl yr archwilydd – ffi archwilio | | – | 80 |
| **Cyfanswm gwariant arian parod** | | **70,391** | **65,880** |
| **Eitemau heb fod yn arian parod** | | | |
| Darpariaeth indemniad a thaliadau ar gyfer indemniad gan gynnwys costau cyfreithiol** | 13 | 3,049 | (16,850) |
| Cyfalaf grant mewn nwyddau | 19 | 52,752 | – |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol – a berchenogir | 8.1 | 6,570 | 4,728 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol – a brydlesir | 8.1 | 603 | 250 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 9.1, 9.2 | 4,632 | 4,068 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | 8.1, 8.2 | 2,200 | 531 |
| Tâl yr archwilydd – ffi archwilio | | 106 | – |
| **Cyfanswm gwariant heb fod yn arian parod** | | **69,912** | **(7,273)** |
| **Cyfanswm costau eraill** | | **140,303** | **58,607** |

Yn 2019/20, roedd Tâl yr Archwilydd yn drafodiad arian parod o £80k. Yn dilyn newid statws Cofrestrfa Tir EM o gronfa fasnachu i adran yn 2020/21, daeth Tâl yr Archwilydd yn ffi dybiannol o £106k a delir trwy'r Broses Gyflenwi. O'r £106k, mae £86k yn ymwneud ag archwilio'r Cyfrifon Adnoddau ac mae £20k yn ymwneud ag archwilio'r Datganiad Ymddiriedolaeth.

# 4 Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu

| | 2020/21 Ymddeoliad cynnar £'000 | 2020/21 Diswyddiad cynnar £'000 | 2020/21 Cyfanswm £'000 | 2019/20 Ymddeoliad cynnar £'000 | 2019/20 Diswyddiad cynnar £'000 | 2019/20 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau a gafwyd yn y flwyddyn | – | – | **–** | (3,133) | 4 | **(3,129)** |
| Costau a ddarparwyd yn y flwyddyn | – | – | **–** | – | – | **–** |
| | – | – | **–** | **(3,133)** | **4** | **(3,129)** |

## 5 Gwybodaeth am weithwyr

### 5.1 Costau staff

| | | | 2020/21 | | | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 177,533 | 2,415 | **179,948** | 167,057 | 2,079 | **169,136** |
| Costau nawdd cymdeithasol | 17,258 | 165 | **17,423** | 16,052 | 139 | **16,191** |
| Costau pensiwn eraill | 45,798 | 566 | **46,364** | 40,097 | 445 | **40,542** |
| | **240,589** | **3,146** | **243,735** | **223,206** | **2,663** | **225,869** |

### 5.2 Niferoedd staff

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) gan Gofrestrfa Tir EM yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn.

| | | | 2020/21 | | | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm |
| Uwch reolwyr | 8 | – | **8** | 9 | – | **9** |
| Gweithrediadau | 4303 | 24 | **4,327** | 4,048 | 34 | **4,082** |
| Prif swyddfa | 567 | 8 | **575** | 491 | 11 | **502** |
| Digidol, Data a Thechnoleg | 548 | 45 | **593** | 509 | 34 | **543** |
| | **5,426** | **77** | **5,503** | **5,057** | **79** | **5,136** |

**5.3** Mae hawliau cyflog a phensiwn y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr Cofrestrfa Tir EM wedi eu cynnwys yn yr adroddiad Tâl a staff ar dudalennau 73 i 84.

Nid yw'r costau staff yn nodyn 5.1 yn cynnwys y costau staff hynny sydd wedi eu cyfalafu fel rhan o asedau anniriaethol. Yn ystod 2020/21 cyfalafwyd £5.9m (2019/20: £4.3m) o gostau staff ar gyfer adeiladu'r asedau anniriaethol hyn.

### 5.4 Pensiynau

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "Alpha" – yn gynlluniau aml-gyflogwr â buddion wedi eu diffinio heb eu hariannu ond ni all Cofrestrfa Tir EM nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiodd actwari'r cynllun, Adran Actiwari'r Llywodraeth, y PCSPS ar 31 Mawrth 2016, gyda'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 26 Chwefror 2019. Gallwch weld manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil.

Ar gyfer 2020/21, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £46.8m yn daladwy i'r PCSPS (2019/20 £39.7m) yn ôl un o bedair cyfradd yn yr amrediad 20.0% i 24.5% o enillion pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog.

Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Gosodir cyfraddau cyfraniadau i dalu am gost y buddion sy'n cronni yn ystod 2020/21 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £0.30m i un darparwr pensiwn budd-ddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75%.

Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £8,270, sef 0.5% o dâl pensiynadwy yn daladwy i PCSPS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad ar farwolaeth y gweithwyr hyn mewn gwasanaeth neu eu hymddeoliad ar sail afiechyd.

Y cyfraniadau sy'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £0.03m. Y cyfraniadau a ragdalwyd ar y dyddiad hwnnw oedd £0.

Roedd tri unigolyn wedi ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd; roedd y cyfanswm rhwymedigaethau pensiwn cronedig yn y flwyddyn yn gyfanswm o £13,669 (2019/20: £12,480).

Mae rhagor o wybodaeth am y trefniadau pensiwn i'w gweld yn yr Adroddiad tâl a staff ar dudalennau 73 i 84 a Nodyn 1.7.

## 6 Incwm buddsoddi

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Llog ar adneuon banc** | **19** | **3,268** |

## 7 Costau ariannu

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Llog ar ymrwymiadau dan brydlesi ariannu** | **575** | **605** |

## 8 Eiddo, offer a chyfarpar

### 8.1 Cost neu brisiad

| | Eiddo | | | Offer a chyfarpar | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tir rhydd-ddaliol | Adeiladau | Adeiladau prydlesol | Ail-ddatganwyd: Asedau sy'n cael eu hadeiladu* | Asedau cysylltiedig â TG | Offer a chyfarpar arall | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 12,255 | 54,162 | 13,448 | 767 | 83,086 | 5,865 | **169,583** |
| Trosglwyddiad o eiddo buddsoddi | 80 | 2,122 | 1,112 | – | – | – | **3,314** |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 4,584 | 3,745 | 518 | **8,847** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | – | – | – | (4,293) | 4,293 | – | **–** |
| Ailbrisiad | (1,170) | (3,392) | 2,078 | – | – | – | **(2,484)** |
| Ailddosbarthiad asedau | – | – | – | – | – | – | **–** |
| Amhariad | (105) | (2,095) | – | – | – | – | **(2,200)** |
| Gwarediadau | (11,060) | (50,797) | (16,638) | – | (403) | (3,882) | **(82,780)** |
| Trosglwyddwyd o asedau a gedwir i'w gwerthu | – | – | – | – | – | – | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **–** | **–** | **–** | **1,058** | **90,721** | **2,501** | **94,280** |
| **Dibrisiad cronedig** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | – | 19,964 | 6,161 | – | 63,773 | 4,101 | **93,999** |
| Trosglwyddiad o eiddo buddsoddi | – | 60 | 124 | – | – | – | **184** |
| Codwyd amdano yn y flwyddyn | – | 1,277 | 603 | – | 5,881 | 291 | **8,052** |
| Ailbrisiad | – | (481) | (397) | – | – | – | **(878)** |
| Ailddosbarthiad asedau | – | – | – | – | – | – | **–** |
| Gwarediadau | – | (20,820) | (6,491) | – | (402) | (2,313) | **(30,026)** |
| Trosglwyddwyd o asedau a gedwir i'w gwerthu | – | – | – | – | – | – | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **–** | **–** | **–** | **–** | **69,252** | **2,079** | **71,331** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2021** | **–** | **–** | **–** | **1,058** | **21,469** | **422** | **22,949** |

## 8.2 Cost neu brisiad

| | Eiddo | | | Offer a chyfarpar | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tir rhydd-ddaliol | Adeiladau | Adeiladau prydlesol | Ail-ddatganwyd: Asedau sy'n cael eu hadeiladu* | Asedau cysylltiedig â TG | Offer a chyfarpar arall | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 9,795 | 52,352 | 13,163 | 14 | 71,415 | 5,339 | **152,078** |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 8,634 | 4,506 | 526 | **13,666** |
| Ailddosbarthiad o asedau sy'n cael eu hadeiladu | – | – | – | (7,881) | 9,765 | – | **1,884** |
| Ailbrisiad | 2,460 | 1,829 | 285 | – | – | – | **4,574** |
| Ailddosbarthiad asedau | – | – | – | – | – | – | **–** |
| Amhariad | – | (19) | – | – | – | – | **(19)** |
| Gwarediadau | – | – | – | – | (2,600) | – | **(2,600)** |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **12,255** | **54,162** | **13,448** | **767** | **83,086** | **5,865** | **169,583** |

### Dibrisiad cronedig

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2019 | – | 19,019 | 5,911 | – | 62,670 | 3,840 | **91,440** |
| Codwyd amdano yn y flwyddyn | – | 1,394 | 636 | – | 3,522 | 261 | **5,813** |
| Ailbrisiad | – | (449) | (386) | – | – | – | **(835)** |
| Ailddosbarthiad asedau | – | – | – | – | – | – | **–** |
| Gwarediadau | – | – | – | – | (2,419) | – | **(2,419)** |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **–** | **19,964** | **6,161** | **–** | **63,773** | **4,101** | **93,999** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2020** | **12,255** | **34,198** | **7,287** | **767** | **19,313** | **1,764** | **75,584** |

Gweler Nodyn 1.8 am fanylion y polisi cyfrifyddu eiddo, offer a chyfarpar.

Gweler Nodyn 1.9 am fanylion y polisi cyfrifyddu amhariad.

Gweler Nodyn 8.3 am fanylion eiddo buddsoddi.

Ar ddiwedd y flwyddyn, y swm net yn gysylltiedig â phrydlesi ariannu o fewn y swm sy'n cario y brydles uchod oedd £0.0m, ar sail prisiadau allanol (2019/20: £0.0m). Fodd bynnag, mae ymrwymiad prydles ariannu yn parhau ar 31 Mawrth 2021 sef £4.0m (gweler nodyn 15.1).

* Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu wedi eu hailddatgan yn y flwyddyn flaenorol i'w gwahanu'n gywir rhwng asedau Diriaethol ac Anniriaethol.

**Prisio tir ac eiddo**
Trosglwyddodd Cofrestrfa Tir EM ei heiddo rhydd-ddaliol a phrydlesol hir i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2021. Penderfynwyd ar y gwerth trosglwyddo gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth a gomisiynodd Montagu Evans (prisiwr cofrestredig RICS) i gynnal prisiad bwrdd gwaith ar 31 Mawrth 2021. Defnyddiwyd y gwerth trosglwyddo a ddarparwyd gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth fel y gwerth trosglwyddo terfynol a bydd Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth yn dangos derbyn y trosglwyddiad Tir ac Eiddo hwn ar yr un gwerth. Gweler nodyn 19 i gael manylion pellach am y trosglwyddiad.

## 8.3 Eiddo buddsoddi

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill | 3,130 | 2,950 |
| Trosglwyddo i dir ac adeiladau | (3,130) | – |
| Ailbrisiad yn ystod y flwyddyn | – | 180 |
| Ailddosbarthiad asedau | – | – |
| Gwarediadau | – | – |
| **Ar 31 Mawrth** | **–** | **3,130** |

Mae eiddo buddsoddi yn cynnwys nifer o eiddo a brydlesir i drydydd partïon naill ai'n rhannol neu'n llwyr. Trosglwyddwyd yr eiddo buddsoddi hyn i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2021. Mae rhagor o wybodaeth am brydlesi sy'n weddill Cofrestrfa Tir EM i'w gweld yn nodyn 15.2.

Penderfynwyd ar werthoedd teg eiddo buddsoddi gan briswyr eiddo annibynnol allanol sydd â'r cymwysterau proffesiynol cydnabyddedig priodol a phrofiad diweddar yn lleoliadau a chategorïau'r eiddo a brisir.

Cyn trosglwyddo caiff pob eiddo buddsoddi ei fesur yn seiliedig ar brisiau marchnad gweithredol wedi eu haddasu lle y bo angen ar gyfer unrhyw wahaniaeth o ran natur, lleoliad neu gyflwr pob eiddo penodol. Y pris marchnad gweithredol yw'r rhent marchnad gan ystyried unrhyw gyfnodau dim meddiannu a ddisgwylir neu a ragwelir gan denant yn y dyfodol.

# 9 Asedau anniriaethol

## 9.1 Cost neu brisiad

| | E-ddiogelwch | Porthol | Business Gateway | Ailddatganwyd: Asedau sy'n cael eu hadeiladu: eraill* | Asedau sy'n cael eu hadeiladu: Pridiannau Tir Lleol | Pridiannau Tir Lleol | Meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | 9,719 | 989 | 19,172 | 40,097 | **97,401** |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 18,361 | 4,185 | – | 770 | **23,316** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | – | – | – | (9,450) | (2,599) | 2,599 | 9,450 | **–** |
| Ailddosbarthiad | – | – | – | – | – | – | – | **–** |
| Ailbrisiad | – | – | – | – | – | – | – | **–** |
| Amhariad | – | – | – | – | – | – | – | **–** |
| Gwarediadau | – | – | – | – | – | – | – | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **18,630** | **2,575** | **21,771** | **50,317** | **120,717** |
| **Amorteiddio** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | – | – | 5,137 | 37,970 | **70,531** |
| Codwyd amdano yn y flwyddyn | – | – | – | – | – | 3,651 | 981 | **4,632** |
| Ailddosbarthiad asedau | – | – | – | – | – | – | – | **–** |
| Ailbrisiad | – | – | – | – | – | – | – | **–** |
| Gwarediadau | – | – | – | – | – | – | – | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **–** | **–** | **8,788** | **38,951** | **75,163** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2021** | **–** | **–** | **–** | **18,630** | **2,575** | **12,983** | **11,366** | **45,554** |

## 9.2 Cost neu brisiad

| | E-ddiogelwch | Porthol | Business Gateway | Ailddatganwyd: Asedau sy'n cael eu hadeiladu: eraill* | Asedau sy'n cael eu hadeiladu: Pridiannau Tir Lleol | Pridiannau Tir Lleol | Meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | 5,889 | – | 19,113 | 44,209 | **96,635** |
| Ychwanegiadau a throsglwyddiadau | – | – | – | 5,714 | 2,450 | – | 919 | **9,083** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | – | – | – | (1,884) | (1,461) | 1,461 | – | **(1,884)** |
| Ailddosbarthiad | – | – | – | – | – | – | – | **–** |
| Ailbrisiad | – | – | – | – | – | – | – | **–** |
| Gwarediadau | – | – | – | – | – | (1,402) | (5,031) | **(6,433)** |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **9,719** | **989** | **19,172** | **40,097** | **97,401** |
| Amorteiddio | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 9,691 | 15,967 | 1,766 | – | – | 2,091 | 41,893 | **71,408** |
| Codwyd amdano yn y flwyddyn | – | – | – | – | – | 3,046 | 1,022 | **4,068** |
| Ailddosbarthiad asedau | – | – | – | – | – | – | – | **–** |
| Ailbrisiad | – | – | – | – | – | – | – | **–** |
| Gwarediadau | – | – | – | – | – | – | (4,945) | **(4,945)** |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **–** | **–** | **5,137** | **37,970** | **70,531** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2020** | **–** | **–** | **–** | **9,719** | **989** | **14,035** | **2,127** | **26,870** |

Gweler nodyn 1.10 am fanylion y polisi cyfrifyddu asedau anniriaethol.

Roedd asedau e-ddiogelwch, porthol a Business Gateway i gyd wedi cael eu hamorteiddio'n llawn erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol, ond wedi eu cynnwys yn y cyfrifon am eu bod yn dal i gael eu defnyddio. Mae asedau sy'n cael eu datblygu yn gysylltiedig â chyfalafu costau Pridiannau Tir Lleol yn ystod y flwyddyn, gwelliannau rheoli achos, symud o'r brif ffrâm i gwmwl a morgais digidol. Mae rhagor o fanylion am forgais digidol ar gael ar GOV.UK (chwiliwch am 'HM Land Registry Digital Mortgage Service Contingent Liability').

* Mae Asedau sy'n cael eu hadeiladu: Eraill wedi ei ailddatgan yn y flwyddyn flaenorol i wahanu Asedau sy'n cael eu hadeiladu yn gywir rhwng asedau Diriaethol ac Anniriaethol.

## 10 Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill** | – | 313,389 |
| Newid net mewn balansau arian parod | 23,474 | (313,389) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **23,474** | **–** |
| **Roedd y balansau ar 31 Mawrth wedi ei gadw yn** | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 23,498 | – |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | (24) | – |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **23,474** | **–** |

Asedau ariannol Cofrestrfa Tir EM yw balansau banc ac arian parod, a masnach a symiau derbyniadwy eraill, sy'n cynrychioli'r risg credyd mwyaf posibl mewn perthynas ag asedau ariannol. Mae'r risg credyd i'w briodoli'n bennaf i fasnach a symiau derbyniadwy eraill ac mae wedi ei ledaenu dros nifer fawr o gwsmeriaid. Mae'r symiau a gyflwynir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn glir o lwfansau am symiau derbyniadwy amheus, wedi eu hamcangyfrif gan y rheolwyr yn seiliedig ar brofiadau blaenorol ac asesiad o'r hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Roedd balansau banc Cofrestrfa Tir EM yn cael eu cadw'n bennaf gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, gyda chronfeydd cyfyngedig yn cael eu cadw o fewn cyfleusterau bancio masnachol.

Mae'r balans 'Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw' yn cynnwys 'Arian parod sy'n cael eu gludo', gyda'r cyfrifon banc cysylltiedig mewn credyd ar ddiwedd y flwyddyn.

## 11 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

### 11.1 Cyfredol

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | – | – |
| Symiau derbyniadwy eraill | 1,845 | 1,880 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 3,594 | 4,792 |
| | **5,439** | **6,672** |

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerir ar gyfer darparu gwasanaethau yw 4.2 diwrnod. Ni chodir unrhyw log ar y symiau derbyniadwy.

Mae'r rhenti derbyniadwy yn cael eu derbyn a'u cyfrif amdanynt cyn y cyfnod meddiannu ac mae'r tebygolrwydd o beidio â chasglu rhenti a bod yn agored i risg credyd wedi cael ei bennu'n anarwyddocaol o ran risg cyffredinol, gyda'r asesiadau hyn heb eu newid yn sgil effaith y coronafeirws (COVID-19).

### 11.2 Anghyfredol

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 128 | 180 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 344 | 745 |
| | **472** | **925** |

Bernir bod symiau sy'n cario masnach a symiau derbyniadwy eraill yn fras amcan o'u gwerthoedd teg.

## 12 Masnach a symiau taladwy eraill

### 12.1 Cyfredol

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach taladwy | 969 | 584 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | 5,165 | 4,087 |
| Symiau taladwy eraill | 4,859 | 4,109 |
| Croniadau | 26,348 | 34,574 |
| | **37,341** | **43,354** |
| Ymrwymiadau net o dan brydlesi cyllid – adeiladau | 310 | 273 |
| Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 377 | – |
| Symiau a ryddhawyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer Cyflenwi ond heb eu gwario ar 31 Mawrth | 23,097 | – |
| | **61,125** | **43,627** |

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerir ar gyfer pryniannau masnach yw 2.4 diwrnod. Bernir bod y symiau sy'n cario o symiau taladwy masnach yn fras amcan o'u gwerthoedd teg.

### 12.2 Anghyfredol

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ymrwymiadau net o dan brydlesi ariannu – adeiladau | 3,699 | 4,009 |
| | **3,699** | **4,009** |

## 13 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

### 13.1 Cynlluniau rhyddhau cynnar ac eraill

| | | 2020/21 | | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| | Ymddeoliad cynnar ac eraill £'000 | Cyfanswm £'000 | Ymddeoliad cynnar ac eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Ar 1 Ebrill | 522 | **522** | 5,872 | **5,872** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | – | **–** | – | **–** |
| Ailbrisiad o ddarpariaeth | (4) | **(4)** | (12) | **(12)** |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (458) | **(458)** | (2,071) | **(2,071)** |
| Darpariaeth a adferwyd heb ei defnyddio | – | **–** | (3,267) | **(3,267)** |
| **Ar 31 Mawrth** | **60** | **60** | **522** | **522** |
| Wedi ei gynnwys mewn rhwymedigaethau cyfredol | 60 | 60 | 517 | 517 |
| Wedi ei gynnwys mewn rhwymedigaethau anghyfredol | – | – | 5 | 5 |
| | | **60** | | **522** |

Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yn rhoi buddion ymddeol i weithwyr penodol. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae Cofrestrfa Tir EM yn talu cost y buddion hyn tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sy'n ymddeol

o dan y cynllun. Cyfanswm y taliadau yn y flwyddyn oedd £0.5m yn 2020/2021, a darparwyd ar gyfer £0.5m ohono o fewn y ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yng nghyfrifon 2019/20. Codir cyfanswm y rhwymedigaeth pensiwn hyd at oedran ymddeol arferol ar gyfer pob gweithiwr i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn ymddeol yn gynnar ac mae darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol yn cael ei chreu. Caiff taliadau pensiwn a buddion cysylltiedig y gweithiwr sydd wedi ymddeol tan oedran ymddeol arferol eu codi bob blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth.

Mae darpariaethau eraill yn gysylltiedig â chostau dadfeiliad eiddo.

**13.2 Cronfa Indemniadd**
Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gofrestrfa Tir EM i indemnio am golledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau yn y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yr yswiriwr statudol o deitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM. Mae Cofrestrfa Tir EM yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad am hawliadau hysbys a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR).

| | Darpariaeth heb ei setlo | Darpariaeth IBNR | 2020/21 Cyfanswm | Darpariaeth heb ei setlo | Darpariaeth IBNR | 2019/20 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill | 6,500 | 66,700 | **73,200** | 11,200 | 84,200 | **95,400** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 5,629 | – | **5,629** | 5,350 | – | **5,350** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (5,629) | – | **(5,629)** | (5,350) | – | **(5,350)** |
| Ailbrisiad hawliadau | 1,200 | – | **1,200** | (4,700) | – | **(4,700)** |
| Ailbrisiad IBNR | – | (3,800) | **(3,800)** | – | (17,500) | **(17,500)** |
| **Ar 31 Mawrth** | **7,700** | **62,900** | **70,600** | **6,500** | **66,700** | **73,200** |

Yn dilyn adolygiad actiwaraidd gan Adran Actwari'r Llywodraeth, mae'r gronfa mewn perthynas â hawliadau wedi eu hadrodd ond heb eu setlo (Darpariaeth Heb ei Setlo) wedi cynyddu yn 2020/21 gan £1.2m (2019/20: gostyngiad o £4.7m). Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (Ddarpariaeth IBNR) wedi gostwng yn 2020/2021 gan £3.8m (2019/20: gostyngiad o £17.5m).

Y rheswm dros y cynnydd o £1.2m mewn hawliadau heb eu setlo yw oherwydd y cynnydd yng ngwerth yr hawliadau a dderbyniwyd.

Roedd symudiad £3.8m Darpariaeth IBNR o ganlyniad i nifer llai o hawliadau na'r hyn a ragamcanwyd.

Mae'r Ddarpariaeth Heb ei Setlo ar gyfer hawliadau a dderbyniwyd ond sydd heb eu setlo eto yn amcangyfrif a chan ei bod yn cynnwys rhagfynegi taliadau yn y dyfodol, mae'r symiau terfynol sy'n cael eu talu ar gyfer yr hawliadau hyn yn ansicr. Y prif ansicrwydd yw:

- cyfran yr hawliadau heb ei setlo a gaiff eu talu yn y pen draw;
- gwerth y taliadau sy'n cael eu gwneud; ac
- effaith unrhyw farnau cyfreithiol.

Gall presenoldeb hawliadau mawr heb ei setlo ychwanegu'n sylweddol at yr ansicrwydd hwn.
Mae'r Ddarpariaeth IBNR yn fwy ac yn fwy ansicr o'i hanfod na'r Ddarpariaeth Heb ei Setlo. Yn wahanol i'r

Ddarpariaeth Heb ei Setlo, sy'n seiliedig ar wybodaeth am hawliadau presennol, mae'r ddarpariaeth IBNR yn cynnwys hawliadau posibl a allai gael eu gwneud o ganlyniad i wallau sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno i'r gofrestr o ganlyniad i weithgarwch diweddaru o ddydd i ddydd (naill ai trwy dwyll a ffugio neu wall gweinyddol). Y prif ansicrwydd yn y Ddarpariaeth IBNR yw:

- ni wyddys nifer y gwallau heb eu hadrodd sydd yn y gofrestr ar hyn o bryd;
- ar ba adeg yn y dyfodol y bydd y gwallau hyn yn cael eu darganfod a'r hawliadau'n cael eu gwneud; a
- beth fydd cost yr hawliadau cyfatebol.

Gall gymryd sawl blwyddyn i adrodd am hawliadau ac yna eu setlo.

Wrth amcangyfrif y Ddarpariaeth IBNR, mae'r actiwari yn rhagamcanu nifer ac amseriad adroddiadau hawliadau yn y dyfodol a maint cyfartalog hawliadau, gan ddefnyddio rhagdybiaethau am batrymau setlo hawliadau, effeithiau disgwyliedig unrhyw farnau cyfreithiol y gwyddys amdanynt a chwyddiant hawliadau. Yna caiff llifoedd arian parod amcanestynedig ar gyfer hawliadau yn y dyfodol eu disgowntio i werth presennol net ar y dyddiad cyfrifyddu gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio rhagnodedig Trysorlys EM.

Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr amcanestyniadau yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata hawliadau hanesyddol, lwfans ar gyfer tueddiadau diweddar ac ystyried effeithiau posibl ffactorau sylfaenol megis maint gweithgarwch Cofrestrfa Tir EM a nifer y teitlau cofrestredig. Darparwn fewnbwn i'r actiwarïaid ar y rhagdybiaethau hyn, yn seiliedig ar wybodaeth y tîm cyfreithiol sy'n ymdrin â'r hawliadau.

**Ansicrwydd yn y darpariaethau – dadansoddi sensitifrwydd**

Mae gwerthoedd Darpariaethau'r Gronfa Indemniad yn ddarostyngedig i werth setliad terfynol ansicr yn y dyfodol, ar gyfer hawliadau y gwyddys amdanynt a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR). Gallai'r ansicrwydd yng ngwerth hawliadau heb eu setlo arwain at amrywiad yn y ddarpariaeth arfaethedig. Mae amrywiaeth o senarios wedi cael eu hystyried mewn perthynas â'r rhagdybiaethau ynghylch:

- cyfran yr hawliadau sy'n setlo am sero;
- maint yr hawliad ar gyfartaledd;
- cyfradd disgownt ragnodedig Trysorlys EM;
- nifer yr hawliadau a gaiff eu derbyn;
- y gyfradd chwyddiant.

Ystyriwyd y senarios hyn ar eu pennau eu hunain ac ar y cyd fel y dangosir yn y tabl dadansoddi sensitifrwydd isod.

Ar sail y gwaith dadansoddi hwn, mae'n rhesymol i ragweld y gallai gwerth rhwymedigaethau fod tua £7.7m (Darpariaeth Heb ei Setlo) neu £62.9m (Darpariaeth IBNR).

Mae'n bosibl, mewn senarios ffafriol iawn y gallai gwerth rhwymedigaethau fod cyn lleied â £7.4m (Darpariaeth Heb ei Setlo) a £41.4m (Darpariaeth IBNR).

Rydym hefyd wedi ystyried senarios niweidiol eithafol lle mae gwerth rhwymedigaethau gymaint â £8.0m (Darpariaeth Heb ei Setlo) a £85.1m (Darpariaeth IBNR). Mae natur benagored tymor hir indemniad statudol yn golygu nad yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r rhwymedigaeth fwyaf posibl. Fodd bynnag, credwn fod tebygolrwydd senarios fel hyn yn fach.

Gall graddfa'r ansicrwydd ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol fod yn wahanol i'r hyn a ddangosir yma. Gall hyn fod am nifer o resymau, er enghraifft, oherwydd bod proffil hawliadau wedi newid neu oherwydd bod y rhagolygon o ran tueddiadau hawliadau yn y dyfodol wedi newid.

Ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol, dylid disgwyl:

- y bydd y ddarpariaeth heb ei setlo yn amrywio yn dibynnu ar nifer yr hawliadau sy'n cael eu hadrodd y pryd hynny, yn enwedig hawliadau mawr;
- os bydd popeth arall yn gyfartal, bydd y Ddarpariaeth IBNR yn cynyddu dros amser oherwydd grymoedd chwyddiant; a
- bydd y Ddarpariaeth Heb ei Setlo a'r Ddarpariaeth IBNR yn arbennig o sensitif i nifer a gwerth hawliadau twyll a ffugio oherwydd dyma'r categori o hawliadau mwyaf arwyddocaol yn ariannol.

Y Ddarpariaeth Cronfa Indemniad o £70.6m yw ein hamcangyfrif gorau. Yn ogystal, mae gwerthoedd Darpariaethau'r Gronfa Indemniad yn y dyfodol yn agored i ansicrwydd cynhenid.

## Dadansoddiad sensitifrwydd

| | 2020/21 Uchafswm Darpariaeth heb ei setlo £m | 2020/21 Lleiafswm Darpariaeth heb ei setlo £m | 2020/21 Canran y symudiad % |
|---|---|---|---|
| Darparwyd yn y cyfrifon hyn (gwerth y gellir ei ragweld yn rhesymol – gweler nodyn 13.2) | 7.7 | 7.7 | 0% |
| **Effaith senarios**<br>**Cyfradd disgownt** | | | |
| 1. Cynyddu cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyn | (0.1) | | –1% |
| 2. Gostwng cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyna | | 0.1 | 1% |
| **Costau setlo** | | | |
| 3. Cynyddu costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau gwall | 0.2 | | 3% |
| 4. Gostwng costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau gwall | | (0.2) | -3% |
| 5. Cynyddu costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau twyll | 0.2 | | 3% |
| 6. Gostwng costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau twyll | | (0.2) | -3% |
| **Senarios ffafriol eithafol** | | | |
| (2) + (4) + (6) | | 7.4 | |
| **Senarios niweidiol eithafols** | | | |
| (1) + (3) + (5) | 8.0 | | |

| | 2020/21 Uchafswm Darpariaeth IBNR £m | 2020/21 Lleiafswm Darpariaeth IBNR £m | 2020/21 Canran y cynnydd mewn symudiad % | 2020/21 Canran y gostyngiad mewn symudiad % |
|---|---|---|---|---|
| Darparwyd yn y cyfrifon hyn (gwerth y gellir ei ragweld yn rhesymol – gweler nodyn 13.2) | 62.9 | 62.9 | 0 | 0 |
| **Effaith senarios** | | | | |
| **Senarios ffafriol ond rhagweladwy** | | | | |
| **Cyfran hawliadau dim** | | | | |
| 1. Newid y gyfran hawliadau dim ar gyfer hawliadau athreuliol gan +/- 5% | 2.5 | (2.5) | 4% | –4% |
| 2. Newid y gyfran hawliadau dim ar gyfer hawliadau mawr gan +/- 5% | 1.9 | (1.9) | 3% | –3% |
| **Cost gyfartalog yr hawliad** | | | | |
| 3. Newid cost gyfartalog yr hawliad ar gyfer hawliadau gwall athreuliol gan +/- 10% | 1.9 | (1.9) | 3% | –3% |
| 4. Newid cost gyfartalog yr hawliad ar gyfer hawliadau gwall mawr gan +/- 10% | 1.9 | (1.9) | 3% | –3% |
| 5. Newid cost gyfartalog yr hawliad ar gyfer hawliadau twyll athreuliol gan +/- 10% | 1.9 | (1.9) | 3% | –3% |
| 6. Newid cost gyfartalog yr hawliad gan +/- 10% ar gyfer hawliadau twyll mawr | 1.3 | (1.3) | 2% | –2% |
| **Cyfradd disgownt** | | | | |
| 7. Cynyddu cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyn | | (2.5) | | –4% |
| 8. Gostwng cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyn | 2.5 | | 4% | |
| **Y nifer amcanestynedig o hawliadau IBNR** | | | | |
| 9. Cynyddu'r nifer amcanestynedig o hawliadau IBNR athreuliol gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad er 2016/17 | 1.3 | | 2% | |
| 10. Gostwng nifer yr hawliadau IBNR athreuliol a ragamcanir gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad er 2016/17 | | (1.3) | | –2% |
| 11. Cynyddu'r nifer amcanestynedig o hawliadau IBNR mawr gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad er 2016/17 | 1.3 | | 2% | |
| 12. Gostwng nifer amcanestynedig yr hawliadau IBNR mawr gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad er 2016/17 | | (1.3) | | –2% |
| **Chwyddiant hawliadau yn y dyfodol** | | | | |
| 13. Cynyddu chwyddiant hawliadau tybiedig yn y dyfodol gan 1% | 5.7 | | 9% | |
| 14. Gostwng chwyddiant hawliadau tybiedig yn y dyfodol gan 1% | | (5.0) | | –8% |
| **Senarios ffafriol eithafol** | | | | |
| (1)+(2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(7)+(10)+(12)+(14) | | 41.4 | | |
| **Senarios niweidiol eithafol** | | | | |
| (1)+(2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(8)+(9)+(11)+(13) | 85.1 | | | |

## 14 Rhwymedigaethau digwyddiadol

### 14.1 Indemniad

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gofrestrfa Tir EM i indemnio am golledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau yn y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yswiriwr statudol teitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM, er enghraifft mae'n bosib y bu gwall hanesyddol na fyddai disgwyl inni sylwi arno neu ei osgoi. Mae Cofrestrfa Tir EM yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad ar gyfer hawliadau y gwyddys amdanynt a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR) (gweler Nodyn 13.2) yn seiliedig ar lwyddiant tebygol hawliadau.

Ar 31 Mawrth 2021, mae gwerth hawliadau indemniad sy'n aros i'w prosesu a wnaed i Gofrestrfa Tir EM i'w weld isod. Amcangyfrifir mai gwerth setlo'r hawliadau hyn sydd wedi eu cynnwys yn y Ddarpariaeth Cronfa Indemniad yw £7.7m (gweler nodyn 13.2).

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| **Gwallau neu hepgoriadau** | **£'000** | **£'000** |
| Camgymeriadau | 9,900 | 7,064 |
| Twyll a ffugio | 16,627 | 15,107 |
| | **26,527** | **22,171** |

### 14.2 Tribiwnlysoedd cyflogaeth

Ar 31 Mawrth 2021, mae gan Gofrestrfa Tir EM dri achos tribiwnlys cyflogaeth, yr ystyrir eu bod yn rhwymedigaethau digwyddiadol. Ar hyn o bryd, nid oes modd amcangyfrif y canlyniadau a'r amseriad tebygol.

## 15. Ymrwymiadau o dan brydlesis

### 15.1 Prydlesi ariannu

| **Isafswm taliadau prydles** | **2020/21** | **2019/20** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Symiau taladwy o dan brydlesi ariannu** | | |
| O fewn blwyddyn | 846 | 846 |
| Yn yr all i'r bumed flwyddyn | 3,384 | 3,384 |
| Ar ôl pum mlynedd | 2,538 | 3,384 |
| **Cyfanswm isafswm taliadau prydles** | **6,768** | **7,614** |
| Llai taliadau ariannu yn y dyfodol | (2,759) | (3,332) |
| **Cyfanswm isafswm taliadau prydles** | **4,009** | **4,282** |

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| **Gwerth presennol isafswm taliadau prydles** | **£'000** | **£'000** |
| **Symiau taladwy o dan brydlesi ariannu** | | |
| O fewn blwyddyn | 310 | 273 |
| Yn yr all i'r bumed flwyddyn | 1,714 | 1,512 |
| Ar ôl pum mlynedd | 1,985 | 2,497 |
| **Gwerth presennol isafswm taliadau prydles** | **4,009** | **4,282** |

| | | |
|---|---|---|
| Swm i'w dalu ar gyfer setlo o fewn 12 mis (wedi ei ddangos yn rhwymedigaethau cyfredol) | 310 | 273 |
| Swm i'w dalu ar gyfer setlo ar ôl 12 mis (wedi ei ddangos yn rhwymedigaethau anghyfredol) | 3,699 | 4,009 |
| **Cyfanswm** | **4,009** | **4,282** |

### 15.2 Prydlesi gweithredu
### Prydlesi fel prydlesai

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Isafswm taliadau prydles o dan brydlesi gweithredu a gydnabuwyd yn y flwyddyn | 1,627 | 1,627 |
| | **1,627** | **1,627** |

Ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, roedd gan Gofrestrfa Tir EM ymrwymiadau heb eu setlo ar gyfer isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu nad oes modd eu dileu, sy'n ddyledus fel a ganlyn.

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | – | 4 |
| Yn yr all i'r bumed flwyddyn | 1,122 | 1,116 |
| Ar ôl pum mlynedd | 358 | 408 |
| **Cyfanswm taliadau prydles sy'n daladwy yn y flwyddyn** | **1,480** | **1,528** |
| **Taliadau prydles sy'n daladwy dros gyfanswm tymor y brydles** | **4,866** | **8,958** |

Mae taliadau prydles gweithredu yn cynrychioli rhenti sy'n daladwy gan Gofrestrfa Tir EM ar gyfer tir ac adeiladau, gan gynnwys swyddfeydd lleol Nottingham a Peterborough.

**Prydlesi fel prydleswr**
Mae Cofrestrfa Tir EM yn prydlesu eiddo buddsoddi (gweler nodyn 8.3).

Ar 31 Mawrth mae'r isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi na ellir eu dileu yn dderbyniadwy fel a ganlyn:

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | - | – |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | - | – |
| Ar ôl pum mlynedd | - | 428 |
| | **–** | **428** |

Yn ystod y flwyddyn, roedd £0.2m o incwm rhenti o eiddo buddsoddi yn dderbyniadwy. Er i'r eiddo gael ei osod o dan Femorandwm Telerau Meddiannaeth (MOTO) i sefydliadau sector cyhoeddus eraill, fe'u gosodir bellach ar delerau masnacho.

## 16 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Gwariant cyfalaf | 55 | 750 |
| **Wedi contractio ar ei gyfer ond heb ei ddarparu yn y cyfrifon hyn** | **55** | **750** |

## 17 Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 Datgeliadau Partïon Cysylltiedig, fel y'i dehonglir gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu am drafodion partïon cysylltiedig.

Ar 1 Ebrill 2020, newidiodd Cofrestrfa Tir EM i fod yn adran anweinidogol. Yn ystod 2020/21, cafodd Cofrestrfa Tir EM nifer o drafodion perthnasol ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda'r Arolwg Ordnans a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Nid yw unrhyw aelodau Bwrdd, neu aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â Chofrestrfa Tir EM yn ystod y flwyddyn.

Mae'r adroddiad Tâl yn darparu gwybodaeth am ddigolledu rheolaeth allweddol.

## 18 Ailddatganiadau blwyddyn flaenorol 2019/20

Yn unol â chyfarwyddyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, mae Cofrestrfa Tir EM bellach yn cynhyrchu Datganiad Ymddiriedolaeth blynyddol, sy'n adrodd ar y refeniw ac incwm arall a gesglir gan yr adran ac sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol. Mae'r datganiad newydd hwn yn arwain at yr ailddatganiadau canlynol o symiau a adroddwyd yn flaenorol yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cofrestrfa Tir EM.

| | 2019/20 Adran wedi ei hailddatgan | 2019/20 Datganiad Ymddiriedolaeth wedi ei hailddatgan | Eitemau Cysoni | 2019/20 Cyfrifon cyhoeddedig |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | | | | |
| Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid[1] | – | 301,688 | 4,175 | 305,863 |
| Incwm amrywiol | 2,675 | 41 | – | 2,716 |
| Cost gwasanaeth | (258,038) | – | – | (258,038) |
| **Gwarged gros** | **(255,363)** | **301,729** | **4,175** | **50,541** |
| Treuliau gweinyddu | (26,438) | (7) | – | (26,445) |
| **Gwarged gweithredu** | **(281,801)** | **301,722** | **4,175** | **24,096** |
| (Colled)/elw ar waredu asedau anghyfredol | (1,583) | – | – | (1,583) |
| Incwm buddsoddi – llog derbyniadwy | 3,268 | – | – | 3,268 |
| Costau ariannu | (605) | – | – | (605) |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | 3,129 | – | – | 3,129 |
| **Gwarged am y flwyddyn ariannol** | **(277,592)** | **301,722** | **4,175** | **28,305** |
| Difidend taladwy[2] | – | (22,014) | (2,675) | (24,689) |
| **Gwarged a gadwyd cyn y difidend arbennig** | **(277,592)** | **279,708** | **1,500** | **3,616** |
| Difidend arbennig i'w dalu | – | (483,514) | – | (483,514) |
| **(Colled)/gwarged a gadwyd wedi ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn a gadwyd** | **(277,592)** | **(203,806)** | **1,500** | **(479,898)** |
| Enillion ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 4,754 | – | – | 4,754 |
| **(Colled)/gwarged cynhwysfawr am y flwyddyn ariannol** | **(272,838)** | **(203,806)** | **1,500** | **(475,144)** |
| **Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol** | | | | |
| **Asedau anghyfredol** | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar[3] | 75,584 | – | (767) | 74,817 |
| Eiddo buddsoddi | 3,130 | – | – | 3,130 |
| Asedau anniriaethol[3] | 26,870 | – | 767 | 27,637 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 925 | – | – | 925 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | **106,509** | **–** | **–** | **106,509** |

| | 2019/20 Adran wedi ei hailddatgan | 2019/20 Datganiad Ymddiriedolaeth wedi ei hailddatgan | Eitemau Cysoni | 2019/20 Cyfrifon cyhoeddedig |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Asedau contract[1] | – | – | 9,845 | 9,845 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 6,672 | 2,874 | – | 9,546 |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | – | 20,094 | – | 20,094 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | **6,672** | **22,968** | **9,845** | **39,485** |
| **Cyfanswm asedau** | **113,181** | **22,968** | **9,845** | **145,994** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 43,354 | 46,889 | – | 90,243 |
| Ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 273 | – | – | 273 |
| Darpariaethau tymor byr | 517 | – | – | 517 |
| Cronfa Indemniad | 73,200 | – | – | 73,200 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | **117,344** | **46,889** | **–** | **164,233** |
| **Asedau anghyfredol a hefyd (rhwymedigaethau)/asedau cyfredol net** | **(4,163)** | **(23,921)** | **9,845** | **(18,239)** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | |
| Ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 4,009 | – | – | 4,009 |
| Darpariaethau tymor hir | 5 | – | – | 5 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | **4,014** | **–** | **–** | **4,014** |
| **(Rhwymedigaethau)/asedau net** | **(8,177)** | **(23,921)** | **9,845** | **(22,253)** |
| **Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn** | | | | |
| Cronfa wrth gefn ailbrisio | 24,981 | – | – | 24,981 |
| Cronfa wrth gefn incwm a gwariant[1] | (33,158) | (23,921) | 9,845 | (47,234) |
| | **(8,177)** | **(23,921)** | **9,845** | **(22,253)** |

1. Yn 2019/20, cydnabu Cofrestrfa Tir EM Asedau Contract o £9.8m (2018/19: £5.7m), a oedd yn ymwneud â cheisiadau anghyflawn a gafodd eu prosesu'n rhannol ac sydd wedi mynd i gostau. Gan fod incwm bellach yn cael ei adrodd yn y Datganiad Ymddiriedolaeth a'i ildio i Drysorlys Ei Mawrhydi, ni chydnabyddir unrhyw asedau contract ac adroddir ar gostau yn y flwyddyn y maent yn codi. Roedd y £9.8m o asedau contract yn cynnwys £4.2m o gostau yn ymwneud â 2018/19 sydd bellach yn cael eu cydnabod fel gwariant yn y cymariaethau ailddatganedig.

2. O fewn y llinell Difidend yn Daladwy, mae £2.7m yn cynrychioli'r taliad a wnaed i'r Gronfa Gyfunol mewn perthynas â gwerthu nwyddau a gwasanaethau yr adroddir arnynt yn y Cyfrifon Adrannol. Gellir gweld hyn yn y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr.

3. Mae Asedau sy'n cael eu Hadeiladu: Eraill wedi ei ailddatgan yn y flwyddyn flaenorol i wahanu 'Asedau sy'n cael eu Hadeiladu: Eraill' yn gywir rhwng asedau Diriaethol ac Anniriaethol.

## 19 Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth yn trosglwyddo asedau rhydd-ddaliol a phrydlesol

Ar 31 Mawrth 2021, lluniodd Cofrestrfa Tir EM gytundeb ag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth, asiantaeth weithredol Swyddfa'r Cabinet, i drosglwyddo'r eiddo rhydd-ddaliol canlynol y mae Cofrestrfa Tir EM yn berchen arnynt, ochr yn ochr â'r mwyafrif o eiddo lesddaliad hir Cofrestrfa Tir EM, gan gynnwys yr holl falansau cronfeydd wrth gefn ailbrisio sy'n gysylltiedig â'r asedau a ddangosir isod.

Mae'r trosglwyddiad hwn yn cynnwys trosglwyddo perchnogaeth gyfreithiol o dir, adeiladau ac unrhyw gydrannau cysylltiedig sy'n ganlyniad i welliannau dilynol ers cydnabod yr ased gwreiddiol.

| | Dyddiad prynu | Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| **Manylion yr ased** | | **£'000** |
| Trafalgar House, 1 Bedford Park, Croydon CR0 2AQ | 26/04/2007 | 14,550 |
| Seaton Court and Nursery, 1 William Prance Road, Plymouth, PL6 5WS | 15/01/2005 | 4,310 |
| Southfield House, Southfield Way, Durham DH1 5TR | 01/01/1990 | 4,225 |
| Rosebrae Court, Woodside Ferry Approach, Penbedw CH41 6DU | 01/03/1991 | 4,100 |
| Westbridge Place, 1 Westbridge Close, Caerlŷr LE3 5DR | 01/09/1997 | 3,850 |
| Weymouth Office and Nursery, Melcombe Court, Cumberland Drive Weymouth | 01/06/1996 | 3,485 |
| Tŷ Cwm Tawe, 9A Ffordd y Ffenics, Parc Anturiaeth Abertawe, Abertawe SA7 9FQ | 01/09/2000 | 3,400 |
| Wreabrook Court, Lytham Road, Warton, Preston PR4 1TE | 01/03/2000 | 2,965 |
| Gladiator House, Gloucester Business Park, Hurricane Road, Caerloyw GL3 4A | 01/03/2003 | 2,910 |
| Parkside Court, Hall Park Way, Telford, TF3 4LR | 01/03/1990 | 2,550 |
| Earle House, South Wing, Colonial Street, Hull HU2 8JN | 01/01/1990 | 2,388 |
| Earle House, Portland Street, Hull HU2 8JN | 01/01/1990 | 2,100 |
| Pennard House, Ffordd y Ffenics, Abertawe SA7 9FQ | 01/09/2000 | 350 |
| Offer a pheiriannau adeiladu | Amrywiol | 1,569 |
| **Cyfanswm grant mewn nwyddau** | | **52,752** |

Trosglwyddwyd yr asedau i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2021 heb unrhyw gost ynghlwm wrtho ac yn unol ag IAS 20 Cyfrifyddu ar gyfer Grantiau'r Llywodraeth a Datgelu Cymorth y Llywodraeth, fe'u trosglwyddwyd am werth teg gan arwain at gost grant mewn nwyddau o'r un swm.

Byddwn yn dechrau talu rhent yn unol â'r telerau a nodwyd yn y Cytundeb Meddiannaeth a lofnodwyd ar 23 Rhagfyr 2020, rhyngom ni ag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth yn cychwyn 1 Ebrill 2021.

Roedd yr holl asedau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn destun prisiad proffesiynol gan Montagu Evans ar 31 Mawrth 2021, dyddiad y trosglwyddiad a'r dyddiad adrodd. Addaswyd unrhyw symudiadau mewn gwerth llyfr o ganlyniad i'r ailbrisio hwn cyn trosglwyddo i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.

## 20 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 Digwyddiadau Ar Ôl y Cyfnod Adrodd, mae digwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

# Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM 2020/21

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adrannau'r Ganghellor ac Archwilio 1921, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Cofrestrfa Tir EM i baratoi, ar gyfer bob blwyddyn ariannol, Ddatganiad Ymddiriedolaeth ("y Datganiad") yn y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Mae'r Datganiad i'w baratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y ffïoedd a'r taliadau, a'r gwariant cysylltiedig a llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.
Wrth baratoi'r cyfrifon a'r datganiad ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

— dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
— llunio barn a gwneud amcangyfrifon rhesymol;
— datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon;
— paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a
— chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fel cyfanwaith yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn Nhrysorlys EM wedi penodi Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Cofrestrfa Tir EM yn Swyddog Cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol a gwarchod asedau Cofrestrfa Tir EM, i'w gweld yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr Cofrestrfa Tir EM yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

## Datganiad Llywodraethu

Fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Cofrestrfa Tir EM rwy'n gyfrifol am gynnal strwythurau llywodraethu corfforaethol sy'n cefnogi cyflawni nodau, amcanion a thargedau Cofrestrfa Tir EM, gan ddiogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau Cofrestrfa Tir EM.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu ac yn dilyn egwyddorion llywodraethu da yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EM. Mae'r Datganiad Llywodraethu, sy'n cwmpasu pob agwedd ar Cofrestrfa Tir EM, gan gynnwys y rhai a adroddir yma yn y Datganiad Ymddiriedolaeth hwn, wedi ei ddarparu yn yr Adroddiad Atebolrwydd (tudalennau 63 i 84).



**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
9 Gorffennaf 2021

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Adrannau'r Ganghellor ac Archwilio 1921. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol fel y'u dehonglir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM.

Yn fy marn i:

- mae Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM yn rhoi darlun gwir a theg o Ddatganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM ar 31 Mawrth 2021 a'r refeniw ar gyfer y gronfa gyfunol am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adrannau'r Ganghellor ac Archwilio 1921 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA) (UK), y gyfraith sy'n gymwys a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud hi'n ofynnol imi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2019. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol perthnasol i endidau rhestredig. Rwyf yn annibynnol ar Gofrestrfa Tir EM yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi bodloni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cofrestrfa Tir EM o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gwblheais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth arwyddocaol ar allu Cofrestrfa Tir EM i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o adeg awdurdodi'r datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail busnes gweithredol cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd y Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle roedd yn rhagweld y byddai'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid y datganiadau ariannol a thystysgrif fy archwilydd arnynt. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a heblaw i'r graddau a ddatgenir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni. Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu'n ymddangos fel arall fel petai wedi ei cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn creu camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os wyf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith a gwblheais, fod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall honno wedi digwydd, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraethu 2000;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yn sgîl y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gofrestrfa Tir EM a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd arno ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd ichi os, yn fy marn i:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw neu nid yw manylion digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau y mae fy staff heb ymweld â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r manylion; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac

esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
— nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn dangos cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

— paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys a bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
— y rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiad ariannol heb gynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall.
— asesu gallu Cofrestrfa Tir EM i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adrannau'r Ganghellor ac Archwilio 1921.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd heb gynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn sylweddol os yw'n rhesymol i ddisgwyl y gallent, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylweddol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

— holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cofrestrfa Tir EM a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cofrestrfa Tir EM mewn perthynas â:
  – nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  – canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig; a'r
  – rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau gan gynnwys Rheoli Arian Cyhoeddus, rheolaethau Cofrestrfa Tir EM sy'n ymwneud â Deddf Cofrestru Tir 2002, Rheolau Cofrestru Tir 2003, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir 1972;
— trafod gyda'r tîm ymgysylltu a chynnwys arbenigwyr mewnol a/neu allanol perthnasol ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw a phostio eitemau anarferol;
— sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cofrestrfa Tir EM yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheolaethol eraill y mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu yn unol â nhw, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cofrestrfa Tir EM. Roedd y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adrannau'r Trysorlys ac Archwilio 1921, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus, Cyflenwi a Neilltuo (Prif Amcangyfrifon) 2020 a deddfwriaeth cyflogaeth, treth a phensiynau.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

— adolygu datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
— holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
— darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac
— wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Hefyd, cyfathrebais ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm ymgysylltu gan gynnwys arbenigwyr mewnol a thimau archwilio cydrannau arwyddocaol gan barhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymo bod yr [incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau] a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n llywodraethu ynghylch, ymysg pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chasgliadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol yn y rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies** **9 Gorffennaf 2021**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiad ymddiriedolaeth Datganiadau ariannol

## Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2020/21 £'000 | Ailddatganwyd 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw ffïoedd a thaliadau** | | | |
| Cofrestru teitl | 2 | 226,042 | 290,082 |
| Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol | 2 | 6,269 | 7,019 |
| Pridiannau Tir Lleol | 2 | 225 | 126 |
| **Cyfanswm refeniw ffïoedd a thaliadau** | | **232,536** | **297,227** |
| **Incwm masnachol** | | | |
| Incwm o weithgareddau masnachol | 2 | 3,857 | 4,502 |
| **Cyfanswm incwm masnachol** | | **3,857** | **4,502** |
| **Cyfanswm refeniw ac incwm arall** | | **236,393** | **301,729** |
| **Gwariant** | | | |
| Dyledion drwg wedi eu dileu | 3.1 | (12) | (7) |
| Dyledion drwg eraill wedi eu dileu | 3.3 | (22) | – |
| Difidend a dalwyd yn 2019/20 | | – | (22,014) |
| Difidend Arbennig a dalwyd yn 2019/20 | | – | (483,514) |
| **Cyfanswm gwariant** | | **(34)** | **(505,535)** |
| **Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol** | 5 | **236,359** | **(203,806)** |

Mae Difidend Arbennig a dalwyd yn 2019/20 yn ymwneud ag incwm hanesyddol a dalwyd i Drysorlys Ei Mawrhydi pan newidiodd Cofrestrfa Tir EM o fod yn gronfa fasnachu.

Ni chafodd unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig eu cyfrif amdanynt y tu allan i'r Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall uchod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 124 i 126 yn ffurfio rhan o'r datganiad hwn.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2020/21 £'000 | Ailddatganwyd 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Mae symiau derbyniadwy yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy eraill | 3.1 | 1,361 | 2,874 |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | | 100,508 | 20,094 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **101,869** | **22,968** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy | 4.1 | – | – |
| Difidend i'w dalu yn gysylltiedig â 2019/20 | 4.1 | – | 6,322 |
| Refeniw gohiriedig | 4.1 | 96,998 | 40,567 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **96,998** | **46,889** |
| **Asedau cyfredol net** | | **4,871** | **(23,921)** |
| **Cyfanswm asedau net** | | **4,871** | **(23,921)** |
| Cynrychiolwyd gan: | | | |
| **Balans ar y Cyfrif Cronfa Gyfunol** | 5 | **4,871** | **(23,921)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 124 i 126 yn ffurfio rhan o'r datganiad hwn.



**Simon Hayes**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
9 Gorffennaf 2021

# Datganiad o lifoedd arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | Nodiadau | 2020/21<br>£'000 | Ailddatganwyd<br>2019/20<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | A | 287,980 | (186,798) |
| Arian parod a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | 5 | (207,566) | – |
| **Cynnydd(gostyngiad) mewn arian parod yn y cyfnod hwn** | | **80,414** | **(186,798)** |
| **Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian** | | | |
| **A: Cysoni'r llif arian parod net i'r symudiad mewn cronfeydd net** | | | |
| Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | 5 | 236,359 | (203,806) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy | 3.1 | 1,513 | 596 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn rhwymedigaethau | 4.1 | 50,108 | 16,412 |
| Cynnydd(gostyngiad) yn y darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau | | – | – |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **287,980** | **(186,798)** |
| **B: Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net** | | | |
| Cynnydd(gostyngiad) mewn arian parod yn y cyfnod hwn | | 80,414 | (186,798) |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill (arian parod net yn y banc) | | 20,094 | 206,892 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth (balans wrth gau)** | | **100,508** | **20,094** |
| **Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu cadw yn:** | | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | | 100,508 | 2 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | | – | 20,092 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | **100,508** | **20,094** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 124 i 126 yn ffurfio rhan o'r datganiad hwn.

# Nodiadau i'r Datganiad Ymddiriedolaeth

## 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

### 1.1 Sail cyfrifyddu

Paratoir y Datganiad Ymddiriedolaeth yn unol â:

- Llawlyfr Adrodd Ariannol 2020/21 (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, yn arbennig Pennod 8.2 sy'n delio â refeniw'r Gronfa Gyfunol a Datganiadau Ymddiriedolaeth. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi eu cynnwys o fewn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u dehonglir ar gyfer y sector cyhoeddus; a'r
- cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM o dan adran 2 (3) o Ddeddf Adrannau'r Trysorlys ac Archwilio 1921.

Disgrifir y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Ymddiriedolaeth isod. Defnyddiwyd y polisïau cyfrifyddu yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yr incwm a'r gwariant cysylltiedig a gynhwysir yn y datganiadau hyn yw'r llifoedd arian hynny y mae Cofrestrfa Tir EM yn eu trin ar ran y Gronfa Gyfunol a lle mae'n gweithredu fel asiant yn hytrach na phrif adran.

Mae'r wybodaeth ariannol sydd wedi ei chynnwys yn y datganiadau hyn ac yn y nodiadau wedi ei thalgrynnu i'r £'000 agosaf.

### 1.2 Newidiadau mewn polisi cyfrifyddu a datgeliadau

Ni fu unrhyw newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cyfnod adrodd. Safonau, diwygiadau a dehongliadau newydd wedi eu cyhoeddi ond heb fod yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau 1 Ebrill 2021 a heb eu mabwysiadu'n gynnar:

- daeth IFRS 16 Prydlesi i rym ar 1 Ionawr 2019 gan ddisodli IAS 17 Prydlesi. Fodd bynnag, argymhellodd Trysorlys EM fod adrannau o'r llywodraeth yn oedi cyn mabwysiadu'r safon gyfrifyddu hon tan 1 Ebrill 2022 er y caniateir i rai adrannau ei mabwysiadu'n gynnar o dan amgylchiadau cyfyngedig. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi dewis mabwysiadu'r safon hon o 1 Ebrill 2021. Fodd bynnag, mae'r holl brydlesi yn cael eu dal mewn Cyfrifon Adrannol ac nid oes unrhyw effaith ar y Datganiad Ymddiriedolaeth; a
- bydd IFRS 17 Contractau Yswiriant yn weithredol o 1 Ionawr 2023 ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus. Rhagwelir na chaiff y safon adrodd hon unrhyw effaith gyfrifyddu ar Gofrestrfa Tir EM oherwydd ni ddelir unrhyw gontractau yswiriant o'r fath.

### 1.3 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y Datganiad Ymddiriedolaeth o dan y confensiwn cost hanesyddol. Mae paratoi'r cyfrifon yn unol ag IFRS yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddio rhai amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol (gweler nodyn 1.6). Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r rheolwyr arfer eu barn yn y broses o gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu.

### 1.4 Cydnabod refeniw

Mae ffïoedd a thaliadau yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg y symiau a dderbynnir ac yn unol ag IFRS 15. Mae ffïoedd a thaliadau yn deillio o Orchymyn Ffïoedd Cofrestru Tir 2013 (https://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/3174/gwneud). Mae'r rhain wedi eu cynnwys o fewn datganiadau ariannol y flwyddyn ariannol pan gafodd y gwasanaeth ei ddarparu. Cydnabyddir incwm yn glir o unrhyw ad-daliadau ar gyfer trafodion sydd heb eu cwblhau, neu ar drafodion lle mae gwybodaeth wallus yn cael ei rhoi gan gwsmeriaid.

Mae incwm cofrestru teitl a Phridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn cael ei gydnabod pan dderbynnir cais a gwblhawyd. Os nad yw cais wedi ei gwblhau, mae'r swm a dderbynnir yn cael ei drin fel ffi ymlaen llaw, waeth beth fo'r math o gais. Mae pob math o gais yn cael ei gyfrif amdano yn gyson. Mae'r symiau tâl cysylltiedig a dderbynnir am wasanaethau sydd heb eu darparu yn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni yn cael eu cofnodi wedi hynny fel rhwymedigaethau contract a'u datgelu o fewn rhwymedigaethau cyfredol.

Cydnabyddir incwm ar ôl i'r ymrwymiad perfformiad contract o dan IFRS 15 gael ei fodloni, hynny yw ar ôl i'r gofrestr gael ei diweddaru'n llawn ar ôl derbyn cais.

### 1.5 Symiau derbyniadwy

Dangosir symiau derbyniadwy yn glir o amhariadau yn unol â gofynion IFRS 9. Mae symiau derbyniadwy yn cael eu dad-gydnabod pan fydd yr hawliau i dderbyn llifoedd arian o'r asedau wedi dod i ben.

### 1.6 Barnau ac amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol

Mae amcangyfrifon a barnau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Wrth baratoi'r Datganiad Ymddiriedolaeth, mae Cofrestrfa Tir EM yn gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Mae'r maes barn mwyaf arwyddocaol wrth baratoi'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn yn ymwneud â chydnabod refeniw a chyfrifo'r balans refeniw gohiriedig, sy'n gofyn am farn ynghylch canran y gwaith a gwblhawyd ar gyfer ceisiadau sydd heb eu prosesu. Mae manylion pellach am gydnabod refeniw wedi ei chynnwys yn Nodyn 1.4.

### 1.7 Amhariad ar golledion dyled a chredyd

Dangosir symiau derbyniadwy yn glir o amhariadau yn unol â gofynion FReM ac IFRS 9. Mae gwerth teg symiau derbyniadwy yn cael ei bennu trwy wneud amhariad i leihau gwerth sy'n cario symiau derbyniadwy i'r llif amcangyfrifedig o ad-daliadau yn y dyfodol.

Nid yw Cofrestrfa Tir EM yn agored i risg credyd o dan Offerynnau Ariannol IFRS 7.

### 1.8 Incwm derbyniadau ychwanegol y Cronfa Gyfunol Amrywiol

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus, mae gan Drysorlys EM bwerau i gyfarwyddo y gall incwm sydd wedi ei gynnwys mewn Amcangyfrif adrannol ac a gymeradwywyd gan y Senedd gael ei gadw a'i ddefnyddio gan yr adran. Gwneir hyn trwy gymhwyso'r incwm hwn yn erbyn costau penodol (adnodd neu gyfalaf) yn yr Amcangyfrif hwnnw. Pan fydd Cofrestrfa Tir EM yn derbyn incwm y tu allan i'r awdurdod hwnnw, rhaid ildio'r arian parod i'r Gronfa Gyfunol.

## 2. Refeniw ac incwm arall

| | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| **Ffïoedd a thaliadau** | | |
| Cofrestru teitl | 226,042 | 290,082 |
| Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol | 6,269 | 7,019 |
| Pridiannau Tir Lleol | 225 | 126 |
| **Cyfanswm ffïoedd a thaliadau** | **232,536** | **297,227** |
| **Incwm masnachol** | | |
| Incwm o weithgareddau masnachol | 3,857 | 4,502 |
| **Cyfanswm incwm masnachol** | **3,857** | **4,502** |
| **Cyfanswm refeniw ac incwm arall** | **236,393** | **301,729** |

## 3. Symiau derbyniadwy
### 3.1 Symiau derbyniadwy cyfredol

| | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy | 1,373 | 2,881 |
| Dyledion drwg wedi eu dileu | (12) | (7) |
| **Symiau derbyniadwy cyn amhariad** | **1,361** | **2,874** |
| llai amhariadau amcangyfrifedig | – | – |
| **Cyfanswm y symiau derbyniadwy ar 31 Mawrth** | **1,361** | **2,874** |

Mae symiau derbyniadwy yn cynrychioli'r swm sy'n ddyledus gan drethdalwyr a busnesau lle mae anfonebau neu alwadau eraill am daliad wedi eu cyhoeddi ond heb eu talu ar 31 Mawrth 2021. Caiff dyledion eu dileu dim ond pan fydd dyledwr yn cael ei ddiddymu, yn fethdalwr neu yn nwylo'r diddymwr a bernir nad oes modd adennill y ddyled trwy unrhyw fodd pellach.

Mae derbyniadau cais unigol yn cael eu prosesu dim ond pan fydd y ffi berthnasol wedi cael ei chyfrif amdani. Mae'r cyfanswm i'w gasglu yn cael ei ledaenu dros nifer uchel o gwsmeriaid gwahanol gyda ffïoedd gwerth isel cysylltiedig. Yn unol â hynny, mae'r tebygolrwydd o beidio â chasglu ffïoedd a bod yn agored i risg credyd wedi cael ei bennu'n anarwyddocaol o ran risg cyffredinol, gyda'r asesiadau hyn heb eu newid yn sgil effaith y coronafeirws (COVID-19).

### 3.2 Symiau derbyniadwy anghyfredol
Nid yw unrhyw symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

### 3.3 Colledion credyd

| | Nodyn | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|
| Dyledion drwg wedi eu dileu | | (22) | – |
| Newid yng ngwerth amhariadau | | – | – |
| **Cyfanswm** | | **(22)** | **–** |

## 4. Symiau taladwy a refeniw gohiriedig

### 4.1 Symiau taladwy cyfredol

| | 2020/21<br>£'000 | 2019/20<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau taladwy | – | – |
| Difidend i'w dalu yn gysylltiedig â 2019/20 | – | 6,322 |
| Refeniw wedi ei ohirio | 96,998 | 40,567 |
| **Cyfanswm symiau taladwy a refeniw gohiriedig ar 31 Mawrth** | **96,998** | **46,889** |

Symiau taladwy yw'r symiau a sefydlwyd fel rhai sy'n ddyledus ar ddyddiad y fantolen, ond lle gwneir taliad wedi hynny.

Mae refeniw gohiriedig yn cynnwys incwm ar gyfer ffïoedd a dalwyd yn y flwyddyn gyfredol sy'n ymwneud â chyfnodau ariannol yn y dyfodol.

### 4.2 Symiau taladwy anghyfredol

Nid yw unrhyw symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 5. Balans ar y Cyfrif Cronfa Gyfunol

| | Nodyn | 2020/21<br>£'000 | 2019/20<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Balans ar y Gronfa Gyfunol ar 1 Ebrill | | (23,921) | 179,885 |
| Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | SOCNE | 236,359 | (203,806) |
| Llai'r swm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | | (207,566) | – |
| **Balans ar y Cyfrif Cronfa Gyfunol ar 31 Mawrth** | | **4,871** | **(23,921)** |

## 6. Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 Datgeliadau Partïon Cysylltiedig, fel y'i dehonglir gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu ar drafodion partïon cysylltiedig.

Ar 1 Ebrill 2020, newidiodd Cofrestrfa Tir EM i fod yn adran anweinidogol.

Nid yw unrhyw aelodau Bwrdd, neu aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â Chofrestrfa Tir EM yn ystod y flwyddyn.

Mae'r adroddiad Tâl yn darparu gwybodaeth am ddigolledu rheolaeth allweddol.

## 7. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 Digwyddiadau Ar Ôl y Cyfnod Adrodd, mae digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r cyfrifon yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau dilynol i'w hadrodd.

Nid yw'r atodiadau yn destun archwiliad ariannol.

# Atodiad A

## Maint o waith a llwythi gwaith 2020/21 a 2019/20

### Ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl math a dull derbyn

| | 2020/21 | | | 2019/20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd | Ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein | % y ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein | Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd | Ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein | % y ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein |
| Diweddardiadau cofrestr swmpus | 281,575 | – | – | 971,542 | – | – |
| Cyfanswm ceisiadau ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | 31,766,162 | 30,731,661 | 96.74 | 34,676,913 | 32,879,308 | 94.82 |
| **Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion** | **32,047,737** | **30,731,661** | **95.89** | **35,648,455** | **32,879,308** | **92.23** |
| | | | | | | |
| Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | 4,026,204 | 3,714,169 | 92.25 | 4,904,994 | 4,423,494 | 90.18 |
| Cynhyrchion gwasanaethau rhagarweiniol | 19,325,983 | 19,238,451 | 99.55 | 20,703,603 | 20,597,854 | 99.49 |
| Ceisiadau gwasanaethau ymholiadau | 8,413,975 | 7,779,041 | 92.45 | 9,068,316 | 7,857,960 | 86.66 |
| **Cyfanswm** | **31,766,162** | **30,731,661** | **96.74** | **34,676,913** | **32,879,308** | **94.82** |
| | | | | | | |
| **Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus** | | | | | | |
| Cofrestriadau cyntaf | 63,843 | 0 | 0 | 91,093 | – | – |
| Prydlesi gwaredol cyntaf | 140,863 | 134,854 | 95.73 | 195,432 | 185,723 | 95.03 |
| Trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig | 166,722 | 156938 | 94.13 | 214,465 | 200,359 | 93.42 |
| Deliadau â'r cyfan o dir cofrestredig | 3,654,776 | 3,422,377 | 93.64 | 4,404,004 | 4,037,412 | 91.68 |
| **Cyfanswm** | **4,026,204** | **3,714,169** | **92.25** | **4,904,994** | **4,423,494** | **90.18** |
| | | | | | | |
| **Cynhyrchion gwasanaethau rhagarweiniol** | | | | | | |
| Copïau swyddogol[1] | 16,296,002 | 16,226,566 | 99.57 | 17,351,299 | 17,273,140 | 99.55 |
| Chwiliadau swyddogol | 2,346,285 | 2,344,743 | 99.93 | 2,588,407 | 2,585,783 | 99.90 |
| Chwiliadau swyddogol o'r map mynegai[1] | 683,696 | 667,142 | 97.58 | 763,897 | 738,931 | 96.73 |
| **Total** | **19,325,983** | **19,238,451** | **99.55** | **20,703,603** | **20,597,854** | **99.49** |
| | | | | | | |
| **Ceisiadau gwasanaethau ymholiadau** | | | | | | |
| Gweld y gofrestr | 5,417,240 | 5,417,240 | 100 | 5,591,981 | 5,591,981 | 100.00 |
| Gweld cynllun teitl | 1,117,284 | 1,117,284 | 100 | 949,475 | 949,475 | 100.00 |
| Gweld dogfen | 41,008 | 41,008 | 100 | 50,575 | 50,575 | 100.00 |
| Gohebiaeth | 214,430 | 150,944 | 70.39 | 305,755 | 84,446 | 27.62 |
| Ymholiadau ffôn | 571,448 | – | – | 989,047 | – | – |
| Lawrlwythiadau MapSearch | 1,052,565 | 1,052,565 | 100 | 1,181,483 | 1,181,483 | 100.00 |
| **Cyfanswm** | **8,413,975** | **7,779,041** | **92.45** | **9,068,316** | **7,857,960** | **86.65** |

Ar gyfer y testun ategol gweler drosodd.

Mae'r tabl uchod yn amlinellu'r gweithgareddau trafodaethol am y flwyddyn, ynghyd â chymariaethau ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Yn y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd mwy na 35.6 miliwn o geisiadau, gan fodloni gofynion Deddf Cofrestru Tir 2002. Mae'r rhain yn ffurfio craidd ein gweithgareddau a'r refeniw sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys manylion ein cynnydd tuag at ddarparu gwasanaeth electronig, mewn perthynas â'r gwahanol fathau o geisiadau a dderbyniwn. Ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus, cynyddodd cyfran y ceisiadau a dderbyniwyd yn electronig ychydig o 93.77% i 94.82%.

Mae diweddariadau cofrestr swmpus yn grwpiau o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno i Gofrestrfa Tir EM ac sy'n effeithio ar nifer fawr o deitlau cofrestredig, megis banc yn newid y cyfeiriad ar gyfer gohebu ar bob un o'i bridiannau cofrestredig. Mae lefelau derbyn ceisiadau o'r fath yn gyfnewidiol eu natur ac felly cânt eu nodi ar wahân i fathau eraill o geisiadau er mwyn osgoi ystumio'r data.

Nodyn: Gall cais am gopi swyddogol arwain at ddarparu mwy nag un gofrestr a/neu gynllun teitl.

Gall cais am chwiliad o'r map mynegai arwain at ddatgelu mwy nag un rhif teitl. Am y rheswm hwn mae nifer y cofrestri/cynlluniau teitl neu nifer y rhifau teitl a ddatgelir yn cael ei ddefnyddio fel metrig yn hytrach na nifer y ceisiadau eu hunain. Cynhyrchion a enwyd yw'r rhain.

# Atodiad B

## Maint o waith a llwythi gwaith Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol 2020/21 a 2019/20

### Yr Adran Pridiannau Tir

Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972.

Mae'r adran yn cadw cofrestri o Bridiannau Tir, achosion arfaethedig, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi eu cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir. Mae'r adran hefyd yn cynnal y Mynegai Enwau Perchnogion. Gellir chwilio'r mynegai hwn dim ond os oes gennych yr awdurdod priodol ac fe'i defnyddir i bennu a yw unrhyw asedau eiddo yn cael eu dal yn erbyn unigolion neu gwmnïau.

Mae rhai elfennau o gyfrifon cwsmeriaid hefyd yn cael eu rheoli yn yr Adran Pridiannau Tir.

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2020/21 | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2019/20 |
|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 13,284 | 23,637 |
| Dileadau | 2,571 | 5,443 |
| Chwiliadau swyddogol | | |
| – Chwiliadau llawn | 106,853 | 131,601 |
| – Chwiliadau wedi eu cyfyngu i ansolfedd | 1,452,781 | 1,679,703 |
| Copïau swyddfa | 19,630 | 20,421 |
| **Cyfanswm** | **1,595,119** | **1,860,805** |

### Yr Adran Credydau Amaethyddol

Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

| Math o gais | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd | 210 | 504 |
| Dileadau a chywiriadau | 420 | 867 |
| Chwiliadau | 1,243 | 2,112 |
| **Cyfanswm** | **1,873** | **3,483** |

# Atodiad C

## Data hanesyddol cynaliadwyedd

### Data carbon (tunelli)

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 | 2016/17 | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tunelli o CO2 cyfatebol) | | | | | | | |
| Cyfanswm allyriadau gros ar gyfer cwmpasau 1 a 2 | 3,828 | 3,900 | 4,885 | 5,142 | 6,818 | 7,835 | 8,048 |
| Trydan: gwyrdd/adnewyddadwy | 646 | 525 | 1,824 | 1,688 | 1,710 | 1,195 | 2,306 |
| Cyfanswm allyriadau net ar gyfer cwmpasau 1 a 2 (ar ôl dileu'r elfennau adnewyddadwy) | 3,182 | 3,375 | 3,061 | 3,454 | 5,108 | 6,640 | 6,839 |
| Allyriadau gros teithio cwmpas 3 | 30 | 645 | 460 | 528 | 510 | 557 | 608 |
| Cyfanswm gros yr allyriadau a adroddwyd | 3,859 | 4,545 | 5,345 | 7,361 | 7,328 | 8,392 | 8,656 |
| Dangosyddion anariannol (mWh) | | | | | | | |
| Trydan: wedi ei brynu (grid, gwres a phŵer cyfunol, ac anadnewyddadwy) | 2,901 | 8,757 | 11,994 | 12,478 | 12,808 | 12,956 | 12,902 |
| Trydan: adnewyddadwy | 1,326 | 1,896 | – | – | – | – | – |
| Nwy | 6,909 | 6,657 | 6,528 | 6,659 | 5,774 | 7,325 | 6,989 |
| Ffynonellau ynni eraill | | – | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm ynni | 11,137 | 17,310 | 18,522 | 19,137 | 18,582 | 20,281 | 19,891 |
| Dangosyddion ariannol (£'000) | | | | | | | |
| Gwariant ar ynni | 1,779 | 2,102 | 1,943 | 1,788 | 1,485 | 1,641 | 1,684 |
| Gwariant ar wrthbwysiadau achrededig (er enghraifft Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth) | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 24 | 1,222 | 1,305 | 1,193 | 1,231 | 1,222 | 1,142 |

### Gwastraff sy'n codi (tunelli)

| Gwastraff | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 | 2016/17 | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol | | | | | | | |
| Gwastraff peryglus | 0 | – | – | 6 | 3 | 1.6 | – |
| Gwastraff heb fod yn berygluse | | | | | | | |
| Gwastraff tirlenwi | 4 | 20 | 40 | 29 | 13 | 31.9 | 105 |
| Gwastraff wedi ei ailddefnyddio/ailgylchu | 194 | 651 | 966 | 986 | 1,028 | 1,604 | 802 |
| Ynni o wastraff | 101 | 123 | 163 | 26 | 5 | 6.6 | – |
| Cyfanswm y gwastraff sy'n codi | 299 | 794 | 1,169 | 1,047 | 1,049 | 1,644 | 907 |
| Dangosyddion ariannol (£'000) | | | | | | | |
| Gwastraff peryglus | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff heb fod yn beryglus | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff tirlenwi | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff wedi ei ailddefnyddio/ailgylchu | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff a losgwyd | – | – | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm costau gwastraff | 99 | 138 | 75 | 147 | 129 | 212 | 297 |

### Lleihau dŵr (metrau ciwbig)

| Dŵr | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 | 2016/17 | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (metrau ciwbig) | | | | | | | |
| Defnydd | | | | | | | |
| Wedi ei gyflenwi | 18,492 | 41,829 | 41,548 | 41,130 | 34,967 | 36,395 | 38,153 |
| Wedi ei dynnu | – | – | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm defnydd | 18,492 | 41,829 | 41,548 | 41,130 | 34,967 | 36,395 | 38,153 |
| Dangosyddion ariannol (£'000) | | | | | | | |
| Cyfanswm costau cyflenwi | 134 | 201 | 164 | 139 | 152 | 173 | 188 |

# Atodiad Ch

## Cronfa Indemniad

Yn 2020/21, talwyd £5,444,362 ar gyfer 540 o hawliadau, o'i gymharu â £5,295,059 ar gyfer 845 o hawliadau yn 2019/20. Roedd y taliad mwyaf y flwyddyn hon ar gyfer hawliad twyll lle roeddem wedi cofrestru arwystl twyllodrus, a'r taliad oedd £1,346,946. Roedd gwerth taliadau'r flwyddyn hon yn debyg i'r rhai y flwyddyn ddiwethaf er bod y cyfrif taliad yn sylweddol is, oherwydd y pandemig fwy na thebyg.

Uchafswm gwerth cofnodedig yr hawliadau a dalwyd oedd £8,909,591 ond cafodd y rhain eu setlo am £5,444.362 gan arbed £3,465,220. Yn ystod y flwyddyn cafodd 165 o hawliadau eraill wedi eu prisio am £1,380,016 eu setlo am ddim gwerth. O'r rhain roedd pedwar ohonynt ar gyfer twyll ac yn werth £375,000. Y flwyddyn hon derbyniwyd 694 o hawliadau newydd gan roi cyfanswm o £11,808,155, gan gynnwys 22 o hawliadau twyll wedi eu prisio am £5,055,978.

Adenillwyd £93,243 o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £175,588 y flwyddyn ddiwethaf. Gall y ffigurau digolledu amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn, gan adlewyrchu cydadwaith anrhagweladwy o elfennau cyfreithiol a ffeithiol a fydd yn pennu dichonoldeb unrhyw ddigolledu.

| Natur yr hawliad | Nifer yr hawliadau | Colled safonol (£) | Costau (£) | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cynnwys stent anghywir o dir mewn teitl cofrestredig | 87 | 253,986 | 274,092 | 9.7 |
| Gwallau/hepgoriadau o gofnodion cofrestr | 56 | 882,124 | 286,882 | 21.47 |
| Gwallau cynlluniau amrywiol | 2 | 0 | 1,003 | 0.02 |
| Twyll a ffugio | 17 | 2,662,624 | 791,054 | 63.44 |
| Chwiliadau swyddogol (cynlluniau) | 7 | 22,799 | 38,578 | 1.13 |
| Gwallau methdaliad | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chwiliadau swyddogol (cyfreithiol) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Copïau swyddogol | 1 | 0 | 259 | 0 |
| Gwallau mewn chwiliadau o'r map mynegai | 8 | 85,750 | 4,287 | 1.65 |
| Gwallau mewn darnau wedi eu ffeilio | 179 | 135 | 38,809 | 0.72 |
| Colli dogfennau/gwallau gweinyddol | 181 | 24,281 | 43,319 | 1.24 |
| Gwallau Pridiannau Tir | 2 | 34,380 | 0 | 0.63 |
| Cyfanswm | 540 | 3,966,079 | 1,478,283 | 100 |

| | |
|---|---|
| Taliad gros | £5,444,362 |
| Llai'r symiau a adenillwyd o dan hawl ddigolledu statudol Cofrestrfa Tir EM | £93,243 |
| Indemniad net | £5,351,119 |